# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

Dydd Mawrth, 22 Tachwedd 2011
Tuesday, 22 November 2011

**Cynnwys**
**Contents**


3 Cwestiynau i’r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

35 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

41 Datganiad: Cynllun Buddsoddi mewn Seilwaith i Gymru
Statement: Wales Infrastructure Investment Plan

58 Datganiad: Llywodraethu Addysg Bellach
Statement: Further Education Governance

72 Datganiad: Gorchymyn i Ymestyn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd
Statement: Order to Extend the Clwydian Range Area of Outstanding Natural Beauty

84 Cynnig i Gymeradwyo Gorchymyn Llifogydd ac Erydu Arfordirol Atodol (Cymru) 2011
Motion to Approve the Incidental Flooding and Coastal Erosion (Wales) Order 2011

86 Manteision Rhannu Gwybodaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Bersonol
Benefits of Sharing Personal Health and Social Services Information

108 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwasanaethau Cyhoeddus (Menter Gymdeithasol a Gwerth Cymdeithasol)
Legislative Consent Motion on the Public Services (Social Enterprise and Social Value) Bill

110 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time


Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair*

**The Presiding Officer:** Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

**Y Llywydd:** Prynhawn da. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr mewn sesiwn.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

### Parthau Cadwraeth Morol

### Marine Conservation Zones

***1. Rebecca Evans:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am Barthau Cadwraeth Morol. OAQ(4)0245(FM)*

***1. Rebecca Evans:*** *Will the First Minister make a statement on Marine Conservation Zones. OAQ(4)0245(FM)*

**The First Minister (Carwyn Jones):** We are aiming to have a small number of highly protected marine conservation zones in Welsh territorial waters to support the marine ecosystem and enhance resilience.

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Rydym yn anelu at gael nifer fach o barthau cadwraeth morol gwarchodedig yn nyfroedd tiriogaethol Cymru i gefnogi ecosystemau morol a gwella gwydnwch.

**Rebecca Evans:** I warmly welcome the important contribution that the zones will make to the resilience of ecosystems in Welsh seas, but given their expected small size, and the fact that perhaps only three or four will be designated, there is still a big challenge ahead. Will the Government commit to introducing further zones after the initial designation, and how else will the Government support Welsh seas?

**Rebecca Evans:** Croesawaf y cyfraniad pwysig y bydd y parthau'n ei wneud i wydnwch ecosystemau ym moroedd Cymru, ond o ystyried eu maint bach disgwyliedig, a'r ffaith y bydd efallai dim ond tri neu bedwar yn cael eu dynodi, mae dal her fawr o'n blaenau. A fydd y Llywodraeth yn ymrwymo i gyflwyno parthau pellach ar ôl y dynodiad cychwynnol, a sut arall fydd y Llywodraeth yn cefnogi moroedd Cymru?

**The First Minister:** We have consistently said that we will keep under review the need for further marine conservation zones, and I can reaffirm that commitment. However, it is also right to say that we are already making a significant contribution to protecting Welsh seas through our existing extensive range of marine-protected areas, which cover 36 per cent of our seas.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym wedi dweud yn gyson y byddwn yn cadw dan adolygiad yr angen am ragor o barthau cadwraeth morol, a gallaf ailddatgan yr ymrwymiad hwnnw. Fodd bynnag, mae hefyd yn iawn i ddweud ein bod eisoes yn gwneud cyfraniad sylweddol at warchod moroedd Cymru drwy ein hamrywiaeth eang o ardaloedd morol gwarchodedig presennol sy'n cynnwys 36 y cant o'n moroedd.

**Russell George:** Given that there has been no real development on the marine planning concordat since autumn last year, can you advise me if there are any blockages with it being finalised?

**Russell George:** O ystyried na fu unrhyw ddatblygiad gwirioneddol ar y concordat cynllunio morol ers yr hydref y llynedd, a allwch fy nghynghori a oes unrhyw rwystrau iddo'n cael ei gwblhau?

**The First Minister:** Sorry, I did not hear that question.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n ddrwg gennyf, ni chlywais y cwestiwn hwnnw.

**Russell George:** Given that there has been

**Russell George:** O ystyried na fu unrhyw

no real development on the marine planning concordat since last year, can you advise me if there any blockages with it being finalised?

ddatblygiad gwirioneddol ar y concordat cynllunio morol ers y llynedd, a allwch fy nghynghori a oes unrhyw rwystrau iddo'n cael ei gwblhau?

**The First Minister:** The concordat; right. There are no blockages, but clearly, we take the view that when it comes to marine planning, particularly for energy consents, our powers should be extended here in Wales, rather than the present system of being kept.

**Y Prif Weinidog:** Y concordat; iawn. Nid oes rhwystrau, ond wrth gwrs, yr ydym o'r farn pan ddaw at gynllunio morol, yn enwedig ar gyfer cydsyniadau ynni, dylid ehangu ein pwerau yma yng Nghymru, yn hytrach na'r system bresennol yn cael ei chadw.

**Julie James:** With regard to the management of the marine conservation zones, has the Government considered delivering, via statutory instruments, the management of those zones via the Marine and Coastal Access Act 2009, by way of fisheries Orders and nature conservation Orders?

**Julie James:** O ran rheoli parthau cadwraeth morol, a yw'r Llywodraeth wedi ystyried darparu, drwy offerynnau statudol, rheolaeth y parthau hynny drwy Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, drwy gyfrwng Gorchmynion pysgodfeydd a chadwraeth natur?

**The First Minister:** We are looking at the best way of ensuring the management of MCZs, and I suspect that it will take an examination of a number of items of legislation in order to ensure that the management system that is in place is the most effective one.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn edrych ar y ffordd orau o sicrhau rheoli parthau cadwraeth morol, ac yr wyf yn amau y bydd yn archwilio nifer o eitemau o ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau mai'r system rheoli sydd ar waith yw'r un mwyaf effeithiol.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Yn dilyn gohiriad a gyhoeddwyd yn Lloegr gan y Gweinidog Richard Beynon yn ddiweddar, yr wyf yn falch o glywed bod y Prif Weinidog yn bwriadu bwrw ymlaen yng Nghymru. A fyddai'n cytuno bod y parthau cadwraeth morol o bwys nid yn unig o safbwynt cadwraeth pysgodfeydd, sy'n fater o ddiddordeb mawr yng nghyd-destun polisi'r Undeb Ewropeaidd bellach, ond hefyd o safbwynt ein diwydiannau morol, gan gynnwys pwysigrwydd buddsoddiadau pellach mewn ynni gwynt arfordirol?

**Lord Elis-Thomas:** Following the deferral announced recently in England by the Minister Richard Beynon, I am pleased to hear that the First Minister intends to proceed in Wales. Would he agree that the marine conservation zones are important not only in terms of fisheries conservation, which is now a matter of significant interest in the context of European Union policy, but in terms of our marine industries, which includes the importance of making further investment in offshore wind energy generation?

**Y Prif Weinidog:** Mae'n bwysig dros ben bod gyda ni system integredig o ddatblygu a gwarchod moroedd. Mae hynny'n golygu y dylai'r system yng Nghymru fod yr un peth â'r system yn yr Alban.

**The First Minister:** It is extremely important that we have an integrated system as regards the development and conservation of the seas. That means that the system in Wales should be the same as the one in Scotland.

### Hybu Twf Economaidd

### Encourage Economic Growth

***2. Julie Morgan:*** *Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i hybu twf economaidd yn Ne Cymru. OAQ(4)0242(FM)*

***2. Julie Morgan:*** *What plans does the First Minister have to encourage economic growth in South Wales. OAQ(4)0242(FM)*

**The First Minister:** Our plans are set out in the programme for government.

**Y Prif Weinidog:** Nodir ein cynlluniau yn y rhaglen lywodraethu.

**Julie Morgan:** In order to foster a vibrant city region, and with the prospect of electrification of the commuter rail services in and out of Cardiff getting closer, would you agree to negotiate with the business department in Westminster to a redefining of the labour market boundaries, removing the distinction between Cardiff and the Vale, and the Glamorgan Valleys, so that we have a city region on the same lines as greater Manchester and greater Glasgow?

**Julie Morgan:** Er mwyn meithrin dinas-ranbarth bywiog, a gyda'r posibilrwydd o drydaneiddio gwasanaethau rheilffyrdd cymudo i mewn ac allan o Gaerdydd yn dod yn agosach, a gytunwch i negodi gyda'r adran fusnes yn San Steffan i ailddiffinio ffiniau'r farchnad lafur, sy'n cael gwared ar y gwahaniaeth rhwng Caerdydd, y Fro a Chymoedd Morgannwg, fel bod gennym ddinas-ranbarth ar hyd yr un llinellau â Manceinion fwyaf a Glasgow fwyaf?

**The First Minister:** That is an interesting suggestion. You will be aware of course that there is a task and finish group, which will inform our future approach to this, and that group is due to report back to the Minister in the early part of next year.

**Y Prif Weinidog:** Mae hynny'n awgrym diddorol. Byddwch yn ymwybodol wrth gwrs bod grŵp gorchwyl a gorffen, a fydd yn llywio ein hymagwedd tuag at hyn yn y dyfodol, ac mae'r grŵp hwnnw i fod i gyflwyno adroddiad i'r Gweinidog yn gynnar yn y flwyddyn nesaf.

**Mohammad Asghar:** The Institute of Directors Wales expressed concern last year that non-economic growth Welsh Government departments have little understanding of the impact that their activities have on the competitiveness of the Welsh economy. Given that this competitiveness is central to economic growth, what steps have you taken to ensure that your administration fully understands the cross-portfolio nature of this important issue?

**Mohammad Asghar:** Mynegodd Sefydliad y Cyfarwyddwyr Cymru bryder y llynedd bod fawr o ddealltwriaeth gan adrannau Llywodraeth Cymru nad ydynt yn ymwneud â thwf economaidd o'r effaith y mae eu gweithgareddau'n ei chael ar gystadleurwydd economi Cymru. O ystyried bod y cystadleurwydd hwn yn ganolog i dwf economaidd, pa gamau a gymerwyd gennych chi i sicrhau bod eich gweinyddiaeth yn deall natur traws-bortffolio y mater pwysig hwn yn llawn?

**The First Minister:** We understand the need for competitiveness, which is why we are ensuring that we are investing in people's skills, particularly through the Welsh jobs fund. However, we will not support moves that will undermine the rights of workers, such as the reduction of the national minimum wage, or the removal of the right to compensation for unfair dismissal, unlike your party.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn deall yr angen am gystadleurwydd, a dyna pam yr ydym yn sicrhau ein bod yn buddsoddi yn sgiliau pobl, yn enwedig drwy gronfa swyddi Cymru. Fodd bynnag, ni fyddwn yn cefnogi camau a fydd yn tanseilio hawliau gweithwyr, megis gostwng yr isafswm cyflog cenedlaethol, neu gael gwared ar yr hawl i gael iawndal am ddiswyddo annheg, yn wahanol i'ch plaid chi.

**Leanne Wood:** First Minister, you have been at pains during the budget negotiations to say that there is no extra money available for the economic stimulus that we in Plaid Cymru have been calling for. Much needed investment for economic development for south Wales, and other parts of Wales, could be provided if the money that Wales returns

**Leanne Wood:** Brif Weinidog, rydych wedi mynd i drafferth fawr yn ystod trafodaethau ar y gyllideb i ddweud nad oes unrhyw arian ychwanegol ar gael ar gyfer yr ysgogiad economaidd yr ydym ni ym Mhlaid Cymru wedi bod yn galw amdano. Gellid darparu buddsoddiad angenrheidiol ar gyfer datblygu economaidd ar gyfer de Cymru, a rhannau

to the Treasury every year, as part of the housing revenue account subsidy, were to remain here. The money is not insignificant—it is estimated to be between £75 million and £80 million each year. Do you share the view of Plaid Cymru that we are being treated unfairly, and, if so, what representations have you made to your counterparts in Westminster for the scheme to be scrapped in Wales, as is happening in England?

eraill o Gymru, pe bai'r arian sy'n cael ei roi yn ôl i'r Trysorlys gan Gymru bob blwyddyn, fel rhan o gymhorthdal y cyfrif refeniw tai, yn aros yma. Nid yw'r arian yn ddibwys—amcangyfrifir ei fod rhwng £75 miliwn ac £80 miliwn bob blwyddyn. A ydych yn rhannu barn Plaid Cymru ein bod yn cael ein trin yn annheg, ac, os felly, pa sylwadau ydych chi wedi'u cyflwyno i'ch cymheiriaid yn San Steffan ar gyfer dileu'r cynllun yng Nghymru, fel sy'n digwydd yn Lloegr?

**The First Minister:** It is not fair, and that was the view taken by your Minister for housing in the One Wales Government. We supported her in her efforts to ensure that the money remained in Wales. This Government's view remains the same as that of the previous Government.

**Y Prif Weinidog:** Nid yw'n deg, a dyna oedd y farn a gymerwyd gan eich Gweinidog tai yn Llywodraeth Cymru'n Un. Gwnaethom ei chefnogi hi yn ei hymdrechion i sicrhau bod yr arian yn aros yng Nghymru. Mae barn y Llywodraeth hon yn parhau i fod yn gyson ag un y Llywodraeth flaenorol.

**Peter Black:** First Minister, now that you have ended the Prince of Wales innovation scholarship and have failed to put an enterprise zone in Swansea, based around the university, as has been requested, there is little in place that will turn the work that is going on in the higher education sector into jobs and future investment in that area. What plans do you have to put right that problem?

**Peter Black:** Brif Weinidog, gan eich bod wedi dod ag ysgoloriaethau arloesi Tywysog Cymru i ben ac wedi methu â rhoi parth menter yn Abertawe, yn seiliedig ar y brifysgol, fel y gofynnwyd, ychydig sydd ar waith i droi'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn y sector addysg uwch i mewn i swyddi a buddsoddiad yn y dyfodol yn y maes hwnnw. Pa gynlluniau sydd gennych i unioni'r broblem honno?

**The First Minister:** As we have said on many occasions, we are actively considering new enterprise zones and where they might be placed, bearing in mind that it is important that we do not have too many, otherwise their effect will be diminished. The Minister is still examining where the new enterprise zones might be placed, if that is appropriate.

**Y Prif Weinidog:** Fel yr ydym wedi ei ddweud ar sawl achlysur, yr ydym wrthi'n ystyried parthau menter newydd a lle y gellid eu lleoli, gan gofio ei bod yn bwysig na chawn ormod ohonynt, neu bydd eu heffaith yn cael ei lleihau. Mae'r Gweinidog yn dal i archwilio lle y gellid gosod y parthau menter newydd, os yw hynny'n briodol.

**Julie James:** First Minister, I am sure that you would agree with me that you and your Government take your commitment to using all the levers at your disposal to encourage economic growth very seriously. Would you also agree with me that when those levers are held by the Westminster Government, it should also seek to encourage economic growth in Wales, by investing in rail electrification all the way to Swansea?

**Julie James:** Brif Weinidog, yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno â mi eich bod chi a'ch Llywodraeth yn cymryd eich ymrwymiad i ddefnyddio'r holl drosolion sydd ar gael i chi i annog twf economaidd yn ddifrifol iawn. A fyddech hefyd yn cytuno â mi, pan ddelir y trosolion hynny gan Lywodraeth San Steffan, y dylai hefyd geisio annog twf economaidd yng Nghymru, drwy fuddsoddi mewn trydaneiddio rheilffyrdd yr holl ffordd i Abertawe?

**The First Minister:** It is crucial that we should see the UK Government playing its part. It cannot be right that somehow all the

**Y Prif Weinidog:** Mae'n hanfodol ein bod yn gweld Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gwneud ei rhan. Ni all fod yn iawn fod holl

economic difficulties of the UK are the responsibility of the eurozone. The German economy is doing far better than the UK economy, and it is at the heart of the eurozone. The UK Government needs to rethink its macro-economic policy to create real growth and real jobs in the UK.

anawsterau economaidd y Deyrnas Unedig rywsut yn gyfrifoldeb i ardal yr ewro. Mae economi’r Almaen yn gwneud yn llawer gwell nag economi’r Deyrnas Unedig, ac y mae wrth wraidd ardal yr ewro. Mae angen i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ailystyried ei pholisi macro-economaidd i greu twf gwirioneddol a swyddi go iawn yn y Deyrnas Unedig.

**Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau**
**Questions Without Notice from the Party Leaders**

**The Leader of Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones):** In his final budget, Alistair Darling predicted that growth for 2011 would be 3.5 per cent, and that, next year, it would be 3 per cent. Last week, Mervyn King said that we would be lucky to get growth of 1 per cent this year and 1 per cent next year. It is clear that the economy is in something of a crisis. In Wales, unemployment is at a record high of 9.3 per cent—as high as it was in the teeth of the recession. There are also more young people out of work: one in four 16 to 24-year-olds. First Minister, have you made representations to the Chancellor of the Exchequer as to what he should do in his autumn statement next week? If so, will you tell the Assembly what you have done?

**Arweinydd Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones):** Yn ei gyllideb derfynol, gwnaeth Alistair Darling ddarogan y byddai twf ar gyfer 2011 yn 3.5 y cant a, dros y flwyddyn nesaf, byddai’n 3 y cant. Yr wythnos diwethaf, dywedodd Mervyn King y byddem yn lwcus i gael twf o 1 y cant eleni ac 1 y cant y flwyddyn nesaf. Mae’n amlwg bod yr economi mewn rhywfaint o argyfwng. Yng Nghymru, mae lefel diweithdra yn uwch nag erioed ar 9.3 y cant—mor uchel ag yr oedd yn wyneb y dirwasgiad. Ceir mwy o bobl ifanc ddi-waith hefyd: un i bob pedwar person 16 i 24 mlwydd oed. Brif Weinidog, a ydych wedi gwneud sylwadau i Ganghellor y Trysorlys ynghylch beth y dylai ei wneud yn natganiad yr hydref yr wythnos nesaf? Os felly, a wnewch chi ddweud wrth y Cynulliad beth yr ydych wedi ei wneud?

**The First Minister:** We have regular meetings with Government Ministers, but we also take responsibility ourselves. One of the arguments put forward in the Chamber is that somehow the Welsh Government is sitting back and doing nothing. Last week, there was an announcement of £55 million that will help businesses. We will see a capital announcement of £90 million this week and a further announcement regarding the sum of nearly £39 million that has come to us as a result of the council tax freeze, building on the budget that we have for jobs and growth.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda Gweinidogion y Llywodraeth, ond rydym hefyd yn cymryd cyfrifoldeb ein hunain. Un o’r dadleuon a gyflwynwyd yn y Siambr yw bod Llywodraeth Cymru rywsut yn eistedd yn ôl a gwneud dim. Yr wythnos diwethaf, cafwyd cyhoeddiad o £55 miliwn a fydd yn helpu busnesau. Byddwn yn gweld cyhoeddiad cyfalaf o £90 miliwn yr wythnos hon a chyhoeddiad pellach ynghylch y swm o bron £39 miliwn sydd wedi dod atom o ganlyniad i rewi’r dreth gyngor, gan adeiladu ar y gyllideb sydd gennym ar gyfer swyddi a thwf.

**Ieuan Wyn Jones:** The point is not that you have not been critical of the Westminster Government; it is that you have not put a credible plan in place. That is the reason that I have been questioning you. I fully understand why you want to criticise the

**Ieuan Wyn Jones:** Y pwynt yw, nid eich bod heb fod yn feirniadol o Lywodraeth San Steffan; nid ydych wedi rhoi cynllun credadwy ar waith. Dyna’r rheswm pam yr wyf wedi bod yn eich holi chi. Deallaf yn llwyr pam eich bod am feirniadu

Westminster Government, but it is also incumbent on you to tell us if the Westminster Government were to do something in its autumn statement, how that would help Wales.

Llywodraeth San Steffan, ond mae hefyd yn ddyletswydd arnoch i ddweud wrthym os byddai Llywodraeth San Steffan yn gwneud rhywbeth yn ei datganiad yr hydref, sut y byddai'n helpu Cymru.

Let me tell you what John Swinney, the Scottish Minister for finance, did: at the weekend, he called on the Chancellor to borrow an extra £20 billion for capital investment. Scotland's share would be £2 billion, and Wales's share would be £1 billion. The UK Chancellor is looking for a fund of £50 billion, ensuring that he has public and private finance, which is very similar to the build for Wales scheme that Plaid Cymru put forward at the Assembly election, which you derided. This is the kind of innovative, bold and radical plan that we should be asking the UK Government to follow in relation to Wales. First Minister, why have you not been doing what the Scottish Government has done, in order to press the Westminster Government for real action to boost jobs in Wales?

Gadewch imi ddweud wrthych beth a wnaeth John Swinney, Gweinidog dros gyllid yr Alban: dros y penwythnos, galwodd ar y Canghellor i fenthyg £20 biliwn yn ychwanegol ar gyfer buddsoddi cyfalaf. Byddai dyraniad yr Alban yn £2 biliwn, a byddai cyfran Cymru yn £1 biliwn. Mae Canghellor y Deyrnas Unedig yn edrych am gronfa o £50 biliwn, gan sicrhau bod ganddo gyllid cyhoeddus a phreifat, sy'n debyg iawn i'r cynllun adeiladu dros Gymru a gyflwynwyd gan Blaid Cymru yn etholiad y Cynulliad, y gwnaethoch chi ei wawdio. Dyma'r math o gynllun arloesol, beiddgar a radical y dylem fod yn gofyn Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'w ddilyn mewn perthynas â Chymru. Brif Weinidog, pam nad ydych chi wedi bod yn gwneud yr hyn a wnaeth Llywodraeth yr Alban, er mwyn pwyso ar Lywodraeth San Steffan am weithredu go iawn i roi hwb i swyddi yng Nghymru?

**The First Minister:** We have; we have been talking to the UK Government about the £50 billion-pot and Welsh projects that might benefit from it. The difference is that we do the talking in private, rather than broadcasting it publicly.

**Y Prif Weinidog:** Rydym wedi gwneud hynny; rydym wedi bod yn siarad â Llywodraeth y Deyrnas Unedig am y pot £50 biliwn a'r prosiectau Cymreig a allai elwa ohono. Y gwahaniaeth yw ein bod yn gwneud y siarad yn breifat, yn hytrach na'i ddarlledu'n gyhoeddus.

**Ieuan Wyn Jones:** That is interesting, is it not? The actual letter that you published, and you have told us about, is your latest letter to David Cameron. Is it about the dire state of the economy? Is it about the latest unemployment figures? It is about the potentially lost generation of young people? No; it is about the way in which we elect Members to the Assembly. I put it to you, First Minister, that the only jobs that you worry about are those of the Labour backbenchers over there, which will be lost as a result of the election. What does this say about the priorities of the Labour party in Wales?

**Ieuan Wyn Jones:** Mae hynny'n ddiddorol, onid yw? Y llythyr gwirioneddol a gyhoeddwyd gennych, ac yr ydych wedi sôn wrthym amdano, yw eich llythyr diweddaraf i David Cameron. Ai ynghylch cyflwr enbyd yr economi ydyw? Ai ynghylch y ffigurau diweithdra diweddaraf ydyw? Ai ynghylch y genhedlaeth goll, o bosibl, o bobl ifanc ydyw? Na; mae'n ymwneud â'r ffordd yr ydym yn ethol Aelodau i'r Cynulliad. Awgrymaf i chi, Brif Weinidog, mai'r unig swyddi yr ydych yn pryderu amdanynt yw rhai Aelodau Llafur y meinciau cefn yno, a gânt eu colli o ganlyniad i'r etholiad. Beth y mae hyn yn ei ddweud am flaenoriaethau'r blaid Lafur yng Nghymru?

**The First Minister:** The leader of Plaid Cymru gives the impression that that is the

**Y Prif Weinidog:** Mae arweinydd Plaid Cymru yn rhoi'r argraff mai dyna'r unig

only letter that I have sent to David Cameron. Many letters have gone back and forth. I am surprised at Plaid Cymru's contempt for the views of the people of Wales. They support the Conservatives in trying to change the electoral system here via Westminster. That is what comes of having MPs that are too London centric.

lythyr a anfonais at David Cameron. Mae nifer o lythyrau wedi mynd yn ôl ac ymlaen. Yr wyf yn synnu at ddirmyg Plaid Cymru tuag at farn pobl Cymru. Maent yn cefnogi'r Ceidwadwyr yn ceisio newid y system etholiadol yma drwy San Steffan. Dyna beth a ddaw o gael Aelodau Seneddol sy'n canolbwyntio ar Lundain.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** First Minister, the latest Government statistics show that there are 45 consultant posts in the Welsh national health service that have been vacant for three months or more. Six months earlier, only 11 consultant posts were vacant for the same period. A lack of consultants means cancelled operations and patients being denied the clinical expertise that they need. Why is this situation deteriorating under your leadership?

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Brif Weinidog, mae ystadegau diweddaraf y Llywodraeth yn dangos bod 45 o swyddi meddygon ymgynghorol yng ngwasanaeth iechyd gwladol Cymru sydd wedi bod yn wag am dri mis neu fwy. Chwe mis yn gynharach, dim ond 11 o swyddi meddygon ymgynghorol a oedd yn wag ar gyfer yr un cyfnod. Mae prinder ymgynghorwyr yn golygu canslo llawdriniaethau a chleifion yn cael eu gwrthod yr arbenigedd clinigol y mae arnynt ei angen. Pam mae'r sefyllfa hon yn gwaethygu o dan eich arweinyddiaeth?

**The First Minister:** The reality is that it is difficult to attract consultants further west in Wales, and that has always been the case. It is particularly true now as consultants seek to cluster together in the larger hospitals. As I mentioned before, we are launching a campaign to attract doctors to Wales. It is important that Wales is not seen as a closed shop for graduates from a particular university. The campaign will seek to attract doctors to Wales for medical reasons and for quality-of-life reasons. In that way, we will fill most of those posts.

**Y Prif Weinidog:** Y gwir amdani yw ei bod yn anodd i ddenu ymgynghorwyr ymhellach i'r gorllewin yng Nghymru, ac y mae hynny wastad wedi bod yn wir. Mae'n arbennig o wir yn awr wrth i ymgynghorwyr geisio clystyru gyda'i gilydd yn yr ysbytai mwy. Fel y soniais o'r blaen, rydym yn lansio ymgyrch i ddenu meddygon i Gymru. Mae'n bwysig nad ystyrir Cymru fel siop gaeedig ar gyfer graddedigion o brifysgol benodol. Bydd yr ymgyrch yn ceisio denu meddygon i Gymru am resymau meddygol ac am resymau ansawdd bywyd. Yn y modd hwnnw, byddwn yn llenwi'r rhan fwyaf o'r swyddi hynny.

**Kirsty Williams:** You talk about the famous recruitment plan that you have been discussing and talking about in the Chamber for many months but, yet, for which there are no details. It is not just about consultants, is it, First Minister? Let us look at all vacant doctor posts. The British Medical Association says that there are now 400 vacant doctor posts in Wales. Richard Lewis from the BMA says that waiting times will inevitably increase because of the considerable number of vacancies for doctors at all levels. The number of people waiting more than nine months for treatment, which is the maximum referral treatment time target, has now risen

**Kirsty Williams:** Rydych yn sôn am y cynllun recriwtio enwog yr ydych wedi ei drafod a sôn amdano yn y Siambr am fisoedd lawer ond, eto, nid oes unrhyw fanylion amdano. Nid yw'n ymwneud ag ymgynghorwyr yn unig, Brif Weinidog, nac ydyw? Gadewch inni edrych ar bob swydd meddyg wag. Dywed Cymdeithas Feddygol Prydain bod 400 o swyddi meddygon gwag yng Nghymru yn awr. Dywed Richard Lewis o Gymdeithas Feddygol Prydain y bydd amseroedd aros yn anochel yn cynyddu oherwydd y nifer sylweddol o swyddi gwag ar gyfer meddygon ar bob lefel. Mae nifer y bobl sy'n aros am fwy na naw mis ar gyfer

for the fifth month in a row. I raised this issue with you 18 months ago, and you promised action. You are promising action again now, but, in 12 months' time, how many of the vacant doctor roles will be filled as a result of your plan?

triniaeth, sef y targed amser triniaeth atgyfeirio uchaf, bellach wedi codi am y pumed mis yn olynol. Codais y mater hwn gyda chi 18 mis yn ôl, ac addawsoch y bydd gweithredu. Yr ydych yn addo gweithredu eto yn awr, ond, ymhen 12 mis, faint o swyddi meddyg gwag a gaiff eu llenwi o ganlyniad i'ch cynllun?

**The First Minister:** I first mentioned this two weeks ago in the Chamber, to my memory, and not months ago. Let me tell the leader of the Liberal Democrats something that will help us, which is the need to relax the ridiculous immigration laws that have prevented so many doctors from coming to the UK. One problem that we have, and it is the same with students and many professional people, is that, in an attempt to cut down what is seen as illegal immigration, we now find that there are qualified professionals, who have historically staffed the NHS for the past 40 years, who are unable to come to Wales to fill those posts. Yes, we will do our bit, but it is also true that the UK Government must ensure that qualified professionals are able to come to work in the UK without bowing to a misplaced sense of racism.

**Y Prif Weinidog:** Soniais am hwn am y tro cyntaf bythefnos yn ôl yn y Siambr, os cofiaf yn iawn, ac nid mis yn ôl. Gadewch imi ddweud wrth arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol rywbeth y bydd yn ein helpu, sef bod angen ymlacio'r deddfau mewnfudo hurt hynny sydd wedi atal cymaint o feddygon rhag dod i'r Deyrnas Unedig. Un broblem sydd gennym, ac mae'r un peth yn wir gyda myfyrwyr a llawer o bobl broffesiynol, yw, mewn ymgais i dorri i lawr ar yr hyn a welir fel mewnfudo anghyfreithlon, rydym bellach yn canfod bod gweithwyr proffesiynol, sydd yn hanesyddol wedi staffio'r GIG am y 40 mlynedd diwethaf, sydd yn methu â dod i Gymru i lenwi'r swyddi hynny. Ie, byddwn yn gwneud ein rhan, ond mae hefyd yn wir bod yn rhaid i Lywodraeth y Deyrnas Unedig sicrhau bod gweithwyr proffesiynol cymwys yn gallu dod i weithio yn y Deyrnas Unedig heb blygu i ymdeimlad cyfeiliornus o hiliaeth.

**Kirsty Williams:** There might be a little more conviction in the First Minister's argument if the proposals that he is referring to were not first drawn up by Labour's Liam Byrne when he was in Government. The reality is that there were fewer vacancies 18 months ago, and you promised action then. You described the problem as being historical. The problem is not historical; it is here and now. There are consultant vacancies, doctor vacancies and nurse vacancies.

**Kirsty Williams:** Efallai y byddai ychydig mwy o argyhoeddiad yn nadl y Prif Weinidog pe na fyddai'r cynigion y mae'n cyfeirio atynt wedi'u llunio yn gyntaf gan Liam Byrne y blaid Lafur pan oedd mewn Llywodraeth. Y realiti yw bod llai o swyddi gwag 18 mis yn ôl, ac addawsoch weithredu bryd hynny. Disgrifiwyd gennych y broblem fel un hanesyddol. Nid yw'r broblem yn hanesyddol; mae yma yn awr. Mae yna swyddi gwag ar gyfer ymgynghorwyr, meddygon a nyrsys.

1.45 p.m.

Let me give you one example of what that means if you are a patient in Wales. Last month, the Cwm Taf Local Health Board had to temporarily close the minor injuries unit at Ysbyty Cwm Rhondda because of a lack of staff. Patients are putting up with longer waiting times and reduced patient care, and

Gadewch imi roi un enghraifft ichi o'r hyn y mae hynny'n olygu os ydych yn glaf yng Nghymru. Y mis diwethaf, yr oedd yn rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf gau'r uned mân anafiadau yn Ysbyty Cwm Rhondda dros dro oherwydd prinder staff. Mae cleifion yn dioddef amseroedd aros hirach a llai o ofal

the NHS is shelling out money for expensive locums and temporary cover at huge expense. Do you not agree that this historic problem, as you refer to it, of shortages across the NHS workforce is now reaching crisis point?

claf, ac mae'r GIG yn gwario symiau mawr o arian ar staff locwm drud a dirprwyo dros dro ar draul enfawr. Onid ydych yn cytuno bod y broblem hanesyddol hon, fel yr ydych yn cyfeirio ati, o brinder ar draws gweithlu'r GIG yn awr yn cyrraedd argyfwng?

**The First Minister:** The Lib Dems have been in Government in London for a year and a half, and still it is the fault of the previous Government. You must take responsibility. It is no good saying that a previous Labour Minister said this, that or the other. The reality now is that there is a Conservative-Lib Dem UK Government, which imposed the changes on immigration controls. As a result of that, we find ourselves in a situation where those people who, historically, used to staff the NHS are now not coming to the UK, all because of the need to pander to the *Daily Mail*.

**Y Prif Weinidog:** Bu'r Democratiaid Rhyddfrydol mewn Llywodraeth yn Llundain am flwyddyn a hanner, ac mae'r bai yn dal i fod ar y Llywodraeth flaenorol. Mae'n rhaid ichi gymryd cyfrifoldeb. Waeth i chi heb â dweud bod cyn Weinidog Llafur wedi dweud hyn neu'r llall. Y realiti yn awr yw bod yna Lywodraeth y DU Ceidwadol a Democratiaid Rhyddfrydol, a gyflwynodd y newidiadau ar reolaethau mewnfudo. O ganlyniad i hynny, yr ydym mewn sefyllfa lle nad yw'r bobl hynny a oedd, yn hanesyddol, yn staffio'r GIG yn dod i'r DU mwyach, dim ond oherwydd yr angen i foddhau y *Daily Mail*.

**The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies):** First Minister, it is nearly two years since you became First Minister. In that time, not one accident and emergency department has hit the 95 per cent target for people waiting four hours or less. What are you doing to rectify this situation in Welsh accident and emergency departments?

**Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies):** Brif Weinidog, mae'n bron i ddwy flynedd ers i chi ddod yn Brif Weinidog. Yn y cyfnod hwnnw, nid yw'r un adran damweiniau ac achosion brys wedi cyrraedd y targed o 95 y cant i bobl sy'n aros pedair awr neu lai. Beth ydych chi'n ei wneud i gywiro'r sefyllfa hon mewn adrannau damweiniau ac achosion brys yng Nghymru?

**The First Minister:** I do not recognise that. It is not a fact.

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn cydnabod hynny. Nid yw'n ffaith.

**Andrew R.T. Davies:** It is a fact, First Minister. We can look at other waiting times. Take orthopaedic waiting times, for example: when you became First Minister, there were 11 patients waiting 36 weeks or more for an orthopaedic procedure. That figure today stands at 5,344 patients waiting 36 weeks or more. Do you agree with your Minister for Health and Social Services, who said in the summer that these waiting lists will be all but eliminated by next March?

**Andrew R.T. Davies:** Mae yn ffaith, Brif Weinidog. Gallwn edrych ar amseroedd aros eraill. Cymerwch amseroedd aros orthopedig, er enghraifft: pan ddaethoch yn Brif Weinidog, yr oedd 11 o gleifion yn aros 36 wythnos neu fwy am driniaeth orthopedig. Y ffigur heddiw yw 5,344 o gleifion yn aros 36 wythnos neu fwy. A ydych yn cytuno â'ch Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a ddywedodd yn yr haf y bydd y rhestrau aros hyn bron i gyd yn cael eu dileu erbyn mis Mawrth nesaf?

**The First Minister:** Yes, and I will give you two reasons. First, the reality is that we put money into orthopaedic waiting times back in May. It takes some time for that money to have an effect on the waiting list. However, that is happening now. What he fails to mention, of course, is that orthopaedic

**Y Prif Weinidog:** Ydw, a rhoddaf ddau reswm ichi. Yn gyntaf, y realiti yw ein bod wedi rhoi arian i mewn i amseroedd aros orthopedig yn ôl ym mis Mai. Mae'n cymryd peth amser i'r arian hwnnw gael effaith ar y rhestr aros. Fodd bynnag, mae hynny'n digwydd yn awr. Yr hyn y mae'n methu sôn

waiting lists are on the way down. Yes, they did go up for a time, because there was an enormous spike in demand, but we put the money in to cover the demand. He also fails to mention that, in England, waiting times are rocketing.

amdano, wrth gwrs, yw bod rhestrau aros orthopedig yn dod i lawr. Do, fe wnaethant fynd i fyny am gyfnod, oherwydd yr oedd cynnydd sydyn enfawr yn y galw, ond yr ydym yn rhoi arian i mewn i dalu am y galw. Mae hefyd yn methu sôn bod amseroedd aros yn Lloegr yn saethu i fyny.

**Andrew R.T. Davies:** Time and again, First Minister, you refer back to England in this Chamber—I think that you have referred back to Westminster 74 times since September when responding to oral questions. It would be nice if you took responsibility for what is in your portfolio and in your area of responsibility. Indeed, you have said as much outside the Chamber, when you said on *Sharp End* that what happens in Westminster is of no concern to you as a Government. When are you going to start acting on that and delivering for the patients and medics in the Welsh NHS?

**Andrew RT Davies:** Dro ar ôl tro, Brif Weinidog, yr ydych yn cyfeirio yn ôl at Loegr yn y Siambr hon—credaf eich bod wedi cyfeirio at San Steffan 74 o weithiau ers mis Medi wrth ymateb i gwestiynau llafar. Byddai'n braf pe baech yn cymryd cyfrifoldeb am yr hyn sy'n eich portffolio chi a'ch maes cyfrifoldeb chi. Yn wir, yr ydych fwy neu lai wedi dweud hynny tu allan i'r Siambr, pan ddywedoch ar *Sharp End* nad yw'r hyn sy'n digwydd yn San Steffan o unrhyw bwys ichi fel Llywodraeth. Pryd ydych chi'n mynd i ddechrau gweithredu ar hynny a darparu ar gyfer y cleifion a meddygon yn y GIG yng Nghymru?

**The First Minister:** You ask those members of staff in the NHS in England whether they would prefer to work in England or Wales. I can give you the answer. They would prefer to work in Wales. I take no lessons from the leader of the opposition, when I see the Prime Minister week after week referring to what is happening in Wales. If it is so important for us not to mention England, tell him not to mention Wales. He is your master after all.

**Y Prif Weinidog:** Gofynnwch i'r staff hynny yn y GIG yn Lloegr a fyddai'n well ganddynt weithio yng Nghymru neu Loegr. Gallaf roi'r ateb ichi. Byddai'n well ganddynt weithio yng Nghymru. Nid wyf yn cymryd unrhyw wersi gan arweinydd yr wrthblaid pan welaf Brif Weinidog Prydain wythnos ar ôl wythnos yn cyfeirio at yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru. Os yw mor bwysig i ni beidio â sôn am Loegr, dywedwch wrtho i beidio â sôn am Gymru. Ef yw eich meistr, wedi'r cyfan.

## Gwasanaethau Brys

## Emergency Services

***3. Paul Davies:*** *Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael ynghylch gwasanaethau brys yng Nghymru. OAQ(4)0239(FM)*

***3. Paul Davies:*** *What discussions has the Welsh Government had regarding emergency services in Wales. OAQ(4)0239(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Gweinidogion perthnasol yn trafod gyda swyddogion, ac mae swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd â'r gwasanaethau priodol.

**The First Minister:** The relevant Ministers hold discussions with officials, and they are in regular contact with the appropriate services.

**Paul Davies:** Yr wyf yn ddiolchgar i'r Prif Weinidog am yr ateb hwnnw. Yr wyf wedi derbyn sylwadau ynglŷn â'r defnydd a wneir o unedau cyd-ymatebwyr mewn achosion brys gan y gwasanaethau tân. Pwrpas yr unedau hyn yw cynnig amseroedd ymateb

**Paul Davies:** I am grateful to the First Minister for that response. I have received comments regarding the use made of co-responder units in emergencies by the fire service. The purpose of these units is to provide swifter response times than

cyflymach na cherbydau ambiwlans, fel y bo'n briodol. Fodd bynnag, yr wyf ar ddeall nad yw'r unedau hyn yn cael eu defnyddio'n llawn, ac nad yw rhai galwadau'n cael eu trosglwyddo iddynt o gwbl. Mewn rhai achosion, gallai hynny arwain at ambiwlansys yn cael eu galw o leoliadau pellach i ffwrdd na'r cyd-ymatebwyr. A all y Prif Weinidog edrych ar y sefyllfa i sicrhau bod yr unedau hyn yn cael eu defnyddio yn briodol, gan eu bod yn gwneud gwaith arbennig o dda yn ein cymunedau?

ambulances can provide, where appropriate. However, I understand that these units are not used to their full capacity and that some calls are not transferred to them at all. In some cases, this can lead to ambulances being called from further away than the co-responders. Can the First Minister look at the situation to ensure that these units are used where appropriate, because they do excellent work in our communities?

**Y Prif Weinidog:** Bydd y Llywodraeth yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio ym mhob rhan o Gymru.

**The First Minister:** This Government will work with the Welsh Ambulance Services NHS Trust to ensure that the service is used in every part of Wales.

**David Rees:** I am sure that, like all of us, you will agree that the police are a vital part of our emergency services in Wales. This is why the announcement last week regarding the training of the first tranche of police community support officers is excellent news and will give vital support to communities in Wales. The need for this is reflected in the *South Wales Evening Post* article regarding the way in which anti-social behaviour is disrupting people in Baglan in my constituency. The provision of PCSOs helps to ease some of the burden on front-line police officers caused by the cuts being imposed by the UK Government. Will you give an approximate date on which that first tranche will be in operation?

**David Rees:** Yr wyf yn siŵr y byddwch, fel pob un ohonom, yn cytuno bod yr heddlu yn rhan hanfodol o'n gwasanaethau brys yng Nghymru. Dyma pam bod cyhoeddiad yr wythnos diwethaf am hyfforddi'r gyfran gyntaf o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn newyddion ardderchog, a bydd yn rhoi cefnogaeth hanfodol i gymunedau yng Nghymru. Mae'r angen am hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr erthygl yn y *South Wales Evening Post* am y ffordd mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn tarfu ar bobl ym Maglan yn fy etholaeth. Mae darparu swyddogion o'r fath yn helpu i leddfu rhywfaint ar y baich ar swyddogion rheng flaen yr heddlu a achosir gan y toriadau a orfodir gan Lywodraeth y DU. A wnewch chi roi amcan o'r dyddiad y bydd y gyfran gyntaf yn dechrau ar eu gwaith?

**The First Minister:** Training started in Gwent on 9 November; the Dyfed-Powys recruits are due to start training on 28 November; and full deployment across all forces will begin next April.

**Y Prif Weinidog:** Dechreuodd hyfforddiant yng Ngwent ar 9 Tachwedd; mae recriwtiaid Dyfed-Powys i fod i ddechrau hyfforddi ar 28 Tachwedd; a bydd defnydd llawn ar draws yr holl heddluoedd yn dechrau fis Ebrill nesaf.

**Lindsay Whittle:** First Minister, in view of the continuing failure of the Welsh ambulance service to meet its emergency target, what is your Government's response to the proposal to transfer the ambulance service to the control of the health boards?

**Lindsay Whittle:** Brif Weinidog, o ystyried methiant parhaus gwasanaeth ambiwlans Cymru i gyrraedd ei tharged brys, beth yw ymateb eich Llywodraeth i'r cynnig i drosglwyddo'r gwasanaeth ambiwlans i reolaeth y byrddau iechyd?

**The First Minister:** I have seen no evidence to suggest that that would improve matters. Imposing artificial boundaries on the

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai hynny'n gwella'r sefyllfa. Byddai angen

ambulance service would need to be looked at very carefully in order to ensure that the service did not deteriorate.

edrych yn ofalus ar osod ffiniau artiffisial ar y gwasanaeth ambiwlans, er mwyn sicrhau na fyddai’r gwasanaeth yn dirywio.

**Kenneth Skates:** First Minister, the latest response times for the Welsh ambulance service show that the service was hitting the emergency service eight-minute target in north Wales. The service has also largely met its all-Wales target of 65 per cent since early 2009, apart from during the traditionally busy winter period. What efforts are these services making with staff, the Welsh Government, and the rest of the NHS to improve performance in north Wales this Christmas and to ensure that more ambulances respond to category-A calls within the eight-minute target?

**Kenneth Skates:** Brif Weinidog, dengys yr amseroedd ymateb diweddaraf ar gyfer y gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru yn dangos bod y gwasanaeth yn cyrraedd y targed wyth munud ar gyfer gwasanaeth brys yng ngogledd Cymru. Mae’r gwasanaeth hefyd wedi cyrraedd, i raddau helaeth, ei tharged Cymru gyfan o 65 y cant ers yn gynnar yn 2009, ac eithrio yn y cyfnod yn y gaeaf sy’n draddodiadol brysur. Pa ymdrechion y mae’r gwasanaethau hyn yn wneud gyda staff, Llywodraeth Cymru, a gweddill y GIG i wella perfformiad yng ngogledd Cymru y Nadolig hwn a sicrhau bod mwy o ambiwlansys yn ymateb i alwadau categori A o fewn y targed wyth munud?

**The First Minister:** This shows the good work that is being done and it illustrates the false premise of the question that was asked by the leader of the opposition.

**Y Prif Weinidog:** Mae hyn yn dangos y gwaith da sy’n cael ei wneud ac mae’n dangos sail ffug y cwestiwn a ofynnwyd gan arweinydd yr wrthblaid.

**Cynlluniau Iechyd ar gyfer Tor-Faen**

**Health Plans for Torfaen**

***4. Lynne Neagle:*** *A wnaiff y Prif Weinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau iechyd Llywodraeth Cymru ar gyfer Torfaen dros y Pedwerydd Cynulliad. OAQ(4)0235(FM)*

***4. Lynne Neagle:*** *Will the First Minister provide an update on the Welsh Government’s health plans for Torfaen for the Fourth Assembly. OAQ(4)0235(FM)*

**The First Minister:** Our plans and priorities for Torfaen can be found in our programme for government.

**Y Prif Weinidog:** Mae ein cynlluniau a’n blaenoriaethau ar gyfer Tor-faen yn ein rhaglen lywodraethu.

**Lynne Neagle:** Thank you for that answer. As you may be aware, First Minister, there has been a great deal of concern among my constituents about the proposed closure of the minor injuries unit at County Hospital in Panteg. I recently chaired a packed public meeting, at which local residents expressed a number of concerns about the decision, particularly regarding the question of whether GPs will fill any gaps in the provision in primary care services currently provided at the unit. Local representatives have called for a halt to the closure process, and I was pleased that the Minister agreed to raise this issue with the local health board. In the meantime, will you agree to discuss this

**Lynne Neagle:** Diolch am yr ateb hwnnw. Fel y gwyddoch efallai, Brif Weinidog, bu cryn dipyn o bryder ymhlith fy etholwyr am y bwriad i gau’r uned mân anafiadau yn Ysbyty’r Sir ym Mhanteg. Yn ddiweddar, cadeiriais gyfarfod cyhoeddus gorlawn, lle mynegodd trigolion lleol nifer o bryderon am y penderfyniad, yn enwedig o ran a fydd meddygon teulu yn llenwi unrhyw fylchau yn y gwasanaethau gofal sylfaenol a ddarperir ar hyn o bryd yn yr uned. Mae cynrychiolwyr lleol wedi galw am roi terfyn ar y broses gau, ac yr oeddwn yn falch bod y Gweinidog wedi cytuno i godi’r mater hwn gyda’r bwrdd iechyd lleol. Yn y cyfamser, a wnewch chi gytuno i drafod y mater hwn gyda’r

matter with the Minister for Health and Social Services to help to ensure that these concerns are fully addressed?

Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn helpu i sicrhau bod y pryderon hyn yn cael sylw llawn?

**The First Minister:** Yes. I understand that you have expressed your concerns both to the health board and the Minister for health, and the Minister has agreed to discuss your concerns with the chair and the chief executive of the board.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Yr wyf yn deall eich bod wedi mynegi eich pryderon i'r bwrdd iechyd a'r Gweinidog iechyd, ac mae'r Gweinidog wedi cytuno i drafod eich pryderon â chadeirydd a phrif weithredwr y bwrdd.

**The Presiding Officer:** I call Mohammad Asghar.

**Y Llywydd:** Galwaf ar Mohammad Asghar.

**Mohammad Asghar:** First Minister, you have already answered the question that I was going to ask.

**Mohammad Asghar:** Brif Weinidog, yr ydych eisoes wedi ateb y cwestiwn yr oeddwn am ei ofyn.

**Mesur Diwygio Lles**

**Welfare Reform Bill**

***5. Joyce Watson:*** *Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y Mesur Diwygio Lles. OAQ(4)0247(FM)*

***5. Joyce Watson:*** *What discussions has the Welsh Government had with the UK Government about the Welfare Reform Bill. OAQ(4)0247(FM)*

**The First Minister:** The issues involved are non-devolved, but we have been monitoring this situation closely. The Minister for Education and Skills and officials are now working through a number of Department for Work and Pensions fora to identify the impact of the changes on Wales.

**Y Prif Weinidog:** Nid yw'r materion dan sylw wedi'u datganoli, ond yr ydym wedi bod yn monitro'r sefyllfa hon yn ofalus. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau a swyddogion yn awr yn gweithio trwy nifer o fforymau'r Adran Gwaith a Phensiynau i nodi effaith y newidiadau ar Gymru.

**Joyce Watson:** During the course of those discussions with the Department for Work and Pensions, have plans to devolve the discretionary part of the social fund to Wales been fleshed out? While the Tory-Lib Dem coalition is abandoning its responsibility for the scheme, we have an opportunity in Wales to reform what has always been a safety net for vulnerable people, tying it in with our wider policy agenda.

**Joyce Watson:** Yn ystod y trafodaethau hynny gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, a yw cynlluniau i ddatganoli rhan ddewisol y gronfa gymdeithasol i Gymru wedi cael eu hymhelaethu? Er bod clymblaid y Torïaid-Democratiaid Rhyddfrydol yn tro cefn ar ei chyfrifoldeb am y cynllun, mae gennym gyfle yng Nghymru i ddiwygio'r hyn sydd wastad wedi bod yn rhwyd ddiogelwch i bobl sy'n agored i niwed, i'w chlymu i mewn i'n hagenda polisi ehangach.

**The First Minister:** I can say that a consultation on the options for replacement arrangements in Wales following the devolution of the social fund is currently being developed by officials, and I expect it to be issued shortly.

**Y Prif Weinidog:** Gallaf ddweud bod ymgynghoriad ar yr opsiynau ar gyfer trefniadau newydd yng Nghymru ar ôl datganoli'r gronfa gymdeithasol yn cael ei datblygu ar hyn o bryd gan swyddogion, a disgwyliaf iddo gael ei gyhoeddi'n fuan.

**Janet Finch-Saunders:** First Minister, it is a fact that Wales is now the poorest part of the United Kingdom, yet, in this Chamber, every

**Janet Finch-Saunders:** Brif Weinidog, mae'n ffaith mai Cymru bellach yw rhan dlotaf y Deyrnas Unedig, ac eto, yn y Siambr

week—as my leader has pointed out—you unfoundedly blame the UK Government to cover your own Government's inactivity and failure. You continually fail to accept any responsibility for this. It was your Labour Government that moved billions of pounds around the tax and benefits system in an attempt to address poverty, yet you forced thousands of Welsh families into benefit dependency.

hon, bob wythnos—fel mae fy arweinydd wedi tynnu sylw ato—yr ydych yn beio Llywodraeth y DU yn ddi-sail er mwyn cuddio diffyg gweithredu a methiant eich Llywodraeth eich hunan. Yr ydych yn parhau i fethu derbyn unrhyw gyfrifoldeb am hyn. Eich Llywodraeth Lafur chi a symudodd biliynau o bunnoedd o gwmpas y system treth a budd-daliadau mewn ymgais i fynd i'r afael â thlodi, eto yr ydych wedi gorfodi miloedd o deuluoedd yng Nghymru i ddibynnu ar fudd-daliadau.

**The Presiding Officer:** Order. Are you coming to the question?

**Y Llywydd:** Trefn. A ydych yn dod at y cwestiwn?

**Janet Finch-Saunders:** Yes. First Minister, the UK Government is now brave enough to tackle this issue head on with the Welfare Reform Bill—

**Janet Finch-Saunders:** Ydw. Brif Weinidog, mae Llywodraeth y DU yn awr yn ddigon dewr i fynd i'r afael â'r mater hwn gyda'r Bil Diwygio Lles—

**The Presiding Officer:** Order. Where is your question? Can you please move to a question?

**Y Llywydd:** Trefn. Ble mae eich cwestiwn? A allwch chi symud i gwestiwn, os gwelwch yn dda?

**Janet Finch-Saunders:** It is difficult, when there is—

**Janet Finch-Saunders:** Mae'n anodd pan mae—

**The Presiding Officer:** It is not difficult. Ask the question.

**Y Llywydd:** Nid yw'n anodd. Gofynnwch y cwestiwn.

**Janet Finch-Saunders:** To not support this is irresponsible. First Minister, is it not your duty to support the initiative of the UK Government, for the sake of the Welsh families that you have forced into poverty?

**Janet Finch-Saunders:** Mae'n anghyfrifol i beidio â chefnogi hyn. Brif Weinidog, eich dyletswydd chi yw cefnogi menter Llywodraeth y DU, onid yw, er mwyn lles y teuluoedd Cymru eich bod wedi gorfodi i dlodi?

**The First Minister:** I believe that the term 'parallel universe' has some resonance here. Since the election of the UK Government last year, we have seen record levels of youth unemployment across the UK, unemployment going up across the UK and attacks on employment rights across the UK. We have also seen attacks on benefits across the UK. According to the Secretary of State for Wales, the problems with the economy are all to do with welfare benefits and nothing at all to do with the UK Government. The immoral thing is this: all that the party opposite does is attack people on benefits and low pay, while leaving the fat cat executives untouched. Why? Because those fat cats fund the party. We are the party of people who are

**Y Prif Weinidog:** Credaf fod y term 'bydysawd cyfochrog' yn berthnasol yma. Ers ethol Llywodraeth y DU y llynedd, yr ydym wedi gweld y lefelau uchaf erioed o ddiweithdra ymysg ieuenctid ledled y DU, diweithdra yn mynd i fyny ar draws y DU ac ymosodiadau ar hawliau cyflogaeth ar draws y DU. Yr ydym hefyd wedi gweld ymosodiadau ar fudd-daliadau ar draws y DU. Yn ôl Ysgrifennydd Gwladol Cymru, mae'r problemau gyda'r economi i gyd yn ymwneud â budd-daliadau lles a dim byd o gwbl â Llywodraeth y DU. Y peth anfoesol yw hyn: yr unig beth y mae'r blaid gyferbyn yn ei wneud yw ymosod ar bobl sydd ar fudd-daliadau a chyflogau isel, a gadael pobl busnes farus yn ddi-gyffwrdd. Pam?

struggling and who are on low pay. The party opposite looks after the rich.

Oherwydd bod y bobl busnes barus hynny yn ariannu'r blaid. Ni yw plaid y bobl sy'n cael trafferthion ac sydd ar gyflog isel. Y blaid gyferbyn sy'n edrych ar ôl pobl gyfoethog.

**Alun Ffred Jones:** Ni wn sut yr ymosododd y Llywodraeth Lafur flaenorol ar y *fat cats*, ond mae hwnnw'n fater arall.

**Alun Ffred Jones:** I do not know how the former Labour Government attacked the fat cats, but that is another matter.

Mae'n sicr y bydd y Bil Diwygio Lles yn tanseilio bywydau llawer o bobl yng Nghymru. Ym mha ffordd y mae eich Llywodraeth a'ch Gweinidogion wedi ceisio dylanwadu ar gynnwys y Bil, a'i ddiwygio, er mwyn ceisio gwarchod y bobl fregus hynny?

The Welfare Reform Bill will definitely undermine the lives of many people in Wales. How have your Government and your Ministers tried to influence and amend the Bill in an attempt to safeguard these vulnerable people?

**Y Prif Weinidog:** Fel y soniais eisoes, yr ydym yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ar hyn o bryd er mwyn sicrhau ein bod yn gwybod sut yn union y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar bobl Cymru. Ar ôl cael y wybodaeth honno, byddwn am sicrhau ein bod yn defnyddio pob twlsyn sydd gennym i helpu'r bobl hynny.

**The First Minister:** As I have already said, we are currently working with the DWP to try to ensure that we learn exactly how these changes will affect the people of Wales. When we have that information, we will want to ensure that we use every tool at our disposal to help those people.

**Mark Drakeford:** First Minister, at the same time as the welfare reform proposals are taking £2 billion out of the pockets of the poorest families in Wales, the same Government, through its legal aid proposals, is cutting the help that those families might have had to challenge those decisions or to deal with the debt into which they will be plunged. Will you join organisations up and down Wales in condemning these proposals and the effect that they are going to have on some of the most disadvantaged communities and most needy families in our land?

**Mark Drakeford:** Brif Weinidog, ar yr un pryd ag y mae'r cynigion diwygio lles yn cymryd £2 biliwn o bocedi y teuluoedd tlotaf yng Nghymru, mae'r un Llywodraeth, drwy ei chynigion cymorth cyfreithiol, yn torri'r cymorth y gallai'r teuluoedd hynny fod wedi'i gael er mwyn herio'r penderfyniadau hynny, neu i ddelio â'r ddyled y byddant yn mynd iddi. A wnewch chi ymuno â sefydliadau ar hyd a lled Cymru i gondemnio'r cynigion hyn a'r effaith y byddant yn eu cael ar rai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig a'r teuluoedd mwyaf anghenus yn ein gwlad?

**The First Minister:** I worked in that system for 10 years, and I can say that, if legal aid is not available to people who cannot afford legal representation, justice will be for the rich. It is as simple as that. It is also a false saving, as more and more people will represent themselves in court, which takes a lot longer than having an advocate. Therefore, there will be greater costs for the court system. However, this is typical of the party opposite. All that it wants to do is ensure that the rich have access to justice, and the poor can go to hell.

**Y Prif Weinidog:** Yr oeddwn yn gweithio yn y system honno am 10 mlynedd, a gallaf ddweud, os nad yw cymorth cyfreithiol ar gael i bobl na all fforddio cynrychiolaeth gyfreithiol, bydd cyfiawnder yn rhywbeth i'r cyfoethog. Mae mor syml â hynny. Mae hefyd yn arbediad ffug, gan y bydd mwy a mwy o bobl yn cynrychioli eu hunain yn y llys, sy'n cymryd llawer mwy o amser na chael eiriolwr. Felly, bydd mwy o gostau i'r system llysoedd. Fodd bynnag, mae hyn yn nodweddiadol o'r blaid gyferbyn. Y cyfan mae am wneud yw sicrhau bod y cyfoethog yn cael mynediad at gyfiawnder, a gall y tlawd fynd i'r diawl.

**Gwerthuso Swyddi Awdurdodau Lleol**

***6. Bethan Jenkins:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am broses gwerthuso swyddi awdurdodau lleol. OAQ(4)0237(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Mae gwerthusiadau swyddi awdurdodau lleol yn faterion ar gyfer awdurdodau lleol. Maent yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu dangos ymrwymiad i gyflog cyfartal.

**Bethan Jenkins:** Brif Weinidog, mae'n syfrdanol bod awdurdod lleol eich etholaeth eich hunan, sy'n cael ei redeg gan Lafur, yn cynnig toriadau cyflog hyd at 50 y cant heb amddiffyniad cyflog. Mae'n gwrthod anrhydeddu ôl-daliadau, a allai gostio miliynau i ddinasyddion mewn ffioedd cyfreithwyr. Yn y cyfamser, mae arweinydd y cyngor yn diystyru y broses a'r pryderon hyn fel rhai anochel, ac mae'n methu cymryd cyfrifoldeb gwleidyddol gan ddweud bod swyddogion yn arwain y broses. Mae'r sefyllfa hon yn fy atgoffa o *The Thick of It*. Brif Weinidog, a fyddwch yn sefyll gyda staff gweithgar Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr a galw ar frys ar arweinydd y cyngor i ailgychwyn y broses ac ymgysylltu â'r staff a'r undebau llafur er mwyn iddynt gael y parch na chawsant hyd yn hyn?

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi cyfarfod â chabinet y cyngor ar sawl achlysur i drafod y mater hwn. Mae aelodau'r cabinet yn awyddus i gael setliad sy'n deg. Yr wyf hefyd wedi cyfarfod gyda'r undebau a llawer o aelodau o'r cyhoedd i drafod y mater hwn â hwy. Credaf mai cyfarfod â'r undebau a chabinet y cyngor yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddelio â'r mater hwn, yn hytrach na gwneud datganiadau i'r wasg.

**Suzy Davies:** Brif Weinidog, yn eich cyfarfodydd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr, a ofynnoch ar unrhyw adeg pam fod y cyngor mor hwyr yn cychwyn y broses hon o werthuso swyddi? Mae'n un o'r cynghorau olaf yng Nghymru i wneud hynny, a gwnaeth y rhan fwyaf o'r lleill hynny pan oedd cyllid y cyngor mewn cyflwr llawer gwell. A ydych yn fodlon bod y newidiadau, sy'n debyg o effeithio ar 25 y

**Local Authority Job Evalution**

***6. Bethan Jenkins:** Will the First Minister make a statement on the local authority job evaluation process. OAQ(4)0237(FM)*

**The First Minister:** Yes. Local authority job evaluations are matters for local authorities. They ensure that local authorities are able to demonstrate a commitment to equal pay.

**Bethan Jenkins:** First Minister, it is frankly shocking that, in your own constituency, the Labour-run local authority is proposing pay cuts of up to 50 per cent without pay protection. It is refusing to honour backpay, which could end up costing citizens millions in lawyers' fees. Meanwhile, the council leader dismisses this process and these concerns as inevitable, and fails to take political responsibility by calling it an officer-led process. This situation reminds me of *The Thick of It*. First Minister, will you stand with the hardworking staff of Bridgend County Borough Council and call urgently on the leader of the council to start the process from scratch and to engage with the staff and the trade unions so that they can be given the respect that they have not been given to date?

**The First Minister:** I have met with the council cabinet on many occasions to discuss this issue. Cabinet members are keen to have a settlement that is fair. I have also met with the unions and many members of the public and discussed this issue with them. I believe that meeting with the unions and the council cabinet is the most effective way of dealing with this issue, rather than making pronouncements to the press.

**Suzy Davies:** First Minister, in your meetings with Bridgend County Borough Council, did you at any point ask why the council was so late in starting this job evaluation process? It is one of the last councils in Wales to do so, and most of the others did it when council finances were in much better condition. Are you satisfied that the changes that are likely to affect 25 per cent of the workers at the council are down to

genuine job evaluation, or is there an element of economic expediency in this?

cant o weithwyr y cyngor, o achos gwerthuso swyddi gwirioneddol, neu a oes elfen o hwylustod economaidd yn hyn o beth?

2.00 p.m.

**The First Minister:** The job evaluation scheme, as it stands, would cost more money than the present salary bill, so there is no saving for the council, although it is important, of course, that the settlement is a fair one. That is what people want to see. You criticise the lack of action in the past, but your party ran the council between 2004 and 2008 as part of a rainbow coalition, and did nothing for four years.

**Y Prif Weinidog:** Byddai’r cynllun gwerthuso swyddi, fel y mae, yn costio mwy o arian na’r bil cyflog presennol, felly nid oes unrhyw arbedion i’r cyngor, er ei bod yn bwysig, wrth gwrs, fod y setliad yn un teg. Dyna beth mae pobl am ei weld. Yr ydych yn beirniadu’r diffyg gweithredu yn y gorffennol, ond eich plaid chi redodd y cyngor rhwng 2004 a 2008 fel rhan o glymblaid enfys, ac ni wnaeth ddim am bedair blynedd.

**Keith Davies:** Mae anghysondeb yn ngweithrediad y broses gwerthuso statws sengl yn sir Gâr, yn enwedig mewn ysgolion. Dywed llythyr gan brif weithredwr cyngor y sir fod gan unrhyw un dros 55 oed hawl i dderbyn pensiwn cynnar heb leihad ac y byddai ymddeoliadau’n creu swyddi gwag i staff gynnig am ddyrchafiad. Er hyn, wedi cais gan swyddog mewn un ysgol, ymatebwyd mai’r ysgol oedd yn gyfrifol am y taliad ymddeol. Mewn achos arall, hysbyswyd staff ysgol eglwysig nad oedd y broses yn effeithio arnynt. Gan fod hyn yn effeithio ar bob aelod o staff gweinyddol ysgolion sir Gâr, a yw’r Prif Weinidog yn cytuno bod hyn yn annheg, gan eu bod oll yn cyfrannu i gronfa bensiwn yr awdurdod lleol?

**Keith Davies:** There is inconsistency in the implementation of the single status evaluation process in Carmarthenshire, particularly in schools. A letter from the chief executive of the council states that anyone aged over 55 has the right to receive an early pension without reduction and that retirements would create vacancies for staff to apply for promotion. However, after one application from an official in one school, the response was that the school was responsible for the retirement payment. In another case, the staff of a church school were advised that the process would not affect them. As this affects all the administrative staff in Carmarthenshire schools, does the First Minister agree that this is unfair, as they all contribute to the local authority pension fund?

**Y Prif Weinidog:** Mae athrawon yn rhan o system gyflogaeth a phensiynau Cymru a Lloegr. O ran y mater ei hun, mae’n gymhleth, a’r peth gorau fyddai imi ysgrifennu atoch ag ateb cynhwysfawr.

**The First Minister:** Teachers are part of an England-and-Wales employment and superannuation system. As regards the issue itself, it is complex, and it would be best for me to write to you with a comprehensive reply.

**Vaughan Gething:** In my view, job evaluation is a long-delayed process, and is supposedly about implementing single status, which should have been dealt with several years ago. Really, it is about dealing with systemic gender discrimination in the pay system, which was largely the result of sexist assumptions about what was ‘women’s work’ from the 1960s onwards. Do you share my view that the best way to resolve these hugely

**Vaughan Gething:** Yn fy marn i, mae gwerthuso swyddi yn broses a gafodd ei hoedi rhy hir, ac mae i fod am weithredu statws sengl, a ddylai fod wedi cael sylw flynyddoedd yn ôl. Mewn gwirionedd, mae’n ymwneud â delio â gwahaniaethu ar sail rhyw systemig yn y system gyflogau, a oedd yn bennaf o ganlyniad i dybiaethau rhywiaethol am yr hyn oedd yn ‘waith menywod’ o’r 1960au ymlaen. A ydych yn rhannu fy marn

practically difficult issues and to provide a fair pay system—setting aside the fact that equal pay law is, in my view, dysfunctional and not fit for purpose—is through negotiation with recognised trade unions with the aim of eliminating such discrimination within the pay system?

mai'r ffordd orau i ddatrys y materion hynod anodd hyn yn ymarferol a darparu system bennu cyflogau teg—gan osod o'r neilltu'r ffaith bod cyfraith gyflog gyfartal, yn fy marn i, yn gamweithredol ac yn anaddas at y diben—yw trafod gyda'r undebau llafur cydnabyddedig, gyda'r nod o ddileu gwahaniaethu o'r fath o fewn y system gyflog?

**The First Minister:** The issues that you raise will be for the respective employee relations fora, but I will be putting the matter of an across-Wales approach on the agenda to the workforce partnership council for open discussion across organisations and trade unions.

**Y Prif Weinidog:** Bydd y materion a godwch yn rhai i'r fforymau cysylltiadau gweithwyr priodol, ond byddaf yn rhoi'r mater am ddull ledled Cymru ar agenda cyngor partneriaeth y gweithlu ar gyfer trafodaeth agored ar draws sefydliadau ac undebau llafur.

**Y Diwydiant Amaeth**

**The Agriculture Industry**

***7. Llyr Huws Gruffydd:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y diwydiant amaeth. OAQ(4)0233(FM)*

***7. Llyr Huws Gruffydd***: *Will the First Minister make a statement on the agriculture industry. OAQ(4)0233(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi ymrwymo'n gadarn i ddiogelu dyfodol llewyrchus i amaethyddiaeth yng Nghymru.

**The First Minister:** I am firmly committed to securing a prosperous future for Welsh agriculture.

**Llyr Huws Gruffydd:** Diolch am yr ateb hwnnw. Gyda chwymp Grŵp Cynghori ar Ffermio a Bywyd Gwyllt y Deyrnas Unedig yr wythnos diwethaf, mae'r grŵp ar gyfer Cymru o'r farn y gallai oroesi drwy ddod yn endid annibynnol. Mae gofid serch hynny ynglŷn â'r effaith y bydd mynd i ddwylo'r gweinyddwyr yn ei chael ar ei gytundeb i ddarparu gwasanaethau Cyswllt Ffermio, sy'n bwysig iawn i sicrhau hyfywedd yr endid newydd arfaethedig. Brif Weinidog, a wnewch chi ystyried ar frys pa gefnogaeth y gall Llywodraeth Crymu ei rhoi i sicrhau bod y gwasanaeth pwysig y mae FWAG Cymru yn ei ddarparu yn gallu parhau?

**Llyr Huws Gruffydd:** Thank you for that response. With the demise of the Farming and Wildlife Advisory Group UK last week, FWAG Cymru is of the opinion that it can survive by becoming a separate entity. However, there is concern about the impact that falling into the hands of the administrator will have on its contract to provide Farming Connect services in Wales, which are very important in terms of the viability of the proposed new entity. Will you therefore give urgent consideration to what support the Welsh Government can provide to ensure that this important service provided by FWAG Cymru to Welsh farmers can continue?

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf, ac fe fyddaf yn trafod y mater hwn gyda'r Dirprwy Weinidog i sicrhau dyfodol sydd o les i ffermwyr.

**The First Minister:** I will, and I will be discussing this with the Deputy Minister in order to secure a future that will benefit farmers.

**Antoinette Sandbach:** First Minister, the European regulations on the electronic identification of sheep are widely recognised as an appalling example of unnecessary regulation that adds many pounds to sheep farmers' costs while bringing little economic

**Antoinette Sandbach:** Brif Weinidog, mae cydnabyddiaeth eang bod y rheoliadau Ewropeaidd ar dagiau electronig defaid yn enghraifft ofnadwy o reoleiddio diangen sy'n ychwanegu llawer o bunnoedd i gostau ffermwyr defaid, tra'n dod â fawr o fudd

benefit to the industry or, indeed, improvements in disease control. In the light of this, will you join me in welcoming the UK Government's recent efforts to obtain a derogation from individual sheep recording until 2016? Do you agree that that approach will be welcomed by farmers, who have been experiencing enormous difficulties because of the inaccuracy of this technology?

economaidd i'r diwydiant nag, yn wir, welliannau o ran rheoli clefydau. Felly, a wnewch ymuno â mi i groesawu'r ymdrechion diweddar gan Lywodraeth y DU i gael rhanddirymiad o gofnodi defaid unigol tan 2016? A ydych yn cytuno y bydd y dull hwnnw yn cael ei groesawu gan ffermwyr, sydd wedi bod yn cael anawsterau enfawr oherwydd diffyg cywirdeb y dechnoleg hon?

**The First Minister:** Yes, I do. We have supported successive UK Governments in their efforts to get a derogation, bearing in mind the nature of sheep farming, particularly in Wales, as well as in other parts of the UK. We will continue to do so. It is quite right to point out that the practicalities of sheep EID outweigh the benefits given the state of the present technology.

**Y Prif Weinidog:** Ydw. Yr ydym wedi cefnogi Llywodraethau olynol y DU yn eu hymdrechion i gael rhanddirymiad, o ystyried natur ffermio defaid, yn enwedig yng Nghymru, yn ogystal â rhannau eraill o'r DU. Byddwn yn parhau i wneud hynny. Mae'n hollol iawn nodi bod agweddau ymarferol tagiau electronig defaid yn fwy na'r manteision o ystyried cyflwr y dechnoleg bresennol.

**William Powell:** It is a matter of public record that the party opposite supported sheep EID in the previous Assembly, therefore I find the question a little surprising. However, First Minister, I want to move on to the issue of EID for cattle. I seek your assurances for farmers and hauliers that, should that proposal come forward, there will be a determined effort to reduce the bureaucratic burden on farmers throughout Wales, rather than an additional burden arising from that reform.

**William Powell:** Mae'n wybodaeth gyhoeddus fod y blaid gyferbyn wedi cefnogi tagiau electronig defaid yn y Cynulliad blaenorol, felly mae'r cwestiwn yn fy synnu rhywfaint. Fodd bynnag, Brif Weinidog, yr wyf am symud ymlaen at fater tagiau electronig ar gyfer gwartheg. Yr wyf eisiau i chi roi sicrwydd i ffermwyr a chludwyr y bydd ymdrech benderfynol, os caiff y cynnig hwnnw ei gyflwyno, i leihau'r baich biwrocrataidd ar ffermwyr ledled Cymru, yn hytrach na baich ychwanegol sy'n deillio o'r diwygio hwnnw.

**The First Minister:** I think that I heard your question above the dispute that was taking place between your party and the Conservatives, which I very much welcome. [*Laughter.*] In terms of cattle, the British Cattle Movement Service has been in place for a number of years following the controls imposed after the BSE outbreak. It is a robust system and I see no need for it to change. We saw its value particularly at the time of the foot and mouth disease outbreak in 2001, because it provided us with a robust tracing system for cattle, which, at that time, did not exist for sheep.

**Y Prif Weinidog:** Credaf fy mod wedi clywed eich cwestiwn uwchben yr anghytuno a oedd yn digwydd rhwng eich plaid chi a'r Ceidwadwyr, sy'n rhywbeth rwy'n ei groesawu'n frwd. [*Chwerthin.*] O safbwynt gwartheg, mae Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn yn dilyn y rheolaethau a osodwyd wedi'r achosion BSE. Mae'n system gadarn ac ni welaf unrhyw angen iddi newid. Gwelsom ei gwerth yn enwedig ar adeg clwy'r traed a'r genau yn 2001, achos rhoddodd system gadarn inni ar gyfer olrhain gwartheg, nad oedd, ar y pryd, yn bodoli ar gyfer defaid.

**Russell George:** First Minister, one issue within the sector that concerns me and many others is the changes to European Union regulations concerning the welfare of laying hens, and the potential for producers in other

**Russell George:** Brif Weinidog, un mater o fewn y sector sy'n fy mhryderu i a llawer o bobl eraill yw'r newidiadau i reoliadau'r Undeb Ewropeaidd ar les ieir dodwy, a'r potensial i gynhyrchwyr mewn gwledydd

EU countries to flout the cage ban by continuing to export lower welfare eggs into the UK. What is your Government doing in collaboration with Westminster and Brussels to ensure that Wales and the UK will not be inundated with eggs from lower welfare producers on the continent when the cage ban comes into force on 1 January?

eraill yn yr UE anwybyddu'r gwaharddiad ar gewyll drwy barhau i allforio wyau lles is i'r DU. Beth mae eich Llywodraeth yn ei wneud ar y cyd â San Steffan a Brwsel i sicrhau na fydd Cymru a'r DU yn cael eu boddi gan wyau gan gynhyrchwyr lles is ar y cyfandir pan ddaw'r gwaharddiad cewyll i rym ar 1 Ionawr?

**The First Minister:** We share your concerns. A statement will be made by the Minister tomorrow on this issue.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn rhannu eich pryderon. Bydd y Gweinidog yn gwneud datganiad yfory ar y mater hwn.

**Canol Trefi**

**Town Centres**

***8. Ann Jones***: *Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi canol trefi yn Nyffryn Clwyd. OAQ(4)0243(FM)*

***8. Ann Jones:*** *What is the Welsh Government doing to support town centres in the Vale of Clwyd. OAQ(4)0243(FM)*

**The First Minister:** We work with key partners to deliver regeneration in the northern part of the Vale of Clwyd constituency as part of the north Wales coast regeneration area work. One of those priorities is the regeneration of Rhyl.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i gyflawni adfywio yn rhan ogleddol etholaeth Dyffryn Clwyd fel rhan o waith ardal adfywio arfordir y gogledd. Un o'r blaenoriaethau hynny yw adfywio'r Rhyl.

**Ann Jones:** Work is now going on in the north Wales coast regeneration area to bring down the number of buildings that have been empty and derelict for some time and inhabited by people who may have brought a negative image to Rhyl. First Minister, we need to ensure that the town centre of Rhyl is a vibrant shopping centre. We have managed to keep the Marks and Spencer store open for another 12 months due to a good, strong local campaign, but I need assurances from the Government that the work on the north Wales coastal regeneration area will continue, particularly as the work has already started, so that we can see the benefits from the public money that has been invested in towns such as Rhyl.

**Ann Jones:** Mae gwaith yn bwrw ymlaen yn awr yn ardal adfywio arfordir y gogledd i leihau'r nifer o adeiladau a fu'n wag ac adfeiliedig ers peth amser a phobl a fu'n byw ynddynt a allai fod wedi dod â delwedd negyddol i'r Rhyl. Brif Weinidog, mae angen inni sicrhau bod canol tref y Rhyl yn ganolfan siopa fywiog. Yr ydym wedi llwyddo i gadw'r siop Marks and Spencer ar agor am 12 mis arall o ganlyniad i ymgyrch leol dda, gref, ond mae arnaf angen sicrwydd gan y Llywodraeth y bydd y gwaith ar ardal adfywio arfordirol y gogledd yn parhau, yn enwedig gan fod y gwaith eisoes wedi cael ei gychwyn, fel y gallwn weld y buddion o'r arian cyhoeddus a fuddsoddwyd mewn trefi fel y Rhyl.

**The First Minister:** Absolutely, and I very much applaud the campaign that has been run in Rhyl regarding the Marks and Spencer store. You will be aware of the schemes that have been taken forward in Rhyl of late, such as the Apollo Cinema, and the progress that has been made on the Foryd harbour. For towns to be vibrant, it is crucial that they have vibrant and active town centres.

**Y Prif Weinidog:** Yn hollol, ac yr wyf yn cymeradwyo yn fawr yr ymgyrch sydd wedi cael ei rhedeg yn y Rhyl ynghylch y siop Marks and Spencer. Byddwch yn gwybod am y cynlluniau sydd wedi cael eu dwyn ymlaen yn y Rhyl yn ddiweddar, fel yr Apollo Cinema, a'r cynnydd sydd wedi ei wneud ar harbwr y Foryd. Er mwyn i drefi fod yn fywiog, mae'n hanfodol bod canol y trefi hynny yn fywiog a phrysur.

**Mark Isherwood:** Based on 143 performance indicators in the local government data unit, Denbighshire County Borough Council is the highest performing council in Wales. In a debate in January on high street and town-centre services, I highlighted proposals by Rhyl business group for a town-centre manager to improve the vitality and viability of the town centre. What action should the Welsh Government be taking, or is it taking, to engage with local business representatives such as Rhyl business group to support such initiatives?

**Mark Isherwood:** Yn seiliedig ar 143 o ddangosyddion perfformiad yn yr uned ddata llywodraeth leol, Cyngor Bwrdeistref Sir Ddinbych yw’r cyngor sy'n perfformio orau yng Nghymru. Mewn dadl ym mis Ionawr ar y stryd fawr a gwasanaethau canol tref, tynnais sylw at gynigion gan grŵp busnes y Rhyl am reolwr canol tref i wella bywiogrwydd a hyfywedd canol y dref. Pa gamau ddylai Llywodraeth Cymru eu cymryd, neu y mae’n eu cymryd, i ymgysylltu â chynrychiolwyr busnes lleol fel grŵp busnes y Rhyl i gefnogi mentrau o’r fath?

**The First Minister:** I think that our record on Rhyl speaks for itself. We have seen what has happened with the cinema, Foryd Harbour and the Rhyl Sixth Centre and the work that has been done to improve the town centre. Some £34 million has been invested by the Welsh Government over the years in Rhyl, and that is a significant indication of the commitment that we have given.

**Y Prif Weinidog:** Credaf fod ein record ar y Rhyl yn siarad drosto’i hun. Gwelsom beth sydd wedi digwydd gyda’r sinema, Harbwr y Foryd a chanolfan chweched dosbarth y Rhyl a’r gwaith a wnaed i wella canol y dref. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi tua £34 miliwn dros y blynyddoedd yn y Rhyl, sy’n arwydd sylweddol o’r ymrwymiad yr ydym wedi’i roi.

**Llyr Huws Gruffydd:** Mae darparu rhyddhad ardrethi busnes wedi bod yn ffactor allweddol i nifer o fusnesau yn nhrefi Dyffryn Clwyd i fedru goroesi’r sefyllfa economaidd anodd bresennol. A yw’r Prif Weinidog o’r farn y byddai estyn y rhyddhad y tu hwnt i fis Medi nesaf yn helpu osgoi diswyddiadau a chau busnesau?

**Llyr Huws Gruffydd:** The provision of business rate relief has been a key factor in enabling a number of businesses in the towns of the Vale of Clwyd to survive the current difficult economic situation. Does the First Minister agree that extending relief beyond next September would help to avoid job losses and businesses closing?

**Y Prif Weinidog:** Mae adolygiad yn cael ei gynnal o dan ofal y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, a bydd yr adolygiad hwnnw’n creu adroddiad mewn amser.

**The First Minister:** The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science is undertaking a review, and that review will report in due course.

### Codiadau mewn Costau Byw

### Increases in the Cost of Living

***9. Gwyn R. Price:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i godiadau mewn costau byw. OAQ(4)0244(FM)*

***9. Gwyn R. Price:*** *Will the First Minister make a statement on how the Welsh Government are responding to increases to the cost of living. OAQ(4)0244(FM)*

**The First Minister:** We are working across Government to maximise the support and services that we provide to households and communities to meet the mounting financial pressures.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn gweithio ar draws y Llywodraeth i wneud y mwyaf o’r gefnogaeth a’r gwasanaethau a ddarparwn i gartrefi a chymunedau i gwrdd â’r pwysau ariannol cynyddol.

**Gwyn R. Price:** First Minister, with the approach of winter, many pensioners in

**Gwyn R. Price:** Brif Weinidog, gyda’r gaeaf yn dynesu, bydd llawer o bensiynwyr yng

Wales will face tough choices due to rising fuel costs and the cuts made by the Tory-Lib Dem Government to the winter fuel allowance. The next time that you have a chance to speak to representatives of the Conservative-Liberal Government, will you tell them that they are fooling no-one and the people of Wales know exactly who to blame for the winter fuel cuts?

Nghymru yn wynebu dewisiadau anodd oherwydd costau tanwydd cynyddol a’r toriadau gan y Llywodraeth Dorïaidd-Ryddfrydol i’r lwfans tanwydd gaeaf. Y tro nesaf y bydd gennych gyfle i siarad â chynrychiolwyr o’r Llywodraeth Geidwadol-Ryddfrydol, a wnewch chi ddweud wrthynt eu bod yn twyllo neb ac y bydd pobl Cymru yn gwybod yn union pwy sydd ar fai am y toriadau tanwydd gaeaf?

**The First Minister:** I listened to some of the noises off, Lywydd. To deal with the question, yes, it is awful that people are not getting the help that they should get as fuel costs rise beyond people’s ability to afford fuel. The Liberal Democrats were asking why we were fixated on electoral reform. Who had a referendum in May on electoral reform? Which party was more concerned about electoral reform than dealing with fuel poverty?

**Y Prif Weinidog:** Gwrandewais ar rai o’r synau ychwanegol, Lywydd. I ymdrin â’r cwestiwn, ydy, mae’n ofnadwy nad yw pobl yn cael y cymorth y dylent ei gael wrth i gostau tanwydd godi y tu hwnt i allu pobl i fforddio tanwydd. Yr oedd y Democratiaid Rhyddfrydol yn gofyn pam yr oedd gennym obsesiwn am ddiwygio etholiadol. Pwy gafodd refferendwm ym mis Mai ar ddiwygio etholiadol? Pa blaid oedd yn poeni mwy am ddiwygio etholiadol na delio â thlodi tanwydd?

**The Presiding Officer:** First Minister, I would ignore the noises off. If you could concentrate on the speakers, it would be much more beneficial from your point of view.

**Y Llywydd:** Brif Weinidog, byddwn yn anwybyddu’r synau ychwanegol. Pe gallech ganolbwyntio ar y siaradwyr, byddai’n llawer mwy buddiol o’ch safbwynt chi.

**Nick Ramsay:** First Minister, I agree that the poorest people will be forced to make difficult decisions this winter—not least because of your Government’s refusal to pass on the council tax freeze that is happening in England. You are resolutely refusing to do that in Wales and that will affect some of the poorest people in society. You may like to bandy around expressions such as ‘the poor can go to hell’, but the rest of us want to provide concrete solutions. Will you welcome the decision of Conservative-controlled Monmouthshire County Council to provide a shield against the policies of the Welsh Labour Government that are harming some of the poorest people in society by refusing to help them with their council tax bills this winter?

**Nick Ramsay:** Brif Weinidog, cytunaf y bydd y bobl dlotaf yn cael eu gorfodi i wneud penderfyniadau anodd y gaeaf hwn—ac nid y lleiaf o’r rhesymau am hynny yw gwrthodiad eich Llywodraeth i rewi’r dreth gyngor fel sy’n digwydd yn Lloegr. Yr ydych yn benderfynol o wrthod gwneud hynny yng Nghymru a bydd hynny yn effeithio ar rai o’r bobl dlotaf mewn cymdeithas. Efallai eich bod yn hoff o ddefnyddio ymadroddion fel ‘Gall y tlodion fynd i’r diawl’, ond mae’r gweddill ohonom am ddarparu atebion pendant. A wnewch chi groesawu penderfyniad Cyngor Sir Mynwy a reolir gan y Ceidwadwyr i ochelu rhag polisïau Llywodraeth Lafur Cymru sy’n niweidio rhai o’r bobl dlotaf mewn cymdeithas trwy wrthod eu helpu gyda’u biliau treth cyngor y gaeaf hwn?

**The First Minister:** The council tax reduction that the consequential would have given would have been between £3 and £5 a month. The winter fuel payment has been destroyed by your Government. Benefits are

**Y Prif Weinidog:** Byddai’r gostyngiad treth gyngor y byddai’r arian canlyniadol wedi ei roi wedi bod rhwng £3 a £5 y mis. Mae’r taliad tanwydd gaeaf wedi cael ei ddinistrio gan eich Llywodraeth. Mae budd-daliadau yn

being destroyed by your Government. Disabled people will lose their benefits as a result of decisions taken by the UK Government. There was a big announcement yesterday about £400 million being put into a housing project, but that is after the housing budget was cut by £4 billion. The reality is that the party opposite pays lip service to equality in society, but we all know from its actions that its only concern is for the richest.

cael eu dinistrio gan eich Llywodraeth. Bydd pobl anabl yn colli eu budd-daliadau o ganlyniad i benderfyniadau a wnaeth Llywodraeth y DU. Roedd cyhoeddiad mawr ddoe fod tua £400 miliwn yn cael ei roi i mewn i broject tai, ond mae hynny ar ôl torri £4 biliwn o'r gyllideb dai. Y gwir yw bod y blaid gyferbyn yn esgus bod o blaid cydraddoldeb mewn cymdeithas, ond yr ydym i gyd yn gwybod o'i gweithredoedd nad yw ond yn poeni am y cyfoethocaf.

**Rhodri Glyn Thomas:** Ni fydd gan y bobl dlotaf yn ein cymdeithas, y bobl hynny sy'n mynd i ddioddef fwyaf dros y gaeaf oherwydd y cynnydd mewn prisiau tanwydd, fawr o ddiddordeb yn y dadlau rhwng y Blaid Lafur a'r Blaid Geidwadol ynglŷn â phwy sydd ar fai. Yr hyn a fydd yn eu poeni yw sut y byddant yn sicrhau eu bod yn gallu prynu tanwydd ar gyfer y gaeaf a sut y byddant yn gallu cynhesu eu tai. Mewn ardaloedd gwledig, yn ychwanegol at hynny, mae problemau gyda phrynu tanwydd ar gyfer cerbydau. Mewn ardaloedd gwledig, mae pris tanwydd ar gyfer cerbydau yn aml iawn 5c neu 10c yn ddrutach. Yr wyf wedi sylwi pan fyddaf yn mynd yn ôl o Gaerdydd i sir Gaerfyrddin fod cymaint â 10c o wahaniaeth yn gallu bod rhwng pris tanwydd yng Nghaerdydd ac yn sir Gaerfyrddin. Beth allwch chi ei wneud fel Llywodraeth, ac yr wyf yn derbyn nad oes gennych y gallu i reoli'r sefyllfa hon, i gynorthwyo'r bobl dlotaf yn yr ardaloedd gwledig rhag dioddef yn ormodol dros y gaeaf?

**Rhodri Glyn Thomas:** The poorest people in our society, those who will suffer most over the winter because of the increase in fuel prices, will have little interest in the arguments between the Labour and Conservative Parties over who is to blame. What they will be worried about is how they will ensure that they can buy fuel for the winter and how they can heat their homes. In rural areas, in addition to that, there are problems with buying fuel for vehicles. In rural areas, the price of fuel for vehicles is very often 5p or 10p dearer. I have noticed when returning from Cardiff to Carmarthenshire that there is as much as 10p difference in the price of fuel in Cardiff and in Carmarthenshire. What can you do as a Government, and I accept that you do not have the ability to control this situation, to help the poorest people in rural areas from suffering unduly over the winter?

**Y Prif Weinidog:** Y broblem yw'r lefel o drethi sy'n cael ei rhoi ar danwydd gan Lywodraeth y DU. Mae'n anodd iawn lleihau effaith hynny. Mae'n bwysig bod Llywodraeth y DU yn sylweddoli bod hyn yn effeithio ar gymunedau gwledig ar draws Prydain. Mae'n bwysig ei bod yn ystyried ffyrdd o leihau'r broblem sy'n codi mewn ardaloedd gwledig lle mae pobl yn dibynnu ar gerbydau mewn ffordd nad yw mor wir am ardaloedd trefol.

**The First Minister:** The problem is the level of tax that is placed on fuel by the UK Government. It is very difficult to reduce the impact of that. It is important that the UK Government realises that this affects rural communities throughout Britain. It is important that it should consider ways of reducing the problem that arises in rural areas where people are dependent upon vehicles in a way that is not as true of urban areas.

**Christine Chapman:** First Minister, unfortunately, people not only have to cope with rising living costs, but are also facing personal debt, unemployment, fewer jobs and changes to the benefits system. Do you agree that these pressures are causing untold stress

**Christine Chapman:** Brif Weinidog, yn anffodus, mae'n rhaid i bobl nid yn unig ymdopi â chostau byw cynyddol, ond hefyd wynebu dyledion personol, diweithdra, llai o swyddi a newidiadau i'r system fudd-daliadau. A ydych yn cytuno bod y pwysau

on people in Wales? We know that stress can lead to physical ill health. If so, could you outline what measures the Welsh Government is taking to support people who face this situation daily?

hwn yn achosi straen ofnadwy ar bobl yng Nghymru? Yr ydym yn gwybod y gall straen arwain at salwch corfforol. Os felly, a allech amlinellu pa fesurau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi pobl sy'n wynebu'r sefyllfa hon bob dydd?

**The First Minister:** I will give you an example. Through the Government-funded Better Advice: Better Health initiative, which is delivered through Citizen's Advice Cymru in a range of health settings, more than 67,000 people have been assisted over the last 10 years, resulting in over £38 million in confirmed gains.

**Y Prif Weinidog:** Rhoddaf enghraifft ichi. Drwy fenter Cyngor Da: Iechyd Da, sy'n cael ei ariannu gan y Llywodraeth ac yn cael ei ddarparu gan Gyngor ar Bopeth Cymru mewn amryw o leoliadau iechyd, mae dros 67,000 o bobl wedi cael cymorth yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, gan arwain at dros £38 miliwn mewn enillion wedi eu cadarnhau.

### Ymweliad â Tsieina

### Visit to China

***10. Janet Finch-Saunders***: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei ymweliad diweddar â Tsieina. OAQ(4)0241(FM)*

***10. Janet Finch-Saunders***: *Will the First Minister make a statement on his recent visit to China. OAQ(4)0241(FM).*

**The First Minister:** I made a statement on 3 November.

**Y Prif Weinidog:** Gwneuthum ddatganiad ar 3 Tachwedd.

2.15 p.m.

**Janet Finch-Saunders:** We all know that the Welsh Labour Government needs to do more with emerging powers to encourage investment, stimulate growth and create jobs for Welsh people. As I have said, after 12 years of successive Welsh Labour Governments, Wales is the poorest part of the UK and inward investment is low. First Minister, as a result of your trip to China, the cost of which is to be borne by Welsh taxpayers and residents, how successful do you really think that the visit was? In pounds, or in real terms, how much was the value of the business that you brought back?

**Janet Finch-Saunders:** Yr ydym oll yn gwybod bod angen i Lywodraeth Lafur Cymru wneud mwy gyda'r pwerau sydd ar y gweill i annog buddsoddiad, ysgogi twf a chreu swyddi ar gyfer pobl Cymru. Fel y dywedais, ar ôl 12 mlynedd o Lywodraethau Llafur Cymru olynol, Cymru yw rhan dlotaf y DU ac mae mewnfuddsoddiad yn isel. Brif Weinidog, o ganlyniad i'ch taith i Tsieina, ar draul trethdalwyr a thrigolion Cymru, pa mor llwyddiannus y credwch chi oedd yr ymweliad mewn difrif? Mewn punnoedd, neu mewn termau real, faint oedd gwerth y busnes a ddaethoch yn ôl?

**The First Minister:** I despair that the Conservatives take the view that the best thing for Wales is to hide in a corner and to never go anywhere. On one hand, they are saying, 'Go and sell Wales around the world', but on the other, they are saying. 'You shouldn't go'. The contradiction there is completely inherent. We saw the launch of the Wales-Chongqing further education consortium and of the Wales-China higher education training consortium. We saw the signing of a memorandum of understanding between Swansea University and a quality

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn anobeithio bod y Ceidwadwyr o'r farn mai'r peth gorau i Gymru yw cuddio mewn cornel a pheidio â mynd i unrhyw le. Ar yr un llaw, maent yn dweud, 'Ewch i werthu Cymru o gwmpas y byd', ond ar y llaw arall, maent yn dweud. 'Peidiwch â mynd'. Mae gwrthddweud llwyr yn hynny. Gwelsom lansiad y consortiwm addysg bellach Cymru-Chongqing a chonsortiwm hyfforddiant addysg uwch Cymru-Tsieina. Gwelsom lofnodi'r memorandwm dealltwriaeth rhwng Prifysgol Abertawe a chanolfan rheoli ansawdd

certification control centre to establish a China-Europe Standards Institute in Swansea. I met with the mayor of Beijing and with the mayor of Chongqing. We also took with us businesspeople who met other business contacts in China and were impressed with what they saw. That is what we need to do: sell Wales around the world and not hide in a little corner, thinking that the world will come to us.

ardystio i sefydlu sefydliad safonau Tsieina-Ewrop yn Abertawe. Cyfarfûm â maer Beijing a maer Chongqing. Aethom hefyd â phobl fusnes a wnaeth gwrdd â chysylltiadau busnes eraill yn Tsieina a gwnaed argraff arnynt gan yr hyn a welsant. Dyna beth y mae angen inni ei wneud: gwerthu Cymru ledled y byd ac nid cuddio mewn cornel fach, yn meddwl y daw’r byd atom ni.

**Julie James:** First Minister, I very much welcome your trip to China for business and education purposes, and I very much welcome the establishment of the China-Europe Standards Institute at Swansea University. Do you have any more excellent plans of this sort to bring more of the world to Wales and Wales to the world?

**Julie James:** Brif Weinidog, croesawaf yn fawr iawn eich taith i Tsieina at ddibenion busnes ac addysg, a chroesawaf yn fawr iawn sefydlu’r sefydliad safonau Tsieina-Ewrop ym Mhrifysgol Abertawe. A oes gennych fwy o gynlluniau rhagorol o'r math hwn i ddod â mwy o'r byd i Gymru a Chymru i'r byd?

**The First Minister:** Yes, we are looking at other parts of the world where a trade mission would be beneficial. We have to do this. Other countries will do it, and they will get the investment. If we do nothing, we can expect nothing.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn edrych ar rannau eraill o'r byd lle byddai taith fasnach o fudd. Rhaid inni wneud hyn. Bydd gwledydd eraill yn gwneud, a byddant yn cael y buddsoddiad. Os na wnawn ni ddim, ni allwn ddisgwyl dim byd.

**Eluned Parrott:** First Minister, following your trip to China, you have discussed the idea of establishing a flight link between Chongqing and Cardiff. Will investigating that new link idea now take precedence over the work that has been ongoing over a period of time to secure air routes to more significant trading partners in the middle east and north America, given that trade to the United Arab Emirates, for example, shot up by 150 per cent last year and is three times more valuable in cash terms for exports from Wales?

**Eluned Parrott:** Brif Weinidog, yn dilyn eich taith i Tsieina, rydych wedi trafod y syniad o sefydlu cyswllt hedfan rhwng Caerdydd a Chongqing. A fyddai ymchwilio i’r syniad hwnnw o gyswllt newydd yn awr yn cael blaenoriaeth dros y gwaith sydd wedi digwydd dros gyfnod o amser i sicrhau llwybrau awyr i bartneriaid masnachu mwy arwyddocaol yn y dwyrain canol a gogledd America, o ystyried y gwnaeth masnach i’r Emiradau Arabaidd Unedig, er enghraifft, gynyddu 150 y cant y llynedd ac mae’n dair gwaith yn fwy gwerthfawr mewn termau arian parod ar gyfer allforion o Gymru?

**The First Minister:** I am surprised that China seems an insignificant trading partner. China is an important market for us. It is also the world’s biggest investor, and if we do not go to China and secure some of that investment, we will simply lose out. Yes, we want to see a link to western China, but we also want to see links to the middle east and to other worldwide destinations. It is not one at the expense of any other.

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn synnu bod Tsieina’n ymddangos yn bartner masnachu dibwys. Mae Tsieina’n farchnad bwysig i ni. Y mae hefyd yn fuddsoddwr mwyaf y byd, ac os nad awn i Tsieina a sicrhau rhywfaint o'r buddsoddiad hwnnw, yn syml, byddwn yn colli allan. Ydym, rydym am weld cyswllt i orllewin Tsieina, ond rydym hefyd am weld cysylltiadau i'r dwyrain canol ac i gyrchfannau eraill ledled y byd. Nid mater ydyw o un ar draul y llall.

**Benthyca Arian yn Anghyfreithlon**

**Illegal Money Lending**

***11. Mike Hedges:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â benthyca arian yn anghyfreithlon yng Nghymru. OAQ(4)0240(FM)*

***11. Mike Hedges:*** *Will the First Minister make a statement on Welsh Government initiatives to tackle illegal money lending in Wales. OAQ(4)0240(FM)*

**The First Minister:** We are fully supportive of the vital work that the Wales illegal money lending unit is undertaking to combat illegal money lending.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn gwbl gefnogol o'r gwaith hanfodol y mae uned benthyca arian anghyfreithlon Cymru'n ei wneud i fynd i'r afael â benthyca arian yn anghyfreithlon.

**Mike Hedges:** In my constituency of Swansea East, illegal money lenders are going from door to door giving loans of £50 or £100 and then charging people £200, £300, £400 or even £500, which they end up paying back. Fortunately, we have the active LASA Credit Union Ltd, which gives people a different opportunity to borrow in an easier and cheaper way. Is there anything that the Welsh Government can do to further support credit unions and to try to get rid of the scourge of illegal money lenders?

**Mike Hedges:** Yn fy etholaeth i yn Nwyrain Abertawe, mae benthycwyr arian anghyfreithlon yn mynd o ddrws i ddrws yn rhoi benthyciadau o £50 neu £100 ac yna godi £200, £300, £400 neu hyd yn oed £500 ar bobl, sy'n gorfod talu hynny'n ôl. Yn ffodus, mae LASA Credit Union Ltd yn gweithredu, sy'n rhoi cyfle gwahanol i bobl fenthyca mewn ffordd haws a rhatach. A oes unrhyw beth y gall Lywodraeth Cymru ei wneud i gefnogi undebau credyd ymhellach a cheisio cael gwared ar fenthycwyr arian anghyfreithlon, sydd yn bla?

**The First Minister:** We have supported credit unions well over the past few years to get coverage across the whole of Wales, working in combination with the illegal money lending unit. More than 1,800 people have been helped since the establishment of that unit.

**Y Prif Weinidog:** Rydym wedi rhoi cefnogaeth dda i undebau credyd dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn iddynt gael eu lleoli ar draws Cymru gyfan, yn gweithio ar y cyd â'r uned benthyca arian anghyfreithlon. Mae mwy na 1,800 o bobl wedi cael cymorth ers sefydlu'r uned honno.

**Mohammad Asghar:** First Minister, do you share my concern that, since 2007, there has been a leap in the number of people using loan sharks, from 15,000 to 25,000? With Christmas approaching, there is a fear that people will turn in even greater numbers to doorstep lenders and loan sharks, particularly in our nation's most deprived areas. Will the Welsh Government undertake a seasonal campaign in conjunction with the illegal money lending unit to warn the Welsh public against agreeing to this form of dangerous borrowing to cover additional expenditure at Christmas time?

**Mohammad Asghar:** Brif Weinidog, a ydych yn rhannu fy mhryder y bu cynnydd ers 2007 o 15,000 i 25,000 yn nifer y bobl sy'n defnyddio benthycwyr arian didrwydded? Gyda'r Nadolig ar ddod, mae ofn y bydd pobl yn troi yn hyd yn oed mewn mwy o niferoedd at fenthycwyr carreg drws a benthycwyr arian didrwydded, yn enwedig yn ardaloedd mwyaf difreintiedig ein cenedl. A wnaiff Llywodraeth Cymru gynnal ymgyrch tymhorol ar y cyd â'r uned benthyca arian anghyfreithlon i rybuddio'r cyhoedd yng Nghymru yn erbyn cytuno ar y ffordd hon o fenthyca peryglus i dalu am wariant ychwanegol adeg y Nadolig?

**The First Minister:** We run a campaign the whole year round, as it were, working with the credit unions. People borrow money all year round; it is absolutely essential that they

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn cynnal ymgyrch trwy gydol y flwyddyn, fel petai, gan weithio gyda'r undebau credyd. Mae pobl yn benthyca arian drwy'r flwyddyn; mae'n

do not borrow money from people who charge them extortionate rates of interest, sometimes legally. That is the problem with the companies that we often see advertised on television.

gwbl hanfodol nad ydynt yn benthyca arian gan bobl sy’n codi cyfraddau llog enfawr, weithiau’n gyfreithiol. Dyna'r broblem gyda'r cwmnïau a welwn yn aml yn hysbysebu ar y teledu.

**Jenny Rathbone:** May I draw the First Minister’s attention to the visibility and rise of payday loan companies? They are managing to operate within the law, so they are not loan sharks, but they are offering extortionate rates of lending and seem to make very few checks on people’s identities. Several cases that I have been dealing with have involved identity theft, where people have been accused of taking out loans when, in fact, they have had no dealings with those companies.

**Jenny Rathbone:** A gaf i dynnu sylw’r Prif Weinidog at amlygrwydd a thwf cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog? Maent yn llwyddo i weithredu o fewn y gyfraith, felly nid ydynt yn fenthycwyr arian didrwydded, ond maent yn cynnig cyfraddau benthyca gormodol ac nid yw’n edrych fel pe baent yn cynnal fawr o wiriadau ar hunaniaeth pobl. Rwyf wedi delio â nifer o achosion ynghylch dwyn manylion personol, lle cyhuddwyd pobl o gymryd benthyciadau pan nad ydynt, mewn gwirionedd, wedi ymwneud o gwbl gyda'r cwmnïau hynny.

**The First Minister:** Identity theft is more of a problem than it used to be, given the different ways of electronic payment. However, I understand that the Office of Fair Trading works closely with local authority trading standards departments across Wales to ensure that people are not victims of identity theft or extortionate loans—indeed, I have seen this in Bridgend.

**Y Prif Weinidog:** Mae lladrad hunaniaeth yn fwy o broblem nag yr arferai fod, o ystyried y gwahanol ffyrdd o dalu electronig. Fodd bynnag, yr wyf yn deall bod y Swyddfa Masnachu Teg yn cydweithio'n agos gydag adran safonau masnach awdurdodau lleol ledled Cymru i sicrhau nad yw pobl yn dioddef lladrad hunaniaeth neu fenthyciadau afresymol—yn wir, yr wyf wedi gweld hyn ym Mhen-y-bont.

### Cyfle Cyfartal

### Equality of Opportunity

***12. Mohammad Asghar:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad yn amlinellu sut mae Llywodraeth Cymru yn hybu cyfle cyfartal ledled Cymru. OAQ(4)0246(FM)*

***12. Mohammad Asghar:*** *Will the First Minister make a statement outlining how the Welsh Government promotes equality of opportunity across Wales. OAQ(4)0246(FM)*

**The First Minister:** Our strategic equality plan and anti-poverty action plan will work to deliver a positive difference to the lives of people working and living in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Bydd ein cynllun cydraddoldeb strategol a'n cynllun gweithredu gwrthdlodi yn gweithio i gyflawni gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl sy’n byw a gweithio yng Nghymru.

**Mohammad Asghar:** I have previously raised with you the important issue of altering companion bus pass regulations in Wales so that disabled people requiring help from more than one companion to travel can apply for additional passes. I am grateful to you for getting your officials to look into this, and you confirmed earlier this month that an announcement would be made in due course. Can you be more specific in terms of a time frame for a concrete announcement

**Mohammad Asghar:** Rwyf wedi codi gyda chi o’r blaen y mater pwysig am newid rheoliadau cerdyn bws i gydymaith yng Nghymru, fel bod pobl anabl sydd angen help fwy nag un cydymaith i deithio yn gallu gwneud cais am docynnau ychwanegol. Yr wyf yn ddiolchgar i chi am gael eich swyddogion i ymchwilio i hyn, a gwnaethoch gadarnhau’n gynharach y mis hwn y byddai cyhoeddiad maes o law. A allech fod yn fwy penodol o ran amserlen ar gyfer datganiad

concerning the Welsh Government's intentions in this case?

pendant am fwriadau Llywodraeth Cymru yn hyn o beth?

**The First Minister:** One companion can already apply for a bus pass. The Minister is looking at whether a second could be added, but it depends on the financial settlement that is agreed by the Assembly.

**Y Prif Weinidog:** Gall un cydymaith wneud cais am gerdyn bws yn barod. Mae'r Gweinidog yn ystyried pa una ellid ychwanegu ail, ond mae'n dibynnu ar y setliad ariannol y cytunir arno gan y Cynulliad.

**Mick Antoniw:** You will be aware of the excellent work being done by the Equality and Human Rights Commission in the areas of equality, disability, anti-racism and so on. Do you agree that the 68 per cent cut to the budget of the commission will have a devastating effect on its ability to pursue equality work? Is this not yet another example of the Conservative-Lib Dem agenda paying lip service to equality?

**Mick Antoniw:** Byddwch yn gwybod am y gwaith ardderchog a wneir gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ym meysydd cydraddoldeb, anabledd, gwrth-hiliaeth ac ati. A ydych yn cytuno y bydd y toriad 68 y cant i gyllideb y comisiwn yn cael effaith ddinistriol ar ei allu i gyflawni gwaith cydraddoldeb? Onid yw hwn yn enghraifft arall eto o'r agenda Geidwadol-Democratiaid Rhyddfrydol yn esgus cefnogi cydraddoldeb?

**The First Minister:** I am afraid that it is. If the money is not spent on promoting equality, we cannot expect to see greater equality.

**Y Prif Weinidog:** Mae arnaf ofn ei bod. Os nad yw'r arian yn cael ei wario ar hyrwyddo cydraddoldeb, ni allwn ddisgwyl gweld mwy o gydraddoldeb.

**Lindsay Whittle:** What assurance can you give that, in order to enhance your already good commitment to equal opportunities, this Government will encourage public authorities and the National Assembly itself to apply for the LGBT Excellence Centre Wales rainbow mark?

**Lindsay Whittle:** Pa sicrwydd allwch chi roi, er mwyn gwella'ch ymrwymiad i gyfleoedd cyfartal, sydd eisoes yn dda, y bydd y Llywodraeth hon yn annog awdurdodau cyhoeddus a'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun i geisio am farc enfys Canolfan Ragoriaeth LGBT Cymru?

**The First Minister:** I would certainly encourage local authorities to achieve any mark of excellence, and this is one such mark that they would do well to pursue.

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn sicr yn annog awdurdodau lleol i gyflawni unrhyw nod rhagoriaeth, a dyma un nod o'r fath y byddai'n dda o beth iddynt fynd ar ei ôl.

**Aled Roberts:** Mae adroddiad Barnardo's a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf yn dweud bod cyfleoedd ar gyfer plant a phobl ifanc yn cael eu heffeithio gan fwlio. Cyhoeddwyd y strategaeth 'Parchu Eraill' yn gyntaf yn 2003, ac yr wyf yn meddwl bod canllawiau ychwanegol wedi cael eu cyhoeddi yn ystod y mis diwethaf. A ydych yn fodlon â'r ffordd y mae'r strategaeth wreiddiol yn cael ei gweithredu? Beth mae'r Llywodraeth yn mynd i'w wneud yn ychwanegol i sicrhau nad yw'r sefyllfa hon yn parhau?

**Aled Roberts:** The Barnardo's report published last week stated that opportunities for children and young people are being affected by bullying. The 'Respecting Others' strategy was first published in 2003 and I think that additional guidelines have been published during the last month. Are you happy with the way in which the original strategy is being implemented? What else will the Government do to ensure that this situation does not continue?

**Y Prif Weinidog:** Nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r strategaeth yn gweithio ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yr ydym yn cadw

**The First Minister:** There is no evidence to suggest that the strategy is not working at the moment. However, we keep every strategy

pob strategaeth o dan adolygiad wrth gwrs er mwyn sicrhau ei bod yn effeithiol.

under review as a matter of course to ensure that it is effective.

**Christine Chapman:** We know that the disastrous economic policies of the UK Government are having an unequal impact upon Wales, with young people and women being disproportionately affected. We know that women will be most affected by public sector job cuts, pension reform and welfare changes, and young people by unemployment, all of which seriously curtails any notion of equality of opportunity. What other measures can your Government take to support these groups?

**Christine Chapman:** Gwyddom bod polisïau economaidd trychinebus Llywodraeth y DU yn cael effaith anghyfartal ar Gymru, gyda phobl ifanc a menywod yn dioddef yn anghymesur. Rydym yn gwybod y bydd menywod yn cael eu heffeithio arnynt fwyaf gan doriadau i swyddi yn y sector cyhoeddus, diwygio pensiynau a newidiadau lles, a phobl ifanc gan ddiweithdra, ac mae’r cyfan o’r rhain yn cyfyngu o ddifrif ar unrhyw syniad o gyfle cyfartal. Pa fesurau eraill y gall eich Llywodraeth eu cymryd i gefnogi’r grwpiau hyn?

**The First Minister:** The groups that you have mentioned will be the most vulnerable when it comes to the imposition of cuts from the UK Government. Through the initiatives that we already have in place we will seek to help those who are most vulnerable as a result of the cuts that are being made.

**Y Prif Weinidog:** Y grwpiau yr ydych wedi'u crybwyll fydd y rhai mwyaf agored i niwed o ran y toriadau a gyflwynir gan Lywodraeth y DU. Drwy’r mentrau sydd gennym eisoes ar waith byddwn yn ceisio helpu'r rheini sydd fwyaf agored i niwed o ganlyniad i'r toriadau sy’n cael eu gwneud.

**Gwasanaethau Iechyd Dwyrain De Cymru**

**Health Services in South Wales East**

***13. William Graham:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyflenwi gwasanaethau iechyd yn Nwyrain De Cymru. OAQ(4)0234(FM)*

***13. William Graham:*** *Will the First Minister make a statement on the delivery of health services in South Wales East. OAQ(4)0234(FM)*

**The First Minister:** As with the rest of Wales, the NHS aims to provide health services in South Wales East that are safe, sustainable, effective and of the highest quality.

**Y Prif Weinidog:** Yn yr un modd â gweddill Cymru, mae'r GIG yn anelu at ddarparu gwasanaethau iechyd yn Nwyrain De Cymru sy'n ddiogel, yn gynaliadwy, yn effeithiol ac o'r ansawdd uchaf.

**William Graham:** I thank the First Minister for his answer. Could he give an assurance that, with the potential closure of the minor injuries units at Panteg, Monmouth and Chepstow, the already overburdened services at the Royal Gwent Hospital and Nevill Hall Hospital will not be further stretched beyond capacity?

**William Graham:** Diolch i'r Prif Weinidog am ei ateb. A all roi sicrwydd, oherwydd y posibilrwydd o gau unedau mân anafiadau ym Mhanteg, Trefynwy a Chas-gwent, na fydd y gwasanaethau sydd eisoes o dan ormod o bwysau yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall o dan hyd yn oed mwy o bwysau y tu hwnt i’w capasiti?

**The First Minister:** Clearly, there have been issues with minor injuries units, not just in the Aneurin Bevan Local Health Board area, but elsewhere in Wales. We want to ensure that more practitioners are available in the future, but it is important that the service that is delivered is both safe and sustainable.

**Y Prif Weinidog:** Yn amlwg, cafwyd problemau gydag unedau mân anafiadau, nid yn unig yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan, ond hefyd mewn mannau eraill yng Nghymru. Yr ydym am sicrhau bod mwy o ymarferwyr ar gael yn y dyfodol, ond mae'n bwysig bod y gwasanaeth a ddarperir yn ddiogel ac yn gynaliadwy.

**Economi Cefn Gwlad**

*__14. Simon Thomas:__ Pa gamau y mae'n eu cymryd i hybu economi cefn gwlad Cymru. OAQ(4)0238(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf eisiau cefnogi busnesau, arloesi a menter, buddsoddi mewn seilwaith a sgiliau, ac adfywio ein cymunedau fel eu bod yn wynebu dyfodol disglair.

**Simon Thomas:** Diolchaf i'r Prif Weinidog am yr ateb hwnnw. Cefnogaf y sylwadau a wnaed yn gynharach ynglŷn ag amddiffyn y diwydiant wyau yng Nghymru yn erbyn mewnforio anghyfreithlon o Ewrop. Pa gamau y gellid eu cymryd i hybu'r diwydiant yng Nghymru? Mae wyau'n werth £100 miliwn y flwyddyn i economi cefn gwlad Cymru, ac mae'n hynod o bwysig ein bod yn cefnogi'r diwydiant drwy farchnadoedd bwyd lleol, er enghraifft, a hefyd drwy hybu'r syniad o gyrff cyhoeddus yn caffael wyau o Gymru. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd fel Llywodraeth i sicrhau hynny?

**Y Prif Weinidog:** Fel y dywedais yn gynharach, bydd datganiad ynglŷn â hyn yfory.

**Antoinette Sandbach:** Rural tourism contributes about £3.6 billion to the Welsh economy, and the beauty of our natural landscape is pivotal to that. It is therefore deeply concerning that your Minister has confirmed that no assessment has been made of the impact on the tourist industry of your Government's proposals to develop large-scale wind turbines on Forestry Commission land. Do you not agree that such an assessment needs to be carried out as a matter of urgency, or is your Government's approach simply to wait and see and hope for the best?

**The First Minister:** There is no evidence that there is an effect on tourism. I am not aware of any studies that suggest otherwise.

**Lles Tymor Hir**

*__15. Julie James:__ Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effeithiau toriadau*

**Rural Economy**

*__14. Simon Thomas:__ What steps is the First Minister taking to promote the rural economy in Wales. OAQ(4)0238(FM)*

**The First Minister:** I want to support businesses, innovation and enterprise, investment in infrastructure and skills, and the regeneration of our communities so that they face a prosperous future.

**Simon Thomas:** I thank the First Minister for that answer. I support the comments made earlier regarding the protection of the egg industry in Wales against illegal importation from Europe. What steps can be taken to promote the industry in Wales? Eggs are worth £100 million per annum to the Welsh rural economy, and it is extremely important that we support the industry through local food markets, for example, and also by promoting the procurement of Welsh eggs by public bodies. What steps are you taking as a Government to ensure that?

**The First Minister:** As I said earlier, there will be a statement on this tomorrow.

**Antoinette Sandbach:** Mae twristiaeth wledig yn cyfrannu tua £3.6 biliwn i economi Cymru, ac mae harddwch ein tirwedd naturiol yn ganolog i hynny. Felly, mae'n bryder mawr fod eich Gweinidog wedi cadarnhau nad oes asesiad wedi'i wneud o'r effaith ar y diwydiant twristiaeth yn sgîl cynigion eich Llywodraeth i ddatblygu tyrbinau gwynt ar raddfa fawr ar dir y Comisiwn Coedwigaeth. Onid ydych yn cytuno bod angen gwneud asesiad o'r fath ar frys, neu ai bwriad eich Llywodraeth yw aros a gweld a gobeithio am y gorau?

**Y Prif Weinidog:** Nid oes unrhyw dystiolaeth bod effaith ar dwristiaeth. Ni wn am unrhyw astudiaeth sy'n awgrymu fel arall.

**Wellbeing of People**

*__15. Julie James:__ What assessment has the First Minister made of the effects of the*

*arfaethedig Llywodraeth y DU i gymorth cyfreithiol ar les tymor hir pobl yng Nghymru. OAQ(4)0236(FM)*

*proposed legal aid cuts by the UK Government on the long term wellbeing of people in Wales. OAQ(4)0236(FM)*

**The First Minister:** They are disastrous.

**Y Prif Weinidog:** Maent yn drychinebus.

**Julie James:** I have been shocked by the attitude of the Tories in the Chamber today about council tax and other forms when they have absolutely no idea about the lives of ordinary citizens in Wales. They are prepared to slash this vital lifeline and allow companies to charge over 4,000 per cent legal interest rates at the same time. It is disgraceful. If these cuts go ahead, we will see families destitute on our streets for want of simple and quick legal advice. The leader of the opposition shouting continuously underlines their attitude to the whole issue. First Minister, do you agree that that is a disgrace and will you urge the UK Government to reconsider this disastrous proposal?

**Julie James:** Yr wyf wedi fy synnu gan agwedd y Torïaid yn y Siambr heddiw at y dreth gyngor a threthi eraill pan nad oes ganddynt unrhyw syniad am fywydau dinasyddion cyffredin yng Nghymru. Maent yn barod i dorri'r achubiaeth hanfodol hwn a galluogi cwmnïau i godi cyfraddau llog cyfreithiol o dros 4,000 y cant ar yr un pryd. Mae'n warthus. Os bydd y toriadau hyn yn cael eu cyflwyno, byddwn yn gweld teuluoedd yn ddiymgeledd ar ein strydoedd oherwydd diffyg cyngor cyfreithiol syml a chyflym. Mae gweiddi parhaus arweinydd yr wrthblaid yn tanlinellu eu hagwedd at yr holl fater. Brif Weinidog, a gytunwch fod hynny'n warthus ac a wnewch chi annog Llywodraeth y DU i ailystyried y cynnig trychinebus hwn?

**The First Minister:** It means that only the rich will get access to justice. I have listened to the comments made by the leader of the opposition—off the record and off-camera, as it were—and the best one, I think, was that he said that unfair dismissals create jobs. How on earth he has worked that one out, I do not know. He seems to think that sacking one person and employing another creates jobs. He keeps on putting his foot in his mouth, and that is why he is rapidly becoming the Homer Simpson of Welsh politics. [*Laughter.*]

**Y Prif Weinidog:** Mae'n golygu mai dim ond y cyfoethog fydd yn cael mynediad i gyfiawnder. Gwrandewais ar sylwadau arweinydd yr wrthblaid—ddim ar goedd ac ddim ar gamera, fel petai—a'r un gorau, mi gredaf, oedd pan ddywedodd bod diswyddo annheg yn creu swyddi. Sut ar y ddaear y mae wedi gweithio hynny allan, ni wn. Ymddengys ei fod yn meddwl bod diswyddo un person a chyflogi un arall yn creu swyddi. Mae'n cadw rhoi ei droed ynddi, a dyna pam ei fod yn prysur droi yn Homer Simpson gwleidyddiaeth Cymru. [*Chwerthin*.]

**Andrew R.T. Davies:** Sit down.

**Andrew R.T. Davies:** Eisteddwch i lawr.

**The Presiding Officer:** Order. I do not think that I need any assistance from the leader of the opposition in guiding the First Minister through his questions.

**Y Llywydd:** Trefn. Ni chredaf fod angen unrhyw gymorth gan arweinydd yr wrthblaid arnaf gydag arwain y Prif Weinidog drwy ei gwestiynau.

**Leanne Wood:** If these plans go through, there will be serious ramifications for people in Wales. People will be unfairly dismissed, tenants will be unjustly evicted and, as the National Federation of Women's Institutes warned just a few weeks ago, more women in abusive relationships will end up being killed because of the narrowing of the definition of domestic abuse. First Minister, you failed to answer the point made by the previous

**Leanne Wood:** Os aiff y cynlluniau hyn yn eu blaen, bydd goblygiadau difrifol i bobl yng Nghymru. Bydd pobl yn cael eu diswyddo'n annheg, bydd tenantiaid yn cael eu troi allan yn annheg, ac, fel y rhybuddiodd Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched ychydig wythnosau'n ôl, bydd mwy o fenywod mewn perthynas lle maent yn cael eu cam-drin yn cael eu lladd yn y pen draw oherwydd culhau'r diffiniad o gam-drin

questioner about making representations on this to your counterparts in Westminster. What representations have you made and will you make? What can the Government here do to offer protection to people to ensure that they are not left without legal support at times when they most need it?

domestig. Brif Weinidog, fe wnaethoch fethu ateb y pwynt a wnaed gan yr holwr blaenorol am wneud sylwadau ar hyn i'ch cymheiriaid yn San Steffan. Pa sylwadau ydych wedi'u gwneud ac y byddwch yn eu gwneud? Beth all y Llywodraeth yma ei gwneud i gynnig diogelwch i bobl i sicrhau nad ydynt yn cael eu gadael heb gymorth cyfreithiol ar adegau pan mae arnynt ei angen fwyaf?

**The First Minister:** Strong representations have been made to the UK Government and will continue to be made. It is unacceptable that people face the threat of violence or suffer violence and have no recourse to the law. I practised in this area for many years and the reality is that those advocates who worked in that area will no longer be there, because the money will not be available to pay them. There are many lawyers who give their time for free, through pro bono work, but there is a limit to what they can do. If people want proper representation and if they want to be protected from violence, that costs money. However, as you have said, the reality is that unless you have money, you will no longer get that protection.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaed sylwadau cryf i Lywodraeth y DU, a byddant yn parhau i gael eu gwneud. Mae'n annerbyniol bod pobl yn wynebu bygythiad o drais neu'n dioddef trais ac ddim yn gallu troi at y gyfraith. Bûm yn ymarfer yn y maes hwn am flynyddoedd lawer, a'r realiti yw na fydd yr eiriolwyr hynny a weithiodd yn y maes hwnnw yno mwyach, oherwydd ni fydd arian ar gael i'w talu. Mae nifer o gyfreithwyr yn rhoi o'u hamser am ddim, drwy waith pro bono, ond mae terfyn ar yr hyn y gallant ei wneud. Os bydd pobl am gael cynrychiolaeth briodol ac os ydynt yn dymuno cael eu diogelu rhag trais, mae hynny'n costio arian. Fodd bynnag, fel y dywedasoch, y realiti yw na fyddwch yn cael y diogelwch hwnnw mwyach, oni bai fod gennych arian.

2.30 p.m.

**Joyce Watson:** What do you consider will be the effect for victims of domestic violence? Under the proposals, victims of domestic violence will only qualify for legal aid if they have reported the abuse to the police. We know that women often suffer violence, intimidation and control for months or years before they report it to the police, and women's charities fear that the cuts will condemn more women to suffering in silence. Do you agree, First Minister, that reports from sources like GP assessments, 999 call-outs and social services records should also be admissible and qualify victims for legal aid to help in civil matters, and will you put that case to your counterparts in Westminster?

**Joyce Watson:** Beth yn eich barn chi fydd yr effaith ar ddioddefwyr trais domestig? Yn ôl y cynigion, bydd dioddefwyr trais domestig dim ond yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol os ydynt wedi rhoi gwybod i'r heddlu am y cam-drin. Gwyddom fod menywod yn aml yn dioddef trais, bygwth a rheolaeth am fisoedd neu flynyddoedd cyn iddynt roi gwybod i'r heddlu amdano, ac mae elusennau menywod yn ofni y bydd y toriadau yn condemnio mwy o fenywod i ddioddef yn dawel. A ydych yn cytuno, Brif Weinidog, y dylai adroddiadau o ffynonellau fel asesiadau meddygon teulu, galwadau 999 a chofnodion gwasanaethau cymdeithasol hefyd fod yn dderbyniadwy a chymhwyso dioddefwyr i gael cymorth cyfreithiol i'w helpu mewn materion sifil, ac a wnewch chi gyflwyno'r ddadl honno i'ch cymheiriaid yn San Steffan?

**The First Minister:** Yes, I agree. The reality is, and my experience was always thus, that there are many victims of domestic violence

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn cytuno. Y gwir amdani yw, a dyma fu fy mhrofiad i bob amser, bod llawer o ddioddefwyr trais

who do not report it for some time, living in the hope that the violent partner will somehow reform themselves. It does not happen. They do not report these matters to the police, but that does not mean that the violence is not happening. The reality is that if these changes are taken through, those people who are too afraid to report domestic violence will receive no protection from the law.

domestig nad ydynt yn rhoi gwybod amdano am beth amser, gan fyw yn y gobaith y bydd y partner treisgar rywsut yn diwygio eu hunain. Nid yw'n digwydd. Nid ydynt yn rhoi gwybod i'r heddlu am y materion hyn, ond nid yw hynny'n golygu nad yw'r trais yn digwydd. Y gwir yw, os bwrir rhagddi â'r newidiadau hyn, ni fydd y bobl hynny sy'n rhy ofnus i roi gwybod am drais domestig yn cael eu gwarchod o gwbl gan y gyfraith.

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
## Business Statement and Announcement

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I have two changes to report to this week's business. The statement on the Wales infrastructure investment plan will be followed this afternoon by a statement on further education governance, and, finally, a statement on the Order to extend the Clwydian range area of outstanding natural beauty. The debates on the benefits of sharing personal health and social services information, and on the legislative consent motion on the public services social enterprise and social value Bill, will follow. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Mae gennyf ddau newid i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Bydd y datganiad ar y cynllun buddsoddi mewn seilwaith i Gymru yn cael ei ddilyn y prynhawn yma gan ddatganiad ar lywodraethu addysg bellach, ac, yn olaf, datganiad ar y Gorchymyn i ymestyn ardal harddwch naturiol eithriadol Bryniau Clwyd. Bydd y dadleuon ar fanteision rhannu gwybodaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol personol ac ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil mentrau cymdeithasol gwasanaethau cyhoeddus a gwerth cymdeithasol yn dilyn. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau yn electronig.

**Mark Isherwood:** I call for a statement on the prevention of back pain in children and spinal health education. The reason I call for this is that a Welsh Government document 'Indicators for the Welsh Network of Healthy School Schemes National Quality Awards', published in July 2010, is currently being used as the good practice guide in Wales. However, despite extensive lobbying regarding children's spinal health, the European school furniture standard EN1729, and The Class Moves initiative, there does not appear to be a single reference to the prevention of back pain in children and spinal health education in this document.

**Mark Isherwood:** Galwaf am ddatganiad ar atal poen cefn ymysg plant ac addysg am iechyd y cefn. Galwaf am hyn oherwydd bod dogfen Llywodraeth Cymru 'Dangosyddion ar gyfer Gwobr Ansawdd Genedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach—Rhwydwaith Cymru', a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2010, yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd fel y canllaw arfer da yng Nghymru. Fodd bynnag, er gwaethaf lobïo helaeth ynghylch iechyd y cefn ymysg plant, y safon dodrefn ysgol Ewropeaidd EN1729 a'r fenter Symud y Dosbarth, nid yw'n ymddangos bod unrhyw gyfeiriad at atal poen cefn ymysg plant ac addysg iechyd y cefn yn y ddogfen hon.

I have just referred to the European BS standard, which provides that children should sit on, and at, furniture relevant to their

Yr wyf newydd gyfeirio at y safon BS Ewropeaidd, sy'n dweud y dylai plant eistedd ar, ac wrth, ddodrefn perthnasol i'w taldra

individual height as a prerequisite to avoiding the charge that our schools are helping to create backache in children. The Class Moves initiative, according to a previous Minister for health and social services, in a previous Welsh Government, can be seen as a preventative intervention for back pain, the biggest cause of which is not only due to ignorance by the individual, but institutional ignorance as well. A statement on this matter would be timely, in the context of the current document, and in the hope and expectation that this might be updated to address this important issue.

unigol fel rhagofyniad i osgoi'r cyhuddiad bod ein hysgolion yn helpu i greu poen cefn ymysg plant. Mae'r fenter Symud y Dosbarth, yn ôl Gweinidog blaenorol dros iechyd a gwasanaethau cymdeithasol mewn Llywodraeth Cymru flaenorol, yn gallu cael ei weld fel ymyrraeth ataliol rhag poen cefn, sy'n cael ei achosi yn bennaf nid yn unig gan anwybodaeth yr unigolyn, ond anwybodaeth sefydliadol yn ogystal. Byddai datganiad ar y mater hwn yn amserol, yng nghyd-destun y ddogfen gyfredol, ac yn y gobaith a'r disgwyliad y gallai hi gael ei diweddaru i fynd i'r afael â'r mater pwysig hwn.

**Jane Hutt:** The Member for North Wales raises a very important point, and I know that the Minister is fully committed to the healthy schools agenda and to the network of healthy schools, which are also supported by the Minister for Education and Skills. I will certainly be raising this, in terms of guidance and opportunities, to ensure that we do follow guidelines on spinal health and on the prevention of back pain in children.

**Jane Hutt:** Mae'r Aelod dros Ogledd Cymru yn codi pwynt pwysig iawn, a gwn fod y Gweinidog wedi ymrwymo'n llawn i'r agenda ysgolion iach ac i'r rhwydwaith ysgolion iach, sydd hefyd yn cael eu cefnogi gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Byddaf yn sicr yn codi hyn, o ran canllawiau a chyfleoedd, er mwyn sicrhau ein bod yn dilyn canllawiau ar iechyd y cefn ac ar atal poen cefn ymysg plant.

**Mick Antoniw:** You, as many others, will have had contact with the Women's Institute, and you will have probably seen the recent WI research on the impact of legal aid cuts. There was a particular section, on which I would like your comments, which states that through the proposed reforms, the Government not only ignores the voices of victims of domestic violence, who tell us that access to legal aid is vital to their safety and protection, but fails to understand how such changes to the law will penalise women when they are in most need of help, and as such, is resolutely turning its back on some of the most vulnerable women in society. Minister, what measures can the Welsh Government take to try to alleviate the impact of some of these disastrous cuts that are being imposed from Westminster?

**Mick Antoniw:** Byddwch, fel sawl un arall, wedi bod mewn cysylltiad â Sefydliad y Merched, ac mae'n debyg y byddwch wedi gweld gwaith ymchwil diweddar ganddynt ar effaith y toriadau i gymorth cyfreithiol. Yr oedd adran arbennig, yr hoffwn eich sylwadau arni, yn datgan, drwy'r diwygiadau arfaethedig, fod y Llywodraeth nid yn unig yn anwybyddu lleisiau dioddefwyr trais domestig, sy'n dweud wrthym fod mynediad at gymorth cyfreithiol yn hanfodol i'w diogelu a'u gwarchod, ond yn methu â deall sut y bydd newidiadau o'r fath yn y gyfraith yn cosbi menywod pan fyddant fwyaf angen cymorth, ac felly yn troi ei chefn yn lân ar rai o'r menywod mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Weinidog, pa fesurau all Llywodraeth Cymru eu cymryd i geisio lliniaru effaith rhai o'r toriadau trychinebus hyn mae San Steffan yn eu cyflwyno?

**Jane Hutt:** I thank the Member for Pontypridd for that very important point, which follows on from questions to the First Minister. I assure colleagues across the Chamber that Carl Sargeant, the Minister for Local Government and Communities, has made representations to the Minister in the UK Government on this matter. We provided

**Jane Hutt:** Diolch i'r Aelod dros Bontypridd am y pwynt pwysig iawn hwnnw, sy'n dilyn cwestiynau i'r Prif Weinidog. Yr wyf yn sicrhau cyd-Aelodau ar draws y Siambr bod Carl Sargeant, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, wedi cyflwyno sylwadau i'r Gweinidog yn Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Gwnaethom ddarparu

a consultation response as we were concerned about how the UK Government would ensure continuing access to legal aid to these most vulnerable groups. We recognise, in particular, what the National Federation of Women's Institutes is saying, and, following on from the point made earlier this afternoon, that a victim would have to be assessed to ascertain whether the degree of violence is serious enough for the victim to access legal aid funding. Those of us who have been involved for many decades in campaigning, and working now in Government, to counteract violence against women are shocked and horrified by these proposals, as are many others. I hope that as we come together to recognise the International Day for the Elimination of Violence Against Women, the cross-party group's concern about this matter will be expressed across this Chamber.

ymateb i'r ymgynghoriad am ein bod yn pryderu sut y byddai Llywodraeth y DU yn sicrhau mynediad parhaus at gymorth cyfreithiol i'r grwpiau mwyaf agored i niwed hyn. Yr ydym yn cydnabod, yn benodol, yr hyn y mae Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched yn ei ddweud, ac, yn dilyn y pwynt a wnaethpwyd yn gynharach y prynhawn yma, y byddai'n rhaid i ddioddefwr gael ei asesu i ganfod a oedd y trais yn ddigon difrifol i'r dioddefwr gael mynediad at gyllid cymorth cyfreithiol. Mae'r rhai ohonom a fu ers degawdau lawer yn ymgyrchu, ac yn gweithio bellach yn y Llywodraeth, i atal trais yn erbyn menywod yn synnu ac yn arswydo at y cynigion hyn, fel y mae llawer o rai eraill. Yr wyf yn gobeithio, wrth i ni ddod at ei gilydd i gydnabod y Diwrnod Rhyngwladol ar Ddiddymu Trais yn erbyn Menywod, y mynegir pryder y grŵp trawsbleidiol am y mater hwn ar draws y Siambr hon.

**Simon Thomas:** A oes modd cael datganiad—un ysgrifenedig os oes rhaid—gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ynglŷn â chynlluniau Cyngor Sir Powys i ailwampio addysg ôl-14 yn y sir? Mae cynlluniau'n cael eu trafod gan gabinet Cyngor Sir Powys heddiw. Mae rhai agweddau positif ar y cynlluniau hyn, ond mae un peth yn sicr, sef na chafwyd ymgynghoriad llawn yn lleol gyda'r rhieni, yr athrawon a'r ysgolion dan sylw. Yn ogystal, mae symud sylweddol yn y ddarpariaeth Gymraeg o ysgolion megis Ysgol Uwchradd Llanfyllin. Mae'n hynod bwysig bod cynlluniau o'r fath yn cyd-fynd â strategaeth datblygu iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Mae'n rhy fuan i fesur y cynlluniau hyn, gan na chafwyd ymgynghoriad llawn. A oes modd cael datganiad ar farn Llywodraeth Cymru am y cynlluniau hyn?

**Simon Thomas:** Is it possible to have a statement—a written one, if necessary—from the Minister for Education and Skills on Powys County Council's plans to reorganise post-14 education in the county? Plans are being discussed today by the Powys County Council cabinet. The plans have some positive elements, but one thing is clear: there was no full local consultation with parents and teachers, and with the schools affected. In addition, there is a big shift in the Welsh-medium provision from schools such as Llanfyllin High School. It is vital that such plans comply with the Welsh Government's language development strategy. It is too early to evaluate these plans, as there has been no full consultation. Is it possible to have a statement on the Welsh Government's views on these plans?

**Jane Hutt:** I thank Simon Thomas for that question. Of course, Powys County Council is responsible for consulting on its school modernisation proposals. That is taking place now, and, through due process, will be handled appropriately.

**Jane Hutt:** Diolch i Simon Thomas am y cwestiwn hwnnw. Wrth gwrs, mae Cyngor Sir Powys yn gyfrifol am ymgynghori ar ei gynigion moderneiddio ysgolion. Mae hynny'n digwydd yn awr, a, thrwy broses briodol, fe gaiff ei drin yn briodol.

**Eluned Parrott:** On the community transport concessionary fares initiative, it is my understanding that funding for the scheme runs out at the end of the year and it may not

**Eluned Parrott:** O ran y fenter tocynnau teithio rhatach ar drafnidiaeth gymunedol, rwy'n deall bod yr arian ar gyfer y cynllun yn rhedeg allan ddiwedd y flwyddyn ac efallai

be renewed in its current form. I request a statement from the Minister on the scheme, and on whether there is provision for this kind of work to be included in the all-Wales concessionary fares scheme. Obviously, community transport provides a massive contribution to social mobility. It is important to understand how this valuable work can continue.

na chaiff ei adnewyddu fel y mae ar hyn o bryd. Gofynnaf am ddatganiad gan y Gweinidog am y cynllun, a pa un a oes darpariaeth i gynnwys y math hwn o waith yng nghynllun tocynnau teithio rhatach Cymru gyfan. Yn amlwg, mae trafnidiaeth gymunedol yn gwneud cyfraniad enfawr at symudedd cymdeithasol. Mae'n bwysig deall sut y gall y gwaith gwerthfawr hwn barhau.

**Jane Hutt:** I thank the regional Member for South Wales Central for that question. I will ask the Minister for Local Government and Communities to respond to that question to clarify what is an extremely important and highly valued scheme in terms of access to community transport and concessionary fares.

**Jane Hutt:** Diolch i'r Aelod rhanbarthol dros Ganol De Cymru am y cwestiwn hwnnw. Byddaf yn gofyn i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ymateb i'r cwestiwn hwnnw i egluro beth sydd yn gynllun hynod o bwysig ac yn werthfawr iawn o ran mynediad i drafnidiaeth gymunedol a thocynnau teithio rhatach.

**Antoinette Sandbach:** Will you consider scheduling time for the announcement that the Minister for the environment, John Griffiths, said that he would make at the end of autumn concerning bovine tuberculosis. You will recall the statements made earlier about the concern that this issue was being kicked into the long grass. The final meeting has happened, and no doubt the report has been drafted. As autumn will end, effectively, on 30 November, there is not much time in which that statement could be timetabled for discussion. I hope that it will be timetabled, at the very least, before the start of recess so that the farming communities affected by this issue will have time to look at, and consider, the report.

**Antoinette Sandbach:** A wnewch chi ystyried trefnu amser ar gyfer y cyhoeddiad a ddywedodd y Gweinidog amgylchedd, John Griffiths, y byddai'n ei wneud ddiwedd yr hydref am dwbercwlosis buchol? Byddwch yn cofio'r datganiadau a wnaed yn gynharach am y pryder bod y mater hwn yn cael ei gladdu. Mae'r cyfarfod olaf wedi digwydd, ac yn ddiau mae'r adroddiad wedi cael ei ddrafftio. Gan y bydd yr hydref yn dod i ben, i bob pwrpas, ar 30 Tachwedd, nid oes llawer o amser i amserlennu'r datganiad ar gyfer trafodaeth. Gobeithio y bydd yn cael ei hamserlennu, o leiaf, cyn dechrau'r toriad fel y bydd y cymunedau ffermio sy'n cael eu heffeithio gan y mater yn cael amser i edrych ar yr adroddiad, a'i ystyried.

**Jane Hutt:** I thank the Member for North Wales for her question. A statement will be issued as soon as possible. The Minister is currently considering the conclusions of the report given to him by the Chief Scientific Adviser for Wales.

**Jane Hutt:** Diolch i'r Aelod dros Ogledd Cymru am ei chwestiwn. Caiff datganiad ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo modd. Ar hyn o bryd, mae'r Gweinidog yn ystyried casgliadau yr adroddiad a roddwyd iddo gan Brif Gynghorydd Gwyddonol Cymru.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Bydd y Gweinidog, fel finnau, wedi clywed y trafodaethau sy'n mynd ymlaen y tu allan i'r Cynulliad, yn y cyfryngau, ynglŷn â'r drefn etholaethol a phleidleisio ar gyfer etholiadau Cynulliad. A fydd y Gweinidog yn ystyried cynnal dadl yn amser y Llywodraeth i drafod y materion hyn fel y gall rhai ohonom gael cyfle i ymhelaethu ar yr addewidion difrifol a gawsom gan Weinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar ôl yr etholiad cyffredinol

**Lord Elis-Thomas:** The Minister, like me, will have heard the discussion that is going on outwith the Assembly, in the media, about the constituency and electoral system for Assembly elections. Would the Minister consider staging a debate in Government time to discuss these issues, so that those of us who so wish are able to expand upon the serious pledges made by UK Government Ministers following the last general election to the UK Parliament that that Government

diwethaf i Senedd y deyrnas, na fyddai'r Llywodraeth honno yn ceisio ymyrryd yn y drefn etholiadol na'r drefn bleidleisio yn y lle hwn heb ganiatâd y Cynulliad Cenedlaethol?

would not try to intervene in the electoral or voting systems for this place without the permission of the National Assembly?

**Jane Hutt:** This is a highly topical subject. The Government has an extensive programme for government and a legislative programme to deliver, and I am sure that the speculation and responses in the media have clarified matters somewhat.

**Jane Hutt:** Dyma bwnc amserol iawn. Mae gan y Llywodraeth raglen lywodraethu a rhaglen ddeddfu eang i'w chyflwyno, ac yr wyf yn siŵr bod y dyfalu a'r ymatebion yn y cyfryngau wedi taflu rhywfaint o oleuni ar bethau.

**Peter Black:** Minister, you will know that the Local Government Boundary Commission for Wales has published a review of the wards of Anglesey, which I welcome. However, there has been a lot of speculation about whether it would be possible to hold the local government elections in Anglesey in May 2012, as first scheduled. So far, that speculation has not been helped or informed by any ministerial comment. Will the Minister make a statement on the timing of elections on Ynys Môn, so that we can scrutinise his decision and put across our views on the ideal time for such elections to be held?

**Peter Black:** Weinidog, byddwch yn gwybod bod y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru wedi cyhoeddi adolygiad o wardiau Ynys Môn, a chroesawaf hynny. Fodd bynnag, bu llawer o ddyfalu a fyddai modd cynnal yr etholiadau llywodraeth leol yn Ynys Môn ym mis Mai 2012, fel y bwriadwyd yn wreiddiol. Hyd yn hyn, nid yw'r dyfalu hwnnw wedi cael eu helpu na'i oleuo gan unrhyw sylw gweinidogol. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseriad yr etholiadau ar Ynys Môn, fel y gallwn graffu ar ei benderfyniad a chyfleu ein barn am yr amser delfrydol ar gyfer cynnal etholiadau o'r fath?

**Jane Hutt:** I assure the Member that the Minister for Local Government and Communities will make a statement to the Assembly on developments in Anglesey, and the implications for future elections, when it is appropriate to do so.

**Jane Hutt:** Gallaf sicrhau'r Aelod y bydd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn gwneud datganiad i'r Cynulliad ar ddatblygiadau yn Ynys Môn a'r goblygiadau ar gyfer etholiadau yn y dyfodol, pan fydd yn briodol iddo wneud hynny.

**Janet Finch-Saunders:** I endorse the sentiments expressed by Peter Black and request that the Minister makes a statement more urgently than he has previously intimated. People on the island of Anglesey have a democratic right to know more about what is happening in their local authority. The time has now come for the Minister to make a statement to ensure that there is equality of opportunity, especially when the boundary review has already intimated that the elections will be held in May 2013. I have been approached by people who are extremely concerned. They feel that there is now a democratic deficit on Ynys Môn.

**Janet Finch-Saunders:** Ategaf y teimladau a fynegodd Peter Black a gofyn i'r Gweinidog wneud datganiad gyda mwy o frys nag y mae wedi awgrymu o'r blaen. Mae gan bobl ar Ynys Môn yr hawl democrataidd i wybod mwy am yr hyn sy'n digwydd yn eu hawdurdod lleol. Mae'r amser bellach wedi dod i'r Gweinidog wneud datganiad i sicrhau bod cyfle cyfartal, yn enwedig gan fod yr adolygiad ffiniau eisoes wedi awgrymu y bydd yr etholiadau ym mis Mai 2013. Mae pobl sy'n bryderus iawn wedi cysylltu â mi. Maent yn teimlo bod yna ddiffyg democrataidd bellach ar Ynys Môn.

**Jane Hutt:** I am sure that the Minister for Local Government and Communities has noted the points that have been raised by the Member this afternoon.

**Jane Hutt:** Yr wyf yn siŵr bod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi nodi'r pwyntiau a godwyd gan yr Aelod y prynhawn yma.

**Kirsty Williams:** Will the Minister for Finance and Leader of the House find time in the Government's schedule for the Minister for Health and Social Services to make a statement on the provision of mental health services for adolescents in Wales? This issue affects two of my young constituents, one of whom is currently receiving treatment on an in-patient basis in Southampton, while the second has been admitted this weekend on an in-patient basis to a facility in Maidenhead. I am sure that you would agree that this situation is far from satisfactory. No beds are available for either of these patients to be treated closer to their homes and families. The lack of those facilities is impeding their recovery from their mental health conditions. I think that having a greater understanding of the availability of in-patient services for young people who need assistance when recovering from mental illness would be of concern to Assembly Members across the Chamber.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ ganfod amser yn amserlen y Llywodraeth i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wneud datganiad am ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc yng Nghymru? Mae'r mater hwn yn effeithio ar ddau o'm hetholwyr ifanc. Mae un ohonynt ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth fel claf mewnol yn Southampton, tra bod yr ail wedi cael ei dderbyn y penwythnos hwn fel claf mewnol i gyfleuster yn Maidenhead. Yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno bod y sefyllfa hon ymhell o fod yn foddhaol. Nid oes gwelyau ar gael i'r naill glaf gael ei drin yn agosach at ei gartref a'i deulu. Mae'r diffyg cyfleusterau hynny yn eu rhwystro rhag gwella o'u cyflyrau iechyd meddwl. Yr wyf yn meddwl y byddai cael mwy o ddealltwriaeth o argaeledd gwasanaethau cleifion mewnol ar gyfer pobl ifanc sydd angen cymorth wrth wella o afiechyd meddwl yn destun pryder i Aelodau'r Cynulliad ar draws y Siambr.

**Jane Hutt:** I thank the Leader of the Welsh Liberal Democrats for that question. Our commitment to child and adolescent mental health services is a key policy, and is reflected in our programme for government and in the provision of services both locally and through more specialist services. If there are particular issues that you wish to raise with the Minister, it is appropriate that you do so, but the Minister has heard the points that you have made today.

**Jane Hutt:** Diolch i Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru am y cwestiwn hwnnw. Mae ein hymrwymiad i wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yn bolisi allweddol, ac yn cael ei adlewyrchu yn ein rhaglen lywodraethu ac wrth ddarparu gwasanaethau yn lleol a thrwy wasanaethau mwy arbenigol. Os oes materion penodol yr hoffech eu codi gyda'r Gweinidog, mae'n briodol i chi wneud hynny, ond mae'r Gweinidog wedi clywed y pwyntiau yr ydych wedi'u gwneud heddiw.

**Andrew R.T. Davies:** Minister, is it possible that when Government Ministers make announcements, especially important announcements like those regarding the business and enterprise portfolio, that they are made orally in Plenary so that Members are able to question the Minister responsible? Last Wednesday, a significant statement was made on the allocation of £55 million. I read about it in the *Western Mail* and heard reports on BBC Wales before the written statement was sent to Members. I do not think that that is a good way for the Government to carry out its business. The Government should show due respect to this institution and offer Members the opportunity to question Ministers when such substantial

**Andrew R.T. Davies:** Weinidog, a yw'n bosibl, pan fo Gweinidogion y Llywodraeth yn gwneud cyhoeddiadau, yn arbennig cyhoeddiadau pwysig fel y rhai ynghylch y portffolio busnes a menter, eu bod yn cael eu gwneud ar lafar yn y Cyfarfod Llawn fel bod Aelodau yn gallu holi'r Gweinidog cyfrifol? Ddydd Mercher diwethaf, gwnaed datganiad sylweddol ar ddyraniad o £55 miliwn. Darllenais amdano yn y *Western Mail* a chlywed adroddiadau ar BBC Wales cyn bod datganiad ysgrifenedig yn cael ei anfon at Aelodau. Nid wyf yn credu bod hynny'n ffordd dda i'r Llywodraeth fynd ati. Dylai'r Llywodraeth ddangos y parch dyledus i'r sefydliad hwn a chynnig cyfle i Aelodau holi Gweinidogion pan wneir cyhoeddiadau mor

announcements are made.

sylweddol.

2.45 p.m.

**Jane Hutt:** The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science will be answering questions in Plenary tomorrow afternoon. I am sure that the fact that she was announcing £55 million was welcomed by the businesses of Wales. However, you will have the opportunity to question the Minister tomorrow in the Chamber.

**Jane Hutt:** Bydd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn ateb cwestiynau yn y Cyfarfod Llawn brynhawn yfory. Yr wyf yn siŵr bod y ffaith ei bod yn cyhoeddi £55 miliwn wedi'i groesawu gan fusnesau Cymru. Fodd bynnag, byddwch yn cael y cyfle i holi'r Gweinidog yfory yn y Siambr.

## Datganiad: Cynllun Buddsoddi mewn Seilwaith i Gymru
## Statement: Wales Infrastructure Investment Plan

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** In the decade following devolution, the Welsh Government's capital budget rose significantly. In 1999-2000, the Welsh capital budget was £863 million. By 2009-10, our capital budget had reached almost £2 billion, which is a rise of over 75 per cent in real terms.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Yn y degawd yn dilyn datganoli, cynyddodd cyllideb gyfalaf Llywodraeth Cymru yn sylweddol. Yn 1999-2000, roedd y gyllideb gyfalaf yng Nghymru yn £863 miliwn. Erbyn 2009-10, mae ein cyllideb gyfalaf wedi cyrraedd bron i £2 biliwn, sy'n gynnydd o fwy na 75 y cant mewn termau real.

This unprecedented increase in budgets enabled a sustained increase in investment in all aspects of infrastructure. Investment in NHS infrastructure more than tripled. Investment in schools and colleges more than doubled. We were also able to make major investments in transport and housing. However, this Assembly needs no reminder that we are facing unprecedented cuts. By 2014-15, our capital budget will be 50 per cent lower in real terms than in 2009-10. This means that, in 2014-15, our capital budget will be 12 per cent lower in real terms than it was in 1999-2000.

Mae'r cynnydd heb gynsail hwn mewn cyllidebau wedi galluogi cynnydd parhaus mewn buddsoddiad ym mhob agwedd ar y seilwaith. Mae buddsoddi yn seilwaith y GIG wedi mwy na threblu. Mae buddsoddi mewn ysgolion a cholegau wedi mwy na dyblu. Rydym hefyd yn gallu gwneud buddsoddiadau mawr mewn trafnidiaeth a thai. Fodd bynnag, nid oes angen atgoffa'r Cynulliad hwn ein bod yn wynebu toriadau heb gynsail. Erbyn 2014-15, bydd ein cyllideb gyfalaf 50 y cant yn is mewn termau real nag yn 2009-10. Mae hyn yn golygu y bydd ein cyllideb gyfalaf, yn 2014-15, 12 y cant yn is mewn termau real nag yr oedd yn 1999-2000.

Capital investment is vital for two reasons, particularly in this serious economic downturn. First, it is vital to the economy, in the short term for the stimulus that it provides and in providing the long-term conditions for growth. It is essential for the delivery of the modern, high-quality public services that people in Wales deserve and expect. That is why the Welsh Government is geared up to stimulate economic investment by ensuring that our investments are fully aligned with

Mae buddsoddi cyfalaf yn hanfodol am ddau reswm, yn enwedig yn y dirywiad economaidd difrifol hwn. Yn gyntaf, mae'n hanfodol i'r economi, yn y tymor byr, o ran yr ysgogiad mae'n ei roi ac wrth ddarparu'r amodau tymor hir ar gyfer twf. Mae'n hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus modern, o safon uchel y mae pobl yng Nghymru yn eu haeddu a'u disgwyl. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn barod i ysgogi buddsoddiad economaidd trwy

our strategic priorities, ensuring that we get more for less, driving better value from the capital that we invest, making better use of our assets and levering more funding into public sector infrastructure investment.

sicrhau bod ein buddsoddiadau yn cyd-fynd yn llwyr â'n blaenoriaethau strategol, gan sicrhau ein bod yn cael mwy am lai, gan yrru gwerth gwell o'r cyfalaf y byddwn yn ei fuddsoddi, gan wneud gwell defnydd o'n hasedau a denu mwy o arian i fuddsoddi yn seilwaith y sector cyhoeddus.

Despite the severe cuts imposed on us, we are launching today our strategic investment programme to support public services and the Welsh economy. The key starting point is to provide greater clarity and transparency about how we translate our priorities into investment. We will deliver this through developing the Wales infrastructure investment plan, which will identify and publish the details of large, nationally significant infrastructure projects, such as key transport enhancement schemes and next-generation broadband. It will encourage cross-sectoral collaboration and high standards of business assurance, collate and publish existing Welsh Government sectoral investment programmes and identify our top priority, shovel-ready schemes that have the potential to start or accelerate work during the next one to three years.

Er gwaethaf y toriadau llym a orfodwyd arnom, yr ydym yn lansio ein rhaglen buddsoddiad strategol heddiw i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus ac economi Cymru. Y man cychwyn allweddol yw darparu mwy o eglurder a thryloywder am sut yr ydym yn cyfleu ein blaenoriaethau buddsoddi. Byddwn yn cyflawni hyn drwy ddatblygu cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, a fydd yn nodi ac yn cyhoeddi manylion prosiectau seilwaith mawr, o bwys cenedlaethol, megis cynlluniau gwella trafnidiaeth allweddol a band eang y genhedlaeth nesaf. Bydd yn annog cydweithio ar draws sectorau a safonau uchel o ran sicrwydd busnes, yn coladu a chyhoeddi rhaglenni buddsoddi sectoraidd presennol Llywodraeth Cymru a nodi ein prif flaenoriaeth, sef cynlluniau datblygedig sydd â'r potensial i ddechrau neu gyflymu'r gwaith yn ystod y flwyddyn neu dair nesaf.

Not only will the plan provide a mechanism to assist us in prioritising our investments, it will be important for the private sector, indicating a 10-year direction of travel and a two-year pipeline of maturing proposals that are close to investment decision. This will enable the private sector to align its resources, skills and expertise to be ready to respond to our infrastructure needs, reduce costs and provide stability and certainty for the private sector, which will support the economy and create jobs. The plan will be flexible and dynamic, so that we can react quickly when opportunities arise. I am also determined to ensure that we use the plan to help maximise the benefits of capital investment to Welsh businesses by procuring locally wherever possible. Given the huge cut in our capital budget, levering more money into infrastructure investment over the next few years is essential.

Nid yn unig y bydd y cynllun yn darparu mecanwaith i'n cynorthwyo wrth flaenoriaethu ein buddsoddiadau, ond bydd hefyd yn bwysig i'r sector preifat, gan nodi cyfeiriad ar gyfer y 10 mlynedd nesaf a llif dwy flynedd o gynigion sy'n aeddfedu sy'n agos at benderfyniad buddsoddi. Bydd hyn yn galluogi'r sector preifat i gysoni ei adnoddau, sgiliau ac arbenigedd i fod yn barod i ymateb i anghenion ein seilwaith, lleihau costau a darparu sefydlogrwydd a sicrwydd ar gyfer y sector preifat, a fydd yn cefnogi'r economi a chreu swyddi. Bydd y cynllun yn hyblyg ac yn ddeinamig, fel y gallwn ymateb yn gyflym pan fydd cyfleoedd yn codi. Yr wyf hefyd yn benderfynol o sicrhau ein bod yn defnyddio'r cynllun i helpu i sicrhau'r buddiannau gorau posibl o fuddsoddiad cyfalaf i fusnesau Cymru trwy gaffael yn lleol lle bynnag y bo'n bosibl. O ystyried y toriad enfawr yn ein cyllideb gyfalaf, mae denu mwy o arian i fuddsoddi mewn seilwaith dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn hanfodol.

We are exploring a range of other opportunities, including pressing the UK Government to allow us to exercise our borrowing powers. The Welsh Government's position on the old, discredited private finance initiative model is clear: we do not use it. I am pleased to note that the Chancellor of the Exchequer has now recognised this too, and has embarked on a review. However, my officials are in discussion with the UK and Scottish Governments about different public-private partnership models that could offer value for money. We are also looking at the innovation that can be derived from the mutual and co-operative models.

Rydym yn ystyried ystod o gyfleoedd eraill, gan gynnwys pwyso ar Lywodraeth y DU i ganiatáu inni ddefnyddio ein pwerau benthyca. Mae safbwynt Llywodraeth Cymru ar yr hen fodel menter cyllid preifat, sydd bellach heb hygrededd, yn glir: nid ydym yn ei ddefnyddio. Yr wyf yn falch o nodi bod Canghellor y Trysorlys bellach wedi cydnabod hyn hefyd, ac wedi cychwyn ar adolygiad. Fodd bynnag, mae fy swyddogion yn trafod gyda Llywodraethau'r DU a'r Alban am fodelau partneriaeth cyhoeddus-preifat gwahanol a allai gynnig gwerth am arian. Rydym hefyd yn edrych ar yr arloesedd sy'n deillio o fodelau cydfuddiannol a chydweithredol.

In developing our approach, it is essential that we draw on the highest-quality expertise and advice available. That is why I am particularly pleased to announce today that Gerry Holtham has agreed to add his considerable knowledge and skills as an adviser for the plan. His input will be invaluable as we develop Welsh solutions to levering in additional funding.

Wrth ddatblygu ein hymagwedd, mae'n hanfodol ein bod yn defnyddio'r arbenigedd a chyngor o'r ansawdd uchaf sydd ar gael. Dyna pam yr wyf yn arbennig o falch o gyhoeddi heddiw bod Gerry Holtham wedi cytuno i ychwanegu ei wybodaeth a'i sgiliau sylweddol fel ymgynghorydd ar gyfer y cynllun. Bydd ei gyfraniad yn amhrisiadwy wrth i ni ddatblygu atebion Cymreig i ddenu cyllid ychwanegol.

Another key area that we have been focusing on is local government borrowing. This year, planned local authority capital expenditure in Wales is just under £1 billion, which is almost 6 per cent higher than spend in 2010-11. Local authorities in Wales have been able to maintain capital expenditure in large part because of decisions taken by the Welsh Government to shield Welsh local authorities from the cuts imposed on local government revenue grants in England. This has enabled authorities in Wales to increase their borrowing this year to mitigate unavoidable reductions in Welsh Government capital grants.

Maes allweddol arall yr ydym wedi bod yn canolbwyntio arno yw benthyca llywodraeth leol. Eleni, mae gwariant cyfalaf arfaethedig awdurdodau lleol yng Nghymru ychydig o dan £1 biliwn, bron 6 y cant yn uwch na'r gwariant yn 2010-11. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gallu cynnal gwariant cyfalaf i raddau helaeth oherwydd y penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth Cymru i warchod awdurdodau lleol Cymru rhag y toriadau a orfodir ar grantiau refeniw llywodraeth leol yn Lloegr. Mae hyn wedi galluogi awdurdodau yng Nghymru i gynyddu eu benthyca eleni i liniaru gostyngiadau anochel yng ngrantiau cyfalaf Llywodraeth Cymru.

We are taking action to help local authorities in Wales maintain prudent levels of borrowing and investment, working closely with local government to develop an initiative to boost its borrowing over the next few years. The intention is to provide local government with additional revenue funding to enable other income to be used to fund unsupported borrowing over and above current plans. The initial focus is on a

Rydym yn cymryd camau i helpu awdurdodau lleol yng Nghymru i gynnal lefelau benthyca a buddsoddi doeth, gan weithio'n agos gyda llywodraeth leol i ddatblygu menter i hybu ei fenthyca dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Y bwriad yw darparu llywodraeth leol gyda chyllid refeniw ychwanegol er mwyn galluogi incwm arall i gael ei ddefnyddio i ariannu benthyca di-gefnogaeth yn ychwanegol i'r cynlluniau

highway improvements programme that would provide a potential funding envelope of between £100 million and £170 million, depending on the economic and strategic benefits of individual projects put forward. This initiative would fund much needed local highway improvements in all parts of Wales. We are also working closely with the housing sector to maximise its borrowing abilities.

presennol. Mae'r ffocws cychwynnol ar raglen gwelliannau priffyrdd a fyddai'n darparu amlen ariannu posibl o rhwng £100 miliwn a £170 miliwn, yn dibynnu ar y manteision economaidd a strategol o gyflwyno prosiectau unigol. Byddai'r fenter hon yn ariannu gwelliannau priffyrdd lleol mawr eu hangen ym mhob rhan o Gymru. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r sector tai i fanteisio i'r eithaf ar ei alluoedd benthyca.

Today, I am also pleased to announce the latest allocations from the centrally retained capital fund. Phase 1 of that fund, which allocated more than £100 million to projects this year, was announced in March. Phase 2, a further £90 million, will support the Welsh Government's budget for growth and jobs, demonstrating continued commitment to supporting the economic recovery in Wales and protecting and improving front-line services in line with key programme for government commitments. This package will support up to 1,000 jobs a year in the construction industry and related activities.

Heddiw, yr wyf hefyd yn falch o gyhoeddi'r dyraniadau diweddaraf o'r gronfa gyfalaf a gedwir yn ganolog. Cyhoeddwyd cam 1 o'r gronfa honno, sydd wedi dyrannu mwy na £100 miliwn i brosiectau eleni, ym mis Mawrth. Bydd cam 2, sef £90 miliwn yn ychwanegol, yn cefnogi cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer twf a swyddi, gan ddangos ymrwymiad parhaus i gefnogi'r adferiad economaidd yng Nghymru a diogelu a gwella gwasanaethau rheng flaen yn unol ag ymrwymiadau allweddol y rhaglen ar gyfer llywodraethu. Bydd y pecyn hwn yn cefnogi hyd at 1,000 o swyddi'r flwyddyn yn y diwydiant adeiladu a gweithgareddau cysylltiedig.

Some £32 million has been allocated to education projects across Wales, supporting our commitment to improve and deliver high-quality facilities through the twenty-first century schools programme. A sum of £16.6 million has been allocated to health and early years projects, supporting the most disadvantaged children by providing capital for the all-Wales Flying Start programme, improving ambulance services in north Wales and developing services in Cardiff. We have allocated £11.7 million to transport projects, supporting the delivery of the national transport plan through schemes to improve the collection of national traffic data, making major improvements to an M4 junction to decrease congestion and increasing our resilience to harsh winters by upgrading our strategic salt storage facilities across Wales.

Mae tua £32 miliwn wedi'i ddyrannu i brosiectau addysg ledled Cymru, gan gefnogi ein hymrwymiad i wella a darparu cyfleusterau o ansawdd uchel drwy'r rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain. Dyrannwyd swm o £16.6 miliwn i brosiectau iechyd a blynyddoedd cynnar, gan gefnogi'r plant mwyaf difreintiedig drwy ddarparu cyfalaf ar gyfer y rhaglen Dechrau'n Deg ar gyfer Cymru gyfan, gwella gwasanaethau ambiwlans yn y gogledd a datblygu gwasanaethau yng Nghaerdydd. Rydym wedi dyrannu £11.7 miliwn i brosiectau trafnidiaeth, gan gefnogi darpariaeth y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol drwy gynlluniau i wella casglu data traffig cenedlaethol, gan wneud gwelliannau mawr i gyffordd ar yr M4 i leihau tagfeydd a chynyddu ein gallu i wrthsefyll gaeafau caled drwy uwchraddio ein cyfleusterau strategol i storio halen ar draws Cymru.

We have allocated £10 million to support the roll-out of residential and business access to next generation broadband across Wales. Some £15 million has been allocated to

Rydym wedi dyrannu £10 miliwn i gefnogi'r broses o gyflwyno mynediad preswyl a busnes i fand eang cenhedlaeth nesaf ledled Cymru. Mae tua £15 miliwn wedi cael ei

increase the supply, choice and quality of our housing and to invest in an innovative all-Wales recyclable loans fund to bring empty properties back into use, as well as to support housing improvement and regeneration in one of north Wales's most deprived areas. Finally, £2 million has been allocated to support projects to reduce flood and coastal erosion risk.

ddyrannu i gynyddu cyflenwad, dewis ac ansawdd ein tai ac i fuddsoddi mewn cronfa benthyciadau ailgylchadwy arloesol Cymru gyfan i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, yn ogystal ag i gefnogi gwelliant ac adfywio tai yn un o ardaloedd mwyaf difreintiedig gogledd Cymru. Yn olaf, mae £2 filiwn wedi'i ddyrannu i gefnogi prosiectau i leihau perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Investment in four of the phase 1 projects will continue into phase 2, including online services for rural payments and A470 improvements. As we develop this work on the capital programme, it is important that we fully engage with the UK Government and other devolved Governments, share best practice and safeguard Wales's interests in developments at the UK level. I am working with the UK, Northern Ireland and Scottish Governments, and I have met with the Commercial Secretary to the Treasury, Lord Sassoon, to ensure Wales's needs are fully represented in current and future UK infrastructure decisions.

Bydd buddsoddi mewn pedwar o'r prosiectau cam 1 yn parhau i gam 2, gan gynnwys gwasanaethau ar-lein ar gyfer taliadau gwledig a gwelliannau i'r A470. Wrth inni ddatblygu'r gwaith hwn ar y rhaglen gyfalaf, mae'n bwysig ein bod yn ymgysylltu'n llawn â Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig eraill, yn rhannu arfer gorau ac yn diogelu buddiannau Cymru mewn datblygiadau ar lefel y DU. Yr wyf yn gweithio gyda Llywodraethau'r DU, Gogledd Iwerddon a'r Alban, ac yr wyf wedi cyfarfod ag Ysgrifennydd Masnachol y Trysorlys, yr Arglwydd Sassoon, i sicrhau bod anghenion Cymru yn cael eu cynrychioli'n llawn mewn penderfyniadau seilwaith presennol ac yn y dyfodol yn y DU.

I intend to publish an outline version of the Wales infrastructure investment plan in spring 2012 and a full version in the autumn, after which it will be updated quarterly. This is an important initiative for Wales that will help our economic recovery and our public services.

Rwy'n bwriadu cyhoeddi fersiwn amlinelliad o'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru yng ngwanwyn 2012 a fersiwn llawn yn yr hydref, ac wedi hynny, bydd yn cael ei ddiweddaru bob chwarter. Mae hon yn fenter bwysig i Gymru a fydd yn helpu ein hadferiad economaidd a'n gwasanaethau cyhoeddus.

**Paul Davies:** First, I thank the Minister for her statement. I welcome the announcement that she has made today outlining the Welsh Government's national infrastructure investment plan and the investment package attached to it.

**Paul Davies:** Yn gyntaf, diolchaf i'r Gweinidog am ei datganiad. Croesawaf ei chyhoeddiad heddiw yn amlinellu cynllun Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn seilwaith cenedlaethol a'r pecyn buddsoddi sy'n ynghlwm wrtho.

I agree very much with the Minister that proper investment in infrastructure is essential to facilitate a stronger and more sustainable Welsh economy. I am pleased that the Welsh Government is continuing to look to obtain borrowing powers to fund capital investment, as it would make sense for the Welsh Government to have the ability to borrow, given that local authorities already have these powers. However, as I have said before, the Welsh Government needs to be

Cytunaf yn llwyr â'r Gweinidog bod buddsoddiad priodol mewn seilwaith yn hanfodol er mwyn hwyluso economi gryfach a mwy cynaliadwy yng Nghymru. Yr wyf yn falch bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried cael pwerau benthyca i ariannu buddsoddiad cyfalaf, gan y byddai'n gwneud synnwyr i Lywodraeth Cymru gael y gallu i fenthyca, o ystyried bod gan awdurdodau lleol eisoes y pwerau hyn. Fodd bynnag, fel y dywedais eisoes, mae angen i Lywodraeth

clear about the type of borrowing powers that it is requesting and establish under what terms and conditions it would have those particular powers. It would only strengthen Wales's case if the Welsh Government provided more clarity on how it would use those powers. The Welsh Government must continue to use the funding tools currently at its disposal and it must also think innovatively about other funding tools to increase infrastructure development across Wales.

Cymru fod yn glir am y math o bwerau benthyca y mae'n gofyn amdanynt a sefydlu o dan ba delerau ac amodau y byddai'n cael y pwerau penodol hynny. Byddai ond yn cryfhau achos Cymru pe bai Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o eglurder ynghylch sut y byddai'n defnyddio'r pwerau hynny. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i ddefnyddio'r offer cyllido ar gael iddi ar hyn o bryd a rhaid iddi hefyd feddwl yn arloesol am arfau ariannu eraill i gynyddu datblygu seilwaith ar draws Cymru.

The Minister for Finance is well aware that we, on this side of the Chamber, believe that the Welsh Government should establish a public-private partnership scheme as part of an infrastructure plan for Wales. I am pleased that the Minister has confirmed in her statement today that the Government is seriously discussing public-private partnership models. However, we are receiving mixed messages on this issue. In certain areas, the Government—or certain Ministers—is saying that there will be no private involvement, while others are saying that there should be private involvement. For example, the Minister for Education and Skills, who is not in his seat at the moment, confirmed last week that he and his officials are open to exploring different sources of capital, which I presume means public-private partnerships. However, I have heard the Minister for Health and Social Services rule out that option on several occasions. Will the Minister confirm that it is the Welsh Government's policy to consider public-private partnerships in all areas of Government in order to improve the national infrastructure?

Mae'r Gweinidog Cyllid yn ymwybodol iawn ein bod ni, ar yr ochr hon i'r Siambr, yn credu y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cynllun partneriaeth cyhoeddus-preifat fel rhan o gynllun seilwaith ar gyfer Cymru. Yr wyf yn falch fod y Gweinidog wedi cadarnhau yn ei datganiad heddiw fod y Llywodraeth yn trafod modelau partneriaeth cyhoeddus-preifat o ddifrif. Fodd bynnag, yr ydym yn derbyn negeseuon cymysg ar y mater hwn. Mewn rhai meysydd, mae'r Llywodraeth—neu rai Gweinidogion—yn dweud na fydd unrhyw gysylltiad preifat, tra bo eraill yn dweud y dylai fod cyfranogiad preifat. Er enghraifft, yr wythnos diwethaf, cadarnhaodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau, nad yw yn ei sedd ar y funud, ei fod ef a'i swyddogion yn agored i ystyried gwahanol ffynonellau o gyfalaf, sydd yn golygu, yr wyf yn tybio, partneriaethau cyhoeddus-preifat. Fodd bynnag, yr wyf wedi clywed y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn diystyru'r opsiwn hwnnw ar sawl achlysur. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau mai polisi Llywodraeth Cymru yw ystyried partneriaethau cyhoeddus-preifat ym mhob maes o Lywodraeth er mwyn gwella'r seilwaith cenedlaethol?

One key component of improving the national infrastructure is to provide high-quality broadband services. I welcome the £10 million announced today. It is clear that there are still too many not spots in certain parts of Wales, and we also need a faster broadband service in those areas of Wales where broadband is currently being delivered. Broadband is absolutely essential if we are to improve the overall Welsh infrastructure. I accept that this issue has been discussed in the Chamber time and again, but it is now time to see a substantial move forward on this

Un elfen allweddol o wella'r seilwaith cenedlaethol yw darparu gwasanaethau band eang o safon uchel. Yr wyf yn croesawu'r £10 miliwn a gyhoeddwyd heddiw. Mae'n amlwg fod llawer o fannau digyswllt mewn rhai rhannau o Gymru, ac mae angen arnom hefyd wasanaeth band eang cyflymach yn yr ardaloedd hynny o Gymru lle mae band eang yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd. Mae band eang yn gwbl hanfodol os ydym am wella seilwaith Cymru yn gyffredinol. Yr wyf yn derbyn bod y mater hwn wedi cael ei drafod yn y Siambr dro ar ôl tro, ond mae'n bryd inni

issue. I am sure that we all celebrate the £56.9 million that has been allocated to Wales by the UK coalition Government to roll out next generation broadband across Wales. It is essential that all businesses in Wales have access to next generation broadband in order to secure a sustainable infrastructure in future. It is extremely important that the Welsh Government concentrates its funding on those not-spot areas and those areas where the service needs to be upgraded most urgently. Will the Minister tell us whether this £10 million is part of the £56.9 million, and how will this money be used specifically to upgrade broadband services in those areas where it needs to be upgraded most urgently, such as parts of rural Wales, where the lack of a broadband connection is one of the most significant barriers preventing business growth?

weld symudiad sylweddol ymlaen ar y mater hwn. Yr wyf yn siŵr ein bod i gyd yn dathlu’r £ 56.9 miliwn sydd wedi'i ddyrannu i Gymru gan Lywodraeth glymblaid y DU i gyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf ledled Cymru. Mae'n hanfodol bod gan bob busnes yng Nghymru fynediad i fand eang y genhedlaeth nesaf er mwyn sicrhau seilwaith cynaliadwy yn y dyfodol. Mae'n eithriadol o bwysig bod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ei gyllid ar y meysydd digyswllt hynny ac ar y meysydd hynny lle mae angen uwchraddio’r gwasanaeth mwyaf ar frys. A wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym a yw’r £10 miliwn hwn yn rhan o'r £56.9 miliwn a sut y bydd yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio’n benodol i uwchraddio gwasanaethau band eang yn yr ardaloedd hynny sydd angen eu huwchraddio fwyaf ar frys, megis rhannau o Gymru wledig, lle mai diffyg cysylltiad band eang yw un o'r rhwystrau mwyaf sylweddol i dwf busnes?

I would briefly like to touch on transport. Minister, the Confederation of British Industry tells us that, although the rate of growth of congestion on our roads has reduced recently, Sir Rod Eddington has predicted a 30 per cent growth in congestion by 2025, which equates to a cost of around £1.1 billion per year to the Welsh economy, and a cost of £600 million to businesses by 2025. In a nutshell, the Wales Audit Office report on major transport projects concluded that,

Hoffwn gyffwrdd yn fyr ar drafnidiaeth. Weinidog, mae Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yn dweud wrthym, er bod cyfradd y twf tagfeydd ar ein ffyrdd wedi gostwng yn ddiweddar, fod Syr Rod Eddington wedi rhagweld twf o 30 y cant mewn tagfeydd erbyn 2025, sy'n cyfateb i gost o tua £1.1 biliwn y flwyddyn i economi Cymru, a chost o £600 miliwn i fusnesau erbyn 2025. Yn gryno, mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar brosiectau trafnidiaeth mawr wedi dod i’r casgliad bod,

‘many projects have cost substantially more and taken longer to complete than expected, hampering the delivery of the Assembly Government’s wider transport objectives’.

llawer o brosiectau wedi costio cryn dipyn yn fwy ac wedi cymryd mwy o amser i'w cwblhau na'r disgwyl, gan rwystro cyflawni amcanion trafnidiaeth ehangach Llywodraeth y Cynulliad.

In fact, as we all know from that report, there was an overspend of £226 million. Will the Minister, therefore, tell us whether the Welsh Government intends to establish a common set of key performance indicators across all major transport projects in Wales, so that it can identify and address common areas of underperformance?

Yn wir, fel yr ydym i gyd yn gwybod o'r adroddiad hwnnw, roedd gorwariant o £226 miliwn. A wnaiff y Gweinidog, felly, ddweud wrthym a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu sefydlu set gyffredin o ddangosyddion perfformiad allweddol ar draws pob prosiect trafnidiaeth mawr yng Nghymru, fel y gall nodi a mynd i'r afael â meysydd cyffredin sy’n tanberfformio?

It is also extremely important that the plan announced today and all future infrastructure projects are delivered on time and within

Mae hefyd yn hynod bwysig bod y cynllun a gyhoeddwyd heddiw a holl brosiectau seilwaith y dyfodol yn cael eu cwblhau ar

budget. Will the Minister tell us how the Welsh Government intends to monitor these projects in order to ensure that they are delivered on time and that they provide the taxpayer with value for money? It is imperative that the Welsh Government ensures that every pound being spent is spent efficiently to support our infrastructure, which will ultimately support and improve our economy. I hope that this announcement today will contribute to improving our national infrastructure in the very near future.

amser ac o fewn y gyllideb. A wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu monitro’r prosiectau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau ar amser a’u bod yn cynnig gwerth am arian i'r trethdalwr? Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pob punt sy'n cael ei gwario yn cael ei gwario'n effeithlon i gefnogi ein seilwaith, a fydd yn y pen draw yn cefnogi a gwella ein economi. Rwy'n gobeithio y bydd y cyhoeddiad hwn heddiw yn cyfrannu at wella ein seilwaith cenedlaethol yn y dyfodol agos iawn.

**Jane Hutt:** I thank you for your very positive response to my statement this afternoon. This is a step change in terms of the determination of this Government to build an infrastructure investment plan against the backdrop of a reduction in our capital programme that puts us in a very difficult place in terms of supporting the economic recovery and ensuring that we have a public estate that is fit for purpose. I thank Paul for his very positive response.

**Jane Hutt:** Diolch i chi am eich ymateb cadarnhaol iawn i fy natganiad y prynhawn yma. Mae hwn yn newid mawr o ran penderfyniad y Llywodraeth hon i adeiladu cynllun buddsoddi mewn seilwaith yn erbyn cefndir o ostyngiad yn ein rhaglen gyfalaf sydd yn ein rhoi mewn lle anodd iawn o ran cefnogi'r adferiad economaidd a sicrhau bod gennym ystâd gyhoeddus sy'n addas at y diben. Diolch i Paul am ei ymateb cadarnhaol iawn.

3.00 p.m.

We are very clear about our commitment to the financial reform agenda with the UK Government. I have already met the Chief Secretary to the Treasury. Via our intergovernmental talks, we have discussed rapid access to borrowing powers, linking this to the role and parallel work of the Silk commission. It is also clear that, through these intergovernmental talks, we are also seeking progress on fair funding for Wales. I know that the Welsh Government has support for those developments from across the Chamber.

Rydym yn glir iawn am ein hymrwymiad i’r agenda diwygio ariannol gyda Llywodraeth y DU. Rwyf wedi cwrdd eisoes â’r Prif Ysgrifennydd i’r Trysorlys. Drwy gyfrwng ein trafodaethau rhynglywodraethol, rydym wedi trafod mynediad cyflym i bwerau benthyca, gan gysylltu hyn i rôl a gwaith comisiwn Silk, sy’n digwydd ochr yn ochr â hyn. Mae hefyd yn amlwg, drwy gyfrwng y trafodaethau rhynglywodraethol hyn, ein bod hefyd yn ceisio gwneud cynnydd ar ariannu teg i Gymru. Gwn fod gan Lywodraeth Cymru gefnogaeth ar draws y Siambr ar gyfer y datblygiadau hynny.

On your point on innovative routes to ensuring that we can lever in investment for a robust infrastructure investment plan, I would say that there are no contradictions in the Welsh Government on this. This is about how we can be innovative and how we can learn from others. As I said, we are monitoring closely the development of the Scottish infrastructure investment plan. I have already had one meeting, and I will be having another, to look at its model. We will

O ran eich pwynt am lwybrau arloesol er mwyn sicrhau y gallwn ysgogi buddsoddiad ar gyfer cynllun cadarn i fuddsoddi mewn seilwaith, dywedwn nad oes unrhyw wrth-ddweud yn Llywodraeth Cymru ar hyn. Mae hyn yn ymwneud â sut y gallwn fod yn arloesol a sut y gallwn ddysgu gan eraill. Fel y dywedais, rydym yn monitro hynt cynllun buddsoddi mewn seilwaith yr Alban yn agos. Rwyf wedi cael un cyfarfod yn barod i edrych ar ei model, a byddaf yn cael un arall.

be looking not only at models developed in Scotland and Northern Ireland, but to our own developing models. Gerry Holtham has done such a great job with the Independent Commission on Funding and Finance for Wales, on the impact of the Barnett formula on Wales, that I am sure that Paul would welcome the fact that he is coming in, with his expertise, to help us develop these models. We already have examples of this in respect of waste management and the Welsh housing partnership. We will also be looking at ways of having made-in-Wales public-private partnership models, and at some of the other models that have been mentioned in this Chamber, such as the Quebec model and the mutual and co-operative developments. Ministers are also looking at those.

Byddwn yn edrych ar fodelau a ddatblygwyd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac hefyd ar y modelau rydym yn eu datblygu ein hunain. Mae Gerry Holtham wedi gwneud gwaith cyn wyched ar y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru, ar effaith fformiwla Barnett ar Gymru, fel fy mod yn siŵr y bydd Paul yn croesawu'r ffaith ei fod yn dod i mewn, gyda'i arbenigedd, i'n helpu ni i ddatblygu'r modelau hyn. Mae gennym enghreifftiau o hyn yn barod o ran rheoli gwastraff a phartneriaeth tai Cymru. Byddwn hefyd yn ystyried ffyrdd o gael modelau partneriaeth cyhoeddus-preifat a wnaed yng Nghymru, ac ar ambell fodel arall a gafodd eu crybwyll yn y Siambr, megis model Quebec a'r datblygiadau cydfuddiannol a chydweithredol. Mae Gweinidogion yn edrych ar y rheini hefyd.

I assure Paul Davies that the £10 million for next generation broadband is additional and will be used to help meet our commitments. Tackling not spots is crucial, but this is about access for residential and business users. Next generation broadband is at the forefront of infrastructure investment priorities for the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science. Therefore, this £10 million is additional to the allocation from the UK Government, and I know that it will be widely welcomed.

Rwy'n sicrhau Paul Davies fod y £10 miliwn ar gyfer band eang y genhedlaeth nesaf yn ychwanegol ac y caiff ei ddefnyddio i'n helpu i gwrdd â'n hymrwymiadau. Mae mynd i'r afael â mannau gwan yn allweddol, ond mae hyn yn ymwneud â mynediad i ddefnyddwyr preswyl a busnes. Mae band eang y genhedlaeth nesaf ar frig rhestr blaenoriaethau buddsoddi mewn band eang i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth. Felly, mae'r £10 miliwn hwn yn ychwanegol i'r dyraniad gan Lywodraeth y DU, a gwn y caiff groeso brwd.

To turn to the national transport plan, which the Minister will be announcing in due course, all schemes are on budget and time. This is an area where lessons have been learned and action has been taken. I am sure that Paul would also welcome the announcement that I made today about looking at ways to assist local authorities with highway improvements, and the investment that we are making. The details of other transport investment will be seen in a written statement tomorrow. In response to the speech of the finance spokesman for the Welsh Conservatives, I believe that his response and his questions indicate that his party will back the Wales infrastructure investment plan and recognises that this is about ensuring that we make the most of the most difficult situation, in terms of the capital funding base, that we have had in over a generation: it is 12 per cent lower in real

I droi at y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol y bydd y Gweinidog yn ei gyhoeddi maes o law, mae pob cynllun o fewn ei gyllideb ac ar amser. Dyma faes lle dysgwyd gwersi a lle cymerwyd camau. Rwy'n siŵr y bydd Paul hefyd yn croesawu'r cyhoeddiad a wneuthum heddiw am ystyried ffyrdd i helpu awdurdodau lleol gyda gwelliannau i briffyrdd, a'r buddsoddiad yr ydym yn ei wneud. Caiff manylion buddsoddiad arall mewn trafnidiaeth eu gweld mewn datganiad ysgrifenedig yfory. Mewn ymateb i araith llefarydd cyllid y Ceidwadwyr Cymreig, credaf fod ei ymateb a'i gwestiynau yn dangos y bydd ei blaid yn cefnogi'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru ac yn cydnabod bod hyn yn ymwneud â sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'r sefyllfa fwyaf anodd, o ran y sylfaen cyllid cyfalaf, y buom ynddi ers dros genhedlaeth; mae 12 y cant yn is mewn termau real ers sefydlu'r Cynulliad

terms than it was when the Assembly came into being 12 or 13 years ago. We have a task before us that the Welsh Government is up to tackling.

12 neu 13 blynedd yn ôl. Mae gennym dasg o'n blaenau, ac mae Llywodraeth Cymru yn abl i'w thaclo.

**Ieuan Wyn Jones:** Yr wyf innau'n croesawu'r datganiad hwn. Yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn falch o glywed ein bod yn gallu croesawu rhai pethau yn y datganiad, o leiaf. Yn y lle cyntaf, croesawn y ffaith bod datganiad wedi ei wneud. Yn ail, croesawn y ffaith bod y Gweinidog wedi gofyn i rywun o statws Gerry Holtham ei helpu i lunio'r ddogfen hon, ac, wrth gwrs, yr wyf yn siŵr bod pobl eraill y tu allan i'r Llywodraeth a fyddai'n fodlon ei chynorthwyo yn hyn o beth.

**Ieuan Wyn Jones:** I also welcome this statement. I am sure that the Minister will be pleased to hear that we can welcome at least some of the things in the statement. First, we welcome the fact that the statement has been made. Secondly, we welcome the fact that the Minister has asked someone of Gerry Holtham's status to assist her in formulating this document, and, of course, I am sure that other people outside Government would be happy to assist her with that.

Croesawaf hefyd y ffaith bod gennych gynllun i ddefnyddio llywodraeth leol i fenthyca arian cyfalaf—o leiaf mae hynny'n mynd â ni gam ar y ffordd tuag at sicrhau arian y tu allan i'r bloc Cymreig. Mae hynny'n golygu ein bod wedi dechrau ar y broses o sicrhau bod cynlluniau y gall y Llywodraeth eu hyrwyddo, drwy ddefnyddio pwerau benthyca llywodraeth leol. Mae'r Gweinidog wedi ei gwneud yn glir bod y trafodaethau â Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn parhau ynghylch pwerau benthyca. Byddai'n dda pe gallai'r Gweinidog ddweud pa mor bell y mae'r trafodaethau wedi mynd. Ein dealltwriaeth yw bod y Llywodraeth yn annhebygol o roi pwerau benthyca heb ystyried rhoi pwerau trethu i'r Cynulliad Cenedlaethol. Byddem yn falch o glywed lle yr ydych wedi cyrraedd yn eich trafodaethau â Llywodraeth San Steffan.

I also welcome the fact that you have a scheme to use local government to borrow capital funding—at least that will take us one step along the road towards securing funding from outside the Welsh block. That means that we have started on the process of ensuring that there are schemes that the Government can promote, by using local government's borrowing powers. The Minister has said clearly that discussions are continuing with the UK Government about borrowing powers. It would be good if the Minister could tell us what point those discussions have reached. Our understanding is that the Government is unlikely to award borrowing powers without considering giving taxation powers to the National Assembly. We would be pleased to hear where you have reached in your discussions with the Westminster Government.

Mae nifer o bethau yn peri pryder yn sgîl y datganiad. Ein disgwyliad oedd y byddai'r Gweinidog mewn sefyllfa i gyhoeddi'r cynllun heddiw. Cofiaf fod mewn trafodaethau ynglŷn â'r cynllun hwn fel rhan o Lywodraeth Cymru'n Un 12 mis yn ôl. Ddeuddeng mis yn ddiweddarach, a dyma ni'n sôn am rywbeth yn digwydd ymhen 12 mis eto. Felly, o'r amser y buom yn trafod sefydlu'r cynllun hwnnw, byddem wedi disgwyl i rywbeth ddigwydd. Bydd dwy flynedd wedi mynd heibio cyn y bydd y cynllun hwn ar waith—hyd yn oed os yw'r Llywodraeth yn cadw at ei pholisi.

Several points in the document give cause for concern. We had expected that the Minister would be in a position today to announce the scheme. I remember being in discussions about this scheme as part of the One Wales Government 12 months ago. Twelve months have elapsed and we are talking about something happening 12 months hence. Therefore, in the time that we have been discussing the establishment of that scheme, we would have expected something to have happened. Two years will have elapsed before this scheme will be in place—even if the Government sticks to its policy.

Er na chyfeiriodd ato yn ei datganiad

Although she did not refer to it in her general

cyffredinol ar gyfalaf, gwyddom fod oedi'n digwydd mewn cynlluniau ym meysydd iechyd, trafnidiaeth ac addysg. Pryd y bydd cyhoeddiad gan y tri Gweinidog perthnasol am gynlluniau cyfalaf yn eu portffolios? Wedi'r cyfan, er i'r Gweinidog gyfeirio at ddwy gronfa—un y llynedd o £100 miliwn a gedwir yn ganolog, ac un eleni—mae'r cyfanswm yn llai nag 1 y cant o holl wariant cyfalaf y Llywodraeth. Byddem yn falch o glywed pryd yn union y cawn gyhoeddiadau am y meysydd penodol hynny.

statement on capital, we know that there are delays in schemes in the fields of health, transport and education. When will there be an announcement by the three relevant Ministers about the capital schemes in their portfolios? After all, although the Minister has referred to two funds—one last year of £100 million that is centrally retained, and one this year—the total is less than 1 per cent of the Government's capital expenditure. We would be pleased to hear when exactly we will have announcements about those specific areas.

There are a number of other matters on which we would like greater clarity. The first of them is the centrally retained fund, announced in March this year, of £105.4 million. When the Minister makes announcements tomorrow about the detail of the projects for the £90 million, it would be helpful if, at the same time, she could outline the starting date for each of the projects. It may well be that some of them have started and others have not; we do not know. It would therefore be very helpful if she could tell us when those schemes will start.

Hoffem fwy o eglurhad am nifer o faterion. Y cyntaf ohonynt yw'r gronfa a gedwir yn ganolog, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth eleni, o £105.4 miliwn. Pan fydd y Gweinidog yn gwneud datganiadau yfory am fanylion y prosiectau ar gyfer y £90 miliwn, byddai'n ddefnyddiol pe bai, ar yr un pryd, yn gallu amlinellu dyddiad cychwyn ar gyfer pob un o'r prosiectau. Efallai'n wir fod rhai ohonynt wedi cychwyn ac eraill heb wneud hynny; nid ydym yn gwybod. Byddai felly o ddefnydd pe bai'n gallu dweud wrthym pa bryd y bydd y cynlluniau hynny yn cychwyn.

What we have heard in the announcement about the centrally retained fund for next year are the global figures for each portfolio. It would be helpful if she could confirm in her announcement tomorrow in precise detail which projects they are and where they are. The reason for that is that we want to ensure that, if capital is being used to stimulate the economy, it is being used right across Wales. We want to make sure that everybody is treated fairly. It would therefore be helpful if she could make a statement tomorrow that details the projects and the starting date for each of them, because we would then understand precisely how the capital projects will stimulate the economy. That would be helpful not only with regard to the education announcements that she has made, but with regard to the announcements on transport.

Yr hyn a glywsom yn y cyhoeddiad am y gronfa a gedwir yn ganolog ar gyfer y flwyddyn nesaf yw'r ffigurau cyffredinol ar gyfer pob portffolio. Byddai o ddefnydd pe bai'n gallu cadarnhau yn ei datganiad yfory yn fanwl pa brosiectau ydynt a lle maen nhw. Y rheswm am hynny yw ein bod eisiau sicrhau, os yw cyfalaf yn cael ei ddefnyddio i ysgogi'r economi, ei fod yn cael ei ddefnyddio'n briodol ar hyd a lled Cymru. Yr ydym eisiau sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg. Byddai felly o ddefnydd pe bai hi'n gallu gwneud datganiad yfory sy'n rhoi manylion y prosiectau a dyddiad cychwyn pob un ohonynt, achos wedyn byddem yn deall yn union sut y bydd y projectau cyfalaf yn ysgogi'r economi. Byddai hynny o ddefnydd nid yn unig o ran y cyhoeddiadau addysg a wnaeth hi, ond hefyd o ran y cyhoeddiadau ar drafnidiaeth.

Minister, you say that you are exploring a range of opportunities to raise capital. Well, if I may say so, the statement is pretty vague about where we are on that—it is very general. It would be helpful if you could be a bit more specific about the whole issue of

Weinidog, rydych yn dweud eich bod yn ystyried amryw o gyfleoedd i godi cyfalaf. Wel, os caf i ddweud, mae'r datganiad yn eithaf annelwig ynglŷn â lle rydym ar hynny—mae'n gyffredinol iawn. Byddai o ddefnydd pe baech yn gallu bod fymryn yn

borrowing and where you are going to take the discussion. In other words, is the discussion with the UK Government and the Scottish Government about innovative models of raising finance? We know that the UK Treasury may well announce around the time of the autumn statement a fund that could be as much as £50 billion in order to raise money for capital spend. As the Minister will be aware, some of that capital will be recycled from within UK Government departments and other funds will be raised from the private sector, and the danger is that Wales will not get a penny out of that announcement. Therefore, we need to know how far you have got with the UK Government and the Scottish Government in your discussions on that issue. Have you also explored the borrowing powers of housing associations in addition to those of local authorities, as they can be used for things other than housing and would give housing associations greater freedom?

fwy penodol am fenthyca a'i holl oblygiadau a pha drywydd rydych am ei ddilyn â'r drafodaeth. Mewn geiriau eraill, a yw'r drafodaeth gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban am fodelau arloesol i godi cyllid? Gwyddom fod posibilrwydd cryf y gallai Trysorlys y DU gyhoeddi tua adeg datganiad yr hydref gronfa a allai fod cymaint â £50 biliwn er mwyn codi arian ar gyfer gwariant cyfalaf. Fel y gŵyr y Gweinidog, bydd rhywfaint o'r cyfalaf hwnnw yn cael ei ailgylchu yn adrannau Llywodraeth y DU a bydd cronfeydd eraill yn cael eu codi o'r sector preifat, a'r perygl yw na fydd Cymru yn cael ceiniog o'r cyhoeddiad hwnnw. Felly, mae angen i ni wybod pa mor bell yr ydych chi wedi mynd yn eich trafodaethau ar y mater hwnnw gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban. A ydych chi hefyd wedi ystyried pwerau benthyg cymdeithasau tai yn ogystal â rhai awdurdodau lleol, oherwydd gellir eu defnyddio ar gyfer pethau eraill ar wahân i dai a byddai'n rhoi mwy o ryddid i gymdeithasau tai?

The danger with your announcement today is that it is again a case of jam tomorrow: there will be an infrastructure fund announced next year. I welcome the fact that you have announced £90 million, but, in the scale of the Government's capital budget, that is a relatively small amount. People out there want to see projects being announced, to know where they are, how they will help the Welsh economy, how they will be introduced and their starting dates. We need to give young people who are currently out of work and the unemployed a real opportunity to get somewhere because projects have started across Wales.

Y perygl gyda'ch cyhoeddiad heddiw yw ei fod unwaith yn rhagor yn enghraifft o addewid gwag; bydd cronfa seilwaith yn cael ei chyhoeddi y flwyddyn nesaf. Croesawaf y ffaith eich bod wedi cyhoeddi £90 miliwn, ond swm cymharol fach yw hwnnw o ystyried maint cyllideb cyfalaf y Llywodraeth. Mae pobl ar lawr gwlad eisiau gweld prosiectau yn cael eu cyhoeddi, gan wybod lle maent, sut y byddant yn helpu economi Cymru, sut y cânt eu cyflwyno a'u dyddiadau cychwyn. Mae angen i ni roi cyfle go iawn i bobl ifanc sydd allan o waith ar hyn o bryd a'r di-waith i gyrraedd rhywle gan fod prosiectau wedi cychwyn ledled Cymru.

**Jane Hutt:** I welcome the positive response from the finance spokesperson and leader of Plaid Cymru. It is not a case of jam tomorrow—it is a substantial package today of capital stimulus, which is precisely what the Council for Economic Renewal business leaders said that they wanted in order to build economic confidence. In terms of the construction industry, I have met representatives of the industry over the last few weeks on construction sites for schools, hospitals, and, yesterday, for a social housing project. The construction industry was also

**Jane Hutt:** Croesawaf yr ymateb cadarnhaol gan lefarydd cyllid ac arweinydd Plaid Cymru. Nid enghraifft o addewid gwag ydyw—mae'n becyn sylweddol heddiw o ysgogiad cyfalaf, sef yn union beth ddywedodd arweinwyr busnes yn y Cyngor Adnewyddu'r Economi oedd ei angen arnynt i ddatblygu hyder economaidd. O ran y diwydiant adeiladu, rwyf wedi cwrdd â chynrychiolwyr y diwydiant dros yr wythnosau diwethaf ar safleoedd adeiladu ar gyfer ysgolion, ysbytai, a, ddoe, ar gyfer prosiect tai cymdeithasol. Roedd y diwydiant

awaiting this substantial package in terms of economic stimulus. It is important that we look to how we can implement this package as speedily as possible, but we must also be clear about how we develop this in consultation with business and our partners in local government.

adeiladu hefyd yn aros am y pecyn sylweddol hwn o ran ysgogiad economaidd. Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar sut y gallwn gyflwyno'r pecyn hwn mor gyflym â phosibl, ond rhaid i ni fod yn glir hefyd am sut y byddwn yn datblygu hyn wrth ymgynghori â busnes a'n partneriaid mewn llywodraeth leol.

I am sure that you would agree that the pace has increased tremendously over the past weeks as a result of our concerns about the economic downturn. This was the focus of our draft budget for growth and jobs. The Cabinet decided in June that we would develop a Wales infrastructure investment plan and have a strategic approach to innovative finance options and assets. I immediately instructed a small team to be formed in the strategic investment division to progress this work. We cannot develop the plan overnight, but, if it is to be truly successful, collaboration across not just Government departments and portfolios, but with key stakeholders, is essential. It is also a plan that draws together national and local government, as well as private sector investors as required, and we are making good progress.

Rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno bod y cyflymder wedi cynyddu'n sylweddol dros yr wythnosau diwethaf o ganlyniad i'n pryderon am y dirywiad economaidd. Dyna oedd ffocws ein cyllideb ddrafft ar gyfer twf a swyddi. Penderfynodd y Cabinet ym mis Mehefin y byddem yn datblygu cynllun i fuddsoddi yn seilwaith Cymru ac yn dilyn dull strategol o ran opsiynau ac asedau cyllid arloesol. Rhoddais orchymyn ar unwaith i sefydlu tîm bach yn yr is-adran buddsoddiad strategol i fynd â'r gwaith hwn yn ei flaen. Ni allwn ddatblygu'r cynllun dros nos, ond os yw am fod yn llwyddiant go iawn, mae'n hanfodol cydweithio â rhanddeiliaid allweddol ac nid dim ond ag adrannau a phortffolios y Llywodraeth. Mae'n gynllun hefyd sy'n tynnu llywodraeth genedlaethol a lleol at ei gilydd, yn ogystal â buddsoddwyr o'r sector preifat fel y bo angen, ac rydym yn gwneud cynnydd da.

I am glad that you welcome the appointment of Gerry Holtham. It indicates that we need to bring the best into Government to help us.

Rwy'n falch eich bod yn croesawu penodiad Gerry Holtham. Mae'n dangos ein bod angen denu'r hufen i'r Llywodraeth i'n helpu.

On the points that you raise about borrowing, the progress that we have made with developing the local government borrowing initiative in partnership with local authorities will be widely welcomed. It has been called for—it came up in the scrutiny of the budget. However, we are researching infrastructure plans throughout the UK and Europe to learn from the work previously done. It is important that we learn from those who are already developing those vehicles. The social housing sector and registered social landlords are the key to this. I was on a construction site yesterday in Ystrad Mynach where the housing association is developing affordable, sustainable housing with £4.2 million private sector investment. That is in the Member for Caerphilly's constituency. It has been widely welcomed as addressing housing need and affordability.

O ran y pwyntiau y gwnaethoch eu codi am fenthyca, bydd y cynnydd a wnaethom o ran datblygu menter benthyca llywodraeth leol mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol yn cael croeso brwd. Roedd galw amdano—soniwyd amdano wrth graffu ar y gyllideb. Fodd bynnag, rydym yn gwneud ymchwil i gynlluniau seilwaith ar hyd a lled y DU ac Ewrop er mwyn dysgu o'r gwaith a wnaed eisoes. Mae'n bwysig ein bod yn dysgu gan y sawl sy'n datblygu'r cynlluniau hynny yn barod. Mae'r sector tai cymdeithasol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn allweddol i hyn. Roeddwn ar safle adeiladu ddoe yn Ystrad Mynach lle mae'r gymdeithas tai yn datblygu tai fforddiadwy a chynaliadwy gyda £4.2 miliwn o fuddsoddiad sector preifat. Mae hynny yn etholaeth yr Aelod dros Gaerffili. Cafodd groeso brwd fel modd o ymdrin â'r angen am dai ac ymdrin â

ffforddiadwyedd.

3.15 p.m.

There will not be any delay in the announcement of schemes with regard to the national transport plan and the twenty-first century schools programme. I reassure Members that, regarding twenty-first century schools, the Minister for Education and Skills will announce a new programme of investment in December. The Minister for Local Government and Communities will also make an announcement on the national plan in December.

Ni fydd unrhyw oedi o ran cyhoeddi cynlluniau mewn perthynas â'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol a rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain. Rwy'n sicrhau Aelodau, o ran ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, y bydd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn cyhoeddi rhaglen fuddsoddi newydd ym mis Rhagfyr. Bydd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau hefyd yn gwneud datganiad ar y cynllun cenedlaethol ym mis Rhagfyr.

The points made by the finance spokesperson and leader of Plaid Cymru on delivery are important. The details of each project will be given in the written statement. It is important to recognise that there are a number of all-Wales schemes as well as schemes, such as these, that meet particular geographical needs. Those needs will emerge as priorities, for example, those in terms of flood prevention. Schemes such as the empty properties scheme, which is of an all-Wales nature and will bring empty properties back into use, will be widely welcomed by registered social landlords, local authorities, Shelter Cymru and those in need.

Mae'r pwyntiau a wnaed gan lefarydd cyllid ac arweinydd Plaid Cymru ar wireddu yn bwysig. Bydd manylion bob prosiect yn cael eu rhoi yn y datganiad ysgrifenedig. Mae'n bwysig sylweddoli bod nifer o gynlluniau Cymru gyfan yn ogystal â chynlluniau, fel y rhain, sy'n diwallu anghenion daearyddol penodol. Bydd yr anghenion hynny yn dod i'r amlwg fel blaenoriaethau, megis y rhai sy'n ymwneud ag atal llifogydd. Mae cynlluniau fel y cynllun eiddo gwag, sy'n gynllun Cymru gyfan ac a fydd yn dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, yn cael croeso brwd gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, awdurdodau lleol, Shelter Cymru a'r rheini sydd mewn angen.

I assure Ieuan Wyn Jones on phase 1 projects—the £105 million—that 18 capital projects were approved with a start date of 2011-12. Some 14 of those projects have begun spending and I am happy to share that information with Ieuan Wyn Jones, other finance spokespersons, and the Assembly as a whole, to demonstrate where we are on progress. I am happy to give as much detail as possible on the start date of the delivery of phase 2, which I am announcing today with the details to be given in a written statement tomorrow.

Rwy'n sicrhau Ieuan Wyn Jones o ran prosiectau cyfnod 1—y £105 miliwn—fod 18 o brosiectau cyfalaf wedi cael eu cymeradwyo, gyda 2011-12 yn ddyddiad cychwyn. Mae 14 o'r prosiectau hyn wedi dechrau gwario ac rwy'n falch o rannu'r wybodaeth honno gyda Ieuan Wyn Jones, llefarwyr cyllid eraill a'r Cynulliad cyfan, er mwyn dangos ble rydym o ran cynnydd. Rwy'n fodlon darparu cymaint o fanylion â phosibl am ddyddiad cychwyn cyfnod 2, yr wyf yn ei gyhoeddi heddiw, gan roi'r manylion mewn datganiad ysgrifenedig yfory.

Finally, on the £50 billion UK infrastructure fund, we await the Chancellor's statement next week. I have met the UK Minister for infrastructure and urged him to ensure that Wales's infrastructure needs were acknowledged in the plan. He confirmed that it was not new money, that it was recycled

Yn olaf, o ran cronfa seilwaith y DU gwerth £50 biliwn, rydym yn aros am ddatganiad y Canghellor yr wythnos nesaf. Rwyf wedi cwrdd â Gweinidog seilwaith y DU ac wedi ei annog i sicrhau bod anghenion seilwaith Cymru yn cael eu cydnabod yn y cynllun. Fe gadarnhaodd nad arian newydd mohono, ei

money, and that they are looking to other sources, as you will be aware I am sure, such as the pension fund. We await that announcement next week to see if our infrastructure needs, which I have pressed for, will be recognised and whether there will be any consequentials that we can take forward. This is a step change and if the Chamber could unite to back this plan, then business, the people of Wales, and those working in public services will benefit from it.

fod yn arian wedi ei ailgylchu, a'u bod yn edrych ar ffynonellau eraill, fel y gwyddoch rwy'n siŵr, megis y gronfa pensiwn. Rydym yn aros am y datganiad hwnnw yr wythnos nesaf er mwyn gweld a yw ein hanghenion seilwaith, yr wyf wedi eu pwysleisio, yn cael eu cydnabod ac a fydd unrhyw arian canlyniadol yn dod i ni. Mae hwn yn newid sylweddol, a phe bai'r Siambr yn gallu uno i gefnogi'r cynllun hwn, yna bydd busnes, pobl Cymru, a'r rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus yn elwa ohono.

**Peter Black:** I welcome the statement and the announcements contained therein. Minister, you started off by referring to the significant cut in capital that the Welsh Government is experiencing and, like you, I very much regret that. However, I have noted that, under the budget announced by Alistair Darling in 2009, Welsh capital funds would have been cut by 45 per cent over three years, which would have meant faster and deeper cuts than those implemented by the present administration. That underlines the economic situation that we are all facing and which has led to those cuts.

**Peter Black:** Croesawaf y datganiad a'r cyhoeddiadau sydd wedi eu cynnwys ynddo. Weinidog, gwnaethoch chi ddechrau drwy gyfeirio at y toriad sylweddol mewn cyfalaf y mae Llywodraeth Cymru yn ei gael ac, fel chithau, rwy'n gresynu'n fawr at hynny. Fodd bynnag, rwyf wedi nodi y byddai cronfeydd cyfalaf Cymru, yn y gyllideb a gyhoeddwyd gan Alistair Darling yn 2009, wedi cael ei thorri 45 y cant dros dair blynedd, a fyddai wedi golygu toriadau cyflymach a dyfnach na'r rhai a gyflwynwyd gan y weinyddiaeth bresennol. Mae hynny'n tanlinellu'r sefyllfa economaidd rydym i gyd yn ei hwynebu ac sydd wedi arwain at y toriadau hynny.

In relation to some of the announcements in your statement, I am particularly interested in the timetable for the review that Gerry Holtham will conduct and its scope. Can you indicate when we will have details on that? It is important that we have an idea of when we could have an outcome, so that we can scrutinise his recommendations for boosting the Welsh economy. I welcome the capital allocations, in particular the £32 million for schools, which I note is being announced in December. Does that announcement relate to new schemes, or will it be used to finish off schemes that have already been announced? I may have to wait for an answer from the Minister, but it would be useful if you could give some indication today.

O ran rhai o'r cyhoeddiadau yn eich datganiad, mae gen i ddiddordeb arbennig yn yr amserlen ar gyfer yr adolygiad y bydd Gerry Holtham yn ei gynnal, a'i gwmpas. A allwch chi ddweud wrthym pryd y cawn ni fanylion am hynny? Mae'n bwysig bod gennym syniad o pryd y gallem ni gael canlyniad, fel y gallwn ni graffu ar ei argymhellion ar gyfer hybu economi Cymru. Croesawaf y dyraniadau cyfalaf, yn enwedig y £32 miliwn i ysgolion, sy'n cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr, fe sylwaf. A yw'r cyhoeddiad hwnnw yn gysylltiedig a chynlluniau newydd, neu a fydd yn cael ei ddefnyddio i orffen cynlluniau a gyhoeddwyd yn barod? Efallai y bydd yn rhaid i mi aros am ateb gan y Gweinidog, ond byddai'n ddefnyddiol pe gallech chi roi rhyw syniad i ni heddiw.

In relation to the Wales recyclable loans fund for empty properties, I very much welcome that initiative. I would be interested in getting more details as to how that will be applied, who will be operating that fund, and what

O ran y gronfa benthyciadau ailgylchadwy ar gyfer eiddo gwag, rwy'n croesawu'r fenter honno yn frwd. Byddai diddordeb gen i gael mwy o fanylion am sut y bydd honno yn cael ei rhoi ar waith, pwy fydd yn gweithredu'r

areas it will apply to—will it apply to residential properties only or to commercial properties as well? Could you indicate when those details will be published by the Government, so that we can scrutinise them? On housing improvement and regeneration in north Wales, you referred to one of north Wales's most deprived areas. Perhaps you could identify that area so that we could look at that as well.

gronfa honno, ac i ba feysydd y bydd yn berthnasol—a fydd yn berthnasol i eiddo preswyl yn unig neu i eiddo masnachol hefyd? A alwch chi ddweud wrthym pa bryd y caiff y manylion hynny eu cyhoeddi gan y Llywodraeth, fel y gallwn graffu arnynt? O ran gwella tai ac adfywio yn y gogledd, fe gyfeirioch at un o ardaloedd mwyaf difreintiedig y gogledd. Efallai y byddai modd i chi ddweud lle mae'r ardal honno fel y gallwn ni edrych ar honno hefyd.

I have a few more questions. In relation to the unsupported borrowing for local government, can you give some indication as to how much additional revenue will be available to local government to fund that, what vehicle you will use to get that to local government, and over what period? That is quite important in terms of how local government plans to use that money.

Mae gen i ychydig mwy o gwestiynau. O ran benthyca digymorth ar gyfer llywodraeth leol, a allwch chi roi rhyw syniad faint o refeniw ychwanegol fydd ar gael i lywodraeth leol i ariannu hynny, pa gyfrwng y byddwch yn ei ddefnyddio i gael hynny i lywodraeth leol, a thros pa gyfnod? Mae hynny yn eithaf pwysig o ran sut mae llywodraeth leol yn bwriadu defnyddio'r arian hwnnw.

Finally, with regard to the Wales infrastructure investment plan, again, can you give us an indication of the scope of what that plan will cover? Will it cover capital investment across the entire Welsh Government or is it your intention to limit it to specific areas of Government expenditure at this time?

Yn olaf, o ran y cynllun buddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru, eto, a allwch chi roi rhyw syniad beth fydd cwmpas y cynllun hwnnw? A fydd yn cwmpasu buddsoddiad cyfalaf ar draws pob rhan o Lywodraeth Cymru neu ai eich bwriad yw ei gyfyngu i feysydd penodol o wariant y Llywodraeth ar hyn o bryd?

**Jane Hutt:** Again, the support of the Welsh Liberal Democrat finance spokesperson is very welcome. To clarify, engaging Gerry Holtham is not engaging him to undertake another review or a commission; I am engaging him to do some work. He is coming into Government and he will work to help to deliver this Wales infrastructure investment plan with Government Ministers and our stakeholders. In terms of the timetabling of that, I said in my statement that we will have an outline plan in the spring and a full plan in the autumn. It is important that we use his knowledge and expertise. You will be well aware of his strong views on and his interest in this, not just in terms of the local government borrowing initiative, which you will have noticed publicly, but the social housing sector. He will be working with Community Housing Cymru, which is also eager and anxious to get on with the infrastructure opportunities that we can develop.

**Jane Hutt:** Eto, mae cefnogaeth llefarydd cyllid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i'w chroesawu'n frwd. I fod yn glir, nid ydym yn gofyn i Gerry Holtham ymgymryd ag adolygiad na chomisiwn arall; rwyf wedi mynd ato i ofyn iddo wneud darn o waith. Mae'n dod i mewn i'r Llywodraeth a bydd yn helpu i gyflwyno'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru gyda Gweinidogion y Llywodraeth a'n rhanddeiliaid. O ran yr amserlen ar gyfer hynny, dywedais yn fy natganiad y bydd gennym amlinelliad o gynllun yn y gwanwyn a chynllun llawn yn yr hydref. Mae'n bwysig ein bod yn defnyddio ei wybodaeth a'i arbenigedd. Byddwch yn gwybod yn dda am ei farn gref a'i ddiddordeb yn hyn, nid dim ond o ran menter benthyca llywodraeth leol, y byddwch wedi sylwi arni yn gyhoeddus, ond hefyd y sector tai cymdeithasol. Bydd yn gweithio gyda Chartefi Cymunedol Cymru, sydd hefyd yn awyddus i fwrw ymlaen â'r cyfleoedd seilwaith y gallwn eu datblygu.

When we look at the local government borrowing initiative and how we can ensure that we support local government, we must be aware of the disproportionate cuts to local government unsupported borrowing. The issue is that we need to help it with unsupported borrowing. We will ease the revenue pressures, and I can tell you that to lever in this £100 million to £170 million, we will allocate £12 million for that purpose. We expect that to be reflected in the speedy progress that we expect to make with the highways improvement scheme.

Pan edrychwn ar fenter benthyca llywodraeth leol a sut y gallwn sicrhau ein bod yn cefnogi llywodraeth leol, rhaid i ni fod yn ymwybodol o'r toriadau anghymesur i fenthyca digymorth llywodraeth leol. Y pwynt yw bod angen i ni ei helpu gyda benthyca digymorth. Byddwn yn lliniaru'r pwysau refeniw, a gallaf ddweud wrthych y byddwn yn dyrannu £12 miliwn er mwyn ysgogi'r £100 miliwn i £170 miliwn hwn. Disgwyliwn i hynny gael ei adlewyrchu yn y cynnydd cyflym y disgwyliwn ei wneud gyda'r cynllun i wella priffyrdd.

The housing sector has been waiting for the empty homes initiative and I am sure that other Members in the Chamber will welcome it. Certainly, the Minister for Housing, Regeneration and Heritage has been pressing for it. It has been a candidate for centrally retained capital funds. I cannot give you the details of it today. You will receive the details of the allocations not just to all-Wales schemes, but to individual geographically specific schemes.

Mae'r sector tai wedi bod yn aros am y fenter tai gwag, ac rwy'n siŵr y bydd Aelodau eraill yn y Siambr yn ei chroesawu. Yn sicr, bu'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth yn pwyso amdani. Bu'n un o'r rhai a ystyriwyd ar gyfer cronfeydd cyfalaf a gedwir yn ganolog. Ni allaf roi'r manylion i chi heddiw. Byddwch yn derbyn manylion y dyraniadau nid yn unig i gynlluniau Cymru gyfan, ond hefyd i gynlluniau daearyddol-benodol unigol.

In terms of the £32 million for the twenty-first century schools schemes, you will see what those schemes are tomorrow morning when I publish my written statement. However, it is investment in the delivery of twenty-first century schools, which, of course, means that there is more opportunity within the Minister's programme in terms of the twenty-first century schools allocation.

O ran y £32 miliwn ar gyfer cynlluniau ysgolion unfed ganrif ar hugain, fe welwch chi beth yw'r cynlluniau hynny bore fory pan gyhoeddaf fy natganiad ysgrifenedig. Fodd bynnag, buddsoddiad ydyw er mwyn cyflwyno ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, sy'n golygu, wrth gwrs, fod mwy o gyfle yn rhaglen y Gweinidog o ran y dyraniad i ysgolion yr unfed ganrif ar hugain.

To give an overall response to Peter Black, I am sure that he will realise that this is a Wales infrastructure investment plan in which we will use every lever, including imaginative and innovative levers, across the public and private sectors and the non-governmental opportunities that I am sure will be available to us.

I roi ateb cyffredinol i Peter Black, rwy'n siŵr y bydd yn sylweddoli fod hwn yn gynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru lle byddwn yn defnyddio pob ysgogiad, yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, a'r cyfleoedd y tu allan i lywodraeth yr wyf yn siŵr y byddant ar gael i ni.

**Mick Antoniw:** Thank you for the report, Minister. You talk about national levers, and a national airport is a major economic lever and a major part of an economic regeneration programme. I have real concerns that Cardiff Airport is, in fact, in commercial and economic free fall. In 2007, its terminal passengers numbered 2 million, but by 2010, that was down to 1.4 million. Its air transport

**Mick Antoniw:** Diolch am eich adroddiad, Weinidog. Rydych yn sôn am ysgogiadau cenedlaethol, ac mae maes awyr cenedlaethol yn ysgogiad economaidd o bwys ac yn rhan fawr o raglen adnewyddu'r economi. Mae gennyf bryderon dwys fod Maes Awyr Caerdydd, mewn gwirionedd, mewn dirywiad masnachol ac economaidd. Yn 2007, roedd ganddo 2 filiwn o deithwyr, ond roedd hynny

movements were down from 43,000 to 25,000, and its air freight in 2007 was 2,400 tonnes and is now down to 28 tonnes. It had a plan for 5 million passengers by 2015 and that is now a plan for fantasy land. I have real concerns about where the airport fits within our economic strategy and I would appreciate it if you and the Government would give some consideration to the future of the airport and its role within our economic regeneration programme.

lawr i 1.4 miliwn erbyn 2010. Roedd ei symudiadau cludiant awyr i lawr o 43,000 i 25,000, ac roedd cludiant awyr yn 2007 yn 2,400 tunnell ac mae bellach lawr i 28 tunnell. Roedd ganddo gynllun ar gyfer 5 miliwn o deithwyr erbyn 2015, ond ffantasi pur yw'r cynllun hwnnw bellach. Mae gen i bryderon dwys am le mae'r maes awyr yn ffitio yn ein strategaeth economaidd a byddwn yn gwerthfawrogi pe baech yn rhoi rhywfaint o ystyriaeth i ddyfodol y maes awyr a'i rôl yn ein rhaglen i adnewyddu'r economi.

**Jane Hutt:** I thank you for that question. The Minister will be responding to a debate tomorrow on Cardiff Airport. We are working closely with the airport, not only on identifying potential new routes into Wales, but having ongoing discussions about support in terms of marketing and promotion. This will be debated tomorrow.

**Jane Hutt:** Diolch i chi am y cwestiwn hwnnw. Bydd y Gweinidog yn ymateb i ddadl yfory am Faes Awyr Caerdydd. Rydym yn gweithio'n agos â'r maes awyr, o ran nodi llwybrau newydd posibl i mewn i Gymru ac o ran cael trafodaethau parhaus am gymorth o ran marchnata a hyrwyddo. Bydd cyfle yfory i gynnal dadl am hyn.

## Datganiad: Llywodraethu Addysg Bellach
## Statement: Further Education Governance

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** The programme for government commits us to restructuring the governance of further education institutions in Wales following the report from the independent review chaired by Rob Humphreys, director of the Open University in Wales. The independent review was tasked with considering two key issues: whether the existing governance arrangements of colleges in Wales are still appropriate, given the changing face of further education in response to national strategies, including transformation; and how models of social enterprise could inform governance arrangements. The review panel's discussions and evaluations were based on wide consultation with stakeholders and independent research.

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Mae'r rhaglen lywodraethu yn ein hymrwymo i ailstrwythuro'r modd y caiff sefydliadau addysg bellach eu llywodraethu yng Nghymru yn dilyn adroddiad yr adolygiad annibynnol a gadeiriwyd gan Rob Humphreys, cyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru. Cafodd yr adolygiad annibynnol y gwaith o ystyried dau fater allweddol: pa un a yw trefniadau llywodraethu colegau sy'n bodoli eisoes yn dal i fod yn briodol, o ystyried y modd mae addysg bellach yn newid er mwyn ymateb i strategaethau cenedlaethol, gan gynnwys trawsnewid; a sut y gallai modelau menter cymdeithasol lywio trefniadau llywodraethu. Roedd trafodaethau a gwerthusiadau y panel adolygu yn seiliedig ar ymgynghoriad helaeth gyda rhanddeiliaid ac ymchwil annibynnol.

The Humphreys report proposed a new and innovative social enterprise model of governance designed to build on the progress of recent years and further enhance the responsiveness of colleges in delivering academic and vocational learning. The proposals were inspired by the model developed and adopted by Glas Cymru, one

Cynigiodd adroddiad Humphreys fodel llywodraethu newydd ac arloesol yn seiliedig ar fentrau cymdeithasol, gyda'r bwriad o adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn y blynyddoedd diweddaf ac er mwyn gwella'r ffordd y mae colegau yn darparu addysg academaidd a galwedigaethol ymhellach. Cafodd y cynigion eu hysbrydoli gan y model

of the largest social enterprises in Wales. We have already seen some of the elements of this model working successfully at Coleg Llandrillo in north Wales, where a system of local college councils allows around 120 learners, staff, local employers and other partners to influence decision making—a model considered to be good practice by Estyn.

a ddatblygwyd ac a fabwysiadwyd gan Glas Cymru, un o fentrau cymdeithasol mwyaf Cymru. Rydym eisoes wedi gweld rhai elfennau o'r model hwn yn gweithio'n llwyddiannus yng Ngholeg Llandrillo yn y gogledd, lle mae system o gynghorau coleg lleol yn galluogi 120 o ddysgwyr, staff, cyflogwyr lleol a phartneriaid eraill i ddylanwadu ar benderfyniadau—mae hwn yn fodel o arfer da yn ôl Estyn.

The model proposed by the independent review comprises two key elements: a new leaner and smaller board of directors, and a membership body populated by users and stakeholders, including staff, from the communities served by the college. The new arrangements will bring a number of benefits. They will allow colleges to make appointments to the board on the basis of skills and expertise, giving a degree of flexibility to reflect the unique needs and circumstances of each college.

Mae'r model a gynigir gan yr adolygiad annibynnol yn cynnwys dwy brif elfen: bwrdd cyfarwyddwyr fwy darbodus a llai, a chorff aelodaeth sy'n cynnwys defnyddwyr a rhanddeiliaid, gan gynnwys staff, o'r cymunedau a wasanaethir gan y coleg. Bydd y trefniadau newydd yn dod â nifer o fuddion. Byddant yn galluogi colegau i wneud penodiadau i'r bwrdd ar sail sgiliau ac arbenigedd, gan roi elfen o hyblygrwydd i adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau unigryw pob coleg.

The board will publish an annual statement setting out its progress against performance indicators set by the Welsh Government. Importantly, these indicators will evaluate the college's responsiveness to the needs of its learners, employers and wider community. The review also made a number of other recommendations to strengthen governance arrangements, including supporting partnership arrangements with other providers; the establishment of employer observatories, building on existing good practice in employer engagement; an all-Wales training programme for all involved in governance in FE; and a code of governance to be developed by ColegauCymru.

Bydd y bwrdd yn cyhoeddi datganiad blynyddol yn dangos ei gynnydd yn erbyn dangosyddion perfformiad a bennir gan Lywodraeth Cymru. Yn bwysig, bydd y dangosyddion hyn yn gwerthuso pa mor ymatebol yw'r coleg i anghenion ei ddysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned ehangach. Gwnaeth yr adolygiad hefyd nifer o argymhellion i gryfhau trefniadau llywodraethu, gan gynnwys cefnogi trefniadau partneriaeth gyda darparwyr eraill; sefydlu arsyllfeydd cyflogwyr, adeiladu ar arfer da sy'n bodoli eisoes o ran ymgysylltu â chyflogwyr; rhaglen Cymru gyfan ar gyfer pawb sydd ynghlwm â llywodraethu mewn addysg bellach; a chod llywodraethu i'w ddatblygu gan ColegauCymru.

After receiving the report in March, I asked my officials to undertake a formal consultation with stakeholders on its recommendations. The consultation was issued to a wide range of organisations, including employers, the voluntary sector, local authorities and unions, as well as the further education sector itself. A series of events was held to give stakeholders the opportunity to discuss the proposals. I would like to thank everyone who responded to the consultation, whose comments, opinions and suggestions have helped inform our response

Ar ôl derbyn yr adroddiad ym mis Mawrth, gofynnais i'm swyddogion gynnal ymgynghoriad ffurfiol gyda rhanddeiliaid ar ei argymhellion. Cafodd yr ymgynghoriad ei ddosbarthu i amrywiaeth helaeth o sefydliadau, gan gynnwys cyflogwyr, y sector gwirfoddol, awdurdodau lleol ac undebau, yn ogystal â'r sector addysg bellach ei hun. Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau i roi cyfle i randdeiliaid drafod y cynigion. Hoffwn ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad, ac mae eu sylwadau, safbwyntiau ac awgrymiadau wedi helpu i

to the review's recommendations.

llywio ein hymateb i argymhellion yr adolygiad.

Some of the organisations that responded felt the review was too radical and did not support the recommendations, but overall the responses can be described as being cautiously supportive. They are supportive because they see the bigger picture. That is, through the changing landscape of further education in Wales, colleges are becoming larger and increasingly heterogeneous organisations. They must not lose their responsiveness to the needs of their communities, learners and employers. They are cautious because many of the respondents are, justifiably, proud of the achievements of Welsh colleges. They want to ensure that any changes bring added value to colleges, building on existing good practice.

Roedd rhai o'r sefydliadau a ymatebodd yn teimlo bod yr adolygiad yn rhy radical ac nid oeddynt yn cefnogi'r argymhellion, ond, ar y cyfan, gellid disgrifio'r ymatebion fel rhai gochelgar o gefnogol. Maent yn gefnogol oherwydd eu bod yn gweld y darlun mwy. Hynny yw, oherwydd tirwedd gyfnewidiol addysg bellach yng Nghymru, mae colegau yn mynd yn sefydliadau mwy a chynyddol amrywiol. Ni ddylent golli eu gallu i fod yn ymatebol i anghenion eu cymunedau, dysgwyr a chyflogwyr. Maent yn ochelgar achos bod llawer o'r ymatebwyr yn falch o lwyddiannau colegau yng Nghymru, a hynny gyda chyfiawnhad. Maent eisiau sicrhau bod unrhyw newidiadau yn dod â gwerth ychwanegol i golegau, gan adeiladu ar arfer da sy'n bodoli eisoes.

The responses have highlighted some of the key challenges that will need to be addressed in taking this forward. It is essential that the two components—the board and the membership body—complement each other and work harmoniously for the benefit of the learner. The further education sector does not stand alone, and it needs to work with schools, local authorities, training providers, the third sector and higher education in order to meet learners' diverse needs.

Mae'r ymatebion wedi amlygu rhai o'r heriau allweddol y bydd angen eu datrys o ran mynd â hyn yn ei flaen. Mae'n hanfodol bod y ddwy elfen—y bwrdd a'r corff aelodaeth—yn cydweddu ac yn cydweithio'n dda er budd y dysgwr. Nid yw'r sector addysg bellach yn sefyll ar wahân, ac mae angen iddo weithio gydag ysgolion, awdurdodau lleol, darparwyr hyfforddiant, y trydydd sector ac addysg uwch er mwyn diwallu'r anghenion amrywiol sydd gan ddysgwyr.

3.30 p.m.

I have accepted the key recommendations from the independent review. However, I have agreed one important amendment. I believe it is paramount for learners to have a place on the governing body. I want Wales to become a model for learner involvement. Therefore, two board places will be guaranteed for learners who will be identified through election. I also want to take this opportunity to see an improved gender balance on boards. I will be actively encouraging boards to take steps to encourage women to apply for their vacancies. The new arrangements will need to be phased in. Some governing bodies are currently planning for, or have just carried out, a merger. Naturally, I want to avoid derailing ongoing merger discussions, and want to build in detailed planning to ensure a

Yr wyf wedi derbyn argymhellion allweddol yr adolygiad annibynnol. Fodd bynnag, yr wyf wedi cytuno ar un newid pwysig. Credaf ei bod yn hollbwysig i ddysgwyr gael lle ar y corff llywodraethol. Yr wyf eisiau i Gymru fod yn fodel am gynnwys dysgwyr. Felly, caiff dau le ar y bwrdd eu gwarantu ar gyfer dysgwyr a fydd yn cael eu dewis drwy etholiad. Yr wyf hefyd am gymryd y cyfle hwn i weld gwell cydbwysedd rhwng y rhywiau ar fyrddau. Byddaf yn mynd ati i annog byrddau i gymryd camau i annog menywod i wneud cais am swyddi gwag. Bydd angen cyflwyno'r trefniadau newydd yn raddol. Ar hyn o bryd, mae rhai cyrff llywodraethu yn cynllunio ar gyfer, neu newydd gynnal cyfuno. Yn naturiol, yr wyf eisiau osgoi bwrw'r trafodaethau uno parhaus oddi ar y cledrau, ac yr wyf yn awyddus i

smooth transition to the new system of governance. A three-year phasing in period will be implemented with the new arrangements being introduced by the start of the 2015-16 academic year. If primary legislation is required to establish the proposed membership bodies, I will introduce a standalone Bill for introduction in early 2013 with anticipated Royal Assent by early 2014. This will allow an 18-month period for piloting and the development of the necessary regulations. To help us implement the review's recommendations effectively, I have established a small task and finish group consisting of six representatives from the sector to work in partnership with the Welsh Government. This group will help to develop the detail needed to support the recommendations. The group will complete its work in February 2012.

adeiladu mewn cynllunio manwl i sicrhau trosglwyddiad llyfn i'r system newydd o lywodraethu. Bydd cyfnod graddol tair blynedd yn cael ei rhoi ar waith gyda'r trefniadau newydd a gyflwynir erbyn dechrau'r flwyddyn academaidd 2015-16. Os oes angen deddfwriaeth sylfaenol i sefydlu'r cyrff aelodaeth arfaethedig, byddaf yn cyflwyno Mesur annibynnol yn gynnar yn 2013 gyda'r disgwyl o gael Cydsyniad Brenhinol erbyn dechrau 2014. Bydd hyn yn caniatáu cyfnod o 18 mis ar gyfer treialu a datblygu'r rheoliadau angenrheidiol. Er mwyn ein helpu i weithredu argymhellion yr adolygiad yn effeithiol, yr wyf wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen bach yn cynnwys chwe chynrychiolydd o'r sector i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Bydd y grŵp hwn yn helpu i ddatblygu'r manylion y mae eu hangen i ategu'r argymhellion. Bydd y grŵp yn cwblhau ei waith ym mis Chwefror 2012.

I believe these new dynamic arrangements are a natural evolution from present arrangements. I hope we can all work together to make the new arrangements successful and introduce a new and re-invigorated vibrant culture of governance that will support the FE sector in the future.

Credaf fod y trefniadau deinamig newydd hyn yn esblygiad naturiol o'r trefniadau presennol. Yr wyf yn gobeithio y gallwn i gyd weithio gyda'n gilydd i wneud y trefniadau newydd yn llwyddiannus a chyflwyno diwylliant newydd o lywodraethu sydd wedi'i adfywio ac a fydd yn cefnogi'r sector addysg bellach yn y dyfodol.

**Angela Burns:** I welcome your statement today, Minister, and I say, on behalf of the Welsh Conservatives, that we broadly support the changes proposed by the Humphreys report. However, it is a major change, which will obviously need careful implementation. I ask that, while looking at this proposed new model for Government, you ensure that it does not lead to any increased bureaucracy or increased cost, although I agree with the proposal that you should consider paying some of the chairs of either the membership body or the board.

**Angela Burns:** Yr wyf yn croesawu eich datganiad heddiw, Weinidog, a dywedaf, ar ran y Ceidwadwyr Cymreig, ein bod, yn fras, yn cefnogi'r newidiadau a gynigiwyd gan adroddiad Humphreys. Fodd bynnag, mae'n newid mawr a fydd, wrth gwrs, angen ei weithredu yn ofalus. Gofynnaf ichi, wrth edrych ar y model newydd arfaethedig hwn ar gyfer y Llywodraeth, i sicrhau nad yw'n arwain at unrhyw gynnydd o ran biwrocratiaeth neu gost, er fy mod yn cytuno â'r cynnig y dylech ystyried talu rhai o gadeiryddion unai'r corff aelodaeth neu'r bwrdd.

Although we must ensure that further education institutions collaborate strongly with partners, especially the business partners—and the observatories are an excellent forum—we must also ensure that the needs of learners on academic courses are a subject of equal focus. The particular issues that I would like to raise centre around the

Er bod yn rhaid inni sicrhau bod sefydliadau addysg bellach yn cydweithio yn gryf gyda phartneriaid, yn arbennig y partneriaid busnes—ac mae'r arsyllfeydd yn fforwm rhagorol—mae'n rhaid inni hefyd sicrhau bod anghenion y dysgwyr ar gyrsiau academaidd yn destun ffocws cyfartal. Y materion penodol yr hoffwn eu codi yw'r rhai

three dimensions that Humphreys has identified: the dimensions of governance, security and accountability; ownership; and capacity and effectiveness. Touching on ownership, with regard to the board, I note that you have decided to reserve two places on the board for student learners, which is good, although I am concerned, given the legal status on non-executive directors, that we must ensure that there are adequate safeguards in place for those learners. A great many of them may be relatively young and they will also be concentrating on studies at the same time, and there are now, in line with the Cadbury report, very onerous duties upon non-executive directors. Humphreys also identifies the difficulties of recruitment given the transient nature and pressure of work.

ynghylch y tri dimensiwn y mae Humphreys wedi eu nodi: dimensiynau llywodraethu, diogelwch ac atebolrwydd; perchnogaeth; a gallu ac effeithiolrwydd. I ymdrin â pherchnogaeth, o ran y bwrdd, sylwaf eich bod wedi penderfynu cadw dau le ar y bwrdd ar gyfer dysgwyr sy'n fyfyrwyr, ac mae hynny'n dda, er fy mod yn bryderus, o ystyried statws cyfreithiol ar gyfarwyddwyr anweithredol, bod yn rhaid inni sicrhau bod trefniadau digonol ar waith ar gyfer diogelu'r dysgwyr hynny. Gall llawer ohonynt fod yn gymharol ifanc a byddant hefyd yn canolbwyntio ar astudiaethau ar yr un pryd, ac y mae yn awr, yn unol ag adroddiad Cadbury, ddyletswyddau beichus iawn ar gyfarwyddwyr anweithredol. Mae Humphreys hefyd yn nodi anawsterau recriwtio o ystyried natur a phwysau gwaith dros dro.

I note that there is no staff role on the board and I wonder whether you can explain why. I have obviously received many representations on this issue and I have read some of the responses to Humphreys. There is a strong view that having staff members on the board would enable people to speak out, as well as enabling whistleblowing and an early warning function. Staff members would also be free to voice difficult or unpopular opinions without worrying about the safety of their job. Also, it runs contrary to what happens in schools and in higher education. Schools have staff governors, and, in the case of higher education, the McCormick review recommends the retention of staff governors. Will you comment on that?

Nodaf nad oes unrhyw rôl ar gyfer staff ar y bwrdd. Tybed a allwch chi egluro pam. Yr wyf, wrth gwrs, wedi derbyn nifer o sylwadau ar y mater hwn ac yr wyf wedi darllen rhai o'r ymatebion i Humphreys. Mae yna farn gref y byddai cael aelodau o staff ar y bwrdd yn galluogi pobl i siarad allan, yn ogystal â galluogi datgelu camarfer a swyddogaeth rhybudd cynnar. Byddai aelodau'r staff hefyd yn rhydd i leisio barn anodd neu amhoblogaidd heb boeni am ddiogelwch eu swyddi. Hefyd, mae'n rhedeg yn groes i'r hyn sy'n digwydd mewn ysgolion ac mewn addysg uwch. Mae gan ysgolion lywodraethwyr-staff, ac, yn achos addysg uwch, mae'r adolygiad McCormick yn argymell eu cadw. A wnewch sylwadau ar hynny?

Turning to the membership body, how will the numbers be controlled? I know that Humphreys recommends no more than 50, but if further education institutes are becoming more collaborative, how will you handle that situation in tandem with the sort of Coleg Llandrillo Cymru situation, where you have some 120 people working together on a membership board? Humphreys goes on to say that it is not easy to find the right people willing and able to commit to governor duties. Therefore, I ask the same question about membership boards having a large number of members. Three years is a long time for volunteers on membership

I droi at y corff aelodaeth, sut y rheolir y niferoedd? Gwn fod Humphreys yn argymell dim mwy na 50, ond os yw sefydliadau addysg bellach yn dod yn fwy cydweithredol, sut y byddwch yn ymdrin â'r sefyllfa honno ar y cyd â'r math o sefyllfa yng Ngholeg Llandrillo Cymru, lle mae gennych ryw 120 o bobl yn gweithio gyda'i gilydd ar fwrdd aelodaeth? Aiff Humphreys ymlaen i ddweud nad yw'n hawdd dod o hyd i'r bobl iawn sy'n fodlon ac yn gallu ymrwymo i ddyletswyddau llywodraethwyr. Felly, gofynnaf yr un cwestiwn am fyrddau aelodaeth yn cael nifer fawr o aelodau. Mae tair blynedd yn amser hir i wirfoddolwyr ar

boards to commit to. Do we therefore need to review that time, particularly given that students are usually there for just three or four years? Do you think that meeting three times a year, and as such a large group, will be adequate to provide proper and effective scrutiny of the board itself? There must also be concerns regarding who decides who should serve on the membership board and to whom they are ultimately accountable. I have seen some outstanding membership bodies, but I have also seen some truly dreadful ones, which are mainly there for self-interest.

fyrddau aelodaeth ymrwymo iddo. A oes angen inni adolygu'r amser hwnnw, felly, yn enwedig o ystyried bod myfyrwyr yn arfer bod yno am dair neu bedair blynedd yn unig? A ydych yn credu y bydd cyfarfod deirgwaith y flwyddyn, ac fel grŵp mor fawr, yn ddigon i ddarparu craffu priodol ac effeithiol o'r bwrdd ei hun? Mae'n rhaid hefyd bod pryderon ynghylch pwy sy'n penderfynu pwy a ddylai wasanaethu ar y bwrdd aelodaeth ac i bwy y maent yn atebol yn y pen draw. Yr wyf wedi gweld rhai cyrff aelodaeth rhagorol, ond yr wyf hefyd wedi gweld rhai gwirioneddol wael, sydd yno yn bennaf ar gyfer hunan-les.

I must raise a concern about the fact that Humphreys suggests that the inaugural chairs should be appointed by the Minister for education. However, I do not think that that does an awful lot for ownership or accountability and scrutiny on a local level. Therefore, could you perhaps look at how the decision on the chairs for that first three-year term could be given back to the further education institute, or look at whether it could be just a one-year term to get things up and running? The same goes for whoever ends up appointing the chair of the membership body.

Mae'n rhaid imi fynegi pryder am y ffaith bod Humphreys yn awgrymu y dylai'r cadeiryddion cyntaf gael eu penodi gan y Gweinidog dros addysg. Fodd bynnag, ni chredaf fod hynny'n gwneud llawer iawn i berchnogaeth neu atebolrwydd a chraffu ar lefel leol. Felly, a allech edrych efallai ar sut y gallai'r penderfyniad ar y cadeiryddion ar gyfer y cyfnod tair blynedd cyntaf gael ei roi yn ôl i'r sefydliad addysg bellach, neu edrych i weld a allai fod yn dymor un flwyddyn i gael pethau yn weithredol? Mae'r un peth yn wir i bwy bynnag sy'n penodi cadeirydd y corff aelodaeth yn y pen draw.

Finally, Humphreys states in the final point of his conclusion that

Yn olaf, mae Humphreys yn datgan ym mhwynt olaf ei gasgliad

'a significant challenge will pass to those involved in both governance and leadership of institutions. It will be for them to seize the opportunity presented by the new structures to make them work, and work well.'

bydd her sylweddol yn pasio i'r rhai sy'n ymwneud â llywodraethu ac arweinyddiaeth sefydliadau. Bydd yn rhywbeth iddynt achub ar y cyfle a gyflwynir gan y strwythurau newydd i wneud iddynt weithio, a gweithio'n dda.

We believe that if they do just that, then this is a good step forward for further education in Wales.

Credwn, os gwnânt hynny, mae hyn yn gam da ymlaen ar gyfer addysg bellach yng Nghymru.

**Leighton Andrews:** I am grateful to the opposition spokesperson for her support. She is right to say that this is a major and significant change. We are adopting a model based on social enterprise and co-operative principles, and it is therefore right that we look to a period of time for this model to be rolled out. I certainly endorse what she says about the need to do so without additional cost or bureaucracy, and that, I hope, will be

**Leighton Andrews:** Yr wyf yn ddiolchgar i lefarydd yr wrthblaid am ei chefnogaeth. Mae hi'n gywir i ddweud bod hwn yn newid mawr ac arwyddocaol. Yr ydym yn mabwysiadu model sy'n seiliedig ar fentrau cymdeithasol ac egwyddorion cydweithredol, ac felly mae'n briodol ein bod yn edrych i gyfnod o amser er mwyn i'r model hwn gael ei gyflwyno. Yr wyf yn sicr yn cefnogi'r hyn y mae hi'n ei ddweud am yr angen i wneud

built into it. I am not 100 per cent persuaded of the case for paying governors. That is something to which we will return.

hynny heb gost neu fiwrocratiaeth ychwanegol, ac yr wyf yn gobeithio y bydd hynny yn cael ei adeiladu i mewn iddo. Nid wyf wedi fy mherswadio 100 y cant o'r achos dros dalu llywodraethwyr. Mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn dychwelyd ato.

As I said in my statement, the position of learners is paramount. We have obviously worked as a Welsh Government with the National Union of Students in Wales to look at the issues of representation within the further education sector. The work that has gone on there has developed models for engagement and has ensured that the right kinds of safeguards are put in place.

Fel y dywedais yn fy natganiad, mae sefyllfa'r dysgwyr yn hollbwysig. Wrth gwrs, yr ydym wedi gweithio fel Llywodraeth Cymru gydag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yng Nghymru i edrych ar y materion ynghylch cynrychiolaeth o fewn y sector addysg bellach. Mae'r gwaith sydd wedi digwydd yno wedi datblygu modelau ar gyfer ymgysylltu ac wedi sicrhau bod y mathau cywir o fesurau diogelu wedi'u gweithredu.

In respect of staff roles on boards, it is entirely possible for staff to become members of the board from the membership body. That is entirely a possibility. However, we must be careful about not confusing the role of staff on boards with the proper trade union management relationship in an institution—whether it is a further education college or anywhere else.

O ran swyddogaethau staff ar fyrddau, mae'n gwbl bosibl i staff ddod yn aelodau o'r bwrdd o'r corff aelodaeth. Mae hynny'n bosibilrwydd yn hollol. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni fod yn ofalus ynghylch peidio â drysu rôl y staff ar fyrddau gyda'r berthynas rheoli undeb llafur priodol mewn sefydliad—boed yn goleg addysg bellach neu unrhyw le arall.

She asked about the difference in respect of the further education model and those of the proposals in respect of higher education and schools. I say very simply, as I did at the beginning, that this is a social enterprise model. It is a new model that is based on co-operative principles and we are seeking to do something very new for this sector, which is a sector that is meant to be representative and close to its communities. Therefore, that is something that we wish to pursue.

Gofynnodd am y gwahaniaeth o ran y model addysg bellach a'r cynigion mewn perthynas ag addysg uwch ac ysgolion. Yr wyf yn dweud, yn syml iawn, fel y gwneuthum ar y dechrau, mai model menter gymdeithasol yw hwn. Mae'n fodel newydd sy'n seiliedig ar egwyddorion cydweithredol ac yr ydym yn ceisio gwneud rhywbeth newydd iawn ar gyfer y sector hwn—sector sydd i fod yn gynrychioliadol ac yn agos at ei gymunedau. Felly, mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn dymuno ei ddilyn.

She makes fair points about the size of the membership body; I am still open to discussions around that. We have the example of Coleg Llandrillo Cymru that has 120 people and that Humphreys talks about 50. These are certainly things that can be ironed out in the discussions that the task and finish group is looking to have, which include issues around the appointment of the chairs and the question of meetings.

Mae hi'n gwneud pwyntiau teg ynghylch maint y corff aelodaeth; yr wyf yn dal ar agor i drafodaethau o amgylch hynny. Mae gennym yr enghraifft o Goleg Llandrillo Cymru, sydd â 120 o bobl, ac mae Humphreys yn sôn am 50. Mae'r rhain yn sicr yn bethau y gellir eu datrys yn y trafodaethau y mae'r grŵp gorchwyl a gorffen yn gobeithio i'w cael, sy'n cynnwys materion yn ymwneud â phenodiad y cadeiryddion a'r cwestiwn o gyfarfodydd.

What we have outlined is a courageous new

Yr hyn yr ydym wedi'i amlinellu yw cam

step. There is ample time for us to go through some of the detail on this in respect of the legislative programme, and I look forward to hearing more commentary from within and outside of this Chamber.

newydd dewr. Mae digon o amser inni fynd drwy rai o'r manylion am hyn mewn perthynas â'r rhaglen ddeddfwriaethol, ac edrychaf ymlaen at glywed mwy o sylwebaeth y tu mewn a'r tu allan i'r Siambr hon.

**David Rees:** Minister, I thank you for your statement. In general, I also welcome the Humphreys report. I agree with the Conservative spokesperson on some of the points she made, particularly on representation of staff. I heard your answer, but there is a difference between trade union management discussions and being able to use the expertise of the education profession on a governing body or board. Will you look again at that? I welcome the inclusion of student representatives on boards. However, I have a couple of points I wish to raise with you. Recommendations 28 and 34 of the Humphreys report could cause what I term a 'cosying up' situation. Recommendation 28 indicates that the membership body is going to ratify the appointment of non-executive directors, while 34 indicates that the board will approve the appointment of membership body members. We need to look carefully at how those two will work together.

**David Rees:** Weinidog, yr wyf yn diolch ichi am eich datganiad. Yn gyffredinol, yr wyf innau hefyd yn croesawu adroddiad Humphreys. Yr wyf yn cytuno â llefarydd y Ceidwadwyr ar rai o'r pwyntiau y gwnaeth, yn enwedig ar gynrychiolaeth staff. Clywais eich ateb, ond mae gwahaniaeth rhwng trafodaethau rheoli undebau llafur a gallu defnyddio arbenigedd y proffesiwn addysg ar gorff llywodraethu neu fwrdd. A wnewch chi edrych eto ar hynny? Yr wyf yn croesawu cynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr ar fyrddau. Fodd bynnag, mae gennyf un neu ddau bwynt yr hoffwn eu codi gennych. Gall argymhellion 28 a 34 o adroddiad Humphreys achosi'r hyn yr wyf yn ei alw'n sefyllfa 'glosio at ei gilydd'. Mae argymhelliad 28 yn dangos y bydd y corff aelodaeth yn cadarnhau penodi cyfarwyddwyr anweithredol, ac mae 34 yn nodi y bydd y bwrdd yn cymeradwyo penodi aelodau'r corff aelodaeth. Mae angen inni edrych yn ofalus ar sut y bydd y ddau yn gweithio gyda'i gilydd.

Also, we need to look at who the board is accountable to and who has the ability to remove members from the board if they are failing in their duties. That is crucial. The report also highlights the fact that the executive director of the board is going to hold the senior management to scrutiny. I find it difficult to see how a board including a member of senior management can hold itself to scrutiny. That needs to be looked at again. I also ask you to look at the responsibilities highlighted in annexes D and E in particular, regarding the board and the role it plays with the membership body.

Hefyd, mae angen inni edrych ar bwy y mae'r bwrdd yn atebol iddo, a phwy sydd â'r gallu i ddiarddel aelodau o'r bwrdd os ydynt yn methu yn eu dyletswyddau. Mae hynny'n hollbwysig. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod cyfarwyddwr gweithredol y bwrdd yn mynd i graffu ar yr uwch reolwyr. Mae'n anodd imi weld sut y gall bwrdd sy'n cynnwys aelod o uwch reolwyr fod yn ddarostyngedig i graffu. Mae angen edrych ar hyn eto. Yr wyf hefyd yn gofyn ichi edrych ar y cyfrifoldebau a amlygir yn atodiadau D ac E yn benodol, ynghylch y bwrdd a'r rôl y mae'n ei chwarae gyda'r corff aelodaeth.

**Leighton Andrews:** My colleague, the Member for Aberafan, has put his finger on a number of points that we have got to work through in some detail. He is right to make the distinction between the trade union and management relationship on the one hand and the ability to draw on the educational

**Leighton Andrews:** Mae fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Aberafan, wedi rhoi ei fys ar nifer o bwyntiau y mae'n rhaid inni weithio arnynt yn eithaf manwl. Mae'n iawn i wneud y gwahaniaeth rhwng yr undeb llafur a pherthynas reoli ar y naill law a'r gallu i dynnu ar arbenigedd addysgol o weithwyr

expertise of professionals on the other. However, there is nothing to prevent that educational expertise and representation of staff members being appointed from within the membership body to the board. That is something we can look at. With regard to accountability, clearly, the executive board is responsible to the membership body, which will ensure that there is scrutiny of that executive board. The board is essentially an executive body, designed to carry through and implement the overall policy of the institution subject to scrutiny from the membership body. We would anticipate that the scrutiny of the full-time staff would come through the membership body, but there will be an operational role for the executive board in that as well. As I say, I am open to further discussion on these matters. If we are going to legislate, it is not going to be for another couple of years. Some issues of detail remain to be teased out.

proffesiynol ar y llall. Fodd bynnag, nid oes unrhyw beth i atal yr arbenigedd addysgol hwnnw a chynrychiolaeth o aelodau o staff rhag cael eu penodi i'r bwrdd o'r tu mewn i'r corff aelodaeth. Mae hynny'n rhywbeth y gallwn edrych arno. O ran atebolrwydd mae'n amlwg bod y bwrdd gweithredol yn atebol i'r corff aelodaeth, a fydd yn sicrhau bod yna graffu ar y bwrdd gweithredol. Yn ei hanfod, corff gweithredol yw'r bwrdd, a gynlluniwyd i weithredu polisi cyffredinol y sefydliad ar ôl craffu gan y corff aelodaeth. Byddem yn rhagweld y byddai craffu ar y staff llawn amser yn dod drwy'r corff aelodaeth, ond bydd rôl gweithredol ar gyfer y bwrdd gweithredol yn hynny o beth hefyd. Fel y dywedais, yr wyf yn agored i drafodaeth bellach ar y materion hyn. Os ydym yn mynd i ddeddfu, ni fydd hynny am ychydig flynyddoedd eto. Mae rhai materion o fanylder i'w hystyried cyn hynny.

**Simon Thomas:** Yr wyf yn croesawu'r datganiad heddiw ac yn croesawu'r egwyddorion sy'n gynsail i'r datganiad. Mae Plaid Cymru wedi bod yn gofyn ers cyn 2007 am wella'r ymwneud rhwng colegau addysg bellach a chymunedau yn lleol. Mae'r cynllun y mae'r Gweinidog wedi ei amlinellu heddiw, yn seiliedig ar adolygiad Humphreys, yn dangos ffordd bositif ymlaen. Felly, yr wyf yn croesawu hynny'n fawr.

**Simon Thomas:** I welcome today's statement and welcome the principles underpinning the statement. Plaid Cymru has been calling since before 2007 for an improvement in the relationship between further education colleges and local communities. The plan outlined by the Minister today, based on the Humphreys review, proposes a positive way forward. Therefore, I welcome that warmly.

Serch hynny, rhaid i mi anghytuno â'r Gweinidog ar un achos. Yr oedd adolygiad Humphreys yn ei gwneud yn glir bod angen gwaredu'r cysyniad o gategori o aelodaeth, ac yn lle hynny cael pawb i fod ar y byrddau rheoli, o safbwynt profiad, sgiliau, ansawdd ac ati. Mae'r Gweinidog wedi gwrando ar adolygiad y rhanddeiliaid ac wedi ailgyflwyno categori o aelodaeth, sef categori dysgwr neu fyfyriwr. Yr wyf yn cefnogi hynny. Mae'r Gweinidog wedi gwneud y penderfyniad cywir yn hynny o beth. Serch hynny, nid wyf yn fodlon nad yw wedi mynd ymhellach a gwrando mwy ar adolygiad y rhanddeiliad, a oedd hefyd yn gofyn iddo gynnig yr un lle ar fwrdd y cyfarwyddwyr i aelodau o staff. Mae cynrychiolaeth staff ar y bwrdd hwn yn rhan o'r darlun, ac yn rhan o'r llywodraethu yr ydym yn dymuno ei weld mewn colegau addysg bellach. Byddwn yn gweld staff, myfyrwyr a dysgwyr ar gyrff

However, I must disagree with the Minister on one point. The Humphreys review made it clear that we needed to eradicate this concept of categories of membership, and, instead, have everyone on the management board, based on experience, skills, quality and so on. The Minister has listened to the stakeholder review and has reintroduced a category of membership, namely the category of learner or student member. I support that move, and I think that the Minister has made the correct decision in that regard. However, I am not content that he has not gone further and listened more to the stakeholder review, which also asked him to offer the same opportunity on the board of directors to staff members. Staff representation on this board is part of the picture, and part of the kind of governance that we want to see in our FE colleges. We will see staff, students and learners on school governing bodies and on

rheoli ysgolion, a staff a myfyrwyr ar gyrff rheoli prifysgolion, ond dim ond myfyrwyr a dysgwyr fydd ar gyrff rheoli'r colegau addysg bellach. Mae'n amlwg bod bwlch yn y sefyllfa honno, ac yr wyf yn gofyn i'r Gweinidog ailystyried wrth iddo ddatblygu ei gynlluniau. Yr wyf yn gwybod bod rhai yn y sector yn cefnogi newid o'r fath.

those of universities, but the governing bodies of further education colleges will only have students and learners. It is clear that there is a gap there, and I ask the Minister to reconsider this as he develops his plans. I know that there are some in the sector who support such a change.

3.45 p.m.

Nid oes sôn yn y datganiad, er bod cwestiynau wedi'u gofyn am y mater hwn, am dalu i aelodau'r bwrdd cyfarwyddwyr. Yn bersonol, yr wyf yn meddwl mai peth annoeth iawn fyddai talu i bobl i fod yn aelodau o'r bwrdd, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Byddai gwneud hynny yn erbyn yr egwyddor o gyfranogaeth a chyfraniad mentrau cymdeithasol y mae'r Gweinidog wedi seilio'i gynlluniau arni. Os bydd unrhyw dâl yn cael ei ganiatáu, byddwn yn disgwyl i'r arian ddod o drosiant y coleg yn hytrach nag o'r gyllideb ar gyfer dysgu neu o arian cyhoeddus arall. Nid wyf wedi fy argyhoeddi eto fod hyd yn oed angen caniatáu talu i aelodau'r bwrdd cyfarwyddwyr.

There is no mention in the statement, although some questions have been asked on this, of paying members of the board of directors. Personally, I think that it would be unwise, in the current economic climate, to pay people to be members of the board. Doing so would go against the principle of participation and the contribution of social enterprises on which the Minister has based these plans. If any payment is to be allowed, I would expect it to come from the turnover of colleges rather than from the learning budget or from other public funds. I am not convinced that we should even allow paying members of the boards of directors.

Mae'r Gweinidog yn ymwybodol bod datblygu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y colegau addysg bellach yn hanfodol fel rhan o gynlluniau llwybrau dysgu 14-19 oed. Braf yw gweld bod ColegauCymru wedi penodi aelod o staff i helpu gyda'r broses hon. Gwelwyd gwella yn y sector. Wedi dweud hynny, yr wyf yn meddwl mai dim ond 2 y cant o gyrsiau addysg bellach sy'n cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfan gwbl, sy'n rhy isel o lawer ar gyfer cyflawni amcanion a gobeithion Llywodraeth Cymru, heb sôn am rai Plaid Cymru. Byddwn yn dymuno i'r Gweinidog a'r corff sy'n edrych ar weithredu'r cynlluniau hyn ystyried rhoi'r Gymraeg, a'r ddyletswydd am hyrwyddo'r Gymraeg a dysgu drwyddi, yn ddyletswydd ar aelod o'r bwrdd cyfarwyddwyr. Nid oes rhaid i'r aelod hwnnw siarad Cymraeg i wneud hynny. Yr ydym yn sôn am ddyletswydd ar aelod i sicrhau bod dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei weithredu drwy'r coleg i gyd. Byddai gosod dyletswydd naill ai ar y corff llywodraethu cyfan neu ar aelod unigol yn ffordd o ymateb i'r angen hwn.

The Minister is aware that the development of Welsh-medium teaching in further education colleges is crucial as part of the 14-19 learning pathways. It is positive to see that ColegauCymru has appointed a staff member to assist in this process. Improvement has been seen within the sector. Having said that, I think that only 2 per cent of FE courses are taught entirely through the medium of Welsh, which is far too low a level for the ambitions and hopes of the Welsh Government, let alone those of Plaid Cymru. I would want the Minister and the body currently looking at the implementation of these recommendations to consider placing a duty for the promotion of the language and teaching through the medium of Welsh on a member of the board of directors. You would not need to have a Welsh speaker to carry out that role. We are talking about a duty on a member to ensure that Welsh-medium provision is delivered throughout the college. Placing such a duty on either the entire governing body or on an individual member would be a means of responding to that need.

Yn y datganiad, mae'r Gweinidog yn sôn am y posibilrwydd o ddeddfu yn y maes hwn. Nid wyf yn gwybod pam nad ydym yn siŵr ar hyn o bryd a fydd angen deddfu. Mae'r Gweinidog yn ddigon clir ar y math o gyrff y mae'n dymuno eu gweld yn y sector hwn. Hoffwn wybod pa ystyriaethau sydd ar feddwl y Gweinidog o ran yr angen i ddeddfu.

In the statement, the Minister mentions the possibility of legislating in this field. I do not know why we are unsure as to whether we will need legislation. The Minister is clear on the kinds of organisations that he wants to see in this sector. I would like to know what the Minister has on his mind with regard to the need for legislation.

**Leighton Andrews:** I welcome the support of the Plaid Cymru spokesperson for what we are broadly seeking to do. He is right to stress that we have sought to implement the bulk of the Humphreys review, which is a departure for further education governance and moves us on from the old incorporation model. The Member disagreed with me on the issue of staff representation. I need to reiterate that nothing prevents staff membership of the executive body through nomination from the membership body; we are not ruling that out in any way. It is right that, in paragraph 83 of the report, the Humphreys review group said that it was proposing the establishment of a 'leaner' model of governance through the boards, and that it did not, therefore, want to prescribe a number of learner or staff members. I have taken the view that we need to prescribe the number of learner members, but there is no obstacle to the establishment of staff representation. In paragraph 85, Humphreys draws attention to the distinction between staff engagement in decision making in an institution and the proper role of trade union management relationships and negotiations.

**Leighton Andrews:** Yr wyf yn croesawu cefnogaeth llefarydd Plaid Cymru i'r hyn yr ydym yn ceisio ei wneud yn fras. Mae'n iawn i bwysleisio ein bod wedi ceisio gweithredu'r rhan fwyaf o adolygiad Humphreys, sydd yn rhywbeth newydd ar gyfer llywodraethu addysg bellach ac yn ein symud ni ymlaen o'r hen fodel corffori. Anghytunodd yr Aelod gyda mi am gynrychiolaeth staff. Mae angen i mi ailadrodd nad oes unrhyw beth yn atal aelodaeth staff o'r corff gweithredol drwy enwebiad gan y corff aelodaeth; nid ydym yn diystyru hynny mewn unrhyw ffordd. Mae'n iawn, ym mharagraff 83 o'r adroddiad, y dywedodd grŵp adolygu Humphreys ei fod yn cynnig sefydlu model 'meinach' o lywodraethu drwy'r byrddau, ac nad oedd, felly, yn awyddus i ragnodi nifer o aelodau sy'n ddysgwyr neu'n aelodau staff. Yr wyf wedi bod o'r farn bod angen i ni bennu nifer yr aelodau sy'n ddysgwyr, ond nid oes unrhyw rwystr rhag sefydlu cynrychiolaeth staff. Ym mharagraff 85, tynna Humphreys sylw at y gwahaniaeth rhwng ymgysylltu â staff yn y broses o wneud penderfyniadau mewn sefydliad a rôl briodol perthnasoedd a thrafodaethau rhwng rheolwyr ac undebau llafur.

I am sympathetic to what the Member says on payments, and there are issues to be ironed out on this matter. I am glad that he has acknowledged that ColegauCymru is engaging seriously with the issue of Welsh-medium study and that it has taken the step of appointing a bilingual officer to further that. I am open to looking at ways of ensuring that colleges take seriously their responsibilities to the Welsh language.

Yr wyf yn cydymdeimlo â'r hyn y mae'r Aelod yn ei ddweud ar daliadau, ac mae yna faterion i'w datrys yn hyn o beth. Yr wyf yn falch ei fod wedi cydnabod bod ColegauCymru yn ymgysylltu o ddifrif â'r mater o astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac wedi cymryd y cam o benodi swyddog dwyieithog i hyrwyddo hynny. Yr wyf yn agored i edrych ar ffyrdd o sicrhau bod colegau yn cymryd eu cyfrifoldebau tuag at yr iaith Gymraeg o ddifrif.

In respect of the final point, we are looking to implement this model smoothly. It may be that we require legislation to ensure that it is

O ran y pwynt olaf, yr ydym yn gobeithio gweithredu'r model hwn yn esmwyth. Efallai bod arnom angen ddeddfwriaeth i sicrhau y

effectively implemented. However, as with so many of these issues, it is better sometimes to get voluntary agreement if you can.

**Aled Roberts:** Minister, we also broadly welcome the recommendations contained in the Humphreys report.

**Simon Thomas:** That is funny.

**Aled Roberts:** Yes, we better had. [*Laughter.*]

We also warmly welcome the statement that you made today. I should note that I am a governor at a further education college, and that my wife works in the sector. A lot of the comments that I will make are based on my experiences as an FE governor.

I share the concerns of some of the other speakers with regard to some of the details that you say will come out in the work of the task and finish group—the size of the management board, the frequency of meetings and the appointment of a chair. My view is the same as Simon Thomas's view on the remuneration of governors. I also share Simon Thomas's view on responsibilities as far as the Welsh language in concerned. It is quite clear from the evidence that we have been taking in the Children and Young People Committee that the development of the Welsh language has been rather slow, to say the least, although you did note that ColegauCymru is now more in line with Government thinking on this.

I ask that you reconsider staff representation, where you have moved away from the Humphreys review recommendations. There is a need to recognise the importance of staff representation at governing body level. Not only has that helped with employee-management relationships, to which you alluded, which you say is primarily a trade union responsibility, but it is of assistance as far as other governors are concerned in understanding the workings of the college. It is interesting that, in the English review of FE governance, the UK Government's original stance was that it, too, was minded to remove learner and professional

caiff ei roi ar waith yn effeithiol. Fodd bynnag, fel gyda chymaint o'r materion hyn, mae'n well weithiau i gael cytundeb gwirfoddol os gallwch.

**Aled Roberts:** Weinidog, yr ydym ninnau yn croesawu, yn fras, yr argymhellion a geir yn adroddiad Humphreys.

**Simon Thomas:** Dyna ryfedd.

**Aled Roberts:** Yr oedd yn well inni. [*Chwerthin.*]

Yr ydym hefyd yn croesawu'n gynnes y datganiad a wnaethoch heddiw. Dylwn nodi fy mod yn llywodraethwr mewn coleg addysg bellach a bod fy ngwraig yn gweithio yn y sector. Mae llawer o'r sylwadau a wnaf yn seiliedig ar fy mhrofiadau fel llywodraethwr addysg bellach.

Yr wyf yn rhannu pryderon rhai o'r siaradwyr eraill o ran rhai o'r manylion yr ydych yn dweud y byddant yn dod allan yng ngwaith y grŵp gorchwyl a gorffen—maint y bwrdd rheoli, pa mor aml bydd cyfarfodydd a phenodi cadeirydd. Mae fy marn i'r un fath â barn Simon Thomas am daliadau i lywodraethwyr. Yr wyf hefyd yn unfarn â Simon Thomas am gyfrifoldebau lle mae'r Gymraeg yn y cwestiwn. Mae'n eithaf clir o'r dystiolaeth yr ydym wedi bod yn ei chymryd yn y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc bod datblygiad yr iaith Gymraeg wedi bod braidd yn araf, a dweud y lleiaf, er eich bod yn nodi bod ColegauCymru bellach yn fwy cytûn â'r Llywodraeth ar hyn.

Gofynnaf i chi ailystyried cynrychiolaeth staff, lle'r ydych wedi symud i ffwrdd oddi wrth argymhellion adolygiad Humphreys. Mae angen cydnabod pwysigrwydd cynrychiolaeth staff ar lefel y corff llywodraethwyr. Nid yn unig y mae wedi bod yn help gyda pherthnasoedd cyflogai-reolwyr, y cyfeiriasoch chi atynt, yr ydych yn dweud sy'n gyfrifoldeb undebau llafur yn bennaf, ond y mae o gymorth o ran dealltwriaeth llywodraethwyr eraill am waith y coleg. Mae'n ddiddorol mai safiad gwreiddiol Llywodraeth y DU yn yr adolygiad Seisnig o lywodraethu addysg bellach oedd ei bod, hefyd, yn bwriadu cael

representation from the governing body. However, following amendments tabled by Labour's Baroness Jones of Whitchurch, the Government has now acknowledged, at the Third Reading, that it has reconsidered its stance and will now look at the representation of staff and professionals on the governing body. So, not only will Welsh FE colleges be different to schools and higher education institutions, Welsh staff will be at a disadvantage compared with their English colleagues.

gwared ar gynrychiolaeth dysgwyr a gweithwyr proffesiynol o gyrff llywodraethu. Fodd bynnag, yn dilyn gwelliannau a gyflwynwyd gan y Farwnes Llafur, y Farwnes Jones o'r Eglwys Newydd, mae'r Llywodraeth bellach wedi cydnabod, yn y Trydydd Darlleniad, ei bod wedi ailystyried ei safbwynt a bydd yn awr yn edrych ar gynrychiolaeth staff a gweithwyr proffesiynol ar y corff llywodraethol. Felly, nid yn unig y bydd colegau addysg bellach Cymru yn wahanol i ysgolion a sefydliadau addysg uwch, bydd staff yng Nghymru o dan anfantais o'u cymharu â'u cydweithwyr yn Lloegr.

That said, I welcome the fact that you are moving towards a social enterprise model—it is an interesting development—but I ask you to reconsider the position on staff representation.

Wedi dweud hynny, yr wyf yn croesawu'r ffaith eich bod yn symud tuag at fodel menter gymdeithasol—mae'n ddatblygiad diddorol—ond gofynnaf ichi ailystyried y sefyllfa o ran cynrychiolaeth staff.

**Leighton Andrews:** Again, I welcome the support offered by the Liberal Democrat spokesperson. I am sure that Rob Humphreys will be pleased that the Liberal Democrats welcome his report.

**Leighton Andrews:** Unwaith eto, croesawaf y gefnogaeth y mae llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn ei chynnig. Mae'n siŵr y bydd Rob Humphreys yn falch bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn croesawu ei adroddiad.

In respect of staff, there is a significant difference between our proposals and those of the UK Conservative-Liberal Democrat administration at Westminster. We are proposing a new model, which is a social enterprise model based on co-operative principles. That is a different model to what is on offer across the border. As I have said, there is nothing to prevent staff from being represented on executive bodies; it is a matter that can develop from the appropriate relationship between the membership body and the executive board. So, we are not ruling out staff representation; it is something for further consideration. However, what we are not suggesting is direct nomination of staff representatives. We are trying to ensure that we do not have confusion between staff representation and the necessary and appropriate issues of trade union representation.

O ran staff, mae gwahaniaeth sylweddol rhwng ein cynigion ni a chynigion gweinyddiaeth Ceidwadwyr a Democratiaid Rhyddfrydol y Deyrnas Unedig yn San Steffan. Yr ydym yn cynnig model newydd, sy'n fodel menter gymdeithasol ar sail egwyddorion cydweithredol. Mae hwnnw'n fodel gwahanol i'r un sydd ar gael ar draws y ffin. Fel y dywedais, nid oes unrhyw beth i atal staff rhag cael eu cynrychioli ar gyrff gweithredol; mae'n fater sy'n gallu datblygu o'r berthynas briodol rhwng y corff aelodaeth a'r bwrdd gweithredol. Felly, nid ydym yn diystyru cynrychiolaeth staff; mae'n rhywbeth i'w ystyried ymhellach. Fodd bynnag, yr hyn nad ydym yn ei awgrymu yw enwebu cynrychiolwyr staff yn uniongyrchol. Yr ydym yn ceisio sicrhau nad oes gennym ddryswch rhwng cynrychiolaeth y staff a'r materion angenrheidiol a phriodol o gynrychiolaeth undebau llafur.

In respect of remuneration, I hear what the Member says, and I have some sympathy with it. He made a similar point about the Welsh language. It is interesting that not one

O ran taliadau, yr wyf yn clywed yr hyn y mae'r Aelod yn ei ddweud, ac mae gennyf rywfaint o gydymdeimlad ag ef. Gwnaeth bwynt tebyg am yr iaith Gymraeg. Mae'n

of the opposition spokespeople has made any comment on what I said about the need to get a better gender balance on the boards of FE institutions. At the moment, the situation is not in any way optimal. More than 70 per cent of the members of governing bodies of FE institutions are men. We are seeking to encourage a move in a more equal direction. However, in broad terms, I am very pleased with the overall support that we have had from the opposition parties today.

ddiddorol nad oes un o lefarwyr y gwrthbleidiau wedi gwneud unrhyw sylw ar yr hyn a ddywedais am yr angen i gael cydbwysedd gwell rhwng y rhywiau ar fyrddau sefydliadau addysg bellach. Ar hyn o bryd, nid hon yw'r sefyllfa orau oll mewn unrhyw ffordd. Mae mwy na 70 y cant o aelodau cyrff llywodraethol sefydliadau addysg bellach yn ddynion. Yr ydym yn awyddus i annog symudiad i gyfeiriad mwy cyfartal. Fodd bynnag, yn fras, yr wyf yn falch iawn o'r gefnogaeth gyffredinol a gawsom gan y gwrthbleidiau heddiw.

**Jenny Rathbone:** I am particularly pleased to hear that we are going to have learners on the board and that there will be an improved gender balance. Those are excellent developments. An issue was aired in the Children and Young People Committee recently by representatives of schools and colleges who have concerns about how well the 14 to 19 partnership with further education colleges works now that FE colleges are no longer under the umbrella of the local authorities. How will becoming a social enterprise necessarily improve that partnership working? You could envisage a social enterprise that, in theory, has key partners—that is, other colleges and schools—on the board but which is nevertheless ploughing its own furrow and making decisions that might destabilise some of the other providers in that partnership. John Lewis is a form of social enterprise, but I doubt that it thinks about its competitors when making its commercial decisions. So, could you say a bit more about that and whether it is something that could be looked at by the task and finish group?

**Jenny Rathbone:** Yr wyf yn arbennig o falch clywed ein bod yn mynd i gael dysgwyr ar y bwrdd ac y bydd cydbwysedd gwell rhwng y rhywiau. Mae'r rheiny yn ddatblygiadau rhagorol. Cafodd mater ei grybwyll yn y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn ddiweddar gan gynrychiolwyr o ysgolion a cholegau sydd â phryderon ynghylch pa mor dda y mae'r bartneriaeth 14 i 19 gyda cholegau addysg bellach yn gweithio yn awr nad yw colegau addysg bellach o dan ymbarél yr awdurdodau lleol. Sut fydd dod yn fenter gymdeithasol yn anorfod yn gwella'r gweithio mewn partneriaeth? Gallech ragweld menter gymdeithasol, mewn theori, â phartneriaid allweddol—hynny yw, colegau eraill ac ysgolion—ar y bwrdd, ond sydd er hynny yn torri ei chwys ei hun a gwneud penderfyniadau a allai ansefydlogi rhai o'r darparwyr eraill yn y bartneriaeth. Mae John Lewis yn fath o fenter gymdeithasol, ond yr wyf yn amau ei fod yn meddwl am ei gystadleuwyr wrth wneud ei benderfyniadau masnachol. Felly, a allech ddweud ychydig mwy am hynny ac a ydyw'n rhywbeth y gellid edrych arno gan y grŵp gorchwyl a gorffen?

**Leighton Andrews:** My colleague the Member for Cardiff Central is right to draw attention to the issues that arise with regard to 14 to 19 provision. However, I do not think that any model of governance in FE is necessarily of itself going to resolve the tensions that, very often, exist between FE providers and post-16 school providers. I would not want to suggest in anything that I say today that the problems lie on one side of the sector, because they do not. I have good examples—sorry, I should say bad examples—of schools entering into

**Leighton Andrews:** Mae fy nghydweithwraig, yr Aelod dros Ganol Caerdydd, yn iawn i dynnu sylw at y materion sy'n codi mewn perthynas â darpariaeth 14 i 19. Fodd bynnag, nid wyf yn credu bod unrhyw fodel o lywodraethu mewn addysg bellach yn anorfod ynddo'i hun yn mynd i ddatrys y tensiynau sydd yn aml iawn yn bodoli rhwng darparwyr addysg bellach ac ysgolion sy'n darparu addysg ôl-16. Ni fyddwn am awgrymu mewn unrhyw beth yr wyf yn ei ddweud heddiw bod y problemau yn perthyn i un ochr i'r sector, gan nad ydynt.

unnecessary competition with FE colleges in respect of vocational qualifications. I have examples of FE colleges that have withdrawn from providing A-levels in order to ensure that there is no competition with schools. We will probably find FE colleges entering into competition with schools in some areas. I would not want to suggest that, of itself, this model of governance is necessarily going to iron out some of those difficulties, which I think are more appropriately dealt with in other partnership arrangements at local level. However, the problem that the Member has identified is something that we are looking at in detail within the department on another basis at the moment.

Mae gennyf enghreifftiau da—ymddiheuraf, dylwn ddweud enghreifftiau drwg—o ysgolion yn cystadlu yn ddiangen gyda cholegau addysg bellach o ran cymwysterau galwedigaethol. Mae gennyf enghreifftiau o golegau addysg bellach sydd wedi tynnu'n ôl o ddarparu Safon Uwch er mwyn sicrhau nad oes cystadleuaeth gydag ysgolion. Fwy na thebyg, byddwn yn dod o hyd i golegau addysg bellach yn cystadlu ag ysgolion mewn rhai ardaloedd. Ni fyddwn am awgrymu bod y model hwn o lywodraethu, ynddo'i hun, o reidrwydd yn mynd i ddatrys rhai o'r anawsterau hynny y mae'n fwy priodol ymdrin â nhw mewn trefniadau partneriaeth eraill ar lefel leol. Fodd bynnag, yn yr adran, yr ydym yn edrych yn fanwl ar y broblem y mae'r Aelod wedi ei nodi ar sail arall ar hyn o bryd.

## Datganiad: Gorchymyn i Ymestyn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd
## Statement: Order to Extend the Clwydian Range Area of Outstanding Natural Beauty

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):** In March this year, the Countryside Council for Wales submitted the Proposed Clwydian Range and Dee Valley Area of Outstanding Natural Beauty (Designation) Order 2011 for my consideration. The area of approximately 230 sq km is situated in the counties of Wrexham and Denbighshire and would extend the boundary of the current Clwydian range area of outstanding natural beauty.

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):** Ym mis Mawrth eleni, cyflwynodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru'r Gorchymyn Arfaethedig (Dynodi) Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy 2011 i mi ei ystyried. Mae'r ardal o ryw 230 cilomedr sgwâr wedi ei lleoli yn siroedd Wrecsam a Dinbych a byddai'n ymestyn ffin ardal o harddwch naturiol eithriadol Bryniau Clwyd ar hyn o bryd.

My role as the Minister responsible for protected landscapes has been to consider whether CCW has followed the correct procedures in making the Order, whether its evaluation of the area as being of outstanding natural beauty was reasonable and justifiable, and how justified CCW is in its conclusion that designation is desirable for the purpose of conserving and enhancing the natural beauty of the area. I am satisfied that CCW has complied with the statutory provisions in making the designation Order. It has demonstrated a robust, reasonable and evidenced approach in defining 'outstanding natural beauty', and it has adequately considered how it applies to the area covered by the designation Order.

Fy rôl fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am dirweddau gwarchodedig oedd ystyried a ydyw'r cyngor wedi dilyn y gweithdrefnau cywir wrth wneud y Gorchymyn, a ydyw ei werthusiad o'r ardal fel un o harddwch naturiol eithriadol yn rhesymol ac yn gyfiawnadwy, a pha mor gyfiawn yw casgliad y cyngor bod y dynodiad yn ddymunol er mwyn gwarchod a gwella harddwch naturiol yr ardal. Yr wyf yn fodlon bod y cyngor wedi cydymffurfio â'r darpariaethau statudol wrth wneud y Gorchymyn dynodiad. Mae wedi dangos dull cadarn, rhesymol ac wedi ei gefnogi gan dystiolaeth wrth ddiffinio 'harddwch naturiol eithriadol', ac y mae wedi ystyried yn ddigonol sut y mae'n berthnasol i'r ardal a

gwmpesir gan y Gorchymyn dynodiad.

4.00 p.m.

A range of other relevant issues raised during the designation Order process were also considered by the Countryside Council for Wales. AONB status is likely to place additional constraints on some types of development, in particular major developments, within the area affected. 'Planning Policy Wales' includes an expectation that, within AONBs, planning policies and decision controls should place greater weight on conserving and enhancing the area's natural beauty, wildlife and cultural heritage. An AONB has the potential to draw in significant numbers of visitors, increasing recreation and tourism opportunities. That can extend the experience and enjoyment of the area's natural beauty to a wider audience, and also help us to promote the beauty of Wales to potential visitors.

Ystyriwyd hefyd amrywiaeth o faterion perthnasol eraill a godwyd yn ystod proses y Gorchymyn dynodi gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae statws AHNE yn debygol o osod cyfyngiadau ychwanegol ar rai mathau o ddatblygiad, yn arbennig datblygiadau mawr, o fewn yr ardal a effeithir. Mae 'Polisi Cynllunio Cymru' yn cynnwys disgwyliad, y dylai polisïau cynllunio a rheolaethau penderfynu o fewn AHNE roi mwy o bwyslais ar warchod a gwella harddwch naturiol yr ardal, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol. Mae gan AHNE y potensial i ddenu niferoedd sylweddol o ymwelwyr, gan gynyddu cyfleoedd hamdden a thwristiaeth. Gall ymestyn y profiad a'r mwynhad o harddwch naturiol yr ardal i gynulleidfa ehangach, a hefyd ein helpu i hyrwyddo harddwch Cymru i ddarpar ymwelwyr.

Many issues and interests featured in the making of this decision. I am confident that the additional management afforded by the statutory management plan and the proposed establishment of a joint advisory committee, similar to that already in place for the existing Clwydian range AONB, provide a mechanism for issues to be addressed. It will also provide a suitable framework for the positive management of the designated area and benefit the natural beauty and communities of the area. The creation of a new AONB will also offer us the opportunity to help inform how we best manage our protected areas under the natural environment framework, which is currently under development.

Roedd nifer o faterion a buddiannau yn rhan o'r broses o wneud y penderfyniad hwn. Rwy'n hyderus y bydd y rheoli ychwanegol a gynigir gan y cynllun rheoli statudol a'r bwriad i sefydlu pwyllgor ymgynghorol ar y cyd, yn debyg i'r hyn sydd eisoes ar waith ar gyfer AHNE presennol bryniau Clwyd, yn darparu mecanwaith ar gyfer materion sydd i'w trafod. Bydd hefyd yn darparu fframwaith addas ar gyfer rheolaeth bositif o'r ardal ddynodedig a bydd o fudd i'r harddwch naturiol a chymunedau yn yr ardal. Bydd y gwaith o greu AHNE newydd hefyd yn cynnig y cyfle i helpu i lywio'r ffordd orau o reoli ein hardaloedd gwarchodedig o dan y fframwaith amgylchedd naturiol, sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

It has taken CCW a number of years to complete the process of making the Order and there has been a lot of interest in this issue and strong feelings about it. Following comprehensive advice, and based on the evidence presented by CCW, I am pleased to announce that I have decided to confirm the Order and extend the Clwydian range area of outstanding natural beauty to become the Clwydian range and Dee valley area of outstanding natural beauty.

Mae wedi cymryd CCGC nifer o flynyddoedd i gwblhau'r broses o wneud y Gorchymyn a bu llawer o ddiddordeb yn y mater hwn a theimladau cryf am y peth. Yn dilyn cyngor cynhwysfawr, ac yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, rwy'n falch o gyhoeddi fy mod wedi penderfynu cadarnhau'r Gorchymyn ac ymestyn ardal o harddwch naturiol eithriadol bryniau Clwyd i fod yn ardal o harddwch naturiol eithriadol bryniau Clwyd a dyffryn Dyfrdwy.

**Antoinette Sandbach:** Minister, thank you for your statement. I regret that I will not welcome it with the same degree of enthusiasm that you have expressed. Very real concerns were expressed during the consultation process that the consultation was not open enough and did not last long enough. More than half of the responses did not support the proposed designation and concern was expressed that the opinion of the majority had, in effect, been ignored.

I am also very concerned that your statement seems to imply that economic benefits will result from this designation. The report that looked at the designation came to the conclusion that the available data cannot be used decisively to come to an economic conclusion about the value of a particular designation. Furthermore, the community that needs to live and work in that area will be deeply concerned at this decision. I quote the response of NFU Cymru, which states that:

‘Without sustainable agriculture and healthy local economies these landscapes would not be maintained and preserved. In order for agriculture and local economies to remain viable and healthy they need the freedom to develop, to grow and expand, and take advantage of technological advancements. Our fear is one where areas under special conservation status such as AONBs can lead to an artificial and unsustainable preservation of a landscape whereas in our opinion these landscapes need to adapt and change over time allowing communities to be sustained. It is through sustaining communities that the bond between people and place will be retained.’

Minister, you have stated that the AONB has the potential to draw in a significant number of visitors, increasing recreation and tourism opportunities. However, there is an inherent contradiction there, because the CCW expressed concern that increasing traffic is the primary cause of the loss of tranquillity in the study area. As indicated in the quotation that I read out earlier, planning is one of the problems. The AONB designation is rightly viewed with deep suspicion by the local communities and businessmen who are expected to live and work in the AONB.

**Antoinette Sandbach:** Weinidog, diolch ichi am eich datganiad. Yr wyf yn gresynu na fyddaf yn ei groesawu gyda'r un faint o frwdfrydedd a fynegwyd gennych. Mynegwyd pryderon go iawn yn ystod y broses ymgynghori nad oedd yr ymgynghoriad yn ddigon agored ac na pharhaodd yn ddigon hir. Nid oedd mwy na hanner yr ymatebion o blaid y dynodiad arfaethedig a mynegwyd pryder bod barn y mwyafrif, i bob pwrpas, wedi’i anwybyddu.

Yr wyf hefyd yn bryderus iawn ei bod hi’n ymddangos bod eich datganiad yn awgrymu y bydd buddiannau economaidd yn deillio o’r dynodiad hwn. Daeth yr adroddiad, a oedd yn edrych ar y dynodiad, i'r casgliad na ellir defnyddio’r data sydd ar gael mewn modd pendant i ddod i gasgliad economaidd ynghylch gwerth y dynodiad penodol. Ar ben hynny, bydd y gymuned, sydd ag angen byw a gweithio yn yr ardal honno, yn bryderus iawn am y penderfyniad hwn. Dyfynnaf ymateb FU Cymru, sy'n datgan:

Heb amaethyddiaeth gynaliadwy ac economïau lleol iach ni fyddai'r tirweddau hyn yn cael eu cynnal a'u cadw. Er mwyn i amaethyddiaeth ac economïau lleol barhau’n hyfyw ac iach mae angen arnynt y rhyddid i ddatblygu, i dyfu ac ehangu, ac i fanteisio ar ddatblygiadau technolegol. Ein hofn yw un lle gall ardaloedd dan statws cadwraeth arbennig fel AHNE arwain at gadw artiffisial ac anghynaladwy o dirwedd tra yn ein barn ni mae angen i’r tirweddau hyn addasu a newid dros amser gan ganiatáu i gymunedau gael eu cynnal. Trwy gynnal cymunedau bydd y cwlwm rhwng pobl a lleoedd yn cael ei gadw.

Weinidog, yr ydych wedi datgan bod gan yr AHNE y potensial i ddenu nifer sylweddol o ymwelwyr, gan gynyddu cyfleoedd hamdden a thwristiaeth. Fodd bynnag, mae yna groesddywediad cynhenid yno, oherwydd bod Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn mynegi pryder mai traffig cynyddol yw’r achos sylfaenol o golli llonyddwch yn yr ardal astudiaeth. Fel y nodwyd yn y dyfyniad a ddarllenais yn gynharach, cynllunio yw un o'r problemau. Ystyrir y dynodiad AHNE yn briodol gydag amheuon dwfn gan y cymunedau lleol a’r dynion busnes lleol y

Your own statement confirms that there will be greater planning restrictions. Local farmers will now face greatly increased costs. That is in the context of what the pathfinder report said in paragraph 3.1, namely that development is not a major cause of visual intrusion in that area. As the NFU said in its response, where then is the argument that stricter planning controls are required?

disgwylir iddynt fyw a gweithio yn yr AHNE. Mae eich datganiad eich hun yn cadarnhau y bydd mwy o gyfyngiadau cynllunio. Bydd ffermwyr lleol bellach yn wynebu costau llawer mwy. Mae hynny yng nghyd-destun yr hyn a ddywedodd yr adroddiad braenaru ym mharagraff 3.1, sef nad yw datblygu yn achos mawr o amhariad gweledol yn yr ardal honno. Fel y dywedodd yr NFU yn ei ymateb, lle wedyn mae'r ddadl bod rheolau cynllunio llymach yn ofynnol?

Minister, I would like you to confirm that TAN 6 and its policies for sustainable and rural development will continue to apply in that area. I also note that you have said that:

Weinidog, hoffwn ichi gadarnhau y bydd TAN 6 a'i bolisïau ar gyfer datblygu cynaliadwy a gwledig yn parhau i fod yn gymwys yn yr ardal honno. Nodaf hefyd eich bod wedi dweud:

'The creation of a new AONB will also offer us the opportunity to help inform how we best manage our protected areas under the natural environment framework, which is currently under development.'

Bydd creu AHNE newydd hefyd yn cynnig y cyfle i helpu i lywio'r ffordd orau o reoli ein hardaloedd gwarchodedig o dan y fframwaith amgylchedd naturiol, sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Minister, it is worrying that you seem prepared to use the people who live and work in the extended range as part of an experiment. You already have a number of AONBs. If you do not have the evidence for your natural environment framework from those that currently exist, then why do you need to extend this AONB to get more evidence?

Weinidog, mae'n destun pryder eich bod yn ymddangos yn barod i ddefnyddio'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal estynedig fel rhan o arbrawf. Mae eisoes gennych nifer o ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol. Os nad oes gennych y dystiolaeth ar gyfer eich fframwaith amgylchedd naturiol gan y rhai sy'n bodoli ar hyn o bryd, yna pam y mae angen ichi ymestyn yr AHNE hon i gael mwy o dystiolaeth?

Finally, there is no mention of funding in your statement. You claim that sustainable development is at the heart of your Government, but is that right? This will lead to additional regulation and bureaucracy for the hard-working farmers in that area. What is this going to cost taxpayers, and what support will you give, given the additional restrictions that this will impose? Those are my questions.

Yn olaf, nid oes sôn am gyllid yn eich datganiad. Rydych yn honni bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd eich Llywodraeth, ond a yw hynny'n iawn? Bydd hyn yn arwain at reoleiddio a biwrocratiaeth ychwanegol ar gyfer y ffermwyr sy'n gweithio'n galed yn yr ardal honno. Beth fydd y gost i drethdalwyr, a pha gymorth a roddwch, o ystyried y cyfyngiadau ychwanegol y bydd hyn yn eu gosod? Dyna fy nghwestiynau.

**John Griffiths:** I am disappointed that the Member is so negative about what I believe to be a positive development for people in the area. The Member raised a number of issues, beginning with the consultation process. The process has taken seven years to complete and has involved two consultations, the first of which ran for 17 weeks. That was complemented by a series of public meetings

**John Griffiths:** Yr wyf yn siomedig bod yr Aelod mor negyddol am yr hyn yr wyf yn ystyried yn ddatblygiad cadarnhaol i bobl yn yr ardal. Cododd yr Aelod nifer o faterion, gan ddechrau gyda'r broses ymgynghori. Mae'r broses wedi cymryd saith mlynedd i'w gwblhau, ac wedi cynnwys dau ymgynghoriad, a chynhaliwyd y cyntaf am 17 wythnos. Cafodd hynny ei ategu gan

and drop-in events. I am confident that CCW has allowed enough time and afforded ample opportunity to individuals and organisations to put their views forward.

gyfres o gyfarfodydd cyhoeddus a digwyddiadau galw heibio. Rwy'n hyderus y bydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi caniatáu digon o amser a digon o gyfle i unigolion a sefydliadau i gyflwyno eu barn.

When it comes to the various interests in the affected area, there will be a joint advisory committee and a management plan. That will be very much about key stakeholders bringing concerns and views to the table, and the balancing of those interests in ensuring that everybody affected by the designation has a voice and can exert an influence over future development. It is a balance, and that is the case right across Wales. It is a matter of striking a slightly different balance in an area of outstanding natural beauty, because protecting and enhancing that natural beauty has greater weight when it comes to decision making and the planning process. I can tell the Member that TAN 6 will continue to apply in the area, but a different weight is given to the natural beauty, because it is recognised as being of outstanding value.

Pan ddaw at y gwahanol fuddiannau yn yr ardal yr effeithir arni, bydd pwyllgor ymgynghorol ar y cyd a chynllun rheoli. Bydd hynny yn ymwneud â rhanddeiliaid allweddol yn dod â phryderon a safbwyntiau at y bwrdd, a chydbwyso’r buddiannau hynny o ran sicrhau bod gan bawb yr effeithir arnynt gan y dynodiad lais ac y gallant gael dylanwad dros ddatblygiad yn y dyfodol. Mae hyn yn gydbwysedd, ac mae hynny'n wir ar draws Cymru. Mae'n fater o sicrhau cydbwysedd ychydig yn wahanol mewn ardal o harddwch naturiol eithriadol, oherwydd bod gan warchod a gwella harddwch naturiol mwy o bwys pan ddaw’n fater o wneud penderfyniadau a'r broses gynllunio. Gallaf ddweud wrth yr Aelod y bydd TAN 6 yn parhau i fod yn gymwys yn yr ardal, ond mae pwysau gwahanol yn cael ei roi i harddwch naturiol, oherwydd y cydnabyddir ei fod o werth eithriadol.

In no way is any of this about experimentation on the people who live in the area—I think that that was a rather foolish statement for the Member to make. We have a number of existing AONBs. The process of looking at the request for the extension of the existing Clwydian range AONB lasted several years, and took into account all of the statutory requirements and all of the factors involved. It was carried out on that proper basis.

Nid yw hwn mewn unrhyw ffordd am arbrofi ar y bobl sy'n byw yn yr ardal—credaf fod hwnnw’n ddatganiad braidd yn ffôl gan yr Aelod. Mae gennym nifer o ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol ar hyn o bryd. Roedd y broses o edrych ar y cais am estyniad i AHNE presennol bryniau Clwyd wedi para nifer o flynyddoedd, ac wedi ystyried yr holl ofynion statudol a’r holl ffactorau cysylltiedig. Fe'i cynhaliwyd ar y sail briodol honno.

The Member also raised a point about funding. We have our sustainable development grant funding and there is also CCW partnership funding involved. Research by CCW shows that it is possible to attract additional funding to areas designated as areas of outstanding national beauty, for example, from lottery funding and European Union funds.

Cododd yr Aelod hefyd bwynt am gyllid. Mae gennym ein cyllid grant datblygu cynaliadwy ac mae yna hefyd arian partneriaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Dengys ymchwil gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ei fod yn bosibl i ddenu cyllid ychwanegol i ardaloedd a ddynodwyd fel ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol, er enghraifft, o arian y loteri a chronfeydd yr Undeb Ewropeaidd.

**Kenneth Skates:** I thank the Minister for this excellent statement. I am delighted by this. This will be long celebrated by the people of north-east Wales. You may not often hear me

**Kenneth Skates:** Diolch i'r Gweinidog am y datganiad rhagorol hwn. Rwyf yn falch ohono. Bydd hyn yn cael ei ddathlu am amser hir gan bobl gogledd-ddwyrain Cymru.

say this, but I regret the absence of Darren Millar today, because I think that we would have heard a very different message from him from what we heard from the Conservative Member earlier.

Efallai nad ydych yn aml yn fy nghlywed yn dweud hyn, ond yr wyf yn gresynu absenoldeb Darren Millar heddiw, oherwydd credaf y byddem wedi clywed neges wahanol iawn oddi wrtho o’i gymharu â’r hyn a glywsom gan yr Aelod Ceidwadol yn gynharach.

When draft plans were put together by the Countryside Council for Wales to extend the current range to include Llangollen and the Dee Valley, there was a significant consensus in favour of the proposals. There is no doubt about that. First and foremost, the designation is recognition of the fact that the Clwydian range is an area of natural beauty as good as that found anywhere else in the world. The designation will help to raise the profile of the range and protect the outstanding features of the area. From the perspective of north Wales, tourism is an essential and crucial part of the economy, as we heard earlier—I do not know why there was a sudden flip-flop on the issue of tourism. It is a crucial part of the economy—it brings in £1.8 billion in income to the region, and supports well over 37,000 jobs. However, to date—this is the crucial issue about footfall in the area—north-west Wales attracts three quarters of staying visitors, whereas north-east Wales attracts only a quarter. This announcement will help to address this imbalance. Transforming day visits to staying visits will reap economic benefits, and the foundations are in place for that.

Pan roddwyd cynlluniau drafft at ei gilydd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru i ymestyn yr ardal bresennol i gynnwys Llangollen a Dyffryn Dyfrdwy, roedd consensws sylweddol o blaid y cynigion. Nid oes amheuaeth am hynny. Yn bennaf oll, mae'r dynodiad yn cydnabod y ffaith bod bryniau Clwyd yn ardal o harddwch naturiol cystal ag a geir yn unman arall yn y byd. Bydd y dynodiad yn helpu i godi proffil y bryniau a gwarchod nodweddion rhagorol yr ardal. O safbwynt gogledd Cymru, mae twristiaeth yn rhan hanfodol ac allweddol o'r economi, fel y clywsom yn gynharach—ni wn pam y bu newid barn sydyn ar y mater o dwristiaeth. Mae'n rhan hanfodol o'r economi—mae'n dod â £1.8 biliwn mewn incwm i'r rhanbarth, ac yn cefnogi ymhell dros 37,000 o swyddi. Fodd bynnag, hyd yn hyn—hwn yw'r mater hollbwysig am nifer yr ymwelwyr yn yr ardal—mae gogledd-orllewin Cymru yn denu tri chwarter o'r ymwelwyr sy'n aros, tra bod gogledd-ddwyrain Cymru yn denu dim ond chwarter. Bydd y cyhoeddiad hwn yn helpu i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwn. Bydd trawsnewid ymweliadau undydd i ymweliadau dros nos yn sicrhau manteision economaidd, ac mae'r sylfeini yn eu lle ar gyfer hynny.

It is interesting to note that the last AONB to be designated was the Clwydian range. Since then, we have seen the numbers of visitors to Moel Famau and Loggerheads—which is managed magnificently by Denbighshire County Council—increase by over 100 per cent. The facilities are there, ready for staying visitors, and this announcement will ensure that we reap the economic benefits.

Mae'n ddiddorol nodi mai’r AHNE olaf i gael ei ddynodi oedd bryniau Clwyd. Ers hynny, rydym wedi gweld nifer yr ymwelwyr â Moel Famau a Loggerheads—sy'n cael ei reoli’n wych gan Gyngor Sir Ddinbych—yn cynyddu o dros 100 y cant. Mae'r cyfleusterau yno, yn barod ar gyfer ymwelwyr sy'n aros, a bydd y cyhoeddiad hwn yn sicrhau ein bod yn elwa ar y manteision economaidd.

We need to be sure that the countryside is a place where people can live and work—rural communities are not the preserve of the few. Again, this announcement today will deliver a good future for young people in rural areas. It was fantastic to see significant cross-sector

Mae angen inni fod yn sicr bod cefn gwlad yn fan lle gall pobl fyw a gweithio—nid braint yr ychydig yw cymunedau gwledig. Unwaith eto, bydd y cyhoeddiad hwn heddiw yn sicrhau dyfodol da i bobl ifanc mewn ardaloedd gwledig. Roedd yn wych gweld

backing from Denbighshire, Wrexham and Flintshire councils, with several local voluntary organisations and businesses also lending their support. That support was vital in helping to secure this extension, and I pay tribute to all of the officials involved. Importantly, this designation will allow us to manage the area in a sustainable way for the future, as well as ensuring that the cultural and economic potential of the area is maximised.

cefnogaeth sylweddol traws-sector o gynghorau Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint, gyda nifer o sefydliadau gwirfoddol lleol a busnesau hefyd yn rhoi eu cefnogaeth. Mae'r cymorth hwnnw'n hanfodol wrth helpu i sicrhau'r estyniad hwn, a hoffwn dalu teyrnged i bob un o'r swyddogion dan sylw. Yn bwysig, bydd y dynodiad hwn yn ein galluogi i reoli'r ardal mewn modd cynaliadwy ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â sicrhau bod potensial diwylliannol ac economaidd yr ardal yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf.

I will briefly raise two issues with you. First, what work can be done with local authorities on the ground to ensure collaborative working that reaps the full benefits of the extended Clwydian range AONB? Secondly, I have been contacted by a number of constituents regarding examination of the possibility of the Ceiriog valley being included in the AONB. Has the Welsh Government done any further work with the CCW on that? I welcome this brilliant statement as a green light for sustainable economic, environmental and community rejuvenation in north-east Wales.

Codaf ddau fater yn fyr gyda chi. Yn gyntaf, pa waith a ellir ei wneud gydag awdurdodau lleol ar lawr gwlad i sicrhau cydweithio sy'n medi manteision llawn AHNE estynedig bryniau Clwyd? Yn ail, yr wyf wedi cysylltu â nifer o etholwyr ynghylch archwilio'r posibilrwydd o gynnwys dyffryn Ceiriog yn yr AHNE. A yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw waith pellach gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru ar hynny? Croesawaf y datganiad gwych hwn fel golau gwyrdd ar gyfer adnewyddiad economaidd cynaliadwy, amgylcheddol a chymunedol yng ngogledd-ddwyrain Cymru.

**John Griffiths:** I thank the Member for that enthusiastic support for the extension of this designation. I agree that there has been widespread support in the area for the extension, as evidenced by the examples that the Member gave. As Ken Skates stated, I believe that the Member for Clwyd West, Darren Millar, does indeed support this designation.

**John Griffiths:** Diolch i'r Aelod am y gefnogaeth frwd ar gyfer ymestyn y dynodiad hwn. Yr wyf yn cytuno y bu cefnogaeth eang yn yr ardal ar gyfer yr estyniad, fel y dangosir gan yr enghreifftiau a roddodd yr Aelod. Fel y dywedodd Ken Skates, credaf fod yr Aelod dros Orllewin Clwyd, Darren Millar, yn wir yn cefnogi'r dynodiad hwn.

**Ann Jones** *rose—*

**Ann Jones** *a gododd—*

**The Presiding Officer:** Will you take an intervention?

**Y Llywydd:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**John Griffiths:** I was not sure whether I was allowed to take an intervention.

**John Griffiths:** Nid oeddwn yn sicr a oeddwn yn cael derbyn ymyriad.

**Ann Jones:** As you mentioned Darren Millar, it would be remiss of us not to pay tribute to the former Clwyd South Assembly Member, Karen Sinclair, who worked unstintingly on this.

**Ann Jones:** Gan eich bod wedi sôn am Darren Millar, byddai'n esgeulus ohonom i beidio â thalu teyrnged i'r cyn-Aelod y Cynulliad dros Dde Clwyd, Karen Sinclair, a wnaeth weithio'n ddiflino ar hyn.

**The Presiding Officer:** Order. Sorry, Minister, you were quite right; there should

**Y Llywydd:** Trefn. Mae'n ddrwg gennyf, Weinidog, yr oeddech yn llygaid eich lle; ni

be no interventions on statements. Carry on.

ddylai fod unrhyw ymyriadau ar ddatganiadau. Ewch ymlaen.

4.15 p.m.

**John Griffiths:** Diolch, Llywydd. I thank Members for their support for this extension and designation. It is a matter of understanding the tourism value of the extension. The statistics that Ken Skates provided regarding the tourism benefit of the Clwydian range AONB are quite telling. It is a matter of local authorities working together. Wrexham County Borough Council needs to work with the management plan that will be put in place, and the joint advisory committee. Those are important mechanisms to ensure that joint working on the ground takes place with all local key stakeholders. I am sure that it will be a success, because it works well with AONBs in general.

**John Griffiths:** Diolch, Lywydd. Diolch i'r Aelodau am eu cefnogaeth ar gyfer yr estyniad a'r dynodiad hwn. Mae'n fater o ddeall gwerth twristiaeth yr estyniad. Mae'r ystadegau a ddarparwyd gan Ken Skates ynghylch budd twristiaeth AHNE bryniau Clwyd yn eithaf trawiadol. Mae'n fater o awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd. Mae angen i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam weithio gyda'r cynllun rheoli a gaiff ei roi ar waith, a gyda'r cydbwyllgor ymgynghorol. Mae'r dulliau hynny'n bwysig er mwyn sicrhau bod cydweithio ar lawr gwlad yn digwydd gyda'r holl randdeiliaid allweddol lleol. Mae'n siŵr y bydd yn llwyddiant, oherwydd mae'n gweithio'n dda gydag ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol yn gyffredinol.

Finally, regarding the Ceiriog valley, there have been suggestions that that area might have been included, as well as other adjoining areas. I know that the Countryside Council for Wales is doing some research and looking at possibilities for the future and, obviously, the Welsh Government will take a keen interest in those proposals.

Yn olaf, ynghylch Dyffryn Ceiriog, cafwyd awgrymiadau y gallai'r ardal honno gael ei chynnwys, yn ogystal ag ardaloedd cyfagos eraill. Gwn fod Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn gwneud rhywfaint o ymchwil ac yn edrych ar bosibiliadau ar gyfer y dyfodol ac, wrth gwrs, bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd diddordeb brwd yn y cynigion hynny.

**Llyr Huws Gruffydd:** Hoffwn innau fynegi fy syndod ynghylch negyddiaeth ymateb y Blaid Geidwadol. Mae'r Aelod Ceidwadol lleol dros Orllewin Clwyd wedi galw am ymestyn yr ardal a hefyd wedi galw am ei throi yn barc cenedlaethol. Efallai y byddai'n werth i chi gael sgwrs gyda'ch gilydd i fod yn glir ynghylch lle yr ydych yn sefyll ar y mater. Beth bynnag a feddyliwch am hynny, nid oes gennyf amheuaeth na fydd estyn yr ardal o harddwch naturiol eithriadol yn dod â budd economaidd i rai sectorau, megis twristiaeth, lletygarwch a hamdden, o ganlyniad i ddenu mwy o ymwelwyr i'r ardal. Bydd hefyd yn dod â buddiannau amgylcheddol ac o ran bywyd gwyllt, yn amlwg, o ganlyniad i gael rheolaeth fwy gofalus.

**Llyr Huws Gruffydd:** I would also like to express my surprise regarding the negative response of the Conservative Party. The local Conservative Member for Clwyd West has called for the area to be extended and has called for it to be turned into a national park. It might be worthwhile for you to have a chat to be clear about where you stand on the matter. Whatever you may think about that, I have no doubt that the extension of the area of outstanding natural beauty will bring economic benefits to some sectors, such as tourism, hospitality and leisure, as a result of more visitors being attracted to the area. It will also bring environmental benefits and benefits in terms of wildlife, obviously, as a result of more careful management.

Weinidog, byddwch yn ymwybodol o ofidiau lleol, yn enwedig ymhlith y gymuned

Minister, you will be aware of local concerns, especially in the farming community, that the

amaethyddol, y bydd y statws newydd yn dod â rheoliadau a chyfyngiadau newydd. Bu cyfeiriad yn lleol at reolau cynllunio llymach gyda phrosesau mwy costus a fyddai'n gallu cyfyngu ar ddatblygiad busnesau. Un o amcanion ardal o harddwch naturiol eithriadol yw ystyried buddiannau'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal. Hoffwn gael sicrwydd gennych, Weinidog, ar gyfer y rhai sy'n gofidio, na fydd y statws hwn yn cael ei ddefnyddio i rwystro busnesau lleol, yn enwedig ffermydd, rhag datblygu eu busnesau ac arallgyfeirio.

new status will bring new regulations and restrictions. References have been made locally to stricter planning regulations and a more costly process that could restrict the development of businesses. One of the objectives of an area of outstanding natural beauty is to consider the welfare of those who live and work in that area. I would like an assurance from you, Minister, for those who are concerned, that this status will not be used to prevent local businesses, especially farms, from developing their businesses and diversifying.

Mae goblygiadau hefyd ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy lleol, yn enwedig ynni gwynt. Yr wyf yn ymwybodol o nifer o enghreifftiau o drigolion lleol sydd wedi methu â chael caniatâd ar gyfer prosiectau cynhyrchu ynni gwynt micro—nid o reidrwydd am eu bod o fewn yr ardal, ond am eu bod o fewn golwg i'r ardal yn ogystal. Byddai estyn yr ardal o harddwch naturiol eithriadol yn cyfyngu ymhellach ar y potensial hwnnw. Er y bydd yr estyniad yn dod â rhai manteision amlwg i'r ardal, ac mae'r rheini i'w croesawu, mae pryder yn lleol, ac mae angen cydnabod hynny, y bydd hefyd yn cyfyngu a hyd yn oed yn tanseilio twf a datblygiad rhai sectorau eraill.

There are also implications for local renewable energy plans, particularly wind energy. I am aware of a number of examples of local residents who have failed to obtain permission for microgeneration wind projects—not necessarily because they were within that area, but because they were within sight of it. Extending the area of outstanding natural beauty would further restrict that potential. Although the extension will bring some obvious advantages to the area, and those are to be welcomed, there is concern locally, which needs to be acknowledged, that it will also restrict and even undermine the growth and development of some other sectors.

Weinidog, a wnewch chi sicrhau y bydd ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus drylwyr yn digwydd yn lleol er mwyn sicrhau y bydd trigolion, yn enwedig amaethwyr lleol, yn ymwybodol o unrhyw oblygiadau ymarferol a fydd arnynt yn sgîl estyn yr ardal o harddwch naturiol eithriadol? A ydych yn derbyn y bydd yr estyniad hwn yn ergyd i brosiectau ynni adnewyddadwy lleol?

Minister, will you ensure that there will be an intensive local public information campaign to ensure that residents, particularly local farmers, are aware of any practical implications for them as a result of the extension of the area of outstanding natural beauty? Do you accept that this extension will be a blow to local renewable energy projects?

Mae llawer o ymchwil wedi'i wneud ar werth economaidd penodi ardal o harddwch naturiol eithriadol gydag un darn o waith yn nyffryn Gwy yn dangos bod pob £1 o gefnogaeth ariannol a ddarparwyd gan yr awdurdodau lleol yno wedi denu gwerth o leiaf £3 arall o fudd i'r ardal. Byddwn yn hoffi clywed pa gynlluniau sydd gan y Llywodraeth i wireddu'r potensial economaidd a ddaw yn sgîl yr estyniad, er enghraifft, drwy gefnogi'r sector twristiaeth leol i fanteisio'n llawn ar y statws newydd.

A lot of research has been undertaken on the economic benefit of designating an area as an AONB with one piece of research in the Wye valley demonstrating that every £1 of financial support provided by the local authorities in that area attracted at least another £3 of benefit to the area. I would like to hear what plans the Government has to bring to fruition the economic potential that could be derived from the extension, by supporting the local tourism sector, for example, to take full advantage of the new status.

**John Griffiths:** I thank the Member for that contribution, and for recognising the economic benefits as well as raising a number of concerns. In terms of farming practice, the planning legislation does not cover agricultural use, but when it comes to the possible development of buildings, for example, technical advice note 6 is useful and still applies. That will be balanced by the greater protection afforded by area of outstanding natural beauty status. Nonetheless, it is always a matter of balancing a number of considerations and material factors when it comes to any planning matter, and that will continue to be the case.

**John Griffiths:** Diolch i'r Aelod am y cyfraniad hwnnw, ac am gydnabod y manteision economaidd yn ogystal â chodi nifer o bryderon. O ran arferion ffermio, nid yw'r ddeddfwriaeth cynllunio yn cwmpasu defnydd amaethyddol, ond pan ddaw at y posibilrwydd o ddatblygu adeiladau, er enghraifft, mae nodyn cyngor technegol 6 yn ddefnyddiol ac yn dal yn berthnasol. Bydd hynny'n cael ei gydbwyso gan yr amddiffyniad ehangach a roddir gan y statws ardal o harddwch naturiol eithriadol. Serch hynny, mae'n fater o gydbwyso nifer o ystyriaethau a ffactorau materol pan ddaw at unrhyw fater cynllunio, a bydd hynny'n parhau i fod yn wir bob amser.

As I have mentioned already, the joint advisory committee and the management plan involving key stakeholders are very important. For example, that committee is important in terms of communication, as the Member mentioned, and that will have a key role in terms of spreading the message as to exactly what is involved in the designation and dealing with any queries or questions that local people will have, including those within the farming communities. It is the joint advisory committee and the management plan that will balance the different interests and fulfil an important communication role. However, when it comes to the familiar competing interests around planning, whichever aspects of planning we are talking about, the general and material factors involved in 'Planning Policy Wales' will still apply, as I said, with the difference being the greater weight given to the protection and enhancement of the outstanding natural beauty of the area.

Fel yr wyf wedi'i grybwyll eisoes, mae'r cydbwyllgor ymgynghorol a'r cynllun rheoli, sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol, yn bwysig iawn. Er enghraifft, mae'r pwyllgor hwnnw'n bwysig o ran cyfathrebu, fel y crybwyllodd yr Aelod, a bydd ganddo rôl allweddol o ran lledaenu'r neges ynghylch beth yn union sy'n gysylltiedig â'r dynodiad ac ymdrin ag unrhyw ymholiadau neu gwestiynau y bydd gan bobl leol, gan gynnwys y rhai o fewn y cymunedau ffermio. Y cydbwyllgor ymgynghorol a'r cynllun rheoli a fydd yn sicrhau cydbwysedd rhwng y buddiannau gwahanol ac yn cyflawni rôl cyfathrebu bwysig. Fodd bynnag, pan ddaw at y buddiannau cyfarwydd sy'n cystadlu o amgylch cynllunio, pa bynnag agweddau ar gynllunio yr ydym yn sôn amdanynt, bydd y ffactorau cyffredinol a materol a amlinellir yn 'Polisi Cynllunio Cymru' yn parhau'n berthnasol, fel y dywedais, gyda gwahaniaeth o ran y pwyslais a roddir ar amddiffyniad a hyrwyddo harddwch naturiol yr ardal.

**Aled Roberts:** May I also warmly welcome this announcement? It was obviously a matter of regret, as far as the predecessor authority in Wrexham was concerned, when the original designation was made in 1985, that the designation did not follow the recommendations that go back as far as 1947 to the predecessor conservation area. I must also say to Antoinette Sandbach that, while there were difficulties with regard to the consultation exercise originally, to be fair to CCW, it extended the period of consultation and put right some of the difficulties that had been experienced. I must also say that when

**Aled Roberts:** A gaf innau groesawu'n gynnes y cyhoeddiad hwn? Wrth gwrs, yr oedd yn fater o ofid, o safbwynt yr awdurdod blaenorol yn Wrecsam, pan wnaed y dynodiad gwreiddiol ym 1985, nad oedd y dynodiad yn dilyn yr argymhellion a oedd yn mynd yn ôl mor bell â 1947 i'r ardal gadwraeth flaenorol. Rhaid dweud hefyd wrth Antoinette Sandbach, er bod anawsterau o ran yr ymarfer ymgynghori yn wreiddiol, a bod yn deg i CCGC, roedd wedi ymestyn y cyfnod ymgynghori ac unioni rhai o'r anawsterau a gafwyd. Rhaid dweud hefyd, pan ystyriwyd y mater yn Wrecsam, pan oedd

the matter was considered at Wrexham, when we had competing interests involving, for example, the farming lobby, my understanding was that there was overall support for this particular designation that is being discussed today. The opposition was with regard to the further extension to Dyffryn Ceiriog, which, as the Minister has already outlined, may be a matter for further consideration.

buddiannau'n cystadlu, er enghraifft, y lobi ffermio, fy nealltwriaeth oedd bod cefnogaeth gyffredinol ar gyfer y dynodiad arbennig hwn sy'n cael ei drafod heddiw. Yr oedd y gwrthwynebiad mewn perthynas ag ymestyn ymhellach i Ddyffryn Ceiriog, a all fod, fel yr amlinellodd y Gweinidog eisoes, yn fater ar gyfer ystyriaeth bellach.

I share the Minister's views with regard to the success of the Clwydian AONB designation. It was a matter of some jealousy, as far as we were concerned in Wrexham, when we saw our colleagues in Denbighshire and Flintshire being able to market the area properly, as far as they were concerned. The Minister for health and I do not need an AONB designation; we know that Rhos mountain is the most beautiful part of Wales anyway—[ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.']—but now we have an official designation. Anyone who tries to brand this, as the Minister knows, as Ruabon and Esclusham mountain is very much misled.

Yr wyf yn rhannu barn y Gweinidog o ran llwyddiant dynodiad AHNE bryniau Clwyd. Roedd yn fater o gryn eiddigedd, o'n safbwynt ni yn Wrecsam, pan welsom ein cydweithwyr yn Sir Ddinbych a Sir y Fflint yn gallu marchnata'r ardal yn iawn, o'u safbwynt hwy. Nid oes angen dynodiad AHNE ar y Gweinidog iechyd a minnau; gwyddom mai mynydd Rhos yw rhan harddaf Cymru beth bynnag—[Aelodau'r Cynulliad: 'O.']—ond mae gennym yn awr ddynodiad swyddogol. Mae unrhyw un sy'n ceisio brandio hwn, fel y gŵyr y Gweinidog, yn fynydd Rhiwabon ac Esclusham yn cael ei gamarwain yn fawr iawn.

There are benefits to this. We know that the heath and hillforts experience in Denbighshire has been very significant, following the approval of £2.4 million of lottery funding. When we were looking at this, all the evidence that we saw, whether it was in England or the study that Llyr Huws Gruffydd referred to, showed that these designations, as far as conservation areas were concerned, brought real benefits. I think that this extension of the AONB designation will complement the world heritage site at Pontcysyllte, because, as Ken Skates rightly said, it will now extend the area as far as the WHS is concerned.

Ceir manteision i hyn. Gwyddom fod profiad y rhostiroedd a bryngaerau yn Sir Ddinbych wedi bod yn sylweddol iawn, yn dilyn cymeradwyaeth o £2.4 miliwn o arian loteri. Pan oeddem yn edrych ar hyn, yr oedd yr holl dystiolaeth a welsom, boed yn Lloegr neu'r astudiaeth y cyfeiriodd Llyr Huws Gruffydd ato, yn dangos bod y dynodiadau hyn, o safbwynt yr ardaloedd cadwraeth, yn dod â manteision go iawn. Credaf y bydd yr estyniad hwn o'r dynodiad AHNE yn ategu safle treftadaeth y byd ym Mhontcysyllte, oherwydd, fel y dywedodd Ken Skates yn gywir, bydd yn awr yn ymestyn yr ardal o safbwynt safle treftadaeth y byd.

I have one question, however, Minister. My understanding is that CCW has agreed a specific timetable for work to be carried out with regard to consideration of the further extension to the Ceiriog valley. I know that there are problems with geology and technical issues as far as CCW is concerned, but will you ensure that the timetable that CCW agreed when it pressed ahead with this submission, rather than keeping it back for the full designation, will be adhered to?

Mae gennyf un cwestiwn, fodd bynnag, Weinidog. Fy nealltwriaeth i yw bod Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi cytuno ar amserlen benodol ar gyfer gwneud gwaith o ran ystyried ymestyn ymhellach i Ddyffryn Ceiriog. Gwn fod problemau gyda daeareg a materion technegol yn ôl Cyngor Cefn Gwlad Cymru, ond a fyddwch yn sicrhau bod yr amserlen y cytunodd CCGC arni pan wthiodd yn ei flaen gyda'r cyflwyniad hwn, yn hytrach na'i gadw yn ôl ar gyfer dynodiad llawn, yn cael ei chadw?

**John Griffiths:** I am grateful to Aled Roberts for that warm welcome for the extension and the designation. I agree that the consultation exercise showed CCW responding to concern and being accordingly flexible. I also agree on the obvious natural beauty that has been recognised, and I am glad that my colleague Lesley Griffiths has enjoyed that, as have other Members, and will continue to do so.

**John Griffiths:** Yr wyf yn ddiolchgar i Aled Roberts am y croeso cynnes hwnnw ar gyfer yr estyniad a dynodiad. Cytunaf fod yr ymgynghoriad yn dangos Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn ymateb i bryder ac yn bod yn hyblyg yn unol â hynny. Cytunaf hefyd ar yr harddwch naturiol amlwg sydd wedi cael ei gydnabod, ac yr wyf yn falch bod fy nghyd-Aelod Lesley Griffiths wedi mwynhau hwnnw, fel Aelodau eraill, ac y bydd yn parhau i wneud hynny.

When it comes to CCW and consideration of the further inclusion of adjoining areas in any future designation, as I understand it, Wrexham County Borough Council has made representations to the Countryside Council for Wales, which then agreed to conduct further research. However, I am not aware as to whether any particular timetable was set out. I will make some enquiries in that regard and write to the Member.

O ran CCGC ac ystyried cynnwys mwy o ardaloedd cyfagos mewn unrhyw ddynodiad yn y dyfodol, fel y deallaf, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cyflwyno sylwadau i Gyngor Cefn Gwlad Cymru, sydd wedyn wedi cytuno i gynnal mwy o ymchwil. Fodd bynnag, nid wyf yn ymwybodol a nodwyd unrhyw amserlen benodol. Gwnaf rai ymholiadau yn hynny o beth ac ysgrifennaf at yr Aelod.

**Russell George:** This is an issue that attracts strong vocal comments from those on both sides of the debate. Antoinette Sandbach has rightfully pointed out the concerns of the agriculture industry, and Ken Skates is quite right to say that Darren Millar will certainly welcome this statement. He spoke very forcefully on it last February, and I can see him jumping up and down in his wheelchair, saying that this is not enough and that we need to designate this as a national park. What is not in any doubt is that this is a unique landscape and an important area, not just for Wales, but for the UK as a whole. We must not lose sight of the purpose of designation and what it means for the communities that it affects. We should not forget that people who live and work within the range are vital and their views should be considered. As you have rightfully said, Minister, we need to strike the right balance between the sectors and the people affected by the enhancement Order.

**Russell George:** Mae hwn yn fater sy’n denu sylwadau llafar cryf gan y rheiny ar ddwy ochr y ddadl. Mae Antoinette Sandbach wedi tynnu sylw yn briodol at bryderon y diwydiant amaethyddol, ac y mae Ken Skates yn hollol iawn i ddweud y bydd Darren Millar yn sicr yn croesawu’r datganiad hwn. Siaradodd yn rymus iawn arno fis Chwefror diwethaf, a gallaf ei weld yn neidio i fyny ac i lawr yn ei gadair olwyn, gan ddweud nad yw hyn yn ddigon, a bod angen inni ddynodi hyn fel parc cenedlaethol. Nid oes unrhyw amheuaeth bod hon yn dirwedd unigryw ac yn faes pwysig, nid yn unig i Gymru, ond ar gyfer y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd. Rhaid inni beidio â cholli golwg ar bwrpas y dynodiad a beth y mae’n ei olygu ar gyfer y cymunedau y mae’n effeithio arnynt. Ni ddylem anghofio bod pobl sy’n byw ac yn gweithio o fewn y bryniau hyn yn hanfodol a dylid ystyried eu safbwyntiau. Fel y dywedasoch yn gwbl briodol, Weinidog, mae angen inni gael y cydbwysedd iawn rhwng y sectorau a’r bobl yr effeithir arnynt gan y Gorchymyn gwella.

Designated areas make a significant contribution to managing land use, affecting wildlife, climate change objectives, the rural economy and people’s health and wellbeing. However, there are farmers and businesses on

Mae ardaloedd dynodedig yn gwneud cyfraniad sylweddol at reoli defnydd tir, gan effeithio ar fywyd gwyllt, amcanion newid yn yr hinsawdd, yr economi wledig ac iechyd a lles pobl. Fodd bynnag, mae ffermwyr a

the range whose livelihoods are potentially at risk. Therefore, are you satisfied that CCW has done everything that it can to weigh up the potential benefits against the possible disadvantages? Was there an assessment to see whether the proposed designation is the most appropriate route to take, or do alternative options exist?

busnesau ar y bryniau y mae eu bywoliaeth o bosibl mewn perygl. Felly, a ydych yn fodlon bod Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi gwneud popeth yn ei allu i bwyso a mesur y manteision posibl yn erbyn yr anfanteision posibl? A oedd asesiad i weld ai'r dynodiad arfaethedig yw'r llwybr mwyaf priodol i'w cymryd, neu a oes dewisiadau amgen yn bodoli?

**John Griffiths:** I thank the Member for that broad welcome for the designation. If Antoinette Sandbach has caused Darren Millar to jump up and down in his wheelchair, I hope that it has not caused too much further damage, because we certainly would not want him to be absent from the Chamber for very much longer. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.']

**John Griffiths:** Diolch i'r Aelod am y croeso cyffredinol ar gyfer y dynodiad. Os yw Antoinette Sandbach wedi peri i Darren Millar neidio i fyny ac i lawr yn ei gadair olwyn, gobeithiaf nad yw wedi achosi gormod o ddifrod pellach, gan na fyddem yn sicr am iddo fod yn absennol o'r Siambr am lawer yn hwy. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'O.'].

I agree that this is about those living and working in the designated area, and that is very much the approach that the management plan and the joint advisory committee will take, working with key stakeholders to balance up those interests. I can, I hope, provide reassurance for the Member that, in looking at the work that CCW did, the various options involved in the exercise and the assessment that took place did consider all the matters that needed to be considered, and those competing interests. That is why I confirm the Order today.

Cytunaf fod hyn am y rheiny sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal ddynodedig, a dyna fydd holl ymagwedd y cynllun rheoli a'r pwyllgor ymgynghorol ar y cyd, gan weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i gydbwyso'r buddiannau hynny. Gobeithio y gallaf ddarparu sicrwydd ar gyfer yr Aelod, wrth edrych ar y gwaith a wnaed gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru o ran y gwahanol opsiynau yn yr ymarfer a'r asesiad a gynhaliwyd yn ystyried yr holl faterion yr oedd angen eu hystyried, a'r buddiannau a oedd yn cystadlu. Dyna pam yr wyf yn cadarnhau'r Gorchymyn heddiw.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 4.29 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 4.29 p.m.*

## Cynnig i Gymeradwyo Gorchymyn Llifogydd ac Erydu Arfordirol Atodol (Cymru) 2011
## Motion to Approve the Incidental Flooding and Coastal Erosion (Wales) Order 2011

*Cynnig NDM4855 Jane Hutt*

*Motion NDM4855 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:*

*To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:*

*Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Gorchymyn Llifogydd ac Erydu Arfordirol Atodol (Cymru) 2011 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Tachwedd 2011.*

*Approves that the draft the Incidental Flooding and Coastal Erosion (Wales) Order 2011 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 9 November 2011.*

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):** I move the motion.

During 2011, we have seen the devastating impact and consequences of flooding right across the world. While we cannot provide complete prevention of flooding or coastal erosion, we can all take action to manage the risks and reduce their consequences. In some cases, causing flooding or coastal erosion in one area, for example by restoring natural processes, may be the most economically, socially and environmentally sustainable option to reduce the risks in another area.

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):** Cynigiaf y cynnig.

Yn ystod 2011, rydym wedi gweld effaith ddinistriol a chanlyniadau llifogydd ar draws y byd. Er na allwn atal llifogydd nac erydu arfordirol yn gyfan gwbl, gall pob un ohonom gymryd camau i reoli'r risgiau a lleihau eu canlyniadau. Mewn rhai achosion, bydd achosi llifogydd neu erydu arfordirol mewn un ardal, drwy adfer prosesau naturiol, er enghraifft, yn ddewis mwy cynaliadwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol er mwyn lleihau'r risgiau mewn ardal arall.

4.30 p.m.

The Incidental Flooding and Coastal Erosion (Wales) Order 2011 empowers the Environment Agency, local authorities and internal drainage boards to carry out certain works in a way that may cause flooding or coastal erosion. This is the first time the Environment Agency, local authorities and internal drainage boards will have had legal powers to cause flooding and coastal erosion. Of course, all works will be in the interests of nature conservation, the preservation of cultural heritage and people's enjoyment of that.

The Order applies relevant provisions to the Water Resources Act 1991 relating to compulsory purchase, powers of entry and compensation. This is very important to minimise any residual impacts on the owners of agricultural land. I urge that this Order be supported.

Mae'r Gorchymyn Llifogydd Achlysurol ac Erydu Arfordirol (Cymru) 2011 yn rhoi pŵer i Asiantaeth yr Amgylchedd, awdurdodau lleol a byrddau draenio mewnol i wneud gwaith penodol mewn ffordd a allai achosi llifogydd neu erydu arfordirol. Dyma'r tro cyntaf y bydd gan Asiantaeth yr Amgylchedd, awdurdodau lleol a byrddau draenio mewnol bwerau cyfreithiol i achosi llifogydd ac erydu arfordirol. Wrth gwrs, bydd pob gwaith at fudd cadwraeth natur, gwarchod treftadaeth ddiwylliannol a mwynhad pobl o hynny.

Mae'r Gorchymyn yn gosod darpariaethau perthnasol ar y Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 sy'n ymwneud â phrynu gorfodol, pwerau mynediad a iawndal. Mae hyn yn bwysig iawn i leihau unrhyw effeithiau gweddilliol ar berchnogion tir amaethyddol. Fe'ch anogaf i gefnogi'r Gorchymyn hwn.

**Russell George:** I thank the Minister for bringing this motion before us today. I and my party certainly welcome these regulations as they are necessary, if the Environment Agency and more local authorities are to use the powers under sections 38 and 39. The Government has failed to meet its biodiversity targets for 2010, and we must now focus hard on the targets for 2020 to ensure that we lay a path to achieve them. These powers are therefore essential if Wales is to meet its obligations under EU directives and to fulfil its future aspirations for the

**Russell George:** Diolchaf i'r Gweinidog am gyflwyno'r cynnig hwn ger ein bron heddiw. Yn sicr, rwyf i a fy mhlaid yn croesawu'r rheoliadau hyn gan eu bod yn angenrheidiol, os yw Asiantaeth yr Amgylchedd a mwy o awdurdodau lleol i ddefnyddio'r pwerau o dan adrannau 38 a 39. Mae'r Llywodraeth wedi methu â chyrraedd ei thargedau bioamrywiaeth ar gyfer 2010, a rhaid inni bellach ganolbwyntio'n galed ar y targedau ar gyfer 2020 i sicrhau ein bod yn gosod llwybr i'w cyflawni. Felly, mae'r pwerau hyn yn hanfodol os yw Cymru i gyflawni ei

natural environment framework.

rhwymedigaethau o dan gyfarwyddebau UE a chyflawni ei dyheadau ar gyfer y fframwaith amgylchedd naturiol yn y dyfodol.

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):** I very much welcome and agree with those comments.

**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):** Croesawaf a chytunaf yn fawr iawn â'r sylwadau hynny.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Does any Member object? As no Member objects, the motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw cytuno ar y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gan nad oes gwrthwynebiad, derbynnir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

## Manteision Rhannu Gwybodaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Bersonol
## Benefits of Sharing Personal Health and Social Services Information

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1 and 2 in the name of William Graham.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1 a 2 yn enw William Graham.

*Cynnig NDM4856 Jane Hutt*

*Motion NDM4856 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn cydnabod bod rhannu gwybodaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bersonol, gyda chymorth technoleg, yn hanfodol er mwyn cwrdd ag amcanion 'Law yn Llaw at Iechyd' a sicrhau'r newid i'r system sy'n angenrheidiol er mwyn darparu iechyd a gofal cymdeithasol integredig a chynaliadwy sy'n gwella canlyniadau, yn cefnogi pobl mewn angen ac yn darparu gofal yn agos at y cartref.*

*Recognises that the sharing of personal Health and Social Services information, supported by technology, is essential to meet the aims of Together for Health and to deliver the system change needed for integrated, sustainable health and social care that improves outcomes, supports people in need and makes care close to home a reality.*

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** I move the motion.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Cynigiaf y cynnig.

I am very pleased to present this issue for debate today. Last month, I announced the Welsh Government's new five-year strategy for the NHS: 'Together for Health'. It sets out how we will deliver more care in the home or close to home, centred on the needs of the individual. If we are to deliver these long-term changes, we must find safe and

Yr wyf yn falch iawn o gyflwyno'r mater hwn i'w drafod heddiw. Y mis diwethaf, cyhoeddais strategaeth bum mlynedd newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG: 'Law yn Llaw at Iechyd'. Mae'n gosod allan sut y byddwn yn cyflawni mwy o ofal yn y cartref neu'n agos i'r cartref, yn canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn. Os ydym am

secure ways to share information more widely among professionals, across organisational boundaries and also with patients themselves. However, let me be clear from the outset—this cannot be achieved without the use of technology, and, in Wales, we have already laid a firm foundation for sharing personal information securely and confidentially.

gyflawni'r newidiadau hirdymor hyn, rhaid inni ganfod ffyrdd diogel o rannu gwybodaeth yn fwy eang ymhlith gweithwyr proffesiynol, ar draws ffiniau sefydliadol a hefyd gyda chleifion eu hunain. Fodd bynnag, gadewch imi fod yn glir o'r cychwyn—ni ellir cyflawni hyn heb y defnydd o dechnoleg, ac, yng Nghymru, yr ydym eisoes wedi gosod sylfaen gadarn ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn gyfrinachol.

Members who were present during the previous term may remember that, during a Plenary debate in March this year, the National Assembly recognised the good progress made by our national information and communications technology programme, Informing Healthcare, which has successfully introduced electronic records to support new ways of working. It has also established Wales as a leader in the use of digital technology for better patient care and has shown why we must continue to invest in information technology.

Efallai y bydd Aelodau a oedd yn bresennol yn ystod y tymor blaenorol yn cofio y bu i'r Cynulliad Cenedlaethol, yn ystod dadl Cyfarfod Llawn ym mis Mawrth eleni, gydnabod y cynnydd da a wnaed gan ein rhaglen gwybodaeth genedlaethol a thechnoleg cyfathrebu, Hysbysu Gofal Iechyd, sydd wedi cyflwyno yn llwyddiannus gofnodion electronig i gefnogi ffyrdd newydd o weithio. Mae hefyd wedi sefydlu Cymru fel arweinydd yn y defnydd o dechnoleg ddigidol ar gyfer gwell gofal i gleifion ac mae wedi dangos pam mae'n rhaid parhau i fuddsoddi mewn technoleg gwybodaeth.

Moving forward, the real issue in delivering change is no longer the technology, but in maintaining trust with the citizens of Wales that their information will be handled safely and securely. That is why I am pleased to inform Members of the measures that we have put in place, based on practical experience and consultation, which are allowing us to get the balance right between sharing information and protecting privacy.

Wrth symud ymlaen, nid technoleg yw'r prif fater wrth gyflawni newid erbyn hyn, ond cynnal ymddiriedaeth dinasyddion Cymru yn y ffaith y bydd eu gwybodaeth yn cael ei thrin yn saff ac yn ddiogel. Dyna pam yr wyf yn falch o hysbysu Aelodau o'r mesurau rydym wedi eu rhoi ar waith, yn seiliedig ar brofiad ymarferol ac ymgynghori, sydd yn caniatáu inni gael y cydbwysedd cywir rhwng rhannu gwybodaeth a diogelu preifatrwydd.

The NHS has already made huge strides forward. General practitioners across Wales successfully share patients' records with the out-of-hours doctor service through the individual health record, providing vital and often life-saving information for emergency care. The Welsh clinical portal puts all the hospital information about a patient in one place, making it easier for staff in hospitals to do their job. We are also making good progress with My Health Online, which allows patients to book GP appointments, order repeat prescriptions and will eventually allow them to access their own electronic records. These new information services are currently being implemented by every health board.

Mae'r GIG eisoes wedi cymryd camau mawr ymlaen. Mae ymarferwyr cyffredinol ledled Cymru yn rhannu cofnodion cleifion yn llwyddiannus gyda'r gwasanaeth meddyg y tu allan i oriau drwy'r cofnod iechyd unigol, sy'n darparu gwybodaeth hanfodol ac sy'n aml yn arbed bywydau yng nghyd-destun gofal brys. Mae porth clinigol Cymru yn rhoi'r holl wybodaeth ysbyty am glaf mewn un lle, gan ei wneud yn haws i staff ysbytai wneud eu gwaith. Rydym hefyd yn gwneud cynnydd da gyda Fy Iechyd Ar-lein, sy'n galluogi cleifion i drefnu apwyntiadau meddyg teulu, archebu presgripsiynau amlroddadwy, ac, yn y pen draw, bydd yn caniatáu iddynt gael mynediad at eu cofnodion electronig eu hunain. Mae'r

gwasanaethau gwybodaeth newydd hyn yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd gan bob bwrdd iechyd.

It is important to emphasise that this personal information is shared only when necessary and is viewed only by the care professionals, who have a genuine need to see it, and that it can only be viewed with the patient's explicit consent. All staff are aware that sharing information can save and improve people's lives and lead to better outcomes, but we also ensure, through proper training and professional practice, that they are aware of data protection and confidentiality laws and their professional responsibilities to handle personal information securely and confidentially. The new national information systems we are introducing in all health boards means computer audits are now possible to check to see who has viewed each record and when they did so. It is impossible to do this reliably with paper notes, so we now have an electronic system, which is more trustworthy in dealing with information sharing.

Mae'n bwysig pwysleisio bod y wybodaeth bersonol hon yn cael ei rhannu dim ond pan fo angen ac yn cael ei gweld dim ond gan y gweithwyr gofal proffesiynol, sydd â gwir angen ei gweld, ac y gellir ei gweld dim ond gyda chaniatâd penodol y claf. Mae pob aelod o staff yn ymwybodol bod rhannu gwybodaeth yn gallu achub a gwella bywydau pobl ac arwain at well canlyniadau, ond rydym hefyd yn sicrhau, drwy hyfforddiant priodol ac ymarfer proffesiynol, eu bod yn ymwybodol o gyfraith diogelu data a cyfrinachedd a'u cyfrifoldebau proffesiynol i ymdrin â gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn gyfrinachol. Mae'r systemau gwybodaeth cenedlaethol newydd yr ydym yn eu cyflwyno ym mhob bwrdd iechyd yn golygu ei bod yn bosibl cynnal archwiliadau cyfrifiadurol er mwyn gwirio pwy sydd wedi gweld pob cofnod a phryd y gwnaethant hynny. Mae'n amhosibl gwneud hyn mewn ffordd ddibynadwy gyda nodiadau papur, felly mae gennym bellach system electronig, sy'n fwy dibynadwy wrth ymdrin â rhannu gwybodaeth.

Many older people tell me health and care services are their lifeline. However, we are not so good at co-ordinating or joining-up services. People sometimes feel that they are passed from pillar to post, between the NHS and local authorities. This often occurs because important information is locked away in local computer systems, which, in practice, are silos that cannot be connected. This is why we are moving to introduce national all-Wales information services that can provide secure access to authorised staff over a secure network at any location.

Mae llawer o bobl hŷn yn dweud wrthyf mai gwasanaethau iechyd a gofal yw eu hachubiaeth. Fodd bynnag, nid ydym cystal wrth gydgysylltu neu uno gwasanaethau. Mae pobl weithiau'n teimlo y cânt eu trosglwyddo o bared i bost, rhwng y GIG ac awdurdodau lleol. Mae hyn yn digwydd yn aml oherwydd bod gwybodaeth bwysig dan glo mewn systemau cyfrifiadurol lleol, sydd, yn ymarferol, yn seilos na ellir eu cysylltu. Dyna pam yr ydym yn symud i gyflwyno gwasanaethau gwybodaeth cenedlaethol Cymru gyfan y gall darparu mynediad diogel i staff awdurdodedig dros rwydwaith diogel mewn unrhyw leoliad.

In 'Together for Health' we have identified that current models of service delivery simply will not cope with the future demands of our ageing population and spiralling costs. Achieving these changes cannot be achieved without better use of information technology. Let me give you a simple, but real, example of how technology can make a difference. Mrs Jones, who is 82 years of age, was

Yn 'Law yn Llaw at Iechyd' rydym wedi nodi na fydd modelau presennol o ddarparu gwasanaeth yn ymdopi yn y dyfodol â gofynion ein poblogaeth sy'n heneiddio a chostau sy'n cynyddu. Ni ellir cyflawni'r newidiadau hyn heb well defnydd o dechnoleg gwybodaeth. Gadewch imi roi enghraifft syml, ond enghraifft go iawn, o sut y gall technoleg wneud gwahaniaeth. Cafodd

admitted to hospital late at night after a fall. The next day, the district nurse, meals on wheels and home help each arrived separately to deliver care, as usual, at her home only to find that she is not there. Just think how much we could save by sending an alert to a mobile phone or iPad that informs the GP, the district nurse and social care services that Mrs Jones is in hospital.

Mrs Jones, sydd yn 82 mlwydd oed, ei derbyn i'r ysbyty yn hwyr y nos ar ôl cwympo. Y diwrnod nesaf, cyrhaeddodd y nyrs ardal, y gwasanaeth pryd ar glud a chymorth yn y cartref i gyd ar wahân i ddarparu gofal, fel arfer, yn ei chartref dim ond i ganfod nad oedd hi yno. Meddyliwch faint y gallem arbed drwy anfon rhybudd i ffôn symudol neu iPad a rhoi gwybod i'r meddyg teulu, i'r nyrs ardal ac i wasanaethau gofal cymdeithasol bod Mrs Jones yn yr ysbyty.

We have already made a good start in some areas. Local councils in south-east Wales have joined with the NHS, through the Gwent Frailty project, to offer medical and social care to people in their own homes. It is helping them to live independently, stopping unnecessary admissions to hospital or to care homes, and speeding up discharges from hospital or residential care. Information is shared through a web service, and in the next few weeks this will be supported by the use of digital pens, which will reduce paperwork and allow assessments to be recorded and sent electronically.

Yr ydym eisoes wedi dechrau'n dda mewn rhai ardaloedd. Mae cynghorau lleol de-ddwyrain Cymru wedi ymuno gyda'r GIG, drwy brosiect Eiddilwch Gwent, i gynnig gofal meddygol a chymdeithasol i bobl yn eu cartrefi eu hunain. Mae'n eu helpu i fyw'n annibynnol, i atal derbyniadau diangen i'r ysbyty neu i gartrefi gofal, ac i gyflymu'r broses o'u rhyddhau o'r ysbyty neu ofal preswyl. Rhennir gwybodaeth drwy wasanaeth gwe, ac, yn yr ychydig wythnosau nesaf, caiff hyn ei gefnogi gan y defnydd o bennau digidol, a fydd yn lleihau gwaith papur ac yn caniatáu asesiadau i gael eu cofnodi a'u hanfon yn electronig.

In Rhondda Cynon Taf, services are united through a communications hub, the first of its kind in Wales. It is a one-stop centre that unites out-of-hours emergency care, transport requests, district nursing, panic alarms and homecare. If we are to capitalise on the benefits being delivered by these groundbreaking projects, health boards and local authorities must share information online. It is no longer acceptable for individual organisations to work in isolation, and I am committed to ensuring that, over the coming year, NHS Wales will do even more to share technology resources, introduce common computer systems and work as one.

Yn Rhondda Cynon Taf, mae gwasanaethau wedi'u huno drwy hwb cyfathrebu, y cyntaf o'i fath yng Nghymru. Mae'n ganolfan un-stop sy'n uno gofal brys y tu allan i oriau, ceisiadau trafnidiaeth, nyrsys ardal, larymau panig a gofal cartref. Os ydym i fanteisio ar y buddiannau sy'n cael eu cyflawni gan y prosiectau arloesol hyn, rhaid i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol rannu gwybodaeth ar-lein. Nid yw'n dderbyniol mwyach i sefydliadau unigol weithio ar wahân, ac yr wyf yn ymrwymedig i sicrhau, dros y flwyddyn nesaf, y bydd GIG Cymru yn gwneud hyd yn oed mwy i rannu adnoddau technoleg, cyflwyno systemau cyfrifiadur cyffredin a gweithio fel un.

Despite the difficult economic and financial situation, we will maintain the current level of national investment in the NHS ICT programme. This is because we recognise the importance of sharing information to deliver the changes set out in 'Together for Health'. As I mentioned earlier, the privacy and confidentiality of personal information is paramount. Patients must be confident that

Er gwaethaf y sefyllfa economaidd ac ariannol anodd, byddwn yn cynnal lefel bresennol buddsoddi cenedlaethol yn rhaglen TGCh y GIG. Mae hyn oherwydd ein bod yn cydnabod pwysigrwydd rhannu gwybodaeth i gyflawni'r newidiadau a nodir yn 'Law yn Llaw at Iechyd'. Fel y soniais yn gynharach, mae preifatrwydd a chyfrinachedd gwybodaeth bersonol yn hollbwysig. Rhaid i

they can trust the NHS, social care and other agencies to look after their personal information. Our model for obtaining patient consent to share their information has been developed by working closely with professional clinical bodies, such as the British Medical Association and the Royal College of Nursing, and also with the community health councils and the Information Commissioner. In this respect, Wales is setting the standard for other UK home countries, and our approach has now been adopted by NHS England.

gleifion fod yn hyderus y gallant ymddiried yn y GIG, gofal cymdeithasol ac asiantaethau eraill i edrych ar ôl eu gwybodaeth bersonol. Datblygwyd ein model ar gyfer cael caniatâd claf i rannu ei wybodaeth drwy weithio'n agos gyda chyrff clinigol proffesiynol megis Cymdeithas Feddygol Prydain a Choleg Brenhinol y Nyrsys, a hefyd gyda'r cynghorau iechyd cymuned a'r Comisiynydd Gwybodaeth. Yn hyn o beth, mae Cymru yn gosod y safon ar gyfer gwledydd eraill y DU, a, bellach, mabwysiadwyd ein dull ni gan y GIG yn Lloegr.

We have also developed the Wales accord for sharing personal information, which sets out how greater information sharing should be based on justified and relevant purposes. It also provides a framework to maintain the correct lawful, ethical and fair basis for any sharing of information enabled by technology. Earlier this year, the Wales information governance board, together with the Wales privacy advisory committee were established to represent the independent public and professional interest and to ensure that the right confidentiality controls are in place. As digital technology advances, these groups will provide a focus for ongoing consultation with the citizens of Wales on these important issues.

Rydym hefyd wedi datblygu cytundeb Cymru ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol, sy'n nodi sut y dylai mwy o rannu gwybodaeth fod yn seiliedig ar ddibenion perthnasol ac wedi'u cyfiawnhau. Mae hefyd yn darparu fframwaith i gynnal sail gyfreithiol gywir, moesegol a theg ar gyfer unrhyw rhannu gwybodaeth a alluogwyd gan dechnoleg. Yn gynharach eleni, sefydlwyd bwrdd llywodraethu gwybodaeth Cymru ynghyd â phwyllgor cynghori preifatrwydd Cymru i gynrychioli buddiannau annibynnol y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ac i sicrhau bod y dulliau cywir o reoli cyfrinachedd ar waith. Wrth i dechnoleg ddigidol datblygu, bydd y grwpiau hyn yn darparu ffocws ar gyfer ymgynghori parhaus â dinasyddion Cymru ar y materion pwysig hyn.

NHS Wales has shown how technology can deliver information where and when it is needed, making it easier for health professionals to do their job and to make services more efficient and safer for patients. We now need to extend this into the wider care community. This includes greater co-ordination of information between the Ministry of Defence and NHS Wales to support the continued care of veterans from the armed forces. This is a real opportunity to develop a new partnership with patients and the public, to make the best use of our skilled staff and to make every penny count for the people of Wales.

Mae GIG Cymru wedi dangos sut y gall technoleg ddarparu gwybodaeth ble a phryd y mae ei hangen, gan ei gwneud yn haws i weithwyr iechyd proffesiynol wneud eu gwaith ac i wneud gwasanaethau yn fwy effeithlon a diogel i gleifion. Mae angen inni bellach ymestyn hyn i'r gymuned gofal ehangach. Mae hyn yn cynnwys mwy o gydlynu gwybodaeth rhwng y Weinyddiaeth Amddiffyn a GIG Cymru er mwyn cefnogi gofal parhaus cyn-filwyr y lluoedd arfog. Mae hwn yn gyfle gwirioneddol i ddatblygu partneriaeth newydd gyda chleifion a'r cyhoedd, i wneud y defnydd gorau o'n staff medrus a rhoi pob ceiniog ar waith ar gyfer pobl Cymru.

*Gwelliant 1 William Graham*

*Amendment 1 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu y bydd cynigion cyllideb ddrafft cyfredol Llywodraeth Cymru yn methu â rhoi digon o gyllid ar gyfer caffael systemau technoleg i fanteisio'n llawn ar rannu gwybodaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bersonol.*

*Regrets that the Welsh Government's current draft budget proposals will fail to provide adequate funding for the procurement of technology systems to realise the full advantages of sharing personal Health and Social Services information.*

*Gwelliant 2 William Graham*

*Amendment 2 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn credu, er mwyn cynyddu manteision rhannu gwybodaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bersonol, y dylai Llywodraeth Cymru hwyluso'r broses o ymgorffori hanes gwasanaeth cyn-filwyr yn eu cofnodion meddygol.*

*Believes that to maximise the benefits of sharing personal Health and Social Services information, the Welsh Government should facilitate the incorporation of veterans' service histories into their medical records.*

**Janet Finch-Saunders:** I move amendments 1 and 2 in the name of William Graham.

**Janet Finch-Saunders:** Cynigiaf welliannau 1 a 2 yn enw William Graham.

Minister, I welcome this report. We broadly support the Welsh Government's view on this issue, as set out in 'Together for Health'. The best possible communication links would give clinical staff fast, safe and secure access anywhere in Wales to the information needed to help patients. This would speed up treatment, to the benefit of patients and healthcare staff alike. With rising demand for services, increased collaboration between local authorities, social services and our health service is essential. However, as always, patient confidentiality must be paramount. The strongest safeguards must be put in place to ensure that this is not compromised in any way. Of particular importance is ensuring that the Wales accord on the sharing of personal information framework, or WASPI, continues to comply with the Information Commissioner's code of practice on data sharing, especially given that there is no restriction on the organisations that can sign up and use the framework.

Weinidog, croesawaf yr adroddiad hwn. Yn gyffredinol, rydym yn cefnogi barn Llywodraeth Cymru ar y mater hwn, fel y nodir yn 'Law yn Llaw at Iechyd'. Byddai'r cysylltiadau cyfathrebu gorau posibl yn rhoi mynediad cyflym a diogel i staff clinigol unrhyw le yng Nghymru i'r wybodaeth sydd ei hangen i helpu cleifion. Byddai hyn yn cyflymu triniaeth, er budd cleifion a staff gofal iechyd fel ei gilydd. Gyda'r galw cynyddol am wasanaethau, mae'n hanfodol bod mwy o gydweithio rhwng awdurdodau lleol, gwasanaethau cymdeithasol a'n gwasanaeth iechyd. Fodd bynnag, fel ag y bu erioed, rhaid i gyfrinachedd cleifion fod yn hollbwysig. Rhaid rhoi'r trefniadau diogelu cryfaf ar waith i sicrhau na pheryglir hyn mewn unrhyw ffordd. Mae'n arbennig o bwysig sicrhau bod fframwaith cytundeb rhannu gwybodaeth bersonol Cymru, neu WASPI, yn parhau i gydymffurfio â chod ymarfer y Comisiynydd Gwybodaeth ar rannu data, yn enwedig o gofio nad oes unrhyw gyfyngiad ar y sefydliadau a all ymuno a defnyddio'r fframwaith.

Health and social services face many challenges at present. Life expectancy still varies too widely between local authorities, with men in Merthyr Tydfil on average living 5.4 years less than those in Ceredigion. A growing but ageing population is more than

Mae iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn wynebu nifer o heriau ar hyn o bryd. Mae disgwyliad oes yn parhau i amrywio i raddau rhy helaeth rhwng awdurdodau lleol, gyda dynion ym Merthyr Tudful ar gyfartaledd yn byw 5.4 mlynedd yn llai na'r rhai yng

likely, and will inevitably add to the pressures on our social care services. New technology will undoubtedly play a crucial role in rising to these challenges. The independent commission on social services has noted that social services and social care services in Wales need to place themselves firmly in the digital age. New technology can assist in the design and delivery of services, and can improve the engagement of service users and workers alike.

Ngheredigion. Mae poblogaeth sy'n tyfu ond yn heneiddio yn fwy na thebygol, a bydd yn anochel yn ychwanegu at y pwysau ar ein gwasanaethau gofal cymdeithasol. Yn ddi-os, bydd technoleg newydd yn chwarae rhan hanfodol wrth ymateb i'r heriau hyn. Nododd y comisiwn annibynnol ar wasanaethau cymdeithasol fod angen i wasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru sefydlu eu hunain yn gadarn yn yr oes ddigidol. Gall technoleg newydd helpu i gynllunio a darparu gwasanaethau, a gall wella'r ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr fel ei gilydd.

We have said before that the Welsh Conservatives remain the only party in Wales that has pledged to protect funding for the Department for Health, Social Services and Children in real terms. On the other hand, how the Welsh Government expects to meet these challenges while cutting the health budget to the tune of 6.6 per cent, which includes cuts of 5.9 per cent in real terms, remains a mystery. Once again, there is a stark contrast between the rhetoric of the party opposite and its actions. I hope that we in the Chamber all desire to see the NHS improving year on year. However, even though the Wales Audit Office has confirmed that the NHS in Wales faces the toughest settlement in the United Kingdom, the Welsh Labour Government is determined to make dramatic cuts. The UK Government intends to invest £12.5 billion to protect health spending in England up to 2014-15. Scottish and Northern Irish plans also indicate a real-terms increase. Why should the people of Wales be left behind? This extra funding would be necessary to ensure that we maximise the potential of any information-sharing system procured. The draft budget proposals do not allow for any such funding. I cannot understand why the Welsh Government has put forward this debate, advocating a policy that would put additional financial pressures on our already pressed health budget. Minister, I ask that a commitment is made today to review your decision to cut spending on health and social care.

Yr ydym wedi dweud o'r blaen fod y Ceidwadwyr Cymreig yn parhau i fod yr unig blaid yng Nghymru sydd wedi addo diogelu cyllid ar gyfer yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant mewn termau real. Ar y llaw arall, mae sut mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl bodloni'r heriau hyn tra'n torri'r gyllideb iechyd, a hynny o 6.6 y cant, sy'n cynnwys toriadau o 5.9 y cant mewn termau real, yn parhau i fod yn ddirgelwch. Unwaith eto, ceir gwrthgyferbyniad llwyr rhwng rhethreg y blaid gyferbyn a'i gweithredoedd. Gobeithiaf ein bod ni i gyd yn y Siambr ag awydd i weld y GIG yn gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn. Fodd bynnag, hyd yn oed os yw Swyddfa Archwilio Cymru wedi cadarnhau bod y GIG yng Nghymru yn wynebu setliad anoddaf yn y Deyrnas Unedig, mae Llywodraeth Lafur Cymru yn benderfynol o wneud toriadau dramatig. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu buddsoddi £12.5 biliwn i ddiogelu gwariant ar iechyd yn Lloegr hyd at 2014-15. Mae cynlluniau'r Alban a Gogledd Iwerddon hefyd yn dangos cynnydd mewn termau real. Pam ddylai pobl Cymru gael eu gadael ar ôl? Byddai'r cyllid ychwanegol hwn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y potensial o unrhyw system rhannu gwybodaeth a gaffaelir. Nid yw cynigion y gyllideb ddrafft yn caniatáu ar gyfer unrhyw gyllid o'r fath. Ni allaf ddeall pam y gwnaeth Llywodraeth Cymru gyflwyno'r ddadl hon, yn annog polisi a fyddai'n rhoi pwysau ariannol ychwanegol ar ein cyllideb iechyd sydd eisoes dan bwysau. Weinidog, gofynnaf i ymrwymiad gael ei wneud heddiw i adolygu eich penderfyniad i dorri gwariant ar iechyd a gofal

cymdeithasol.

4.45 p.m.

Turning to the second amendment, it is important to note that Wales is home to nearly 250,000 armed service veterans, as well as 2,790 military personnel, who constitute an integral and vital part of our society. I believe that, to maximise the benefits of sharing personal health and social services information, the Welsh Labour Government should now facilitate the incorporation of veteran service histories in their medical records. Sadly, however, difficulties still remain in the provision of social care and health services for those who have so heroically served this country.

I droi at yr ail welliant, mae'n bwysig nodi bod Cymru yn gartref i bron 250,000 o gyn-filwyr y lluoedd arfog, yn ogystal â 2,790 o filwyr, sy'n rhan annatod a phwysig o'n cymdeithas. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar rannu gwybodaeth am iechyd bersonol a gwasanaethau cymdeithasol, credaf y dylai Llywodraeth Lafur Cymru yn awr hwyluso'r broses o ymgorffori record gwasanaeth cyn-filwyr yn eu cofnodion meddygol. Yn anffodus, fodd bynnag, mae anawsterau o hyd o ran darparu gofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd i'r rhai sydd wedi gwasanaethu eu gwlad mor arwrol.

In the Chamber earlier this month, the Welsh Conservatives highlighted the difficulties in diagnosing post-traumatic stress disorder by GPs. Incorporating veteran histories into medical records is essential to keep GPs and other health professionals better informed, thus benefiting the patient, their families and our communities.

Yn y Siambr yn gynharach y mis hwn, soniodd Ceidwadwyr Cymru am yr anawsterau o ran gwneud diagnosis o anhwylder straen wedi trawma gan feddygon teulu. Mae ymgorffori record cyn-filwyr mewn cofnodion meddygol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gan feddygon teulu a gweithwyr proffesiynol iechyd wybodaeth well a, thrwy hynny, bydd y claf, eu teuluoedd a'u cymunedau yn elwa.

I bring these suggestions to the Chamber in the hope that the Welsh Government will recognise the need for better funding for health and social care and to support Welsh Conservative calls to support our service personnel and veterans.

Rwy'n dod â'r awgrymiadau hyn i'r Siambr yn y gobaith y bydd Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen ariannu iechyd a gofal cymdeithasol yn well ac i gefnogi galwadau Ceidwadwyr Cymru i gefnogi ein milwyr a'n cyn-filwyr.

**Mike Hedges:** I strongly welcome the recommendations. If it is done properly, and data are shared properly, it will be a saving and not a cost. Data should be entered once and used many times. Unfortunately, far too often we find data entered many times and used once. It is mainly about changing a mindset. The Data Protection Act 1998, like the Health and Safety at Work etc Act 1974, is normally trotted out by people who do not want to do something—for saying that they cannot do something. I am going to read out the second principle of the Data Protection Act 1998:

**Mike Hedges:** Rwy'n croesawu'r argymhellion yn frwd. Os caiff hyn ei wneud yn iawn, a bod data yn cael eu rhannu'n briodol, bydd yn arbediad nid cost. Dylid rhoi data i mewn unwaith a'u defnyddio sawl gwaith. Yn anffodus, yn llawer rhy aml rydym yn canfod bod data yn cael eu rhoi mewn sawl gwaith a'u defnyddio un waith. Mae'n ymwneud yn bennaf â newid meddylfryd. Caiff Deddf Diogelu Data 1998, fel Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 ei dyfynnu fel arfer gan bobl sydd ddim eisiau gwneud rhywbeth—i ddweud nad ydyn nhw yn gallu gwneud rhywbeth. Rwyf yn mynd i darllen allan ail egwyddor Deddf Diogelu Data 1998:

'Personal data should be obtained only for

Dim ond ar gyfer un neu fwy o ddibenion

one or more specified and lawful purposes and shall not be further processed in any manner incompatible with that purpose or those purposes.'

penodedig a chyfreithlon y dylid cael data personol ac ni ddylid eu prosesu ymhellach mewn unrhyw fodd sy'n anghydnaws â'r diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

If you register for both uses, you can use it for both uses. How do I know that? I, like many other people in the Chamber, get lots of junk mail because my address is sent on by companies. If we forgot to tick a box to say that we do not want to be sent other things, it allows companies to register our data for sending information.

Os ydych yn cofrestru ar gyfer y ddau ddiben, gallwch ei ddefnyddio ar gyfer y ddau ddiben. Sut y gwn i hynny? Rwyf i, fel llawer o bobl yn y Siambr, yn cael llawer o bost sothach gan fod fy nghyfeiriad yn cael ei anfon ymlaen gan gwmnïau. Os ydym yn anghofio ticio bocs i ddweud nad ydym ni eisiau i bethau eraill gael eu hanfon atom ni, mae'n caniatáu i gwmnïau gofrestru ein data ar gyfer anfon gwybodaeth.

It is far more important to ensure that the data are shared between social services and health. As I said, it is a saving, not a cost, because it is only entered once. The saving is to ensure that people get the best possible service from both bodies. It is important for social services and health services to realise that they work together and not in competition. I remember the time when the Welsh Government brought out the principle of shared budgets, at which stage the health service said that there was some social services budget that we could have, and the social services said that there was some health service budget that we could have. We have moved a little from that, but the key issue is that we understand that we need to work together and share data.

Mae'n llawer pwysicach bod y data yn cael eu rhannu rhwng gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd. Fel y dywedais, arbediad ydyw, nid cost, achos dim ond unwaith y caiff ei roi i mewn. Mae'r arbediad er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y gwasanaeth gorau posibl gan y ddau gorff. Mae'n bwysig i wasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd sylweddoli eu bod yn cydweithio ac nad ydynt yn cystadlu. Cofiaf adeg pan gyflwynodd Llywodraeth Cymru egwyddor cyllidebau wedi eu rhannu, a dywedodd y gwasanaeth iechyd ar y pryd fod yna rywfaint o gyllideb gwasanaethau cymdeithasol y gallem ei gael, a dywedodd gwasanaethau cymdeithasol fod yna rywfaint o gyllideb gwasanaeth iechyd y gallem ei gael. Rydym wedi symud rywfaint oddi wrth hynny, ond y mater allweddol yw ein bod yn deall bod angen i ni gydweithio a rhannu data.

We must also ensure that data are compatible. Again, this does not mean cost. When you try to share data, the first thing that people throw at you is the Data Protection Act and, if that does not work, they say that it will cost a lot of money. Two things can be done: you can try to have compatible hardware and software; if you do not do that, you can turn it into ASCII streams, which is the equivalent of the Word rich text format, which means that you can share the data between different bodies. The key issues are that you ensure that you share data, that data are made available and that the public will benefit from it. The system contains checks and balances. The people who would be tempted to try to access data that they should not access, such as health trying to access social services data

Rhaid i ni sicrhau hefyd fod data yn gydnaws. Eto, nid yw hynny yn golygu mynd i gost. Pan fyddwch yn ceisio rhannu data, y peth cyntaf y mae pobl yn ei ddyfynnu i chi yw'r Ddeddf Diogelu Data ac, os nad yw hynny'n gweithio, maent yn dweud y bydd yn costio llawer o arian. Gellir gwneud dau beth: gallwch geisio cael caledwedd a meddalwedd cydnaws; os na wnewch chi hynny, gallwch ei droi yn ffrydiau ASCII, sy'n cyfateb i fformat testun cyfoethog Word, sy'n golygu y gallwch chi rannu'r data rhwng cyrff gwahanol. Y materion allweddol yw sicrhau eich bod yn rhanna data, bod data yn cael eu rhyddhau ac y bydd y cyhoedd yn elwa ohonynt. Mae'r system yn cadw cydbwysedd. Y bobl a fyddai'n cael eu temtio i geisio cael mynediad i ddata na

and vice versa, would be the same people who tried to access data inappropriately within their own organisations; they need to be dealt with in the appropriate manner.

ddylent gael mynediad iddynt, megis iechyd yn ceisio cael mynediad i ddata gwasanaethau cymdeithasol ac fel arall, yw'r un bobl a fyddai'n ceisio cael mynediad i ddata yn amhriodol yn eu sefydliadau eu hunain; mae angen delio â nhw yn y ffordd briodol.

The patient is the person who will benefit the most from this sharing. I urge people to support this. I agree with the Conservative amendment, although I thought that veteran details were stored in their health records. If they are not, they should be, because that information would be of benefit to any health professional dealing with them. Let us share data, let us only enter them once, let us use them many times for their appropriate use, let the patient benefit and let us save money, not spend it.

Y claf yw'r un a fydd yn elwa fwyaf o'r rhannu hwn. Anogaf bobl i gefnogi hyn. Cytunaf gyda gwelliant y Ceidwadwyr, er fy mod yn meddwl bod manylion cyn-filwyr yn cael eu cadw yn eu cofnodion iechyd. Os nad ydynt, fe ddylent, achos byddai'r wybodaeth o fudd i unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n delio â nhw. Gadewch i ni rannu data, gadewch i ni ond eu rhoi mewn unwaith, gadewch i ni eu defnyddio sawl gwaith at eu defnydd priodol, gadewch i'r claf elwa a gadewch i ni arbed arian, nid ei wario.

**Elin Jones:** Diolch i'r Llywodraeth am gyflwyno'r ddadl hon y prynhawn yma. Mae gwybodaeth ar record iechyd unigolyn yn bersonol ac yn breifat i'r unigolyn hwnnw. Er y gall y wybodaeth hon fod yn ddefnyddiol a hyd yn oed yn ddiddorol i nifer o bobl ac asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol, mae perchnogaeth a rheolaeth y wybodaeth yn fater pwysig a sensitif i'r unigolyn. Nid data ynglŷn ag a ydych yn siopa yn Tesco neu Sainsbury's yw'r wybodaeth hon; mae'n wybodaeth sensitif i'r unigolyn. Felly, mae angen cydbwyso defnyddioldeb y wybodaeth i'r meddyg neu'r ysbyty, y nyrs gymunedol neu'r fferyllydd yn ofalus iawn gyda phreifatrwydd a dymuniadau'r unigolyn.

**Elin Jones:** I thank the Government for introducing this debate this afternoon. Information on an individual's health record is personal and private to that individual. Although this information can be useful or even interesting to a number of individuals and agencies in health and social care, the ownership and management of this information is a very important and sensitive issue for individuals. These are not data about whether you shop in Tesco or Sainsbury's; they are sensitive data for individuals. Therefore, the usefulness of this information to doctors or hospitals, community nurses or pharmacists needs to be very carefully counterbalanced with the privacy and wishes of individuals.

Wedi dweud hynny, yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ddiweddar, cafwyd tystiolaeth ddiddorol gan Gyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan, a oedd wedi cynnal arolwg o gleifion. Yr oedd canran uchel o'r rhai a holwyd yn meddwl bod gwahanol asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol eisoes yn cael mynediad at record y claf. Yn wir, yr oeddent yn synnu nad oedd mynediad o'r fath gan yr holl asiantaethau perthnasol. Felly, mae'n bosibl bod rhai unigolion, rhai awdurdodau a rhai gwleidyddion yn fwy sensitif i'r mater hwn na nifer fawr o gleifion. O edrych ar y 60 Aelod yma heddiw, mae'n bosibl y byddai gan unigolion yn ein plith wahanol farn

Having said that, in a recent meeting of the Health and Social Care Committee, we received some interesting evidence from the Aneurin Bevan Community Health Council, which had conducted a survey of patients. A high percentage of those questioned thought that various health and social care agencies already had access to patient records. Indeed, they were surprised that the relevant agencies did not already have such access. Therefore, it is possible that some individuals, some authorities and some politicians are more sensitive to this issue than are a number of patients. Looking at the 60 Members here, it is possible that individuals among us would have different views on the sharing of

ynglŷn â rhannu manylion personol ein cofnodion iechyd.

Amlinellodd y Gweinidog y cynnydd da sydd wedi'i wneud yng Nghymru o ran rhannu gwybodaeth a defnyddio technoleg gwybodaeth i hyrwyddo hynny. Mae sylwebwyr annibynnol wedi nodi bod y trywydd sydd wedi'i ddilyn yng Nghymru o fuddsoddi gam wrth gam mewn technoleg newydd yn llawer mwy effeithiol na buddsoddi mewn un cytundeb TG enfawr i'r GIG. Gwnaethpwyd hynny yn Lloegr, a chafwyd problemau di-ri yn ei sgîl. Mae cydsyniad y claf i rannu gwybodaeth wedi bod yn ganolog hefyd i'r datblygiadau a welwyd yng Nghymru.

Mae budd amlwg—mae nifer wedi cyfeirio at hyn eisoes—i rannu gwybodaeth i nifer o gleifion, yn enwedig y rhai sy'n dioddef o gyflyrau cronig, tymor hir, y rhai â mwy nag un cyflwr, y rhai y mae arnynt angen gofal nyrs neu ymyrraeth acíwt ar frys yn eu cartrefi. Er mwyn eu cadw yn y cartref, mae mynediad at y wybodaeth honno ac at hanes y claf yn hollbwysig. Mae rhai amgylchiadau, sy'n aml yn ymwneud â phlant, lle mae mynediad at wybodaeth gan nifer o bartneriaid yn gallu dadorchuddio patrwm o gam-drin. Mae defnyddioldeb hyn wedi'i brofi. Yr ydym yn gwybod, o ymchwiliadau annibynnol i achosion o gam-drin plant, fod beirniadaeth hallt yn codi ambell waith o'r diffyg rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau a allai fod wedi canfod achosion o gam-drin cyn iddi fod yn rhy hwyr.

Cyn cloi, yr wyf am gyfeirio at y ffaith bod technoleg gwybodaeth yn hollbwysig o ran lleihau'r angen i gleifion orfod teithio o fewn y gwasanaeth iechyd, boed hynny yng nghyd-destun y diagnosis yn y lle cyntaf neu yng nghyd-destun gofal ôl-driniaethol yn dilyn triniaeth mewn canolfan arbenigol, lle gallai'r ôl-driniaeth ddigwydd o bell. Mae potensial mawr i wella a datblygu rhannu gwybodaeth a gwella'r gwasanaeth i'r claf. Mae cynnig y Llywodraeth heddiw yn ddi-fai, ac nid oedd angen i ni fel plaid ei wella. Felly, byddwn yn cefnogi'r cynnig.

**Vaughan Gething:** I am pleased to speak in today's debate. I think that there are some practical concerns about how we deliver a

personal details in relation to our health records.

The Minister outlined the good progress that has been made in Wales on sharing information and using information technology to promote that. Independent commentators have noted that the route followed in Wales of investing on a stage by stage basis in new technology is far more effective than investment in one single huge IT contract for the NHS. That was done in England, and resulted in multifarious problems. The consent of the patient to the sharing of information has also been central to the developments that we have seen in Wales.

There are obvious benefits—which many people have already referred to—of sharing information for many patients, particularly those suffering chronic conditions, those with more than one condition, those who need nursing care or those who need acute intervention urgently at home. In order to keep such people at home, access to that information and to the patient's history is crucial. There are certain circumstances, often related to children, where access to information by a number of partners can unveil a pattern of abuse. This has proved to be useful in that regard. We know, from independent inquiries into the abuse of children, that serious criticism is sometimes made of the absence of information sharing between the various agencies that could have discovered the abuse before it was too late.

Before I conclude, I want to refer to the fact that IT is crucial in reducing the need for patients to travel within the health service, be that in the context of diagnostics in the first instance or in the context of post-operative treatment following treatment in a specialist centre, which could take place remotely. There is huge potential for improvement and further developments in information sharing and improving patient services. The Government's motion today is faultless, and we as a party did not need to amend it. We will, therefore, support the motion.

**Vaughan Gething:** Rwy'n falch o siarad yn nadl heddiw. Credaf fod ambell bryder ymarferol am sut yr ydym yn darparu system

better system to share information across health and social care for all of our constituents. I welcome the commitment and the opening statement made by the Minister in today's debate, and the aims and challenges that are set out for us in 'Together for Health: A Five Year Vision for the NHS in Wales'. All of this is being done against a backdrop of less money and significant cuts to capital expenditure.

well i rannu gwybodaeth ar draws iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pob un o'n hetholwyr. Croesawaf yr ymrwymiad a'r datganiad agoriadol a wnaed gan y Gweinidog yn nadl heddiw, a'r nodau a'r heriau a amlinellir i ni yn 'Law yn Llaw at Iechyd: Gweledigaeth 5 mlynedd ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru'. Caiff hyn oll ei wneud yn erbyn cefndir o lai o arian a thoriadau sylweddol i wariant cyfalaf.

I am a member of the Health and Social Care Committee, which has undertaken many interesting inquiries. Elin Jones has already raised many points regarding these inquiries, but I would like to refer in particular to the inquiry on community pharmacies. As has been suggested, the only patient voices that we have heard said that members of the public already expect healthcare professionals to be able to see and to share information on their healthcare records. They saw pharmacists as being a part of that group of healthcare professionals. They thought that they already had access to the records and were surprised to hear that they did not. Therefore, the only voices that we have already heard from the wider public suggest that they do not have a huge problem with the wider sharing of information, which they recognise would be of benefit to them.

Rwy'n aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sydd wedi cynnal nifer o ymchwiliadau diddorol. Mae Elin Jones wedi codi nifer o bwyntiau am yr ymchwiliadau hyn, ond hoffwn gyfeirio yn arbennig at yr ymchwiliad i fferyllfeydd cymunedol. Fel y cafodd ei awgrymu, dywedodd yr unig gleifion a glywsom oddi wrthynt fod y cyhoedd eisoes yn disgwyl i weithwyr proffesiynol gofal iechyd allu gweld a rhannu gwybodaeth am eu cofnodion gofal iechyd. Roeddent yn ystyried fferyllwyr fel rhan o'r grŵp hwnnw o weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Roeddent yn credu bod ganddynt fynediad eisoes i'r cofnodion ac roeddent yn synnu clywed nad oedd ganddynt. Felly, awgryma sylwadau'r cleifion hynny yr ydym wedi clywed ganddynt nad oes gan y cyhoedd yn ehangach broblem fawr gyda rhannu gwybodaeth yn ehangach, a bu iddynt gydnabod y byddai o fudd iddynt.

The barriers that we have seen have been raised by different professional bodies and the way in which they have, or have not, been prepared to try to ensure that the co-ordination and co-operation on paper—because there are written agreements between some of these different bodies—is made real. One organisation representing GPs told us that patients would have big concerns about it, but that is not the evidence that we received from a group representing members of the public.

Mae'r rhwystrau a welsom wedi cael eu crybwyll gan gyrff proffesiynol gwahanol a'r ffordd y maent wedi, neu ddim wedi, bod yn barod i geisio sicrhau bod y cydlynu a'r cydweithredu ar bapur—achos mae yna gytundebau ysgrifenedig rhwng rhai o'r cyrff gwahanol hyn—yn cael ei wireddu. Dywedodd un sefydliad yn cynrychioli meddygon teulu y byddai gan gleifion bryderon mawr am hyn, ond nid dyna oedd y dystiolaeth a gawsom gan grŵp yn cynrychioli'r cyhoedd.

It has become very clear that, to deliver better health outcomes—I am thinking about the example given by the Minister as she opened this debate—and make better use of community pharmacists, if we can, there has to be an appropriate sharing of health records. There has to be a way to deliver that. It will

Er mwyn cyflawni gwell canlyniadau iechyd—rwy'n meddwl am yr enghraifft a roddwyd gan y Gweinidog wrth iddi agor y ddadl hon—a gwneud defnydd gwell o fferyllwyr cymunedol, daeth yn amlwg iawn fod angen rhannu cofnodion iechyd yn briodol, os gallwn. Mae'n rhaid bod ffordd i

require an IT system that is intelligent enough to allow those records to be shared in a meaningful and practical way. That has been a very clear message from a number of people who have given evidence. If it is relevant to the case for making more of a service like community pharmacy, or not, then it must also make sense in other areas of our health service and in other areas of social care as well.

gyflawni hynny. Bydd yn gofyn am system TG sy'n ddigon deallus i ganiatáu rhannu'r cofnodion hyn mewn ffordd ystyrlon ac ymarferol. Dyna fu'r neges glir iawn gan nifer o bobl a roddodd dystiolaeth. Os yw'n berthnasol i'r achos dros ddefnyddio gwasanaeth fel fferyllfa gymunedol yn helaethach ai peidio, yna mae'n rhaid ei bod yn gwneud synnwyr mewn meysydd eraill yn ein gwasanaeth iechyd ac mewn meysydd gofal cymdeithasol eraill hefyd.

Once again, to pick up a point that Elin has already made, people move around, so finding a way of sharing records effectively is not just a matter for the health service. Within social services departments, we know that there have been difficulties with regard to people moving from within one boundary area to another, because information is not shared between the 22 different departments at present. As well as seeing that, we want to try to ensure that those social services departments talk to each other, that they have a common system that they can use that is compatible, but a system that is then compatible with the health service. If we want to see a greater confluence between health and social care in local government crossing that institutional boundary to deliver better outcomes for the same person—the same constituent, the same patient—there have to be systems that can talk to each other and there has to be a willingness to engage to overcome boundaries between professions and not simply use them as excuses not to do something.

Eto, i grybwyll pwynt a wnaeth Elin, mae pobl yn symud o gwmpas, felly nid mater i'r gwasanaeth iechyd yn unig yw rhannu cofnodion yn effeithiol. Mewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol, gwyddom y bu anawsterau o ran pobl yn symud rhwng y naill ardal a'r llall, achos ni chaiff gwybodaeth ei rhannu rhwng y 22 adran wahanol ar hyn o bryd. Yn ogystal â gweld hynny, rydym hefyd am geisio sicrhau bod yr adrannau gwasanaethau cymdeithasol hynny yn siarad â'i gilydd, bod ganddynt system gyffredin y gallant ei defnyddio ac sy'n gydnaws, ond system sydd hefyd yn gydnaws â'r gwasanaeth iechyd. Os ydym am weld mwy o gydlifiad rhwng iechyd a gofal cymdeithasol mewn llywodraeth leol yn croesi'r ffin sefydliadol honno i gyflawni gwell canlyniadau i'r un person—yr un etholwr, yr un claf—mae'n rhaid cael systemau sy'n gallu siarad â'i gilydd ac mae'n rhaid bod parodrwydd rhwng proffesiynau i beidio â'u defnyddio fel esgus i beidio â gwneud rhywbeth.

Most of us would recognise that there are still some difficult issues around confidentiality. I think that Mike Hedges's contribution was interesting and he discussed some of the practical matters regarding inputting data once and using it many times, as appropriate. If we are to go down this route, we need to ensure that there is wider public engagement with regard to why we are doing this, what the safeguards are and how that information will be used. We need to ensure that patients and members of the public can have real confidence that those data will be used in an appropriate manner to ensure better treatment outcomes and better information sharing across all of those different institutional boundaries.

Byddai'r rhan fwyaf ohonom yn cydnabod bod ambell fater anodd yn ymwneud â chyfrinachedd o hyd. Roeddwn yn meddwl bod cyfraniad Mike Hedges yn ddiddorol, ac fe drafododd rhai o'r materion ymarferol ynghylch rhoi data i mewn unwaith a'u defnyddio sawl gwaith, fel y bo'n briodol. Os ydym am ddilyn y trywydd hwnnw, mae angen i ni sicrhau bod ymgysylltiad ehangach â'r cyhoedd o ran pam rydym yn gwneud hyn, beth yw'r mesurau diogelwch a sut caiff y wybodaeth honno ei defnyddio. Mae angen i ni sicrhau bod gan gleifion a'r cyhoedd wir hyder y caiff y data hyn eu defnyddio yn briodol i sicrhau canlyniadau triniaeth gwell ac i rannu gwybodaeth yn well ar draws pob un o'r ffiniau sefydliadol gwahanol.

**Kirsty Williams:** I will begin by thanking the Minister for her opening contribution. I acknowledge that there certainly needs to be greater sharing of patient information, both within the NHS and between the NHS and social services. We support that principle, provided that the Government also takes very seriously issues around safeguarding and protecting that information and that patients are very clear as to who will have access to their patient records and how and when they will gain this access, so that any fears that patients may have about the most personal information being shared across professionals are allayed and that the process is well-managed and secure.

**Kirsty Williams:** Dechreuaf drwy ddiolch i'r Gweinidog am ei chyfraniad cychwynnol. Rwy'n cydnabod bod angen rhannu mwy o wybodaeth am gleifion yn y GIG a rhwng y GIG a gwasanaethau cymdeithasol. Rydym yn cefnogi'r egwyddor honno, ar yr amod bod y Llywodraeth yn cymryd o ddifri y materion o ran mesurau diogelwch a diogelu'r wybodaeth honno a bod cleifion yn glir iawn am bwy fydd yn gallu gweld eu cofnodion iechyd a sut a phryd y byddant yn eu gweld, fel y lleddfir unrhyw ofnau sydd gan gleifion am y wybodaeth fwyaf personol yn cael ei rhannu rhwng gweithwyr proffesiynol a bod y broses yn cael ei rheoli'n dda ac yn ddiogel.

5.00 p.m.

It has been clear for a long time that there is significant scope for improving the patient experience through the greater sharing of information between healthcare professionals. Should you arrive at an accident and emergency department, perhaps in a distressed state, you can then feel safe in the knowledge that the doctor has access to your full medical history and will know exactly the appropriate treatment for you under the circumstances. We all can understand that. It will certainly assist healthcare professionals greatly in carrying out their role. Imagine how much more productive you could be as a healthcare worker if you could spend your time treating the patient rather than filling out endless pieces of paper.

Bu'n amlwg ers amser maith bod dipyn o le i wella profiad y claf drwy rannu mwy o wybodaeth rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Pe baech yn cyrraedd adran damweiniau ac achosion brys, o bosibl mewn cyflwr gofidus, yna gallwch fod yn dawel eich meddwl bod y meddyg yn gallu gweld eich hanes meddygol llawn ac yn gwybod yn union beth yw'r driniaeth briodol i chi o dan yr amgylchiadau. Rydym i gyd yn gallu deall hynny. Bydd yn bendant yn helpu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn sylweddol o ran gwneud eu gwaith. Dychmygwch gymaint yn fwy cynhyrchiol y gallech fod fel gweithiwr gofal iechyd pe gallech dreulio eich amser yn trin y claf yn hytrach na llenwi darnau di-ddiwedd o bapur.

As we have already heard, it also has the ability to transform how and where some patients are treated. That is particularly important as we look to reconfigure services. It has particular significance for those who live in rural communities or in isolated valley communities who might find it difficult to travel to health centre services that are far away. As we have already heard, it creates the opportunity to bridge the gap that, from a patient's perspective, should not exist between health and social care. An individual just does not see the difference between someone who cares for them in the health sense and someone who cares for them in a social services sense. They simply do not

Fel y clywsom yn barod, mae ganddo hefyd y gallu i drawsnewid sut a lle y caiff rhai cleifion eu trin. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i ni ystyried ailgyflunio gwasanaethau. Mae'n arbennig o berthnasol i'r rhai sy'n byw mewn cymunedau gwledig neu mewn cymunedau diarffordd yn y Cymoedd a allai ei chael yn anodd i deithio i wasanaethau canolfannau iechyd sy'n bell i ffwrdd. Fel y clywsom yn barod, mae'n creu cyfle i bontio'r bwlch hwnnw na ddylai fodoli, o safbwynt y claf, rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Nid yw unigolyn yn gweld gwahaniaeth rhwng rhywun sy'n gofalu amdanynt yn yr ystyr iechyd a rhywun sy'n gofalu amdanynt yn yr ystyr

understand why the two sets of professionals cannot work more closely together.

gwasanaethau cymdeithasol. Nid ydynt yn deall pam na all y ddau fath o weithiwr proffesiynol gydweithio'n agosach.

IT projects in the NHS have, notoriously, been beset by difficulties. I am pleased to say that we have avoided some of those difficulties in the Informing Healthcare programme over the years. However, I would like to see Informing Healthcare properly audited and evaluated in a way that has not been done previously. While the Minister points to progress, and, undoubtedly, there has been progress with regard to GP records and hospital records, there has still been some disappointing practice. I can turn to the experience of community nurses in my constituency. Some 140 district nurses and 45 health visitors in Powys Teaching Local Health Board took part in a pilot scheme in which they were given smart phones to allow them to record information about their visits digitally. That enabled them to take photographs, for instance, of people's wounds, so that they could chart progress in wound management and ulceration, to see whether they were getting better. That was incredibly useful for those district nurses: they found it to be beneficial in their work, it made them more productive and it enabled them to offer better levels of patient care. That scheme has not been rolled out, however. It has not been evaluated properly and the lessons learned and put into action. Therefore, while there is progress, in some areas it has been very slow indeed.

Mae projectau TG yn y GIG wedi wynebu anawsterau di-rif, fel y mae pawb yn gwybod. Rwy'n falch o ddweud ein bod wedi osgoi rhai o'r anawsterau hynny yn y rhaglen Hysbysu Gofal Iechyd dros y blynyddoedd. Fodd bynnag, hoffwn weld Hybysu Gofal Iechyd yn cael ei harchwilio a'i gwerthuso yn briodol mewn ffordd na wnaed o'r blaen. Er bod y Gweinidog yn dweud y bu cynnydd, ac yn bendant bu cynnydd o ran cofnodion meddygon teulu a chofnodion ysbyty, bu enghreifftiau o arfer siomedig hefyd. Gallaf sôn am brofiad nyrsys cymunedol yn fy etholaeth i. Cymerodd 140 o nyrsys ardal a 45 o ymwelwyr iechyd ym Mwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys ran mewn cynllun peilot lle rhoddwyd ffonau clyfar iddynt i'w galluogi i gofnodi gwybodaeth am eu hymweliadau yn ddigidol. Roedd hynny yn eu galluogi i dynnu lluniau, er enghreifft, o friwiau pobl, fel eu bod yn gallu cofnodi'r cynnydd o ran rheoli'r briw a doluriad, er mwyn gweld a oeddent yn gwella. Roedd hynny yn arbennig o ddefnyddiol i'r nyrsys ardal hynny: roeddent yn ei gael yn ddefnyddiol i'w gwaith, roedd yn eu gwneud yn fwy cynhyrchiol ac yn eu galluogi i gynnig gwell gofal i'r claf. Ni chafodd y cynllun hwnnw ei gyflwyno'n helaeth, fodd bynnag. Ni chafodd ei werthuso'n briodol a'r gwersi a ddysgwyd wedi cael eu rhoi ar waith. Felly, er bod cynnydd, bu'n araf iawn mewn rhai ardaloedd.

In conclusion, I turn to the issue of security. In the three years up to 2009, there were more than 150 incidents of patient data being lost. At that time, the Liberal Democrats held a debate on trying to improve the situation, and we put forward positive suggestions on better security on mobile devices, a code of practice for professionals who deal with such information, and very strict sanctions for healthcare professionals who break the code of good practice. At the time, Lesley Griffiths voted against our proposition. As I have said, we support this in principle, but we need to be certain that there are proper safeguards and proper codes of conduct and that we are using the very latest methods of securing information if we are to get public buy-in for

I gloi, fe soniaf am ddiogelwch. Yn y dair blynedd hyd at 2009, roedd mwy na 150 o achosion o golli data cleifion. Ar y pryd, cynhaliodd y Democratiaid Rhyddfrydol ddadl ar geisio gwella'r sefyllfa, a gwnaethom roi awgrymiadau cadarnhaol ger bron am ddiogelwch gwell ar ffonau symudol, cod ymarfer i weithwyr proffesiynol sy'n delio â gwybodaeth o'r fath, a chosbau llym iawn i weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n torri'r cod arfer da. Ar y pryd, pleidleisiodd Lesley Griffiths yn erbyn ein cynnig. Fel y dywedais, rydym yn cefnogi hyn mewn egwyddor, ond mae angen i ni fod yn sicr bod mesurau diogelwch priodol a chodau ymarfer priodol a'n bod yn defnyddio'r dulliau diweddaraf un i ddiogelu

this initiative.

gwybodaeth os ydym am i'r cyhoedd gefnogi'r fenter hon.

**Keith Davies:** Yr wyf yn mynd ar hyd y trywydd a ddechreuwyd gan Kirsty Williams. Wrth rannu gwybodaeth, gallwn leihau'r baich ar y gwasanaeth iechyd. Nod allweddol 'Law yn Llaw at Iechyd' yw i'r holl adnoddau weithio'n well â'i gilydd fel rhan o system integredig. Mae rhannu gwybodaeth yn hanfodol i sicrhau llwyddiant yn hynny o beth.

**Keith Davies:** I will go down the route started upon by Kirsty Williams. In sharing information, we can reduce the burden on the health service. The key goal of 'Together for Health' is that all resources should work better together as part of an integrated system. Information sharing is vital to ensuring success in that regard.

Y llynedd, cyhoeddwyd datblygiad porth clinigol Cymru i alluogi golwg sengl ar y wybodaeth a gedwir am gleifion, i'w gwneud yn haws i staff clinigol ddarparu gwell gofal. Bydd gwasanaethau newydd Cymru gyfan yn galluogi staff awdurdodedig i gael mynediad saff at y wybodaeth hon o unrhyw leoliad. Cafodd ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Yn lleol, mae record iechyd unigol wedi ei chreu ac mae yn awr ar gael mewn pump allan o saith bwrdd iechyd. Heb hyn, yr unig wybodaeth sydd gan staff meddygol sy'n darparu triniaeth y tu allan i oriau brig yw'r hanes meddygol a'r manylion meddyginiaeth y mae'r claf yn eu darparu. Nid yw'r wybodaeth honno bob amser yn ddigon dibynadwy.

Last year, the development of a Welsh clinical gateway was announced to allow a single view of the information held about patients, to make it easier for clinical staff to provide better care. New all-Wales services will enable authorised staff to have safe access to this information from any location. It was funded by the Welsh Government. Locally, the individual health record has been created and it is now available in five out of seven health boards. Without this, the only information that medical staff providing care outside of peak hours have is the medical history and the medication details that the patient provides. That information is not always sufficiently reliable.

O dan arweinyddiaeth Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn sir Gâr, cyflwynwyd wardiau rhith sy'n darparu systemau a staff, ond nid adeilad. Cafodd nifer o staff gyfrifoldeb am ofal iechyd, rhai ohonynt o'r bwrdd iechyd, meddygon teulu ac asiantaethau partner. Maent yn cydweithredu i adnabod cleifion a darparu gofal ataliol yn y gymuned neu yn nhŷ'r claf. Effaith hyn fu lleihau nifer y derbyniadau i'r ysbyty, ac mae wedi bod yn llwyddiannus.

Under the leadership of the Hywel Dda Local Health Board in Carmarthenshire, virtual wards have been introduced, providing staff and systems but no buildings. A number of staff members have been given responsibility for providing healthcare, from the health board, GPs and partner agencies. They collaborate to identify patients and provide preventative care in the community or in patients' homes. As a result, there have been fewer hospital admissions, and it has been a success.

Cafwyd hefyd gynlluniau teleofal yn sir Gâr, lle cysylltwyd pobl sy'n agored i niwed â chanolfannau monitro ac ymateb. Eu gweledigaeth yw hybu annibyniaeth a safon bywyd mewn ffordd a fydd yn galluogi pobl i aros yn eu cartrefi'n hirach. Mae darparwyr gofal yn cydweithredu—neu beidio mewn rhai sefyllfaoedd—gyda gwasanaethau eraill. Dangosodd data a gasglwyd ymysg defnyddwyr, gofalwyr, gweithwyr proffesiynol a defnyddwyr teleofal fod y

There have also been telecare schemes in Carmarthenshire, where vulnerable people have been linked up with monitoring and response centres. Their vision is to promote independence and quality of life in a way that enables people to stay in their own homes for longer. Care providers co-operate—or not, in some situations—with other services. Data collected from users, carers, professionals and telecare users show that this scheme has also reduced the number of hospital

cynllun hwn hefyd wedi arbed derbyniadau i ysbytai.

admissions.

Dangosir yn hollol glir yn adroddiad Comisiwn Bevan fod ein demograffeg yn newid. Amcangyfrifir o fewn dau ddegawd y bydd bron un o bob tri pherson yng Nghymru dros 60 oed. Erbyn 2031, bydd nifer y bobl sydd dros 75 oed wedi cynyddu 76 y cant. Mae hefyd yn wir bod gennym yng Nghymru'r gyfradd uchaf o bobl gyda chyflyrau tymor hir yn y Deyrnas Unedig.

The Bevan Commission's report clearly shows that our demography is changing. It is estimated that, within two decades, nearly one in three people in Wales will be aged over 60. By 2031, the number of people aged over 75 will have increased by 76 per cent. It is also true that, in Wales, we have the highest rate of people with long-term conditions in the UK.

O ystyried y ffaith bod pobl hŷn yn fwy tebygol o gael o leiaf un cyflwr cronig, mae angen trefn well er mwyn lleihau'r pwysau ar y gwasanaeth iechyd. Mae'r opsiwn gofal yn agos at y cartref, neu yn y cartref, yn hollbwysig. Mae'n hanfodol ein bod yn darparu dau opsiwn, sef gofal sylfaenol yn ogystal â gofal mewn ysbytai. Weithiau, tueddir i weld ysbytai fel ffordd fwy diogel o gael gofal, ond mae angen cynyddu hyder y cyhoedd mewn gofal sylfaenol, sydd yn mynd law yn llaw ag ymrwymiad maniffesto Llafur i wneud meddygfeydd teulu'n fwy hygyrch drwy eu hagor ar ddydd Sadwrn ac yn hwyrach. Yr ydym wedi buddsoddi £70 miliwn mewn safleoedd gofal sylfaenol yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Given that older people are more likely to have at least one chronic condition, we need a better system to reduce the pressure on the health service. The option of care close to home, or in the home, is vital. It is essential that we provide two options, namely primary care as well as hospital care. Hospitals are sometimes seen as safer care providers, but the public's confidence in primary care needs to be improved; that goes hand in hand with Labour's manifesto commitment to make GP surgeries more accessible by increasing Saturday opening and later opening hours. We have invested £70 million in primary care sites over the last two years.

Felly, hoffwn ganolbwyntio ar bwysigrwydd gofal sylfaenol fel rhan o'r fframwaith cydweithredu ehangach sydd mor angenrheidiol heddiw, ac yn y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, er mwyn gallu ymdopi gartref, mae'n hanfodol bod cleifion yn derbyn cefnogaeth o ffynonellau gwahanol, er enghraifft, drwy wasanaethau cymdeithasol, gofal sylfaenol, fferyllfeydd ac yn y blaen. Dyma lle mae rhannu gwybodaeth yn effeithiol yn hollbwysig. Felly, yr wyf yn falch o gefnogi'r cynnig sydd o'n blaenau, ond mae'n rhaid sicrhau systemau ar y cyd rhwng y byrddau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol cynghorau lleol er mwyn sicrhau effeithlonrwydd. Yr wyf yn gobeithio bod y Gweinidog yn cytuno â hyn.

Therefore, I would like to focus on the importance of primary care as part of the wider collaboration framework that is so vital today, and in the coming years. However, in order to cope at home, it is essential that patients receive support from different sources—from social services, primary care, pharmacies and so on. This is where effective information sharing is crucial. Therefore, I am pleased to support the motion before us, but we must ensure that effective collaborative systems are in place between health boards and local authority social services departments. I hope that the Minister agrees with that.

**Jenny Rathbone:** It is disappointing that people start to talk about cost pressures in the health service when we talk about this hugely important issue, because information sharing is not driven by cost-cutting. There are undoubtedly cost benefits to be had, and we

**Jenny Rathbone:** Mae'n siomedig bod pobl yn dechrau sôn am bwysau cost yn y gwasanaeth iechyd pan ydym yn sôn am y mater pwysig iawn hwn, achos nid torri costau yw'r ysgogiad i rannu gwybodaeth. Nid oes amheuaeth bod buddion cost i'w

have an absolute duty to cut costs in the area of health and social care, where we are spending £6.6 billion. However, principally, it is about improving patient care and making it more efficient. It is also about changing the culture and getting people to think and act as if they are all working for the same end, as public servants serving the public. So, while there is huge potential to save money, that should not be the driver, and I am not suggesting that it is.

cael, ac mae gennym ddyletswydd llwyr i dorri costau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, lle rydym yn gwario £6.6 biliwn. Fodd bynnag, mae hyn yn ymwneud yn bennaf â gwella gofal i gleifion a'i wneud yn fwy effeithiol. Mae hefyd yn ymwneud â newid y diwylliant a chael pobl i feddwl a gweithredu fel pe baent i gyd yn gweithio i'r un diben, fel gweision cyhoeddus yn gwasanaethu'r cyhoedd. Felly, er bod potensial enfawr i arbed arian, nid dyna ddylai fod y prif ysgogiad, ac nid wyf yn awgrymu mai dyna ydyw.

There are many things to overcome in the process of shifting the culture. We have to understand people's different ways of working and the different ways in which different professionals use language. The same word can have a different meaning for different individuals. There is a lack of insight into why other professionals may need the information to be able to serve the patient, and what they might do with the data that they may receive. Those are the issues that need to be overcome. I do not think that resources are the driver here.

Mae nifer o bethau i'w goresgyn yn y broses o newid y diwylliant. Rhaid inni ddeall y ffyrdd gwahanol sydd gan pobl o weithio a'r ffyrdd gwahanol y mae gweithwyr proffesiynol gwahanol yn defnyddio iaith. Mae'r un gair yn gallu bod ag ystyr gwahanol i bobl wahanol. Mae diffyg dealltwriaeth ynglŷn a pham bod gweithwyr proffesiynol eraill angen y wybodaeth er mwyn gwasanaethu'r claf, a beth maent yn gallu ei wneud gyda'r data y gallant ei dderbyn. Mae angen goresgyn y materion hynny. Nid wyf yn meddwl mai adnoddau yw'r prif ysgogiad yn y fan hyn.

Having had the privilege of attending a Cardiff multi-agency risk assessment conference meeting as an observer, I am clear that the sharing of confidential data across up to 20 agencies saves lives and that information does not leak out inappropriately. MARACs are a clear-cut example of how information sharing is a very powerful tool in keeping people safe. There are many services that rely on multi-agency team working. Work on drug and alcohol addiction and abuse, anti-social behaviour, and youth offending is all aided by the sharing of information. Information sharing in of itself will not solve the problems, but it makes people better able to direct the resources that are available to them.

Wedi cael y fraint o fynychu cyfarfod cynhadledd asesu risg aml-asiantaeth Caerdydd fel arsylwr, rwy'n glir bod rhannu data cyfrinachol ar draws hyd at 20 asiantaeth yn achub bywydau ac nad yw gwybodaeth yn cael ei datgelu yn amhriodol. Mae cynadleddau o'r fath yn enghraifft glir o sut mae rhannu gwybodaeth yn ffordd bwerus iawn o gadw pobl yn ddiogel. Mae sawl gwasanaeth yn dibynnu ar waith tîm aml-asiantaeth. Caiff gwaith ar ddibyniaeth a chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol, ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu ieuenctid ei gynorthwyo drwy rannu gwybodaeth. Ni fydd rhannu gwybodaeth ynddo'i hun yn datrys y problemau, ond mae'n golygu bod pobl yn gallu cyfeirio'r adnoddau sydd ar gael iddynt yn well.

The police's system, Niche RMS, joins up soft intelligence and information held by individual police forces across the country, and is not just about convictions. That means that even minor issues that arise multiple times in different areas can be followed up. That is hugely important with regard to the

Mae system yr heddlu, Niche RMS, yn cysylltu gwybodaeth feddal a gwybodaeth a gedwir gan heddluoedd unigol ar draws y wlad, ac nid yw'n ymwneud yn unig ag euogfarnau. Golyga hynny y gellir mynd ar drywydd hyd yn oed faterion bach sy'n codi nifer o weithiau mewn ardaloedd gwahanol.

smuggling of people, the dealing of drugs, or individuals who may be committing crimes in different parts of the country. Kirsty Williams mentioned the problem of people's health information being lost. In Cardiff, there has been a huge improvement in the way that GPs refer people to hospital. We now have 5,000 GP surgeries using the e-referral system through the Welsh clinical communications gateway. By January 2012, all GPs in the Cardiff and Vale area will be using it. Those are positive arrangements for ensuring that the information gets to the hospital quickly, does not get lost in the post, and is legible.

Mae hynny'n bwysig iawn o ran smyglo pobl, delio mewn cyffuriau, neu unigolion a allai fod yn cyflawni troseddau mewn rhannau gwahanol o'r wlad. Soniodd Kirsty Williams am y broblem o golli gwybodaeth am iechyd pobl. Yng Nghaerdydd, bu gwelliant sylweddol yn y ffordd mae meddygon teulu yn cyfeirio pobl i'r ysbyty. Mae gennym bellach 5,000 o feddygfeydd teulu yn defnyddio'r system e-gyfeirio drwy borth cyfathrebu clinigol Cymru. Erbyn mis Ionawr 2012, bydd yn cael ei ddefnyddio gan bob meddyg teulu yn ardal Caerdydd a'r Fro. Mae'r rheini yn drefniadau cadarnhaol i sicrhau bod yr wybodaeth yn cyrraedd yr ysbyty yn gyflym, ddim yn cael ei golli yn y post, ac yn ddarllenadwy.

Similarly, individual health records are available on patients in the Cardiff and Vale area. That means that emergency and out-of-hours doctors can access a patient's records. If somebody is unconscious, that is hugely important. There are huge issues about how we can build on those successes and improve the interface between health and social services and, in particular, address the thorny issue of bed blocking. Frail and elderly people, and people with chronic health conditions, should not have to tell the same story thousands of times to different individuals simply because people have not recorded the most basic information accurately and it is not being used appropriately. That is a major way in which we can save services. I welcome the steps that the Minister is taking and I am sure that there is a lot of work to be done.

Yn yr un modd, mae cofnodion iechyd unigol ar gael am gleifion yn ardal Caerdydd a'r Fro. Mae hynny'n golygu bod meddygon achosion brys a thu allan i oriau yn gallu gweld cofnodion claf. Os yw rhywun yn anymwybodol, mae hynny'n bwysig iawn. Mae materion anferth o ran sut y gallwn adeiladu ar y llwyddiannau hynny a gwella'r rhyngwyneb rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, ac, yn arbennig, ymdrin â phroblem ddyrys blocio gwelyau. Ni ddylai pobl fregus ac oedrannus, a phobl â chyflyrau iechyd cronig, orfod dweud yr un stori drosodd a throsodd wrth bobl wahanol oherwydd nad yw pobl wedi cofnodi'r wybodaeth fwyaf sylfaenol yn gywir ac nid yw'n cael ei defnyddio'n briodol. Mae honno'n ffordd bwysig y gallwn arbed gwasanaethau. Rwy'n croesawu'r camau mae'r Gweinidog yn eu cymryd ac rwy'n siŵr bod llawer o waith i'w wneud.

**Joyce Watson:** I want to talk about west Wales, and to welcome the work that is being done—it has already been mentioned—between Hywel Dda Local Health Board and Carmarthenshire County Council. Together, they have picked up and run with this particular agenda. The community resource teams have established a single point of contact for their referrals and arrangements for a communication hub are progressing through the Careline PLUS phone services. At the same time, around 1,300 people in the community are using telecare services. The health board has placed a bid with the technology strategy board to become one of

**Joyce Watson:** Rwyf eisiau sôn am orllewin Cymru, a chroesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud—soniwyd amdano'n barod—rhwng Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda a Chyngor Sir Caerfyrddin. Gyda'i gilydd, maent wedi arwain ar yr agenda hwn. Mae'r timau adnodd cymuned wedi sefydlu un pwynt cyswllt ar gyfer eu hatgyfeiriadau ac mae trefniadau ar gyfer canolfan gyfathrebu yn mynd rhagddynt trwy'r gwasanaethau ffôn Careline PLUS. Ar yr un pryd, mae tua 1,300 o bobl yn y gymuned yn defnyddio gwasanaethau teleofal. Mae'r bwrdd iechyd wedi gwneud cais i'r bwrdd strategaeth technoleg i fod yn un o bump ardal ar draws

five areas across the UK to pilot the delivering assisted living lifestyles at scale, or DALLAS, programme. It is about how assisted living technologies and services can help people to live independent and healthy lives. Keith has already talked about the virtual ward pilot, so I will not repeat that.

y DU i gynnal rhaglen DALLAS, neu ddarparu ffyrdd o fyw a gynorthwyir yn ôl graddfa. Mae'n ymwneud â sut y gall technolegau a gwasanaethau byw â chymorth helpu pobl i fyw bywydau annibynnol ac iach. Mae Keith wedi sôn yn barod am y peilot ward rhithwir, felly ni soniaf am hynny eto.

5.15 p.m.

However, it is fair to say that, while Carmarthenshire has already launched a model of community virtual wards, Ceredigion is due to go live within the coming weeks and Pembrokeshire will be following soon after. The question that I want to ask is: while we see a good example with Carmarthenshire picking up this agenda, what is being done to ensure that local authorities in Wales have a common system for holding and sharing information in social services? Only then will sharing between local authorities be possible and, certainly, it is the only way in which sharing between health and social services departments can be possible in any shape or form. The Welsh Government has taken the lead in ensuring that health bodies share a common platform. It is now time that we do exactly the same with social services departments.

Fodd bynnag, mae'n deg dweud, er bod Sir Gaerfyrddin wedi lansio model wardiau rhithwir cymunedol yn barod, mae Ceredigion ar fin lansio yn yr wythnosau nesaf a bydd Sir Benfro yn dilyn yn fuan wedyn. Y cwestiwn rwyf am ei ofyn yw: er ein bod yn gweld enghraifft dda gyda Sir Gaerfyrddin yn arwain ar yr agenda hon, beth sy'n cael ei wneud i sicrhau bod system gyffredin gan awdurdodau lleol yng Nghymru i gadw a rhannu gwybodaeth o ran gwasanaethau cymdeithasol? Dim ond wedyn y bydd rhannu rhwng awdurdodau lleol yn bosibl, ac, yn bendant, dyna'r unig ffordd bosibl i rannu gwybodaeth rhwng adrannau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd yr awenau o ran sicrhau bod cyrff iechyd yn rhannu llwyfan gyffredin. Mae bellach yn amser i ni wneud yn union yr un peth gydag adrannau gwasanaethau cymdeithasol.

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** I am grateful to Members for their contributions and for their support for the services that I set out in my opening remarks, and I will refer to as many as possible. Information technology moves quickly, and public services often find it difficult to keep pace. However, the Government published at the end of last year 'Delivering a Digital Wales', which sets out the steps that we need to take to provide online services to the public. This is now the future technology strategy for all public services, including the NHS, and I am committed to ensuring that health and social care take the appropriate action, not just to implement, but to take advantage of the digital information revolution and deliver the benefits that modern digital technology can bring to patients, by enabling information sharing.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Rwyf yn ddiolchgar i Aelodau am eu cyfraniadau ac am eu cefnogaeth i'r gwasanaethau y gwnes i eu hamlinellu yn fy sylwadau agoriadol, ac fe gyfeiriaf at gymaint â phosibl. Mae technoleg gwybodaeth yn symud yn gyflym, ac mae gwasanaethau cyhoeddus yn aml yn ei chael yn anodd cadw i fyny. Fodd bynnag, cyhoeddodd y Llywodraeth 'Cyflawni Cymru Ddigidol', sy'n amlinellu'r camau rydym angen eu cymryd i ddarparu gwasanaethau ar-lein i'r cyhoedd. Dyma bellach yw'r strategaeth technoleg ar gyfer y dyfodol i bob gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys y GIG, ac rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod iechyd a gofal cymdeithasol yn cymryd camau priodol, nid yn unig i weithredu, ond hefyd i fanteisio ar y chwyldro gwybodaeth ddigidol a chyflawni'r buddion y gall technoleg ddigidol fodern ei ddod i gleifion, drwy alluogi rhannu gwybodaeth.

I will start by thanking Janet Finch-Saunders for giving me the opportunity yet again to say that, as a Government, we have not cut the health budget. It is the only main expenditure group that we have not cut across the whole of Government, so thank you for that. You are taking up Darren's mantle very well.

Dechreuaf drwy ddiolch i Janet Finch-Saunders am roi'r cyfle i mi drachefn i ddweud nad ydym, fel Llywodraeth, wedi torri'r gyllideb iechyd. Dyna yw'r unig brif grŵp gwariant nad ydym wedi ei dorri ar draws y Llywodraeth gyfan, felly diolch i chi am hynny. Rydych yn camu mewn i esgidiau Darren yn dda iawn.

**Nick Ramsay:** Will you take an intervention?

**Nick Ramsay:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Lesley Griffiths:** No. Many Members referred to ensuring that we have enough funding to procure the IT systems. Despite the difficult economic and financial situation, the current level of national investment in the NHS ICT programme is being maintained, because we recognise the importance of sharing information to deliver the changes set out in 'Together for Health'. In order to get the best value for money for Wales, local health boards have been instructed to use only national procurement for ICT systems and to seek economies of scale by pooling their ICT financial resources and sharing the expert skills of their ICT staff to work in collaboration to implement new national ICT systems. Kirsty Williams mentioned the pitfalls that many NHS ICT systems have had. She was absolutely right. NHS England has shown us that throwing money at them is not the answer, and I am pleased that it has adopted our model.

**Lesley Griffiths:** Na. Cyfeiriodd nifer o Aelodau at sicrhau bod gennym ddigon o arian i gaffael y systemau TG. Er gwaethaf y sefyllfa economaidd ac ariannol anodd, mae'r lefel bresennol o fuddsoddiad cenedlaethol yn rhaglen TGCh y GIG yn cael ei gynnal, achos rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw rhannu gwybodaeth i gyflawni'r newidiadau yn 'Law yn Llaw at Iechyd'. Er mwyn cael y gwerth gorau am arian yng Nghymru, mae byrddau iechyd lleol wedi cael gorchymyn i ddefnyddio dim ond caffael cenedlaethol ar gyfer systemau TGCh ac i chwilio am arbedion maint drwy gyfuno eu hadnoddau ariannol TGCh a rhannu sgiliau arbenigol eu staff TGCh i weithio ar y cyd er mwyn cyflwyno systemau TGCh cenedlaethol newydd. Soniodd Kirsty Williams am y trafferthion a gafodd nifer o systemau TGCh y GIG. Roedd hi'n hollol iawn. Mae'r GIG yn Lloegr wedi dangos nad taflu arian atynt yw'r ateb, ac rwy'n falch ei bod wedi mabwysiadu ein model ni.

Mike Hedges referred to the fact that sharing information has to be clinically driven and that it has to show that benefits can be delivered for patients. Several Members spoke about the trust that the people of Wales need to have that their information is secure, and every measure is taken to protect personal, identifiable information. Data are held on secure servers, housed in high-security data centres across Wales; all desktops, mobile devices and networks use encryption software to keep personal information safe; and all staff receive training so that they are aware of data protection and confidentiality laws, as I mentioned in my opening remarks.

Cyfeiriodd Mike Hedges at y ffaith bod angen i rannu gwybodaeth gael ei ysgogi gan angen clinigol, a bod yn rhaid iddo ddangos y buddion y gellir eu cyflawni i gleifion. Soniodd nifer o Aelodau am yr ymddiriedaeth sydd ei angen ar bobl Cymru bod eu gwybodaeth yn ddiogel, ac y caiff pob mesur ei gymryd i ddiogelu gwybodaeth bersonol y gellir ei adnabod. Caiff data ei gadw ar weinyddwyr diogel, wedi eu lleoli mewn canolfannau data tra diogel ar draws Cymru; mae pob cyfrifiadur, ffôn symudol a rhwydwaith yn defnyddio meddalwedd amgryptio i gadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel; mae pob aelod o staff yn cael hyfforddiant fel eu bod yn gwybod am ddiogelu data a chyfreithiau cyfrinachedd, fel y soniais yn fy sylwadau agoriadol.

Elin Jones and Vaughan Gething mentioned the need for continuous improvements. I would like to reassure everyone again that patients have to give their explicit consent each and every time that their records are reviewed. I mentioned that audits are now available. Several Members referred to the need to share more information between health and social care. That is absolutely vital and is the way forward for our ICT systems.

Soniodd Elin Jones a Vaughan Gething bod angen gwneud gwelliannau parhaus. Hoffwn sicrhau pawb drachefn bod yn rhaid i gleifion roi eu caniatâd penodol bob tro y caiff eu cofnodion eu hadolygu. Soniais bod archwiliadau ar gael bellach. Cyfeiriodd nifer o Aelodau at y ffaith bod angen i iechyd a gofal cymdeithasol rannu mwy o wybodaeth. Mae hynny'n gwbl allweddol a dyna yw'r ffordd ymlaen i'n systemau TGCh.

Kirsty Williams mentioned audit and monitoring. The Wales Audit Office is near completion of its audit of the informing healthcare strategy, and it will report in early 2012. She also mentioned the pilot scheme in Powys, and I understand that that has been evaluated. Lessons have been learned, and have now been incorporated into the national approach to delivering community information services, which is in line with the way that risks are managed for large-scale ICT projects. That really is the way that good practice is taken forward.

Soniodd Kirsty Williams am archwilio a monitro. Mae Swyddfa Archwilio Cymru bron â chwblhau ei harchwiliad o'r strategaeth hysbysu gofal cymdeithasol, a bydd yn cyflwyno adroddiad yn gynnar yn 2012. Fe soniodd hefyd am y cynllun peilot ym Mhowys, ac rwy'n deall bod hwnnw wedi cael ei werthuso. Cafodd gwersi eu dysgu, ac maent bellach wedi eu hymgorffori yn y dull cenedlaethol i ddarparu gwasanaethau gwybodaeth cymunedol, sy'n unol â'r ffordd y caiff risgiau eu rheoli ar gyfer projectau TGCh ar raddfa fawr. Dyna'n wir yw'r ffordd y caiff arfer da ei ddatblygu.

Keith Davies mentioned increasing patient confidence in primary care, and sharing information between GPs and out-of-hours services is crucial if patients are to receive better outcomes. Jenny Rathbone referred to the way that Cardiff GPs are taking that forward and making referrals to the hospital in a secure way. I was talking to an ophthalmologist who said that opticians are not able to refer directly through the current technology because it is deemed not to be secure. We have shown that we have the technology and it is much more secure than posting a letter in a post box.

Soniodd Keith Davies am gynyddu hyder cleifion mewn gofal cynradd, ac mae rhannu gwybodaeth rhwng meddygon teulu a gwasanaethau tu allan i oriau yn hanfodol os yw cleifion am gael canlyniadau gwell. Cyfeiriodd Jenny Rathbone at y ffordd mae meddygon teulu yng Nghaerdydd yn datblygu hynny ac yn gwneud atgyfeiriadau i'r ysbyty mewn ffordd ddiogel. Roeddwn yn siarad ag opthalmolegydd a ddywedodd nad yw optegwyr yn gallu atgyfeirio yn uniongyrchol drwy'r dechnoleg bresennol oherwydd fe ystyrir nad yw yn ddiogel. Rydym wedi dangos bod gennym y dechnoleg a'i bod yn llawer fwy diogel na phostio llythyr mewn blwch post.

Joyce referred to the excellent work being done between Hywel Dda health board and Carmarthenshire council; they have really embraced these services. She also referred to telecare services, and obviously telecare, telehealth and telemedicine use our services in that way. In 'Together for Health', I set out a vision of honesty around service performance, and achieving this level of transparency will absolutely depend on using digital technology to provide information that

Cyfeiriodd Joyce at y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud rhwng bwrdd iechyd Hywel Dda a chyngor Sir Gaerfyrddin; maent wir wedi croesawu'r gwasanaethau hyn. Cyfeiriodd hefyd at wasanaethau teleofal, ac yn amlwg mae teleofal, teleiechyd a telefeddygaeth yn defnyddio ein gwasanaethau yn y modd hwnnw. Yn 'Law yn Llaw at Iechyd', amlinellais weledigaeth o fod yn onest am berfformiad gwasanaeth, a bydd cyflawni'r lefel hon o dryloywder yn

allows the public to hold us to account for the standards of care provided. I want information about service quality, outcomes, performance, cost and patient satisfaction to be widely available to everyone. I want every local organisation to take responsibility for publishing its own information, and for making it available online as appropriate, whether that is annually, monthly, weekly, or even daily, so that I and everyone else can see at a glance where there is good practice, so that it can be spread and rolled out, and where there is poor and unacceptable performance, so that it can be rooted out.

dibynnu'n llwyr ar ddefnyddio technoleg ddigidol sy'n galluogi'r cyhoedd i'n dwyn i gyfrif am safon y gofal a ddarperir. Rwyf eisiau i wybodaeth am ansawdd gwasanaeth, canlyniadau, perfformiad, cost a boddhad cleifion fod ar gael yn helaeth i bawb. Rwyf eisiau i bob sefydliad lleol gymryd cyfrifoldeb am gyhoeddi ei wybodaeth ei hun, a'i wneud ar gael ar-lein fel y bo'n briodol, pa un a yw hynny'n flynyddol, misol, wythnosol neu hyd yn oed yn ddyddiol, fel fy mod i a phawb arall yn gallu gweld mewn amrantiad lle mae arfer da, fel bod modd ei ledaenu a'i gyflwyno, a lle mae perfformiad gwael ac annerbyniol, fel bod modd cael gwared arno.

Information transparency is fundamental to public accountability, so that people can see precisely how well their services are doing. It is part of the compact with the public that the Welsh Government will work with the NHS and local authorities to make a step change in the way that information is shared, managed and made available. By using technology to become a digital NHS and a digital Wales, able to share information securely and confidentially, we will be able to provide joined-up care in the manner that we have always aimed for. People like Mrs Jones, to whom I referred in my opening remarks, can be helped to live independently and enjoy a good quality of life.

Mae tryloywder gwybodaeth yn hanfodol i atebolrwydd cyhoeddus, fel bod pobl yn gallu gweld yn union pa mor dda mae eu gwasanaethau yn ei wneud. Mae'n rhan o'r compact gyda'r cyhoedd y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r GIG ac awdurdodau lleol i newid fesul cam o ran y modd y caiff gwybodaeth ei rannu, ei reoli a'i ryddhau. Drwy ddefnyddio technoleg i ddod yn GIG ddigidol a Chymru ddigidol, rydym gallu rhannu gwybodaeth yn ddiogel a chyfrinachol, byddwn yn gallu darparu gofal cydlynus yn y ffordd yr ydym bob amser wedi ei fwriadu. Gellir helpu pobl fel Mrs Jones, y cyfeiriais ati yn fy sylwadau agoriadol, i fyw yn annibynnol a mwynhau bywyd o ansawdd dda.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there are objections, and therefore I defer all voting under this item to voting time.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw cytuno ar welliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad, felly gohiriaf y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwasanaethau Cyhoeddus (Menter Gymdeithasol a Gwerth Cymdeithasol)
## Legislative Consent Motion on the Public Services (Social Enterprise and Social Value) Bill

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt.

*Cynnig NDM4857 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau sy'n ymwneud â lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol drwy gontractau cyhoeddus yn y Bil Gwasanaethau Cyhoeddus (Menter Gymdeithasol a Gwerth Cymdeithasol) fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 30 Mehefin 2010, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*

*Motion NDM4857 Jane Hutt*

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6 agrees that provisions relating to the improvement of economic, social and environmental well-being through public contracts in the Public Services (Social Enterprise and Social Value) Bill, as introduced in the House of Commons on 30 June 2010, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.*

*Gwelliant 1 Jane Hutt*

*Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn nodi bod Senedd y DU wedi newid enw'r Bil i'r Bil Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) drwy ei ddiwygio ar 18 Hydref 2011.*

*Amendment 1 Jane Hutt*

*Insert as new point at end of motion:*

*Notes that the name of this Bill has been changed by the UK Parliament, by amendment on 18 October 2011, to the Public Services (Social Value) Bill.*

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I move the motion and amendment 1.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Cynigiaf y cynnig a gwelliant 1.

**The Deputy Presiding Officer:** I do not have any speakers. The proposal is to agree the amendment. Does any Member object? I see that no-one does and, therefore, the amendment is agreed under Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr. Y cynnig yw cytuno ar y gwelliant. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes, felly caiff y gwelliant ei gytuno o dan Reol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

Cynnig NDM4857 fel y'i diwygiwyd:

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau sy'n ymwneud â lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol drwy gontractau cyhoeddus yn y Bil Gwasanaethau Cyhoeddus (Menter Gymdeithasol a Gwerth Cymdeithasol) fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 30 Mehefin 2010, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*

Motion NDM4857 as amended

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6 agrees that provisions relating to the improvement of economic, social and environmental well-being through public contracts in the Public Services (Social Enterprise and Social Value) Bill, as introduced in the House of Commons on 30 June 2010, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.*

*Yn nodi bod Senedd y DU wedi newid enw'r Bil i'r Bil Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) drwy ei ddiwygio ar 18 Hydref 2011.*

*Notes that the name of this Bill has been changed by the UK Parliament, by amendment on 18 October 2011, to the Public Services (Social Value) Bill.*

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion as amended. Does any Member object? I see that no-one does and, therefore, the motion as amended is agreed under Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw cytuno ar y cynnig fel y'i diwygiwyd. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes, ac felly cytunir ar y cynnig fel y'i diwygiwyd o dan reol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd cynnig NDM4857 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM4857as amended agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** Before we move to voting time, are there three Members who wish for the bell to be rung? I see that there are not and, therefore, we will proceed with the votes.

**Y Dirprwy Lywydd:** Cyn i ni symud i'r cyfnod pleidleisio, a oes tri Aelod yn dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes, felly bwriwn ymlaen gyda'r pleidleisiau.

## Cyfnod Pleidleisio
## Voting Time

*Gwelliant 1 i NDM4856: O blaid 12, Ymatal 5, Yn erbyn 38.*
*Amendment 1 to NDM4856: For 12, Abstain 5, Against 38.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Davies, Andrew R.T.
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl

Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Wood, Leanne

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Black, Peter
Parrott, Eluned
Powell, William
Roberts, Aled
Williams, Kirsty

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM4856: O blaid 50, Ymatal 5, Yn erbyn 0.*
*Amendment 2 to NDM4856: For 50, Abstain 5, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny

Rees, David
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Wood, Leanne

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Black, Peter
Parrott, Eluned
Powell, William
Roberts, Aled
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Cynnig NDM4856 fel y'i diwygiwyd:*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*Yn cydnabod bod rhannu gwybodaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bersonol, gyda chymorth technoleg, yn hanfodol er mwyn cwrdd ag amcanion 'Law yn Llaw at Iechyd' a sicrhau'r newid i'r system sy'n angenrheidiol er mwyn darparu iechyd a gofal cymdeithasol integredig a chynaliadwy sy'n gwella canlyniadau, yn cefnogi pobl mewn angen ac yn darparu gofal yn agos at y cartref.*

*Yn credu, er mwyn cynyddu manteision rhannu gwybodaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bersonol, y dylai Llywodraeth Cymru hwyluso'r broses o ymgorffori hanes gwasanaeth cyn-filwyr yn eu cofnodion meddygol.*

*Motion NDM4856 as amended:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Recognises that the sharing of personal Health and Social Services information, supported by technology, is essential to meet the aims of Together for Health and to deliver the system change needed for integrated, sustainable health and social care that improves outcomes, supports people in need and makes care close to home a reality.*

*Believes that to maximise the benefits of sharing personal Health and Social Services information, the Welsh Government should facilitate the incorporation of veterans' service histories into their medical records.*

*Cynnig NDM4856 fel y'i diwygiwyd: O blaid 55, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Motion NDM4856 as amended: For 55, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.

Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd cynnig NDM4856 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM4856 as amended agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** That concludes today's business.

**Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.25 p.m.*
*The meeting ended at 5.25 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)

Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned ((Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats))
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)